

Dogfen ir Cyhoedd



**CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**

GWYS A RHAGLEN

SUMMONS AND AGENDA

ar gyfer

for a

**CYFARFOD
ARBENNIG O
GYNGOR SIR
YNYS MÔN**

**EXTRAORDINARY
MEETING OF THE
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**

a gynhelir yn

to be held at the

**SIAMBR Y CYNGOR
SWYDDFA'R SIR
LLANGFNI**

**COUNCIL CHAMBER
COUNCIL OFFICES
LLANGFNI**

DYDD IAU, 24 IONAWR 2013

THURSDAY, 24 JANUARY, 2013

am 10.00 o'r gloch

at 10.00am

R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddi-ddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y Rhaglen.

2 **DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR, COMISIYNWYR NEU BENNAETH Y GWASANAETHAU TÂL**

3 **CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL AR GYFER YNNI GWYNT AR Y TIR (CCA)** (Tudalennau 1 - 244)

(a) Adrodd bod y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 14 Ionawr, 2013, wedi penderfynu “*cyfeirio'r mater i'r Cyngor Sir i'w drafod*”.

(b) Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd)

4 **CYNLLUN DATBLYGU LLEOL - Y STRATEGAETH A FFEFRIR** (Tudalennau 245 - 264)

(a) Adrodd bod y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 14 Ionawr, 2013 wedi penderfynu “*argymhell i'r Cyngor Sir ei fod yn cymeradwyo'r ddogfen Strategaeth a ffefrir ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus*”.

(b) Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd)

[Anfonwyd copi eisoes at bob Aelod gyda'r papurau ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 14 Ionawr, 2013].

5 **MABWYSIADU CYNLLUN CYMORTH TUAG AT Y DRETH GYNGOR** (Tudalennau 265 - 282)

(a) Adrodd bod y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 14 Ionawr, 2013, wedi penderfynu argymhell i'r Cyngor Sir fel a ganlyn:-

- “*Ei fod yn nodi bod Cynulliad Cymru ar 19 Rhagfyr, 2012 wedi creu Rheoliadau Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion a Ragnodir (Cymru) (Y Rheoliadau Gofynion a Ragnodir);*
- *Ei fod yn nodi canlyniad yr ymarfer ymgynghori a ymgwymerwyd gan y Cyngor ar gyflwyno'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor;*
- *Ei fod yn mabwysiadu'r Cynllun fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad.*”

Rhoi ystyriaeth i'r uchod.

(b) Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|--|---|
| Adroddiad i | Cyngor Llawn |
| Dyddiad | 24 Ionawr 2013 |
| Pwnc | Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) Ynni Gwynt ar y Tir |
| Deilydd(ion) Portffolio | Cynghorydd R. Ll. Hughes |
| Swyddog(ion) Arweiniol | Mr Jim Woodcock Pennaeth Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| Swyddog Cyswllt | Gwyndaf Jones (Prif Swyddog Cynllunio) 01248 752 403 a Bob Thomas (Arweinydd Tîm) Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd 01286 685 000 |
| <p>Natur a rheswm am adrodd</p> <p>Mae'r Cyngor wedi paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol ynglŷn â datblygiadau sy'n cynnwys datblygiadau ynni gwynt ar y tir a gafodd ei ddiwygio yn dilyn y cyfnod ymgynghori cyhoeddus cyntaf, ac a fu wedyn yn destun i gyfnod ymgynghori cyhoeddus arall. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r ymateb a argymhellir i'r sylwadau a dderbyniwyd, ac mae'n ceisio cymeradwyaeth y Cyngor i'r ymatebion a argymhellir a'r newidiadau i'r CCA.</p> | |

A - Cyflwyniad / Cefndir / Materion sydd angen sylw

A1. Cyflwyniad

A1.1 Mae Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn ffordd o nodi canllawiau mwy manwl ynglŷn â'r ffordd y bydd y polisiâu cynllun yn cael eu defnyddio mewn amgylchiadau neu feysydd penodol. Felly, ni ellir ei ddefnyddio i greu **polisi newydd**. Proses y cynllun datblygu yw'r dull o gynhyrchu polisi newydd ar gyfer pwnc penodol. Felly, bydd paratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd yn rhoi cyfle i gasglu ac adolygu'r dystiolaeth a pharatoi polisiâu newydd.

A1.2 Mabwysiadwyd y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) sydd eisoes yn bodoli ar gyfer ymdrin â cheisiadau Tyrbinau Gwynt yn 1994 ac felly mae'n cyn-ddyddio mabwysiadu Cynllun Lleol Ynys Môn (1996). Fe'i paratowyd hefyd mewn perthynas ag ymdrin â cheisiadau am ffermydd gwynt. Dros y 18 i 24 mis diwethaf mae'r Cyngor wedi bod yn delio â nifer o geisiadau am dyrbinau sengl neu hyd at dri thyrbîn yn hytrach na cheisiadau am ffermydd gwynt penodol.

A1.3 Er mwyn sicrhau bod y materion perthnasol y mae angen ymdrin â nhw yn achos pob cais ac er mwyn darparu gwybodaeth ynglŷn â'r math o wybodaeth sydd ei hangen i gefnogi ac asesu cheisiadau o'r fath, teimlwyd bod angen cynhyrchu CCA diwygiedig a fyddai, o'i fabwysiadu, yn cymryd lle CCA 1994.

A1.4 Os caiff ei fabwysiadu bydd y ddogfen hon yn ategu'r polisïau yng Nghynllun Fframwaith 1993 a Chynllun Lleol 1996. Gan fod y CDU a stopiwyd (2005) yn ystyriaeth gynllunio berthnasol o bwys mae'r ddogfen hon hefyd yn nodi sut y dylid ystyried ei bolisïau. Bydd y CCA yn ystyriaeth berthnasol wrth ymdrin â cheisiadau presennol ac i'r dyfodol hyd nes y bydd y cynlluniau uchod yn cael eu disodli gan y CDLI ar y Cyd a fabwysiedir ac/ neu unrhyw CCA perthnasol y gellir ei lunio i gefnogi ei bolisïau.

A2. Cefndir

A2.1 Fe gafodd CCA drafft ei baratoi a drafodwyd yn y Pwyllgor Sgrwtini Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol (cyfeirir fel Pwyllgor Sgrwtini yn weddill o'r adroddiad) ar 24 Hydref 2011 a phenderfyniad gweithredol gan y Comisiynydd Alex Aldridge i gynnal ymarfer Ymgynghori Cyhoeddus am gyfnod o 8 wythnos rhwng 16 Rhagfyr 2011 a 10 Chwefror 2012.

A2.2 Cafwyd dros 900 o ymatebion i'r ymarfer ymgynghori a chyflwynwyd adroddiad ar y Materion Allweddol a godwyd ynddynt i'r Pwyllgor ar 26 Ebrill 2012. Yn y cyfarfod hwn, gwahoddwyd cydranddeiliaid allweddol arbennig i gyflwyno eu sylwadau i'r Pwyllgor hefyd.

A2.3 Cyflwynwyd adroddiad llawn i'r Pwyllgor Sgrwtini ar 26 Gorffennaf 2012 a oedd yn awgrymu newidiadau sylweddol i'r CCA drafft. Argymhellwyd y dylid ymgynghori eto ar y ddogfen ddiwygiedig oherwydd maint y newidiadau.

A2.4 Cynhaliwyd yr Ail Ymarfer Ymgynghori Cyhoeddus am gyfnod o 8 wythnos rhwng 16 Awst 2012 ac 11 Hydref 2012. Yn dilyn y cyfnod hwn, cafwyd 186 o ymatebion yn ogystal â nifer o ddeisebau a oedd yn golygu bod o gwmpas 8,000 o bobl / grwpiau / mudiadau wedi ymateb i'r ail ddogfen ddrafft.

A2.5 Rhoddwyd cyflwyniad llafar ar yr ymgynghoriad i'r Pwyllgor Sgrwtini ar 25 Hydref 2012. Penderfynwyd gofyn am gefnogaeth y Pwyllgor Gwaith i gyflwyno adroddiad manwl ar yr ymgynghoriad ar yr ail CCA drafft i'r Cyngor Llawn ar 24 Ionawr 2013 yn hytrach nag i'r Pwyllgor Sgrwtini.

A3. Materion

A3.1 Gellir rhannu'r sylwadau a dderbyniwyd yn yr ail ymgynghoriad cyhoeddus yn ôl y ddau brif gategori canlynol:-

- Categori 1 - gwrthwynebwyr sy'n teimlo y dylai'r ddogfen fod yn fwy rhagnodol o safbwynt manylion e.e. darparu canllawiau cliriach dros bellteroedd gwahanu a chyfyngiadau llymach yn yr AHNE;

- Categori 2 – gwrthwynebwyr sy'n teimlo bod y ddogfen ddiwygiedig bresennol eisoes yn rhy ragnodol ac yn ymestyn y tu hwnt i gylch gwaith y CCA e.e. cyfyngiadau uchder yn yr AHNE.

A3.2 Mae'r mwyafrif helaeth o'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yng Nghategori 1, ac mae'n cynnwys deiseb o dros 7,500 o enwau a gasglwyd gan Ynys Môn yn erbyn Tyrbinau Gwynt. Fodd bynnag, fel gydag unrhyw ymarfer ymgynghori, y materion a godwyd a'r cyfiawnhad/ tystiolaeth a ddarparwyd sydd angen eu harchwilio wrth ystyried gwneud unrhyw newidiadau i'r ddogfen.

A3.3 Gan nad yw datblygiad tyrbinau gwynt yn fath o ddatblygiad sy'n benthyca'i hun i ddull 'un ateb sy'n addas i bawb', mae'r CCA yn argymhell dull sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ddelio â **phob cais yn ôl ei rinweddau ei hun**. Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau ynghylch y gwahanol faterion a allai fod yn berthnasol a'r math o wybodaeth sydd ei hangen gyda gwahanol fathau o geisiadau. Bydd hyn yn dibynnu ar faint y cais, ei leoliad ac unrhyw ddynodiadau a allai gael eu heffeithio gan y cais.

A3.4 O'r 186 o sylwadau a dderbyniwyd, codwyd oddeutu 1224 o faterion unigol. Mae'r rhain wedi cael eu casglu i bynciau penodol a pharatowyd crynodeb o'r sylwadau a gafwyd. Adolygwyd unrhyw gyfiawnhad / tystiolaeth gefnogol cyn paratoi Ymateb ac Argymhellion y Swyddogion.

A3.5 Mae'r Tablau yn Atodiad 1 yn rhoi ymateb manwl i bob un o'r materion a godwyd yn ystod yr ymarfer ymgynghori â'r cyhoedd a **rhaid** ei darllen ar y cyd gyda'r adroddiad hwn er mwyn deall, ystyried ac ymateb i argymhellion yr adroddiad.

A3.6 Mae'r adroddiad yn cytuno y dylid gwneud rhai diwygiadau penodol i'r CCA, mewn ymateb i'r sylwadau a dderbyniwyd, ac fe ellir gweld rhain yn Atodiad 2 (testun ychwanegol wedi'i ddangos mewn print trwm wedi'i danlinellu, gyda'r testun a dynnwyd ymaith yn cael ei ddangos â llinell drwyddo (testun newydd = **Trwm**, testun â llinell drwyddo = wedi'i ddileu). Yn unol â gofynion AC/AAS, mae'r newidiadau a wnaed i'r CCA o ganlyniad i'r ymgynghoriad cyhoeddus (Awst – Hydref 2012) wedi cael eu hystyried i weld a fyddent yn arwain at unrhyw newidiadau i gasgliadau'r AC/AAS a ARhC y CCA. Ystyriwyd nad oedd y newidiadau a wnaed i'r canllaw'n rhai sylweddol; yn hytrach, mân newidiadau neu nodiadau eglurhaol oeddynt na fyddai'n altro'n sylweddol casgliadau'r SA/SEA/HRA. Ceir linc i'r AC/AAS a Adroddiad Sgrinio ArhC yn y rhan Papurau Cefndirol. Mae mân newidiadau i'r AC/AAS a ARhC wedi cael ei argymhell a mae rhain yn cael ei dangos yn Atodiad 4.

A3.7 Amlinellir yr ymateb manwl i'r 3 mater allweddol a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori yn adran B isod. Mae'r swyddogion o'r farn bod rhai o'r materion a godwyd yn ymwneud â Pholisi Cenedlaethol, e.e. pellteroedd gwahanu. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn mynnu bod pwysau priodol yn cael ei roi i Bolisi Cynllunio Cenedlaethol a rhaid cadarnhau unrhyw wyriad oddi wrtho drwy dystiolaeth gadarn. **O ystyried maint y newid a geisir gan rai gwrthwynebwyr ar lefel leol, ystyrir y byddai angen diwygio Polisi Cynllunio Cenedlaethol er mwyn i'r newid gael ei ymgorffori yn lleol.**

B - Ystyriaethau

B1 Er bod y gwrthwynebiadau yn ymdrin â nifer o bynciau gwahanol, ystyrir bod tri mater y cyfeirir atynt / sy'n gyffredin i nifer o wrthwynebwyr:

- Pellteroedd Gwahanu;
- Effaith Sŵn; ac
- Effaith y tyrbinau ar yr AHNE

B2 Pellteroedd Gwahanu

B2.1 Cafwyd nifer helaeth o wrthwynebiadau a oedd eisiau lleiafswm pellteroedd gwahanu rhwng tyrbinau 'masnachol' ac eiddo preswyl. (Diffinnir tyrbinau 'masnachol' gan wrthwynebwyr fel y rhai nad ydynt yn bennaf ar gyfer defnydd cartref domestig unigol). Er bod amrywiaeth o bellteroedd yn cael eu hawgrymu, roedd y rhan fwyaf o wrthwynebwyr yn gofyn am bellter gwahanu o 1.5km.

B2.2 Roedd gwrthwynebiadau pellach yn gofyn am glustogfa pellter gwahanu o'r AHNE i roi mwy o ddiogelwch i'r dynodiad.

B2.3 Ar y llaw arall mae gwrthwynebiadau sy'n teimlo bod y pellteroedd gwahanu yn seiliedig ar ddewisiadau mympwyol. Hefyd cafwyd sylwadau i'r perwyl os yw'r pellteroedd gwahanu yn sbardun i ddarparu Aseiad Amwynder Preswyl, yna dylid eu galw felly'n glir, ac nid cyfeirio atynt fel 'lleiafswm pellteroedd gwahanu'.

B2.4 Gellir crynhoi'r dystiolaeth a ddarparwyd gan wrthwynebwyr ar gyfer cyflwyno pellteroedd gwahanu fel a ganlyn:

- Mae tystiolaeth helaeth o rannau eraill o'r DU a thramor yn nodi y dylid cyflwyno pellter gwahanu o 2km o leiaf. Cefnogir hyn gan Sefydliad Iechyd y Byd.
- Rhoi cyfeiriad at awdurdodau gwahanol sydd wedi cyflwyno pellteroedd gwahanu e.e. Cernyw, yr Alban a Chaerfyrddin.
- Nid yw'n cyd-fynd â'r pellter gwahanu 500m a argymhellir yn TAN8.
- Cyfeirir at Gyngor Sir Swydd Stafford sy'n datgan na cheir unrhyw dyrbinau o fewn clustogfa 2km i'w AHNE.

B2.5 Ymateb y Swyddog - Gellir crynhoi adolygiad gan Swyddogion o'r dystiolaeth a gyflwynwyd fel a ganlyn:

- Mae'r polisi cenedlaethol a rhanbarthol yn amrywio o wlad i wlad.
- Mae'r canllawiau o Gernyw yn cyfeirio'n benodol at "olygfeydd allweddol o safbwyntiau pwysig" ac yn datgan bod tyrbinau yn debygol o fod yn amlwg yn y dirwedd ar bellter o lai na 2km".
- Mae Canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd ar Sŵn Cymunedol yn ymwneud â lefelau sŵn nid pellteroedd.
- Mae'r canllawiau yn adlewyrchu consensws cyffredinol ymysg gwneuthurwyr penderfyniadau polisi cynllunio bod angen i benderfyniadau ar geisiadau sy'n ymwneud â phellter o eiddo gymryd i ystyriaeth gymysgedd o ganllawiau cyffredinol ac amgylchiadau lleoliad penodol.
- Noda canllawiau TAN 8 (Atodiad D ar Ardaloedd Chwilio Strategol 3.4 fod "500m

yn cael ei ystyried yn bellter gwahanu nodweddiadol rhwng tyrbin gwynt ac eiddo preswyl er mwyn osgoi effeithiau sŵn annerbyniol. Fodd bynnag ... argymhellir rhywfaint o hyblygrwydd." Nid yw'n cyfeirio at amwynder gweledol. Yn fy marn i mae'r awdurdod yn mabwysiadu hyblygrwydd priodol yn yr achos hwn.

- Mae'r ddogfen y cyfeirir ati yn Ddatganiad Sefyllfa Cabinet a gyhoeddwyd ar 17 Hydref, 2012 ac mae'n cyfeirio ei bolisi ar ddatblygiadau ynni gwynt ar raddfa fawr ar dir y Cyngor neu lle mai'r Cyngor yw'r awdurdod cynllunio neu ymgynghorai. Cael ei weld fel datganiad polisi nid canllawiau.
- Mewn ymateb i byffer 1km i'r AHNE a gafodd ei gynnwys yn y fersiwn gyntaf o'r CCA fe wnaeth Cyngor Cefn Gwlad Cymru wrthwynebu dros gynnwys fath byffer gan y gall effaith tyrbeini gwynt ymestyn yn bellach na 1km. Fe gafodd y cyfeiriad tuag at byffer o'r fath ei dynnu allan o'r Ail Ddrafft Ymgynghorol.
- Teimlir fod cael ffigyrau sydd yn gosod allan y angen am Asesiad Mwynderau Preswyl i gefnogi cais yn ganllaw defnyddiol yn y ddogfen.

B2.6 Argymhelliad y Swyddog – Yn seiliedig ar adolygiad o'r dystiolaeth a ddarparwyd ac yng ngoleuni cyngor Llywodraeth Cymru yn ddiweddar i'r Pwyllgor Deisebau (gweler yr adran Effaith Sŵn isod), ynghyd â sylwadau a wnaed gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, nid argymhellir bod y canllawiau'n cael eu diwygio. Yn hytrach, dylid ymdrin â cheisiadau ar sail achos wrth achos a allai olygu bod ceisiadau ar bellteroedd mwy yn cael eu gwrthod os yw'r dystiolaeth a'i dadansoddiad yn arwain y sawl sy'n gwneud penderfyniadau i benderfynu y byddai'r tyrbin(au) yn annerbyniol.

B3 Effaith Sŵn

B3.1 Cafwyd nifer o wrthwynebiadau mewn perthynas â'r angen am fwy o bellter gwahanu yng nghyswllt Effaith sŵn (gweler y materion pellter gwahanu uchod). Hefyd nododd gwrthwynebwyr effaith Modiwleiddio Osgled a Sŵn Amledd Isel, ac y dylai profion allyriadau sŵn gael eu cynnal ar uchder gwirioneddol y tyrbin yn hytrach nag ar uchder o 10m.

B3.2 Hefyd cafwyd gwrthwynebiadau yn datgan fod y CCA yn camddefnyddio'r canllawiau ETSU-R-97 drwy hepgor y cwmphas 35-40dB, a hepgor yn gyfan gwbl y terfyn nos 43dB.

B3.4 Cafwyd tystiolaeth i gefnogi'r gwrthwynebiadau mewn perthynas ag effaith sŵn:

- Cyfeirir at y dystiolaeth ganlynol:

B3.5 Ymateb y Swyddog - Gellir crynhoi adolygiad gan Swyddogion o'r dystiolaeth a gyflwynwyd fel a ganlyn:

- Mae'r awdurdod lleol yn argymhell y defnydd o gyflymderau gwynt mesuredig ar 10m o uchder yn hytrach nag uchder yr hwb, gan y byddai'r olaf yn effeithio ar allu'r Awdurdod Lleol i fonitro cydymffurfiad yn annibynnol, oherwydd materion technegol.
- Ym Mai 2012, ystyriodd Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru y mater o "Reoli Sŵn o Dyrbinau Gwynt" ac argymhellodd gynyddu'r pellter gwahanu rhwng preswylfeydd a thyrbinau gwynt i 1500m o dan amgylchiadau

penodol. Ymatebodd Llywodraeth Cymru drwy wrthod yr argymhelliad hwn ym mis Gorffennaf 2012 gan nodi bod "TAN 8 yn nodi bod "500m yn cael ei ystyried ar hyn o bryd yn bellter gwahanu nodweddiadol rhwng tyrbîn gwynt ac eiddo preswyl er mwyn osgoi effeithiau sŵn annerbyniol, fodd bynnag, pan gaiff ei ddefnyddio mewn modd anhyblyg gall arwain at ganlyniadau ceidwadol ac felly cynghorir rhywfaint o hyblygrwydd ", felly byddem yn disgwyl i'r pellteroedd gwahanu sydd i'w penderfynu yn lleol gael eu seilio ar asesiad trylwyr o effeithiau lleol." Felly mae safbwynt Llywodraeth Cymru yn cefnogi yr ymateb lleol o fewn y CCA, sydd yn argymhell ymateb 'cais wrth gais' er mwyn ystyried ffactorau safle penodol sydd yn berthnasol at ddiben pob cais.

- Ni ddeallir achosion modiweiddio osgled yn glir ac nid yw'n ymddangos fod y mwyafrif helaeth o leoliadau tyrbîn gwynt yn achosi cwynion ynglŷn â modiweiddio osgled. Mae mesurau niwsans statudol ar gael mewn achosion pan fo Fodiweiddio Osgled yn achosi niwsans sŵn ar ôl comisiynu. Mae'r lefelau sŵn a argymhellir yn ETSU-R-97 yn cymryd i ystyriaeth cymeriad y sŵn a ddisgrifir fel siffrwd llafn fel yr amlinellir ym Mharagraff 27 o Grynodedb Gweithredol y ddogfen honno. Mae siffrwd llafn neu fodiweiddio osgled yn cael ei drafod ymhellach ar dudalen 68 o'r adroddiad. Mae'r Canllawiau a gynhwysir yn TAN 8 yn pennu y dylai'r Awdurdod Lleol gymryd ETSU-R-97 i ystyriaeth wrth asesu sŵn tyrbînau gwynt.
- Mae ceisiadau tyrbînau gwynt yn cael eu hasesu ar sail safle penodol ac mae TAN 8 yn argymhell defnyddio ETSU-R-97. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwrthod galwadau gan bwyllgor deisebau'r Cynulliad Cenedlaethol i ymestyn y parth clustogi i 1500m.
- Y farn consensws yw nad yw tyrbînau tua'r gwynt modern yn ffynonellau sylweddol o sŵn is neu sŵn amledd isel (Cyf. Methodoleg Cwynion Niwsans Statudol Sŵn Ffermydd Gwynt: Ebrill 2011). Er y gall sŵn tyrbîn gwynt, fel y rhan fwyaf o ffynonellau sŵn, gynnwys sbectrwm eang o amleddau sŵn gan gynnwys rhai ar amledd isel, mae hyn yn destun i'r un 6dB o ddyblu'r lleihad mewn pellter â'r holl amleddau eraill. Dylid asesu Tyrbînau Gwynt ar sail achos unigol, a byddai pellter gwahanu safonol o 1.5km yn rhy gyfyngol.
- Canllaw yn unig yw ETSU-R-97 a mater i'r Awdurdod Lleol yw dehongli'r ddogfen a gosod y terfynau sydd fwyaf addas i'w ardal. Mae'r Awdurdod Lleol wedi dewis dehongliad llym o ETSU-R-97 i gymryd i ystyriaeth yr ansicrwydd a'r lefelau sŵn cefndir hynod isel sy'n bodoli ar yr ynys. Mae'r Awdurdod Lleol wedi dewis defnyddio'r maen prawf ETSU isaf o 35dB(A) neu 5dB(A) (wedi'i fesur fel LA90, 10 munud) uwchben y cefndir, p'un bynnag yw'r mwyaf, hyd at gyflymder gwynt o 12m/s ar uchder 10m, yn hytrach na'r maen prawf uchaf o 40dB LA90 neu +5dB a lefel nos o 43dB LA90 neu +5dB.

B3.6 Argymhelliad y Swyddog – Cred y Swyddogion bod pellter gwahanu o 1.5 km o leiaf ar gyfer pob tyrbîn gwynt yn amhriodol ac maent o blaid cael system o asesiad sŵn unigol, a defnyddio'r dehongliad cywir o ETSU-R-97 yn y CCA. Byddai hyn yn golygu fod pob cais yn cael ei drin ar sail achos wrth achos, yn seiliedig ar asesiad trylwyr o'r effeithiau lleol.

B4 AHNE

B4.1 Roedd nifer o wrthwynebwyr yn cefnogi deiseb Ynys Môn yn erbyn Tyrbînau

Gwynt a oedd yn galw am beidio â chael unrhyw dyrbinau gwynt masnachol o fewn yr AHNE. Yn ogystal, cafwyd gwrthwynebiadau yn datgan na ddylid cael unrhyw dyrbinau yn yr AHNE. Nododd gwrthwynebiadau pellach nad yw'n bosibl gwarchod a gwella'r AHNE trwy ddatblygu tyrbinau o fewn yr ardal.

B4.2 Ar y llaw arall mae gwrthwynebiadau sy'n datgan fod y defnydd o'r gair 'gwella' yn rhy gyfyngol ac yn mynd yn groes i'r datganiad polisi yng Nghynllun Rheoli'r AHNE.

B4.3 Dyma'r dystiolaeth a ddarparwyd i gefnogi'r gwrthwynebiadau mewn perthynas â'r AHNE:

- Er mwyn ymdrin â gofynion Rheoliad 39 o Reoliadau Cadwraeth 2010.
- Ni ddarparwyd dystiolaeth benodol dros beidio â chael tyrbinau masnachol yn yr AHNE nac unrhyw dyrbinau o gwbl yn yr AHNE, ar wahân i gyfeirio tuag at y drefn mewn awdurdodau eraill yn benodol Cyngor Sir Swydd Stafford, y cyfeirir ato yn yr adran gwahanu pellteroedd uchod.

B4.4 Ymateb y Swyddog - Gellir crynhoi adolygiad gan Swyddogion o'r dystiolaeth a gyflwynwyd fel a ganlyn:

- Mae Rheoliad 39 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 yn cyfeirio at gadwraeth natur mewn cyd-destun cynllunio ac maent angen i bolisiâu defnydd tir ar ddatblygu a defnyddio tir a chadwraeth gymryd i ystyriaeth yr angen i annog rheoli nodweddion tirwedd sydd o bwysigrwydd i ffawna a fflora gwyllt. Bydd yn berthnasol i'r CDLI newydd nid y fframwaith polisi presennol. Nid yw'n cynnwys cyfeiriad at barthau clustogi.

B4.5 Argymhelliad y Swyddogion - Nid yw'r polisi cyfredol a fabwysiadwy ynghylch datblygu ynni adnewyddadwy neu'r polisi cyfredol a fabwysiadwy i ymdrin â datblygu yn yr AHNE yn atal datblygiad tyrbinau gwynt o fewn yr AHNE. Felly byddai cynnwys hyn o fewn y CCA mewn gwirionedd yn creu polisi newydd ac felly'n mynd tu hwnt i gylch gwaith y CCA. Mae'r swyddogion o'r farn mai dull y canllawiau i gyfyngu ar ddatblygiadau posibl yn yr AHNE i ddatblygiad Micro a Graddfa Fach addas yn yr AHNE yw'r dull priodol i'r AHNE.

[Noder: Er nad ydym wedi argymhell diwygiadau i'r CCA mewn perthynas â pellteroedd gwahanu, effaith sŵn a datblygu yn yr AHNE, rhaid cofio bod y CCA yn cynnwys nifer o ofynion ar gyfer asesiadau amrywiol i alluogi swyddogion i asesu effaith bosibl benodol ceisiadau. Felly, bydd y ffactorau hyn yn rhan o'r broses o wneud penderfyniad.]

B5 Newidiadau a Awgrymir

B5.1 Mae'r Swyddogion wedi argymhell nifer o fân newidiadau i'r CCA, mae'r tabl yn

Atodiad 3 yn dangos y newidiadau yma.

| C - Goblygiadau ac Effeithiau | | |
|--------------------------------------|--|--|
| 1 | Cyllid / Adran 151 | Dim |
| 2 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro | Dim |
| 3 | Adnoddau Dynol | Dim |
| 4 | Gwasanaethau Eiddo (gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim |
| 5 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) | Dim |
| 6 | Cydraddoldeb (gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim |
| 7 | Gwrthdlodi a Chymdeithasol (gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim |
| 8 | Cyfathrebu (gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim |
| 9 | Ymgynghori (gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | 2 gyfnod ar wahan o Ymgynghoriad Cyhoeddus wedi ei gynnal ar y CCA |
| 10 | Economaidd | Dim |
| 11 | Amgylcheddol (gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim |
| 12 | Trosedd ac Anrhefn (gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim |
| 13 | Cytundeb Canlyniadau | Dim |

CH – Crynodeb

Mae'r adroddiad a'i atodiad yn darparu ymateb manwl i'r ymgynghoriad cyhoeddus i'r CCA diwygiedig. Paratowyd trydydd CCA diwygiedig sy'n dangos y newidiadau a argymhellir mewn ymateb i'r sylwadau a wnaed, ac fe'i cyflwynir yn Atodiad 2.

D - Argymhelliad

Bod y newidiadau a argymhellir yn cael eu hymgorffori yn y CCA a'i fod yn cael ei

fabwysiadu gan y Cyngor i gael ei ddefnyddio fel ystyriaeth berthnasol wrth ymdrin â cheisiadau Tyrbinau Gwynt ar y Tir.

Enw awdur yr adroddiad: Bob Thomas

Swydd: (Arweinydd Tim) Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd

Dyddiad: 14-1-13

Atodiadau:

Atodiad 1 – Tablau o'r Sylwadau a Dderbyniwyd yn ystod yr Ail Ymgynghoriad ynghyd a Ymateb ac Argymhellion y Swyddogion.

Atodiad 2 – 3ydd Fersiwn o'r CCA, Adroddiad AC/AAS ac ArhC Adroddiad Sgrinio.

Atodiad 3 – Tabl o Newidadau a Argymhellir i'r CCA

Atodiad 4 – Tabl o Newidiadau i'r AC/AAS a ARhC

Papurau Cefndirol:

1] Cynllun Fframwaith Gwynedd (1993)

2] Cynllun Lleol Ynys Môn (1996)

3] Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn wedi ei stopio (2005)

4] CCA Drafft Ynni Gwynt ar y Tir (2011)

5]] CCA Fersiwn Diwygiedig Ynni Gwynt ar y Tir (2012)

6] Ceisiadau Tyrbinau Gwynt – Rhestr Wirio (2012)

<http://www.anglesey.gov.uk/planning-and-environment/planning-control/making-a-planning-application/wind-turbine-applications/116491.article>

7] Arfarniad Cynladwyedd yn Ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol o'r Canllaw Cynllunio Atodol Ynni Gwynt ar y Tir (Awst 2012)

<http://www.ynysmon.gov.uk/Journals/2012/08/09/Arfarniad-Cynladwyedd-AC--Asesiad-Amgylcheddol-Strategol-AC-AAS.pdf>

8] Adroddiad Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o'r Canllaw Cynllunio Atodol Ynni Gwynt ar y Tir (Awst 2012)

<http://www.ynysmon.gov.uk/Journals/2012/08/09/Asesiad-Rheoliadau-Cynefinoedd-ArhC--Adroddiad-Sgrinio.pdf>

CCA: Ynni Gwynt ar y Tir - 1. Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol

| Cyfeirnod (sylwebydd) | CCA | | Crynodeb o'r Sylw a Dderbyniwyd | Cyfiawnhad am y Sylw | Ymateb Swyddogion | Argymhelliad |
|--------------------------|------|--------------|--|--|---|--------------|
| | Pen. | Para | | | | |
| AY001 | | 5.2.3 | Mae Môn i gyd, ac ardal y Fenai yn arbennig, yn ardal o harddwch eithriadol, ac o ganiatau adeiladu y tybeini yma bydd tirwedd Môn yn cael ei ddietha | Oherwydd ei harddwch, ac oherwydd yr olion hanesyddol sydd yma, mae twristiaeth yn ffynnu gan roi cynhalieth i lawer ac yn cyfrannu at yr economi amaethyddol lleol. | Mae'r Canllaw Drafft 2 yn nodi nad yw'r Cyngor o'r fam y byddai tyrbinau uwch 20m yn cael eu cefnogi. O dan hynny bydd yn fater i'r datblygwr ddatgysgu na fydd effaith annerbyniol neu negyddol ar y dirwedd | Dim newid |
| AY004 | | 5.2.3 7.9 | | | | |
| AY006 | | 5.2.3 7.9 | | | | |
| AY007 | | 5.2.3 7.9 | Yr wyf yn cefnogi'r ddeiseb AAWT yn galw am ddim tyrbinau gwynt masnachol yn yr AHNE ac am o leiaf 1.5 km o bellter gwahanu rhwng unrhyw ddatblygiad tyrbinau gwynt masnachol ac eiddo preswyl. | Dim tystiolaeth i gefnogi y sylw a dderbyniwyd. | Dim tystiolaeth penodol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylwadau a dderbyniwyd. | Dim newid |
| AY008 | | 5.2.3 7.9 | | | | |
| AY009 | | 5.2.3 7.9 | | | | |
| AY010 | | 5.2.3 7.9 | | | | |
| AY011 | | 5.2.3 7.9 | | | | |
| AY012 | | 5.2.3 7.9 | | | | |
| AY013 | | 5.2 | Y broblem gyda hyn yw bod yr AHNE yn edrych allan i'r craidd, a rhai o fewn y craidd hefyd yn gweld yr AHNE o'r tu allan iddo. Mae hyn yn golygu nad yw'n realistig i ddisgwyl i warchod yr AHNE rhag effeithiau gwledol | Dim archwiliad realistig o'r anhawster hwn o fewn y ddogfen, sydd o'r cychwyn yn tueddu i ddelio â'r ynys fel ardal arfordirol o fewn AHNE, a chraidd sy'n cael ei ystyried ar wahân y tu allan i'r AHNE | Mae'r AHNE yn ddynodiad tirwedd a gydnabyddir yn genedlaethol ac felly mae ei ffin a lleoliad yn ystyriaeth berthnasol o ran penderfynu ar "effaith andwyol ar gymeriad y dirwedd". Mae'r CCA yn ymhelaethu ar sut y disgwyllir i ymgeiswyr ymdrin â'r mater hwn. | Dim newid |
| AY017 | | 5.2 | Dim sôn pa mor agos y gallai datblygiad tyrbinau fod i'r AHNEau. | Dim tystiolaeth wedi ei gyflwyno | Dim tystiolaeth penodol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylwadau a dderbyniwyd. | Dim newid |
| AY018 | 7 | 7.5.7 | Syndod felly yw darganfod bod y canllawiau arfaethedig yn son am ganiatáu tyrbinau gwynt - hyd yn oed rhai ar raddfa Ficro a bach, - o fewn yr ardaloedd hyn. | Mae topograffeg Ynys Môn yn isel yn gyffredinol, ac fe ddynodwyd parth arfordirol Ynys Môn fel Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn 1966 er mwyn gwarchod apél esthetig ac amrywiaeth tirwedd a chynfinoedd arfordirol yr ynys rhag eu datblygu'n amhriodol. Mae'r ddogfen yn cyfeirio hefyd at y tua 2 filiwn o bobl sy'n ymweld â'r ynys bob blwyddyn, gan eu denu o sawl ardal yn y gwledydd hyn yn ogystal â gwledydd tramor i fwynhau'r dirwedd ac i gymryd rhan mewn chwaraeon ac adloniant o bob math. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol tuag at economi'r ynys. | Mae'r Canllaw Drafft 2 yn nodi nad yw'r Cyngor o'r fam y byddai tyrbinau uwch 20m yn cael eu cefnogi. O dan hynny bydd yn fater i'r datblygwr ddatgysgu na fydd effaith annerbyniol neu negyddol ar y dirwedd | Dim newid |

| Cyfeirnod sylwebydd | CCA | | Crynodeb o'r Sylw a Dderbyniwyd | Cyfiawndad am y Sylw | Ymateb Swyddogion | Argymhelliad |
|---------------------|------|--------------|--|---|--|--------------|
| | Pen. | Para | | | | |
| AY018 | 7 | 7.5.7 | Mae gan Ynys Môn nifer o Ardaloeidd Cadwraeth ac Adelladau Rhestrdedig o bwys, ac ar ben hynny, mae'n arbennig o gyfoethog mewn Henebion Cofrestrdedig. Dyldid cael canllawiau cryfiaw i warchod y rhain trwy bennu pellter pendant rhyngddynt ac unrhyw dyrbin gwynt. | Fe ddylai unrhyw dyrbin fod, hefyd, ar raddfa ficro neu fach er mwyn sicrhau - fel y dywed y ddogfen - na fydd unrhyw niwed sylweddol yn digwydd o gamlyniad i unrhyw gais. | Mae'r Canllaw Drafft 2 yn nodi y bydd yn fater i'r datblygwr ddangos na fydd effaith annerbyniol neu negyddol ar yr ardaloedd hyn | Dim newid |
| AY019 | | 3.12 | Yr wyf yn cefnogi'r ddeiseb AAWT yn galw am ddim tyrbinau gwynt masnachol yn yr AHNE ac am o leiaf 1.5 km o bellter gwahanu rhwng unrhyw ddatblygiad tyrbinau gwynt masnachol ac eiddo preswyl. | Dyfyrrwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn fel "un o'r tirweddau mwyaf arbennig, dentiadol ac amrywiol yn Ynyssoedd Prydain" | Dim tystiolaeth penodol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylwadau a dderbyniwyd. | Dim newid |
| AY021 | | 5.2.3 7.9 | Yr wyf yn cefnogi'r ddeiseb AAWT yn galw am ddim tyrbinau gwynt masnachol yn yr AHNE ac am o leiaf 1.5 km o bellter gwahanu rhwng unrhyw ddatblygiad tyrbinau gwynt masnachol ac eiddo preswyl. | Dim tystiolaeth wedi ei gyflwyno | Dim tystiolaeth penodol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylwadau a dderbyniwyd. | Dim newid |
| AY022 | | 5.2.3 7.9 | Yr wyf yn cefnogi'r ddeiseb AAWT yn galw am ddim tyrbinau gwynt masnachol yn yr AHNE ac am o leiaf 1.5 km o bellter gwahanu rhwng unrhyw ddatblygiad tyrbinau gwynt masnachol ac eiddo preswyl. | Dim tystiolaeth wedi ei gyflwyno | Dim tystiolaeth penodol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylwadau a dderbyniwyd. | Dim newid |
| AY023 | | 5.2.3 7.9 | Nid ydynt yn economaidd mewn termau cynhyrchu ynni nac ariannol | Dim tystiolaeth wedi ei gyflwyno | Dim tystiolaeth penodol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylwadau a dderbyniwyd. | Dim newid |
| AY024 | | 5.2.3 7.9 | Yr wyf yn cefnogi'r ddeiseb AAWT yn galw am ddim tyrbinau gwynt masnachol yn yr AHNE ac am o leiaf 1.5 km o bellter gwahanu rhwng unrhyw ddatblygiad tyrbinau gwynt masnachol ac eiddo preswyl. | Dim tystiolaeth wedi ei gyflwyno | Dim tystiolaeth penodol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylwadau a dderbyniwyd. | Dim newid |
| AY026 | | 5.2.3 7.9 | Nid yw unrhyw bellter gwahanu yn fathemategol, mae'n oddrychol a chanfyddiadol, feily dylai tîm y cyngor ddeuwis ffigur realistig - efallai 1.5km. Mae hyn yn agos iawn at y ffigur y mae'r than fwyaf o bobl eisiau fel clustogfa ar yr AHNE | Dim tystiolaeth wedi ei gyflwyno | Mae CCGC yn cynghori nad yw'n arfer da gosod clustogfa gyffredinol - gan y bydd effaith yn dibynnu ar nifer o ffactorau sy'n gysylltiedig â safleoedd. Mae angen i ddatblygwr ddadlau pam na fydd datblygiad yn cael effaith annerbyniol neu andwyol sylweddol | Dim newid |
| AY028 | 5 | 5.2 | Fei clustogfa AHNE mae angen clustogfa rhwng y tyrbinau. Felly, os yw 2km AHNE yn cael ei dderbyn pam ddim defnyddio'r un rheol. | Dim tystiolaeth wedi ei gyflwyno | Dim tystiolaeth penodol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylwadau a dderbyniwyd. | Dim newid |
| AY029 | | 5.2.3 7.9 | Yr wyf yn cefnogi'r ddeiseb AAWT yn galw am ddim tyrbinau gwynt masnachol yn yr AHNE ac am o leiaf 1.5 km o bellter gwahanu rhwng unrhyw ddatblygiad tyrbinau gwynt masnachol ac eiddo preswyl. | Dim tystiolaeth wedi ei gyflwyno | Dim tystiolaeth penodol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylwadau a dderbyniwyd. | Dim newid |

| Cyfeirnod (sylwebydd) | CCA | | Crynodeb o'r Sylw a Dderbyniwyd | Cyfiawndad am y Sylw | Ymateb Swyddogion | Argymhelliad |
|--------------------------|------|--------------|---|--|---|--------------|
| | Pen. | Para | | | | |
| AY030 | | 7.5.5 | Cynnwys dolenni i ddogfennau | Dim tystiolaeth wedi ei gyflwyno | Oherwydd bodolaeth sawl dogfen sy'n dylanwadu ar y pwnc yma ac er mwyn cadw'r ddogfen mor syml a phosib rhoddwyd rhestr o ddogfennau allweddol mewn atodiad ar wahan. | Dim newid |
| AY031 | | 5.2.3 7.9 | Yr wyf yn cefnogi'r ddeiseb AAWT yn galw am ddim tyrbinau gwynt masnachol yn yr AHNE ac am o leiaf 1.5 km o bellter gwahanu rhwng unrhyw ddatblygiad tyrbinau gwynt masnachol ac eiddo preswyl. | Dim tystiolaeth wedi ei gyflwyno | Dim tystiolaeth penodol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylwadau a dderbyniwyd. | Dim newid |
| AY032 | 5 | 5.2 | Ystyriwch ychwanegu glustogfa 2km ar gyfer tyrbinau gwynt maint masnachol i unrhyw AHNE (Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol) o dan eich cylch gwaith yn y CCA drafft newydd | Dim tystiolaeth wedi ei gyflwyno | Dim tystiolaeth penodol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylwadau a dderbyniwyd. | Dim newid |
| AY033 | 3 | 3.12 | Nid dim ond adeiladu tyrbinau o fewn AHNE y dylid cyfyngu arno, ond hefyd adeiladwaith y gellir ei weld o AHNE | Dim tystiolaeth wedi ei gyflwyno | Dim tystiolaeth penodol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylwadau a dderbyniwyd. | Dim newid |
| AY035 | | 5.2.3 7.9 | Yr wyf yn cefnogi'r ddeiseb AAWT yn galw am ddim tyrbinau gwynt masnachol yn yr AHNE ac am o leiaf 1.5 km o bellter gwahanu rhwng unrhyw ddatblygiad tyrbinau gwynt masnachol ac eiddo preswyl. | Y ffaith eu bod yn hyll, swmlyd ac yn debygol o achosi problemau iechyd i'r ymyswyr yn golygu y dylent fod o leiaf 1.5km o'u cartrefi. | Dim tystiolaeth penodol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylwadau a dderbyniwyd. | Dim newid |
| AY036 | 5 | 5.2 | Galw am i'r cymal yma gael ei adfer ac yn awgrymu dylai fod yna leiafswm pellter o 2km rhwng tyrbeini gwynt ac ardaloedd sydd wedi ei dynodi'n ANHE | Dim tystiolaeth wedi ei gyflwyno | Dim tystiolaeth penodol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylwadau a dderbyniwyd. | Dim newid |
| AY037 | | 5.2.3 7.9 | Yr wyf yn cefnogi'r ddeiseb AAWT yn galw am ddim tyrbinau gwynt masnachol yn yr AHNE ac am o leiaf 1.5 km o bellter gwahanu rhwng unrhyw ddatblygiad tyrbinau gwynt masnachol ac eiddo preswyl. | Dim tystiolaeth wedi ei gyflwyno | Dim tystiolaeth penodol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylwadau a dderbyniwyd. | Dim newid |
| AY039 | | 7.5.6 | Paragraff yn gamanweiniol ynghylch cylch gorchwyl | Dim tystiolaeth wedi ei gyflwyno | Dim tystiolaeth penodol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylwadau a dderbyniwyd. | Dim newid |
| AY039 | | 7.5.8 | Mae angen i'r diffiniad o'r hyn yw "niwed sylweddol" fod yn glir. | Dim tystiolaeth wedi ei gyflwyno | Adeg cais cynllunio y daw hynny yn amlwg pan fydd y dystiolaeth berthnasol i gyd ar gael. Mae'r CCA yn amlygu pa fath o faterion sydd angen ystyriaeth. | Dim newid |
| AY042 | | 5.2.3 7.9 | Yr wyf yn cefnogi'r ddeiseb AAWT yn galw am ddim tyrbinau gwynt masnachol yn yr AHNE ac am o leiaf 1.5 km o bellter gwahanu rhwng unrhyw ddatblygiad tyrbinau gwynt masnachol ac eiddo preswyl. | Dim tystiolaeth wedi ei gyflwyno | Dim tystiolaeth penodol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylwadau a dderbyniwyd. | Dim newid |

| Cyfeirnod sylwebydd | CCA | | Crynodeb o'r Sylw a Dderbyniwyd | Cyfiawnhad am y Sylw | Ymateb Swyddogion | Argymhelliad |
|---------------------|--------------|------|---|--|---|--------------|
| | Pen. | Para | | | | |
| AY043 | 5.2 | | Ni all yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) gael ei chadw a'i gwella os bydd datblygiadau tyrbinau gwynt masnachol o unrhyw faint yn cael eu caniatáu naill ai o fewn ei ffin neu yn agos ato. Mae rhesymau da dros ystyried clustogfa gweledd o 2km o leiaf | Mae Cyngor Sir Swydd Stafford wedi cyhoeddi canllawiau yn nodi y na ddylai datblygiadau tyrbinau gwynt gael eu lleoli o fewn eu AHNE ar Parc Cenedlaethol, neu o fewn 2km i'r ffiniau | Mae'r ddogfen y cyfeirir ati yn Ddatganiad Sefyllfa Cabinet a gyhoeddwyd ar 17 Hydref, 2012 ac mae'n cyfeirio ei bolisi ar ddatblygiadau ynni gwynt ar raddfa fawr ar dir y Cyngor neu lle mai'r Cyngor yw'r awdurdod cynllunio neu ymgynghorai (hawliau wedi'u diogelu ar geisiadau unigol). Cael ei weld fel datganiad polisi nid canllawiau. | Dim newid |
| AY044 | 5.2.3 7.9 | | Yr wyf yn cefnogi'r ddeiseb AAWT yn galw am ddim tyrbinau gwynt masnachol yn yr AHNE ac am o leiaf 1.5 km o bellter gwahanu rhwng unrhyw ddatblygiad tyrbinau gwynt masnachol ac eiddo preswyl. | Dim tystiolaeth wedi ei gyflwyno | Dim tystiolaeth penodol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylwadau a dderbyniwyd. | Dim newid |
| AY045 | 5.2.3 7.9 | | In furtherance of my concerns, I support the AAWT petition calling for no commercial wind turbines in the AONB and a minimum 1.5 km separation distance between any commercial wind turbine development and residential properties | Dim tystiolaeth wedi ei gyflwyno | Dim tystiolaeth penodol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylwadau a dderbyniwyd. | Dim newid |
| AY046 | 5.2.3 7.9 | | | Dim tystiolaeth wedi ei gyflwyno | Dim tystiolaeth penodol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylwadau a dderbyniwyd. | Dim newid |
| AY047 | 5.2 | | | | | |
| AY048 | 5.2 | | Ni all yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) gael ei chadw a'i gwella os bydd datblygiadau tyrbinau gwynt masnachol o unrhyw faint yn cael eu caniatáu naill ai o fewn ei ffin neu yn agos ato. Mae rhesymau da dros ystyried clustogfa gweledd o 2km o leiaf | Mae Cyngor Sir Swydd Stafford wedi cyhoeddi canllawiau yn nodi y na ddylai datblygiadau tyrbinau gwynt gael eu lleoli o fewn eu AHNE ar Parc Cenedlaethol, neu o fewn 2km i'r ffiniau | Mae'r ddogfen y cyfeirir ati yn Ddatganiad Sefyllfa Cabinet a gyhoeddwyd ar 17 Hydref, 2012 ac mae'n cyfeirio ei bolisi ar ddatblygiadau ynni gwynt ar raddfa fawr ar dir y Cyngor neu lle mai'r Cyngor yw'r awdurdod cynllunio neu ymgynghorai (hawliau wedi'u diogelu ar geisiadau unigol). Cael ei weld fel datganiad polisi nid canllawiau. | Dim newid |
| AY057 | 7.5.8 | | Dylai tyrbinau gael cliriad at ymylon AHNE er mwyn sicrhau nad yw'r ardal oedd hardd yn cael eu difetha. Felly, byddwn yn awgrymu defnyddio tabl debyg i hmwng ar gyfer cliriad gydag anheddau ond gyda graddiant llai serth h.y. Cliriad i ffin yr AHNE = 300m + 20x uchder tyrbîn | Mae'n rhaid i dyrbinau gael cliriad at ymylon yr AHNE os nad yw i ymddangos fel petai'r tyrbinau mewn gwirionedd yn yr AHNE, neu fel arall bydd yn ymddangos fel petai'r AHNE wedi ei leihau o ran arwynebedd. | Mae'r Polisi yn ystyried, ymhlith pethau eraill, cymeriad y dirwedd a threfnadaeth. Mae'r CCA yn rhoi cyfrifoldeb ar ddatblygwyr i ddangos na fydd unrhyw effaith annerbyniol neu andwyol sylweddol ar y nodweddion hyn. | Dim newid |
| AY061 | 5.2.3 7.9 | | Yr wyf yn cefnogi'r ddeiseb AAWT yn galw am ddim tyrbinau gwynt masnachol yn yr AHNE ac am o leiaf 1.5 km o bellter gwahanu rhwng unrhyw ddatblygiad tyrbinau gwynt masnachol ac eiddo preswyl. | Dim tystiolaeth wedi ei gyflwyno | Dim tystiolaeth penodol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylwadau a dderbyniwyd. | Dim newid |
| AY062 | 5.2 | | Ni all yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) gael ei chadw a'i gwella os bydd datblygiadau tyrbinau gwynt masnachol o unrhyw faint yn cael eu caniatáu naill ai o fewn ei ffin neu yn agos ato. Mae rhesymau da dros ystyried clustogfa gweledd o 2km o leiaf | Mae Cyngor Sir Swydd Stafford wedi cyhoeddi canllawiau yn nodi y na ddylai datblygiadau tyrbinau gwynt gael eu lleoli o fewn eu AHNE ar Parc Cenedlaethol, neu o fewn 2km i'r ffiniau | Mae'r ddogfen y cyfeirir ati yn Ddatganiad Sefyllfa Cabinet a gyhoeddwyd ar 17 Hydref, 2012 ac mae'n cyfeirio ei bolisi ar ddatblygiadau ynni gwynt ar raddfa fawr ar dir y Cyngor neu lle mai'r Cyngor yw'r awdurdod cynllunio neu ymgynghorai (hawliau wedi'u diogelu ar geisiadau unigol). Cael ei weld fel datganiad polisi nid canllawiau. | Dim newid |

| Cyfeirnod sylwebydd | CCA | | Crynodeb o'r Sylw a Dderbyniwyd | Cyfiawnhad am y Sylw | Ymateb Swyddogion | Argymhelliad |
|---------------------|------|--------------|--|---|---|--------------|
| | Pen. | Para | | | | |
| AY063 | 5 | 5.2 | Cyflwyno clustogfa o 2km i'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, lle na chaiff unrhyw dyrbinau gwynt gael eu hadeliadu | Dim tystiolaeth wedi ei gyflwyno | Dim tystiolaeth penodol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylwadau a dderbyniwyd. | Dim newid |
| AY064 | | 5.2 | Ni all yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) gael ei chadw a'i gwella os bydd datblygiadau tyrbinau gwynt masnachol o unrhyw faint yn cael eu caniatáu naill ai o fewn ei ffin neu yn agos ato. Mae rhesymau da dros ystyried clustogfa gweledd o 2km o leiaf | Mae Cyngor Sir Swydd Stafford wedi cyhoeddi canllawiau yn nodi y na ddylai datblygiadau tyrbinau gwynt gael eu lleoli o fewn eu AHNE at Parc Cenedlaethol, neu o fewn 2km i'r ffiniau | Mae'r ddogfen y cyfeirir ati yn Ddatganiad Sefyllfa Cabinet a gyhoeddwyd ar 17 Hydref, 2012 ac mae'n cyfeirio ei bolisi ar ddatblygiadau ynni gwynt ar raddfa fawr ar dir y Cyngor neu lle mai'r Cyngor yw'r awdurdod cynllunio neu ymgynghorai (hawliau wedi'u diogelu ar geisiadau unigol). Cael ei weld fel datganiad polisi nid canllawiau. | Dim newid |
| AY065 | | 5.2.3 7.9 | Yr wyf yn cefnogi'r ddeiseb AAWT yn gwlw am ddim tyrbinau gwynt masnachol yn yr AHNE ac am o leiaf 1.5 km o bellter gwahanu rhwng unrhyw ddatblygiad tyrbinau gwynt masnachol ac eiddo preswyl. | Nid yw'r CCA diwygiedig yn rhoi diogelwch digonol i eiddo preswyl na thirwedd Ynys Môn oherwydd mae'r pellterau gwahanu mae'n gynnig yn annigonol. | Dim tystiolaeth penodol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylwadau a dderbyniwyd. | Dim newid |
| AY066 | | 5.2 | Ni all yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) gael ei chadw a'i gwella os bydd datblygiadau tyrbinau gwynt masnachol o unrhyw faint yn cael eu caniatáu naill ai o fewn ei ffin neu yn agos ato. Mae rhesymau da dros ystyried clustogfa gweledd o 2km o leiaf | Mae Cyngor Sir Swydd Stafford wedi cyhoeddi canllawiau yn nodi y na ddylai datblygiadau tyrbinau gwynt gael eu lleoli o fewn eu AHNE at Parc Cenedlaethol, neu o fewn 2km i'r ffiniau | Mae'r ddogfen y cyfeirir ati yn Ddatganiad Sefyllfa Cabinet a gyhoeddwyd ar 17 Hydref, 2012 ac mae'n cyfeirio ei bolisi ar ddatblygiadau ynni gwynt ar raddfa fawr ar dir y Cyngor neu lle mai'r Cyngor yw'r awdurdod cynllunio neu ymgynghorai (hawliau wedi'u diogelu ar geisiadau unigol). Cael ei weld fel datganiad polisi nid canllawiau. | No change |
| AY069 | | 5.2.4 | Dymuno adfer y parth clustogfa AHNE o 2km a gynhwysir yn y Drafft Cyntaf | Dim tystiolaeth wedi ei gyflwyno | Dim tystiolaeth penodol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylwadau a dderbyniwyd. | Dim newid |
| AY071 | | 5.2 | Ni all yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) gael ei chadw a'i gwella os bydd datblygiadau tyrbinau gwynt masnachol o unrhyw faint yn cael eu caniatáu naill ai o fewn ei ffin neu yn agos ato. Mae rhesymau da dros ystyried clustogfa gweledd o 2km o leiaf | Mae Cyngor Sir Swydd Stafford wedi cyhoeddi canllawiau yn nodi y na ddylai datblygiadau tyrbinau gwynt gael eu lleoli o fewn eu AHNE at Parc Cenedlaethol, neu o fewn 2km i'r ffiniau | Mae'r ddogfen y cyfeirir ati yn Ddatganiad Sefyllfa Cabinet a gyhoeddwyd ar 17 Hydref, 2012 ac mae'n cyfeirio ei bolisi ar ddatblygiadau ynni gwynt ar raddfa fawr ar dir y Cyngor neu lle mai'r Cyngor yw'r awdurdod cynllunio neu ymgynghorai (hawliau wedi'u diogelu ar geisiadau unigol). Cael ei weld fel datganiad polisi nid canllawiau. | Dim newid |
| AY072 | | 5.2.3 | Ni ddylai fod unrhyw dyrbinau gwynt o fewn AHNE. Ni ddylai unrhyw dyrbinau chwaith fod o fewn 1.5km i AHNE. | Mae'n anodd gweld sut y gall unrhyw dyrbin warchod a gwella harddwch naturiol yr AHNE. | Mae'r Polisi yn ystyried, ymhlith pethau eraill, cymeriad y dirwedd a threftadaeth. Mae'r CCA yn rhoi cyfrifoldeb ar ddatblygyr i ddangos na fydd unrhyw effaith annerbyniol neu andwyol sylweddol ar y nodweddion hyn. | Dim newid |

| Cyfeirnod (sylwebydd) | CCA | | Crynodeb o'r Sylw a Dderbyniwyd | Cyfiawnhad am y Sylw | Ymateb Swyddogion | Argymhelliad |
|--------------------------|------|--------------|--|--|--|--------------|
| | Pen. | Para | | | | |
| AY074 | | 5.2.3 7.9 | Yr wyf yn cefnogi'r ddeiseb AAWT yn galw am ddim tyrbinau gwynt masnachol yn yr AHNE ac am o leiaf 1.5 km o bellter gwahanu rhwng unrhyw ddatblygiad tyrbinau gwynt masnachol ac eiddo preswyl. | Dim tystiolaeth wedi ei gyflwyno | Dim tystiolaeth penodol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylwadau a dderbyniwyd. | Dim newid |
| AY075 | | 5.2.3 7.9 | Yr wyf yn cefnogi'r ddeiseb gan AAWT yn galw am ddim tyrbinau gwynt masnachol yn yr AHNE ac am o leiaf 1.5 km o bellter gwahanu rhwng unrhyw ddatblygiad tyrbinau gwynt masnachol ac eiddo preswyl ynghyd â phellter ychwanegol o 15 gwaith uchder tyrbinau | Byddai hyn yn dod â cheisiadau'n fwy unol â'r ffigurau a osodwyd gan rannau eraill o'r DU. | Mae'r Polisi yn ystyried, ymhlith pethau eraill, cymeriad y dirwedd a threfladaeth. Mae'r CCA yn rhoi cyfrifoldeb ar ddatblygwyr i ddangos na fydd unrhyw effaith annerbyniol neu andwyol sylweddol ar y nodweddion hyn. | Dim newid |
| AY076 | | 5.2.3 7.9 | Yr wyf yn cefnogi'r ddeiseb AAWT yn galw am ddim tyrbinau gwynt masnachol yn yr AHNE ac am o leiaf 1.5 km o bellter gwahanu rhwng unrhyw ddatblygiad tyrbinau gwynt masnachol ac eiddo preswyl. | Dim tystiolaeth wedi ei gyflwyno | Dim tystiolaeth penodol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylwadau a dderbyniwyd. | Dim newid |
| AY077 | | 5.2 | Ni all yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) gael ei chadw a'i gwella os bydd datblygiadau tyrbinau gwynt masnachol o unrhyw faint yn cael eu caniatáu naill ai o fewn ei ffin neu yn agos ato. Mae rhesymau da dros ystyried clustogfa gwelededd o 2km o leiaf | Mae Cyngor Sir Swydd Stafford wedi cyhoeddi canllawiau yn nodi y na ddylai datblygiadau tyrbinau gwynt gael eu lleoli o fewn eu AHNE a'r Parc Cenedlaethol, neu o fewn 2km i'r ffiniau | Mae'r ddogfen y cyfeirir ati yn Ddatganiad Sefyllfa Cabinet a gyhoeddwyd ar 17 Hydref, 2012 ac mae'n cyfeirio ei bolisi ar ddatblygiadau ynni gwynt ar raddfa fawr ar dir y Cyngor neu lle mair Cyngor yw'r awdurdod cynllunio neu ymgynghorai (hawliau wedi'u dlogelu ar geisiadau unigol). Cael ei weid fel datganiad polisi nid canllawiau. | Dim newid |
| AY078 | | 5.2.3 | Parchu 'clustogfa' o 2km o unrhyw AHNE fel parth rhydd o dyrbinau | Dim tystiolaeth wedi ei gyflwyno | Dim tystiolaeth penodol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylwadau a dderbyniwyd. | Dim newid |
| AY081 | | 5.2.3 7.9 | Yr wyf yn cefnogi'r ddeiseb AAWT yn galw am ddim tyrbinau gwynt masnachol yn yr AHNE ac am o leiaf 1.5 km o bellter gwahanu rhwng unrhyw ddatblygiad tyrbinau gwynt masnachol ac eiddo preswyl. | Dim tystiolaeth wedi ei gyflwyno | Dim tystiolaeth penodol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylwadau a dderbyniwyd. | Dim newid |
| AY084 | | 5.2.3 | Credaf y dvid osgoi gosod tyrbinau gwynt o fewn yr AHNE yn gyfan gwbl. | Ni allaf weld sut y gall tyrbinau wynt warchod a gwella harddwch naturiol yr AHNE. | Mae'r Canllaw Drafft 2 yn nodi nad yw'r Cyngor o'r fam y byddai tyrbinau uwch 20m yn cael eu cefnogi. O dan hynny bydd yn fater i'r datblygwyr ddangos na fydd effaith annerbyniol neu negyddol ar y dirwedd | Dim newid |
| AY085 | 5 | 5.2.3 | Pob llofnodwr o ddeiseb Ynys Môn yn erbyn Tyrbinau Gwynt (AAWT) sy'n galw am ddim tyrbinau gwynt masnachol mewn unrhyw Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) | Dim tystiolaeth wedi ei gyflwyno | Dim tystiolaeth penodol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylwadau a dderbyniwyd. | Dim newid |
| AY085 | 5 | 5.2 | Galw am ailgyflwyno'r parth clustogi o amgylch AHNE Ynys Môn yn y CCA | Er mwyn diogelu golygfeydd o ac i'r ased lleol a chenedlaethol arbennig o werthfawr a bregus hwn. | Mae'r Polisi yn ystyried, ymhlith pethau eraill, cymeriad y dirwedd a threfladaeth. Mae'r CCA yn rhoi cyfrifoldeb ar ddatblygwyr i ddangos na fydd unrhyw effaith annerbyniol neu andwyol sylweddol ar y nodweddion hyn. | Dim newid |

| Cyfeirnod sylwebydd | CCA | | Crynodeb o'r Sylw a Dderbyniwyd | Cyfiawnhad am y Sylw | Ymateb Swyddogion | Argymhelliad |
|---------------------|------|-------|--|---|--|--------------|
| | Pen. | Para | | | | |
| AY087 | | 5.2 | Ni all yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) gael ei chadw a'i gwella os bydd datblygiadau tyrbinau gwynt masnachol o unrhyw faint yn cael eu caniatáu naill ai o fewn ei ffin neu yn agos ato. Mae rhesymau da dros ystyried clustogfa gwelededd o 2km o leiaf | Mae Cyngor Sir Swydd Stafford wedi cyhoeddi canllawiau yn nodi y na ddylai datblygiadau tyrbinau gwynt gael eu lleoli o fewn eu AHNE a'r Parc Cenedlaethol, neu o fewn 2km i'r ffiniau | Mae'r ddogfen y cyfeirir ati yn Ddatganiad Sefyllfa Cabinet a gyhoeddwyd ar 17 Hydref, 2012 ac mae'n cyfeirio ei bolisi ar ddatblygiadau ynni gwynt ar raddfa fawr ar dir y Cyngor neu lle mair Cyngor yw'r awdurdod cynllunio neu ymgynghorai (hawliau wedi'u dlogelu ar geisiadau unigol). Cael ei weid fel datganiad polisi nid canllawiau. | Dim newid |
| AY088 | | 5.2 | Ni all yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) gael ei chadw a'i gwella os bydd datblygiadau tyrbinau gwynt masnachol o unrhyw faint yn cael eu caniatáu naill ai o fewn ei ffin neu yn agos ato. Mae rhesymau da dros ystyried clustogfa gwelededd o 2km o leiaf | Mae Cyngor Sir Swydd Stafford wedi cyhoeddi canllawiau yn nodi y na ddylai datblygiadau tyrbinau gwynt gael eu lleoli o fewn eu AHNE a'r Parc Cenedlaethol, neu o fewn 2km i'r ffiniau | Mae'r ddogfen y cyfeirir ati yn Ddatganiad Sefyllfa Cabinet a gyhoeddwyd ar 17 Hydref, 2012 ac mae'n cyfeirio ei bolisi ar ddatblygiadau ynni gwynt ar raddfa fawr ar dir y Cyngor neu lle mair Cyngor yw'r awdurdod cynllunio neu ymgynghorai (hawliau wedi'u dlogelu ar geisiadau unigol). Cael ei weid fel datganiad polisi nid canllawiau. | Dim newid |
| AY089 | 5 | 5.2.3 | Ni ddylai fod unrhyw tyrbini gwynt masnachol o unrhyw faint yn yr AHNE | Mae Ynys Môn yn unigryw o ran bod yn Sir sydd wedi'i hamgylchynu gan arfordir trawiadol, sy'n gyfforiog o drefnadaeth ddaearegol, ecolegol, ddiwylliannol a hanesyddol, sy'n cael ei warchod gan ddynodiadau rhyngwiadol a chydabod am ei harddwch naturiol aruthrol. Mae'n gwbl resymegol bod yr AHNE yn cael ei ddiogelu rhag datblygiadau tyrbini masnachol, NA ALLENT gadw a gwellat ardal. | Mae'r Polisi yn ystyried, ymhlith pethau eraill, cymeriad y dirwedd a threfnadaeth. Mae'r CCA yn rhoi cyfrifoldeb ar ddatblygywr i ddangos na fydd unrhyw effaith annerbyniol neu andwyol sylweddol ar y nodweddion hyn. | Dim newid |
| AY090 | | 5.2.3 | Ni ddylai fod unrhyw dyrbini gwynt masnachol o unrhyw faint yn yr AHNE. | Ni all unrhyw ddatblygiad tyrbini gwynt masnachol gadw na gwella AHNE | Mae'r Polisi yn ystyried, ymhlith pethau eraill, cymeriad y dirwedd a threfnadaeth. Mae'r CCA yn rhoi cyfrifoldeb ar ddatblygywr i ddangos na fydd unrhyw effaith annerbyniol neu andwyol sylweddol ar y nodweddion hyn. | Dim newid |
| AY182 | 5 | 5.9 | Dylai'r CCA gynnwys pellter gwahanu o 1.5km. (neu hyd yn oed 2km, yn unol â gwledydd Ewropeaidd eraill) | Mae cryn gefnogaeth leol i hyn [y maen prawf hwn] | Dim tystiolaeth penodol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylwadau a dderbyniwyd | Dim newid |
| AY052 | 5 | 5.11 | Er fod y cysyniad o 'dderbynyddion' yn bwysig, mae'n gysyniad hynod o gyfyngedig ac yn fesur cyfyngedig o les, ansawdd bywyd a'r amgylchedd. | Dim tystiolaeth i gefnogi'r sylw | Dim tystiolaeth penodol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylwadau a dderbyniwyd | Dim newid |
| AY030 | | 6.6 | Newid "yn ami" am "bron bob amser" | Dim tystiolaeth i gefnogi'r sylw | Dim tystiolaeth penodol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylwadau a dderbyniwyd | Dim newid |
| AY030 | | 6.8 | Diffiniad o faint o dyrbinau | Dim tystiolaeth i gefnogi'r sylw | Dim tystiolaeth penodol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylwadau a dderbyniwyd | Dim newid |
| AY055 | 6 | | Awgrymir bod y gymharfaeth o echelin fertigol a llorweddol yn rhy hir ac o bosibl yn ddiangen a gellid eu dileu, ei gostwng o ran hyd, neu gellir croesyfeirio ati'n unig ar dudalennau gwe y Cyngor. | eisoes yn CCA hir iawn, | Cytuno y gallai'r adran fod yn gliriach. Awgrymu fod trafodaeth o wahanol fathau, meintiau ac effeithiolrwydd Tyrbinau Gwynt yn rhan o adran ar wahân ar Gapasiti (hefyd i gynnwys sefyllfa bresennol). | Dim newid o ran cynnwys. Ailddrafftio adrannau i wahaniaethu rhwng Capasiti a Chyfyngiadau |
| AY055 | | 6.9 | gall fod yn gamarweiniol i aelodau o'r cyhoedd i 6.9 ddatgan bod peilonau yn "fel arfer yn 30-35 metr" | Mae gan Ynys Môn rwydwaith o linellau pŵer 400kV ar draws yr ynys. Bydd y llinellau foltedd uwch mewn gwirionedd yn uwch na hyn. | Awgrymu y byddai darlun yn dangos meintiau gwahanol tyrbinau yn erbyn nodweddion tirwedd presennol yn well i ddangos uchder cymharol | Dileu Tabl 1 a defnyddio darlun i ddangos uchder cymharol yn erbyn nodweddion tirwedd presennol |
| AY106 | 6 | | Awgrymir bod y gymharfaeth o echelin fertigol a llorweddol yn rhy hir ac o bosibl yn ddiangen a gellid eu dileu, ei gostwng o ran hyd, neu gellir croesyfeirio ati'n unig ar dudalennau gwe y Cyngor. | eisoes yn CCA hir iawn, | Cytuno y gallai'r adran fod yn gliriach. Awgrymu fod trafodaeth o wahanol fathau, meintiau ac effeithiolrwydd Tyrbinau Gwynt yn rhan o adran ar wahân ar Gapasiti (hefyd i gynnwys sefyllfa bresennol). | Dim newid o ran cynnwys. Ailddrafftio adrannau i wahaniaethu rhwng Capasiti a Chyfyngiadau |
| AY106 | | 6.9 | gall fod yn gamarweiniol i aelodau o'r cyhoedd i 6.9 ddatgan bod peilonau yn "fel arfer yn 30-35 metr" | Mae gan Ynys Môn rwydwaith o linellau pŵer 400kV ar draws yr ynys. Bydd y llinellau foltedd uwch mewn gwirionedd yn uwch na hyn. | Awgrymu y byddai darlun yn dangos meintiau gwahanol tyrbinau yn erbyn nodweddion tirwedd presennol yn well i ddangos uchder cymharol | Dileu Tabl 1 a defnyddio darlun i ddangos uchder cymharol yn erbyn nodweddion tirwedd presennol |

Tudalen 1

| Cyfeirnod (sylwbydd) | CCA | | Crynodeb o'r Sylw a Dderbyniwyd | Cyfiawndad am y Sylw | Ymateb Swyddogion | Argymhelliad |
|-------------------------|------|----------------------|---|--|--|--------------|
| | Pen. | Para | | | | |
| AY106 | | 6.14-6.18, 6.19,6.21 | yn argymhell y dylid dileu'r paragraffau hyn. Mae gosod cyfyngiad o 5MW ar ffermydd gwynt ar Ynys Môn (Para. 16) yn rhy gyfyngol, nid yw'n unol â pholisi diweddaraf cynllunio cenedlaethol, ac mae'n mynd y tu hwnt i gylch gwaith y CCA hwn | Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi y "dylai awurdodau cynllunio lleol gynnllunio yn gadarnhaol ar gyfer pob math o ddatblygiad ynni adnewyddadwy ac isel gan ddefnyddio tystiolaeth gyfoes a phriodol" (Para 12.9.1) Nid yw [y dadansoddiad] yn adlewyrchu canllawiau cyfredol cynllunio cenedlaethol, yn enwedig Polisi Cynllunio Cymru (2011). | Mae'r CCA yn adlewyrchu polisiau cenedlaethol a lleol a'r angen i gydbwyso annog ynni adnewyddadwy yn erbyn yr angen i osgoi neu liniaru yn erbyn unrhyw effaith annerbyniol neu sylweddol andwyol. O reidrwydd mae angen i'r CCA egluro pa raddfa o effeithiau sy'n cael eu hystyried yn annerbyniol. | Dim newid |
| AY111 | | 6.19-6.21 | Dylair adran hon gynnwys o leiaf ddisgrifiad o sut yr ymdrinnir ag ystyriaethau grid technegol | Nid yw'r adran hon yn trafod ystyriaethau grid technegol megis sefydlogrwydd grid neu ymateb amledd | Mae Atodiad 4 (Adran 6) yn gofyn i ymgeiswyr ddarparu manylion o'r "cysylltiad arfaethedig i'r rhwydwaith trawsyrru" | Dim newid |
| AY131 | | 6.12 | Nid yw'r CCA wedi dyfynnu Atodlen 2 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Aseu Effaith Amgylcheddol) 2011 yn llawn | Mae'r trothwyon perthnasol yn cynnwys: (i) Mae'r datblygiad yn cynnwys gosod mwy na 2 tyrbinau; neu (ii) Mae uchder both unrhyw dyrbîn neu uchder unrhyw strwythur arall yn fwy na 15 metr | Mae'r drafodaeth yn 6.12 yn ymwneud â diffiniad o ffermydd gwynt yn unig ac nid â'r diffiniad ehangach o drothwyon Atodlen 2. Dim ond yn Lloegr y mae'r Rheoliadau 2011 y cyfeirir atynt yn berthnasol. | Dim newid |
| AY132 | | 6.12 | Nid yw'r CCA wedi dyfynnu Atodlen 2 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Aseu Effaith Amgylcheddol) 2011 yn llawn | Mae'r trothwyon perthnasol yn cynnwys: (i) Mae'r datblygiad yn cynnwys gosod mwy na 2 tyrbinau; neu (ii) Mae uchder both unrhyw dyrbîn neu uchder unrhyw strwythur arall yn fwy na 15 metr | Mae'r drafodaeth yn 6.12 yn ymwneud â diffiniad o ffermydd gwynt yn unig ac nid â'r diffiniad ehangach o drothwyon Atodlen 2. Dim ond yn Lloegr y mae'r Rheoliadau 2011 y cyfeirir atynt yn berthnasol. | Dim newid |
| AY137 | | | nid oes fawr o sylw [yn] cael ei dalu i farn trigolion lleol. | arolwg diweddar o farn y cynoedd [yn dangos bod] 63% o blaid isafswm pellter o 1.5 km rhwng unrhyw dyrbîn ac eiddo preswyl | Mae Adran 1.5 yn cydnabod y rhesymau pam y cynhaliwyd ymgynghoriad pellach. Mae Adran 1.6 yn esbonio o ble y daethpwyd o hyd i wybodaeth bellach i'r fersiwn ddrafft ddiwygiedig. | Dim newid |
| AY137 | | 6.7 | Yr wyf yn credu y dylai fod cyfyngiad ar uchder unrhyw dyrbinau gwynt newydd | Byddai effaith weledol gronnu tyrbinau o'r fath ar y dirwedd yn sylweddol, ac yn dinistrio'r dirwedd wledig, yr ydym i gyd ar hyn o bryd yn ei mwynhau. | Dim tystiolaeth penodol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylwadau a dderbyniwyd | Dim newid |
| AY141 | | 6.12 | dylai fferm wynt gael ei diffinio fel ceisiadau am ffermydd gwynt tyrbinau unigol lluosog a/neu dyrbinau gwynt sydd eisoes yn bodoli yn agos at ei gilydd. | Dim tystiolaeth i gefnogi'r sylw | Dim tystiolaeth penodol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylwadau a dderbyniwyd | Dim newid |
| AY141 | | | dylai fferm wynt gael ei diffinio fel ceisiadau am ffermydd gwynt tyrbinau unigol lluosog a/neu dyrbinau gwynt sydd eisoes yn bodoli yn agos at ei gilydd. | Mae'r Alban yn cydnabod effeithiau niweidiol y tyrbinau gwynt mawr ar amwynder preswyl ac, ym Mholisi Cynllunio SPP 6, mae pellter gwahanu o 2km ar gyfer prosiectau dros 20MW | Mae'r canllawiau yn adlewyrchu consensws cyffredinol ymysg gwneuthurwyr penderfyniadau polisi cynllunio bod angen i benderfyniadau ar geisiadau sy'n ymwneud â phellter o eiddo gymryd i ystyriaeth gymysgedd o ganllawiau cyffredinol ac amgylchiadau lleoliad penodol. | Dim newid |
| AY183 | | 6.9 | Mae Tabl 1 yn rhoi uchder peilon o 30-35m. Mae'r peilonau ar y llinell 400volt yn 46-50 m mewn uchder. | Dim tystiolaeth i gefnogi'r sylw | Dim tystiolaeth penodol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylwadau a dderbyniwyd | Dim newid |
| AY184 | | 6.8 | Datblygu technolegau ynni adnewyddadwy Micro Bach, effeithlonrwydd ynni a dilyn symudiad i fwrdd oddi wrth danwydd ffosil. | Bydd amgylchedd a chymunedau Ynys Môn yn eiwa mwy o ddatblygiadau o'r fath yn hytrach na thyrbinau ar raddfa ddiwydiannol. | Dim tystiolaeth penodol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylwadau a dderbyniwyd | Dim newid |

| Cyfeirnod (sylwbydd) | CCA | | Crynodeb o'r Sylw a Dderbyniwyd | Cyfiawnhad am y Sylw | Ymateb Swyddogion | Argymhelliaid |
|-------------------------|------|-----------|---|---|--|---------------|
| | Pen. | Para | | | | |
| AY055 | | 7.2.2 | Nid yw'n glir p'un a yw hyn yn cyfeirio at geblau ar y safle rhwng y tyrbinau a'r is-orsaf ar y safle neu o'r is-orsaf ar y safle i'r rhwydwaith trawsyrnu trydan. Os mai'r olaf, yna ni ddylai'r CCA gymryd yn ganiataol mai o dan y ddaear ddylai fod y dewis diodyn. | Dim tystiolaeth i gefnogi'r sylw | Dim tystiolaeth penodol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylwadau a dderbyniwyd | Dim newid |
| AY057 | | 7.11.4 | Dylai dileu cyfeiriadau at blannu coed a bleindiau | Mae telerau sydd wedi'u cynnwys fel 'plannu coed' ac yn enwedig 'gosod bleindiau ffenestri' yn ymddangos yn amhriodol a phe caent eu defnyddio byddent yn torri ar fordd personol o fyw unigolyn. | Mae'r system cynllunio defnydd tir yn ceisio, ymhlith pethau eraill, i gydwyso budd y cyhoedd ac amwynder preifat. Mae'r rhain yn cael eu hargymu fel mesurau lliniaru ar gyfer eu defnyddio fel y dewis olaf. | Dim newid |
| AY106 | | 7.2.2 | Nid yw'n glir p'un a yw hyn yn cyfeirio at geblau ar y safle rhwng y tyrbinau a'r is-orsaf ar y safle neu o'r is-orsaf ar y safle i'r rhwydwaith trawsyrnu trydan. Os mai'r olaf, yna ni ddylai'r CCA gymryd yn ganiataol mai o dan y ddaear ddylai fod y dewis diodyn. | Dim tystiolaeth i gefnogi'r sylw | Dim tystiolaeth penodol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylwadau a dderbyniwyd | Dim newid |
| AY113 | | 7 | Materion Allweddol) angen mwy o amlgyrwydd yn y fersiwn defnydd o'r CCA | Dim tystiolaeth i gefnogi'r sylw | Dim tystiolaeth penodol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylwadau a dderbyniwyd | Dim newid |
| AY131 | | 7.5 | Ni ellir lliniaru'n effeithiol yn erbyn maint a graddfa'r tyrbinau gwynt. Mae hyn yn cadarnhau unwaith eto bod angen parh clustogi sylweddol rhwng y tyrbinau ac eiddo preswyl. | Nid oes unrhyw blannu neu sgrinio y gellir eu rhoi yn eu lle i guddio strwythurau o'r fath | Dim tystiolaeth penodol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylwadau a dderbyniwyd | Dim newid |
| AY131 | | 7.6.11 | Dylid pwysleisio wrth ddatblygwyr y bydd unrhyw luniau gweledol camarweiniol yn arwain at i unrhyw ganiatâd cynllunio gael ei dynnu'n ôl. | Mae'r dystiolaeth ffotograffig a ddarparwyd i gefnogi ceisiadau tyrbinau gwynt wedi denu nifer sylweddol o gwynion. | Dim tystiolaeth penodol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylwadau a dderbyniwyd | Dim newid |
| AY132 | | 7.6.11 | Dylid pwysleisio wrth ddatblygwyr y bydd unrhyw luniau gweledol camarweiniol yn arwain at i unrhyw ganiatâd cynllunio gael ei dynnu'n ôl. | Mae'r dystiolaeth ffotograffig a ddarparwyd i gefnogi ceisiadau tyrbinau gwynt wedi denu nifer sylweddol o gwynion. | Dim tystiolaeth penodol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylwadau a dderbyniwyd | Dim newid |
| AY142 | | 7.2 | Nid oes unrhyw sôn am ddifrod i ffyrdd, gwrychoedd, coed a'by, dylai'r costau hyn gael eu talu gan y datblygwyr, neu a oes rhaid i drethdalwyr y cyngor wynebu'r gost hon. | Dim tystiolaeth i gefnogi'r sylw | Dim tystiolaeth penodol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylwadau a dderbyniwyd | Dim newid |
| AY142 | | 7.3.10 | Dylai math penodol o dyrbin a data model a ddarperir fod yn berthnasol i bob cais tyrbinau waeath beth fo'u maint. | Dim tystiolaeth i gefnogi'r sylw | Dim tystiolaeth penodol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylwadau a dderbyniwyd | Dim newid |
| AY150 | | 7 7.2.2.1 | Mae angen i bawb sydd yn gwmneud cais roddi manylion llawn ar sut y byddid yn rheoli traffig | Dim tystiolaeth i gefnogi'r sylw | Dim tystiolaeth penodol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylwadau a dderbyniwyd | Dim newid |

| | | | | | | |
|-------|---------|--|--|--|--|-----------|
| AY113 | Adran 9 | | ymynu ar Gynllun Rheoli / Cyflenwi (h.y. datganiad dull) gan ddatblygwyr a fydd yn amlinellu eu gweithdrefnau i ddatgomiisynu unrhyw dyrbinau ac adfer tir | offeryn defnyddiol ar gyfer gweithgareddau gorfodi | Mae Adran 14 Atodiad 4 yn nodi'r angen am Gynllun Rheoli Traffig Adeiladu gyda phob cais | Dim newid |
|-------|---------|--|--|--|--|-----------|

| Cyfeirnod (sylwbydd) | CCA | | Crynodeb o'r Sylw a Dderbyniwyd | Cyfiawnhad am y Sylw | Ymateb Swyddogion | Argymhelliaid |
|-------------------------|-----------|------|---|---|---|---------------|
| | Pen. | Para | | | | |
| AY043 | Atodiad 4 | | Dylai pob cais cynllunio gyflwyno 'Datganiad Dull Adeiladu' i'w gymeradwyo gan y Cyngor | Dylai gynnwys manylion adeiladu, gan gynnwys yr holl waith sydd ei angen i gysylltu â'r Grid Cenedlaethol, amseroedd gweithio, draenio, lliniaru, a gwaith adfer. Dylai fod darpariaeth ar gyfer sicrhau blaendal yn ddiogel ar gyfer cronfeydd adfer ac ailosod i wneud gwaith ar y safle pan ddaw oes y tyrbîn gwynt a gymeradwywyd wedi dod i ben. | Mae Adran 14 Atodiad 4 yn nodi'r angen am Gynllun Rheoli Traffig Adeiladu gyda phob cais | Dim newid |
| AY043 | Atodiad 4 | | Dylai cyflymder y gwynt, cyfeiriad y gwynt, data cynhyrchu ynni yn gyffredinol a data ar gyfer pŵer a gyflwynir i'r Grid Cenedlaethol gael eu cofnodi yn barhaus a'u darparu i'r awdurdod cynllunio lleol pan ofynnir amdano. | Dim tystiolaeth i gefnogi'r sylw | Dim tystiolaeth penodol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylwadau a dderbyniwyd | Dim newid |
| AY043 | Atodiad 4 | 11 | Dylai'r CCA [ar ffotogyfosodiadau] gael eu cadw'n gyffredol â'r gwaith ymchwil diweddaraf ac arferion gorau. | I alluogi'r cyhoedd a'r rhai sy'n gwneud penderfyniad i ddechongli yn gywir a darlunio'r datblygiad arfaethedig a'i effaith ar yr amgylchedd a'r dirwedd. | Oherwydd y broses sydd yn gysylltiedig hefo mabwysiadu CCA ni fydd yn bosib diweddarau'r cynnwys yn rheolaidd. Fe fydd rhaid i'r sawl sydd yn gwneud penderfyniad a'r cais roi ystyriaeth faterol i newidiadau mewn ymchwil ac arfer da. Fe fydd y Cyngor yn ystyried cynnwys adendwm / nodyn arweiniad arfer da fel ychwanegiad i'r CCA er mwyn sicrhau cysondeb hefo arferion sydd yn datblygu. | Dim newid |
| AY006 | | App1 | [Dylid dileu'r map Sir sy'n dangos Ardaloedd Cadwraeth, Adeiladau Rhestredig, Henebion Rhestredig ac WHSS | Nid yw'n ddefnyddiol iawn, o ystyried ei raddfa. Fei datblygwr, ni fyddai WCE yn gallu gwneud unrhyw ddefnydd o hwn | Mae'r Atodiad yn esbonio fod mapiau mwy manwl i'w cael ar wefan CCGC | Dim newid |



**CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**

CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL(CCA)

YNNI GWYNT AR Y TIR

(ARGYMHELLIR I'W FABWYSIADU, IONAWR 2013)

Cyngor Sir Ynys Môn

**Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd
Gwasanaeth yr Amgylchedd
Adran Rheoleiddio
Neuadd y Dref
Bangor
Gwynedd
LL57 1DT**

www.ynysmon.gov.uk

CYNNWYS

| | <u>Rhan</u> | <u>Tudalen</u> |
|-----|--|----------------|
| 1] | Cyflwyniad | 3 |
| 2] | Cefndir | 6 |
| 3] | Cyd-destun Polisi | 8 |
| 4] | Nodweddion Ynys Môn | 15 |
| 5] | Ardaloedd o Gyfyngiadau | 17 |
| 6] | Mathau a Meintiau o Dyrbinau Gwynt | 25 |
| 7] | Materion Allweddol | 30 |
| 8] | Lleoliad a Dyluniad | 49 |
| 9] | Dadgomisiynu ac adfer tir | 51 |
| 10] | Ailbweru | 52 |
| 11] | Gofynion gyda Chais | 53 |
| 12] | Manteision Cymunedol a Chyfraniadau Datblygwyr | 54 |
| 13] | Manylion Cyswllt | 56 |
| 14] | Darllen Pellach | 57 |
| 15] | Rhestr Termiau | 60 |

Atodiadau

| | |
|---|----|
| Atodiad 1 – Dynodiadau a Parthau Ymgynghori ar Ynys Môn | 65 |
| Atodiad 2 – Methodoleg Asesu Sŵn | 69 |
| Atodiad 3 – LANDMAP 2011 | 73 |
| Atodiad 4 – Rhestr Wirio | 76 |

1.0 Cyflwyniad

- 1.1 Dylai cynllun datblygu gynnwys polisiau a chynigion digonol i ddarparu'r sail ar gyfer penderfynu ceisiadau cynllunio. Mae Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn ffordd o nodi canllawiau thematig manylach neu safle-benodol ynglŷn â'r ffordd y bydd polisiau'r cynllun yn cael eu defnyddio mewn amgylchiadau neu ardaloedd penodol.

Dylai ceisiadau am ganiatâd cynllunio gael eu pennu yn unol â'r cynllun datblygu a gymeradwywyd neu a fabwysiadwyd ar gyfer yr ardaloedd oni bai fod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Gallai ystyriaethau perthnasol gynnwys amgylchiadau presennol, polisiau mewn cynllun datblygu sy'n dod i'r amlwg, a pholisiau cynllunio Llywodraeth Cymru.

- 1.2 Mae'r cynllun datblygu cyfredol ar gyfer Ynys Môn yn cynnwys Cynllun Fframwaith Gwynedd Amnewidiol a fabwysiadwyd (1993) a Chynllun Lleol Ynys Môn (1996). Bydd y CCA hyn felly ychwanegu at bolisi C7 Cynllun Fframwaith (1993) a pholisi 45 'Ynni Adnewyddadwy' Cynllun Lleol (1996) sy'n darllen:

POLISI C7. Bydd rhagdybiaeth o blaid prosiectau ynni adnewyddadwy, ar yr amod bod yr effaith ar yr ardal yn dderbyniol i'r awdurdod cynllunio lleol. Lle bo'n berthnasol, dylai'r ceisiadau gael eu cefnogi gan asesiad amgylcheddol.

45. Caniateir prosiectau ynni adnewyddadwy lle gellir dangos yn glir na fydd unrhyw effaith annerbyniol ar: -

- i. Gymeriad y dirwedd.
- ii. Safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol, neu leol ar gyfer cadwraeth natur.
- iii. Rhywogaethau sydd o bwysigrwydd cadwraeth natur.
- iv. Mae Safon yr amwynder a fwynheir gan y trigolion a phoblogaeth dwristiaid.
- v. Gwasanaethau cyhoeddus a chyfathrebu hanfodol

- 1.3 Oherwydd y cyfnod datblygedig a gyrhaeddwyd yn y gwaith o baratoi Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn (CDU), defnyddir CDU Ynys Môn wedi'i stopio (2005) fel ystyriaeth gynllunio berthnasol o bwys wrth ymdrin â cheisiadau cyfredol. Mae Polisi 8b yn Rhan Un yn cyfeirio at Ddatblygiadau Ynni a pholisi EP18 yn cyfeirio at Ynni Adnewyddadwy, ac felly bydd angen eu defnyddio **hystyried** wrth ymdrin â cheisiadau cynllunio ar gyfer tyrbinau gwynt ar y tir. Mae'r polisiau hyn wedi'u nodi isod:

PO8b. Bydd ceisiadau ar gyfer datblygu adnoddau ynni adnewyddadwy ac anadnewyddadwy yn cael eu caniatáu lle gellir dangos na fydd effaith andwyol annerbyniol ar yr amgylchedd. Rhoddir blaenoriaeth i ddatblygu ffynonellau o ynni glân ac adnewyddadwy, ond gall ceisiadau ar gyfer prosiectau ynni anadnewyddadwy gael eu caniatáu os ydynt yn annog y defnydd mwyaf o effeithlonrwydd ynni yn eu dyluniad.

EP18. Caniateir prosiectau ynni adnewyddadwy lle gellir dangos yn glir na fydd unrhyw effaith andwyol sylweddol ar: -

- i. Cymeriad y dirwedd, gan gynnwys safleoedd o ddiddordeb archeolegol a'u lleoliadau a'r amgylchedd hanesyddol a / neu;
- ii. Safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol, neu leol ar gyfer cadwraeth natur a / neu;
- iii. Rhywogaethau sydd o bwysigrwydd cadwraeth natur a / neu;
- iv. Safon yr amwynder a fwynheir gan drigolion a'r boblogaeth dwristiaid a / neu;
- v. Gwasanaethau cyhoeddus a chyfathrebu hanfodol a / neu;
- vi. Yr amgylchedd dŵr presennol

- 1.4 Ymgynghorodd y Cyngor ynghylch y CCA drafft Ynni Gwynt ar y Tir rhwng 16 Rhagfyr 2011 a 10 Chwefror 2012, ac arweiniodd hyn at i oddeutu 900 o sylwadau gael eu gwneud.
- 1.5 Oherwydd y materion a godwyd a'r argymhellion a dderbyniwyd gan Aelodau'r Cyngor, mae'r CCA drafft wedi bod yn destun newidiadau sylweddol. Yng ngoleuni'r newidiadau hyn, mae'r Cyngor wedi cytuno i gynnal ymarfer ail ymgynghoriad cyhoeddus ar y ddogfen.
- 1.6 Er mwyn egluro'r newidiadau o fewn y CCA diwygiedig, ac i gyfiawnhau pam nad oedd yr holl faterion a godwyd mewn sylwadau ar y fersiwn drafft wedi cael eu cynnwys yn y fersiwn ddiwygiedig, dylid darllen y CCA hwn ar y cyd gydag adroddiad Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol dyddiedig 26 Gorffennaf, 2012.
- 1.7 Er mwyn cydymffurfio â dyddiadur adrodd Pwyllgor y Cyngor, bydd angen dechrau ar y cyfnod ymgynghori ar y CCA diwygiedig yn ystod y tymor gwyliau. Mae'r Cyngor felly wedi penderfynu ymestyn y cyfnod ymgynghori o 6 wythnos i 8 wythnos.
- 1.8 Tra bod y polisïau Cynllun Datblygu mabwysiedig a restrir uchod yn berthnasol ar gyfer pob math o dechnolegau ynni adnewyddadwy, mae ffocws y CCA hwn ar ynni gwynt ar y tir. Mae hyn oherwydd y nifer o geisiadau y mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi gorfod delio â nhw dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Bydd y mathau eraill o geisiadau ynni adnewyddadwy yn dal i gael eu hystyried yn erbyn y polisïau hyn a'r polisïau cynllunio lleol a chenedlaethol perthnasol eraill.

Nod y CCA felly yw:

- **Cynorthwyo ac arwain ymgeiswyr ac asiantau ynghylch y wybodaeth sydd ei hangen ar y camau cyn gwneud cais, sgrinio, cwmpasu a chynllunio'r cais.**
- **Cynorthwyo swyddogion achos a'r pwyllgor cynllunio i wneud penderfyniadau gwybodus ar geisiadau tyrbîn gwynt. Bydd hyn yn fodd o hybu dull cyson wrth ymdrin â cheisiadau cynllunio.**

- Er mwyn helpu sicrhau bod y manteision ehangach sy'n deillio o gynhyrchu ynni adnewyddadwy yn cael eu cydbwysu â materion lleol megis y dirwedd, bioamrywiaeth, economaidd, cymdeithasol ac effeithiau amwynder ar gymunedau lleol.
- Cynorthwyo'r cyhoedd ehangach a budd-deiliaid eraill sydd hefo diddordeb yn natblygiad eu hardal ddeall goblygiadau'r cynigion.

1.9 O ganlyniad i natur y mater testun hwn, defnyddir nifer o dermau technegol. I gynorthwyo'r darlennydd mae Rhestr Dermau yn cael ei chynnwys yn adran 15 y CCA.

2.0 Cefndir

- 2.1 Derbynnir yn eang fod llosgi tanwyddau ffosil, sy'n cynhyrchu gollyngiadau nwyon tŷ gwydr, yn un o'r prif bethau sy'n cyfrannu at y newid yn ein hinsawdd.
- 2.2 Felly mae gan ynni gwynt rôl bwysig i'w chwarae mewn cyfrannu at leihau neu addasu i effeithiau andwyol y newid yn ein hinsawdd. Gall hefyd gynnig manteision cymdeithasol ac economaidd drwy greu swyddi yn y diwydiannau gweithgynhyrchu, adeiladu a chynnal a chadw.

Mae effeithiau newid yn yr hinsawdd wedi cael effaith bwysig ar bolisiâu cenedlaethol a rhyngwladol o safbwynt cyflenwi ynni. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwmo ei hun i sicrhau gostyngiadau sylweddol mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr a chynnydd yn y gyfran o'n hynni a ddaw o ffynonellau adnewyddadwy. Mae'r ymrwymiad hwn, ynghyd â chefnogaeth Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i dechnolegau adnewyddadwy, wedi arwain at nifer cynyddol o geisiadau am ddatblygiadau tyrbinau gwynt ar draws y wlad.

- 2.3 Mabwysiadodd Ynys Môn Ganllawiau Cynllunio Atodol ar Ddatblygu Ynni Gwynt yn 1994. Cafodd hyn ei baratoi fel ymateb i'r dechnoleg tyrbinau gwynt a oedd yn dod i'r amlwg, a'r bwriad oedd rhoi arweiniad ynghylch safleoedd posibl ar yr Ynys ar gyfer ffermydd gwynt yn hytrach na thyrbinau unigol neu grwpiau bach o dyrbinau gwynt.
- 2.4 Dros y ddwy flynedd ddiwethaf mae natur y ceisiadau tyrbinau gwynt wedi newid gyda'r Awdurdod yn gorfod delio â cheisiadau yn bennaf ar gyfer tyrbinau unigol a hyd at dri mewn rhai achosion ar draws yr Ynys, yn hytrach nag ar gyfer ffermydd gwynt penodol fel yr oedd yr achos yn ôl yn 1994.
- 2.5 Yn y cyfnod Mehefin 2010 i Fehefin 2012 bu'r awdurdod yn delio â:

| Math o gais | Nifer y Ceisiadau a Dderbyniwyd |
|-------------------|---|
| Ceisiadau Sgrinio | 75 |
| Ceisiadau Cwmpasu | 2 |
| Ceisiadau Llawn | 48 (7 caniatâd amodol, 9 tynnu'n ôl, 2 dychwelyd i'r ymgeisydd, 4 gwrthod a 26 heb benderfynu eto) |

- 2.6 Yn ychwanegol at y meini prawf a nodir o fewn y cynllun datblygu a pholisiâu CDU wedi'i stopio a amlygwyd yn adran 1.0 uchod, rhaid rhoi sylw i bolisiâu manwl eraill o fewn y cynlluniau hyn. Mae'r rhain yn cynnwys polisiâu manwl ynglŷn â diogelwch y dirwedd, cadwraeth natur, datblygiad ar yr arfordir, archeoleg, gwarchod tir amaethyddol o ansawdd uchel, y dreftadaeth adeiledig yn ogystal â pholisi cyffredinol sy'n cyfeirio at effeithio ar fwynderau preswyl. Mae polisiâu a chanllawiau cynllunio cenedlaethol ynghylch y pynciau hyn hefyd yn ystyriaethau cynllunio perthnasol arwyddocaol.
- 2.7 Mae nifer y dynodiadau amgylcheddol yn yr ardal yn adlewyrchu ei harddwch naturiol, sy'n brif atyniad yr ardal fel cyrchfan i dwristiaid. Mae'r diwydiant twristiaeth

yn sbardun pwysig yn economi lleol ardal sydd â'r Gwerth Ychwanegol Crynswth isaf (GVA) yn y DU, sef dim ond 55.1% o gyfartaledd y DU, gyda lefelau cymharol uchel o anweithgarwch economaidd.

2.8 Wrth ymdrin â cheisiadau tyrbín gwynt mae angen cael cydbwysedd rhwng cyfraniad y dechnoleg hon tuag at dargedau cenedlaethol ar gyfer ynni adnewyddadwy ac unrhyw effaith andwyol y gallai'r cais ei gael ar y ffactorau a restrir ym mharagraff 2.4 2.6 uchod.

2.9 Nod y CCA felly yw:

- ~~• Cynorthwyo ac arwain ymgeiswyr ac asiantau ynghylch y wybodaeth sydd ei hangen ar y camau cyn gwneud cais, sgrinio, cwmpasu a chynllunio'r cais.~~
- ~~• Cynorthwyo swyddogion achos a'r pwyllgor cynllunio i wneud penderfyniadau gwybodus ar geisiadau tyrbín gwynt. Bydd hyn yn fodd o hybu dull cyson wrth ymdrin â cheisiadau cynllunio.~~
- ~~• Er mwyn helpu sicrhau bod y manteision ehangach sy'n deillio o gynhyrchu ynni adnewyddadwy yn cael eu cydbwysu â materion lleol megis y dirwedd, bioamrywiaeth, economaidd, cymdeithasol ac effeithiau amwynder ar gymunedau lleol.~~

3.0 Cyd-destun Polisi

- 3.1 Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn nodi polisiâu cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru. Mae'n cael ei ategu gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol.
- 3.2 Mae Adran 12.8 o Bolisi Cynllunio Cymru a TAN 8 yn darparu polisi penodol ac arweiniad mewn perthynas â chynhyrchu ynni Adnewyddadwy a Carbon Isel.
- 3.3 Mae'r broses caniatâd i brosiectau ynni adnewyddadwy yng Nghymru yn dibynnu ar faint a lleoliad y datblygiad adnewyddadwy arfaethedig. Bydd cynlluniau ynni gwynt ar y tir hyd at 50MW yn cael eu trin gan yr Awdurdod Lleol a Gweinidogion Cymru. Bydd cynlluniau uwchlaw 50MW yn cael eu trin gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid yn yr Hinsawdd / Comisiwn Cynllunio Seilwaith / yr Ysgrifennydd Gwladol priodol.

Datganiad Polisi Cenedlaethol: Ynni Troswaol (EN-1) - yn amlinellu polisi'r Llywodraeth ar gyfer darparu seilwaith ynni mawr.

Datganiad Polisi Cenedlaethol: Seilwaith Ynni Adnewyddadwy (EN-3) - Y Datganiad Polisi Cenedlaethol (NPS) hwn, ynghyd â'r Datganiad Polisi Cenedlaethol Troswaol ar gyfer Ynni (EN-1), sy'n rhoi'r brif sail ar gyfer penderfyniadau gan y Comisiwn Cynllunio Seilwaith (IPC) ar geisiadau a derbynnir am seilwaith ynni adnewyddadwy. Mae'r Canllawiau yn amlinellu'r ystyriaethau allweddol sy'n ymwneud â safle fferm wynt ar y tir.

Gan nad yw Ynys Môn yn cynnwys Ardal Chwilio Strategol ar gyfer Ynni Gwynt ar y Tir, mae'n annhebygol o gael cais a fyddai'n cael ei drin gan yr IPC. Fodd bynnag, mae EN1 yn amlinellu'r ystyriaethau allweddol a all fod yn berthnasol i gynigion ar gyfer clystyrau o dyrbinau e.e. effeithiau tirwedd a gweledol.

Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 4 – Chwef 2011)

- 3.4 Mae paragraff 12.8.1 Polisi Cynllunio Cymru yn nodi bod y DU yn destun i ofynion Cyfarwydddeb Ynni Adnewyddadwy yr UE ac mae'r rhain yn cynnwys targed y DU o 15% o ynni o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2020. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i chwarae ei rhan drwy ddarparu rhaglen ynni sy'n cyfrannu at leihau allyriadau carbon fel rhan o'u dull o ymdrin â newid yn yr hinsawdd.
- 3.5 Mae Datganiad Polisi Ynni Llywodraeth Cymru (2010) yn nodi'r potensial ynni adnewyddadwy cynaliadwy ar gyfer amrywiaeth o dechnolegau gwahanol. Mewn perthynas â gwynt ar y tir, y nod yw:

Cael 4.5 kWh / d / p o gapasiti cynhyrchu gwynt ar y tir wedi'i osod erbyn 2015/17.

(kWh / d / p - Cilowat awr y dydd fesul person yn seiliedig ar boblogaeth o 3 miliwn).

I wneud hyn bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y defnydd gorau o ardaloedd chwilio strategol presennol a nodir yn TAN 8 a thrwy hyrwyddo defnydd pellach o

safleoedd tir llwyd neu leol ar gyfer prosiectau ar raddfa lai sy'n briodol i'w lleoliadau.

- 3.6 Mae Atodiad 1 yn Natganiad Polisi Ynni Llywodraeth Cymru (2010) yn rhoi'r capasiti cynhyrchu trydan ar bob \geq hafal neu fwy na 10 MW arfaethedig (ynghyd â ffigwr ar gyfer gwynt ar y tir o dan 10 MW). Yn 2010 roedd y capasiti gwynt ar y tir presennol yn sefyll ar 0.73 kWh/d/p.
- 3.7 Yn Ynni Cymru: Pontio Carbon Isel (2012) mae Llywodraeth Cymru yn nodi ei Rhaglen ar gyfer Llywodraeth sy'n ceisio "*creu economi gynaliadwy, carbon isel i Gymru*". Mae'n canolbwyntio ar gyfleoedd gwaith yn y sector hwn ac mae cyfeiriad penodol at 'Ynys Ynni Ynys Môn'. Mae'n nodi'r heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â dadgomisiynu niwclear ac adeiladu o'r newydd, datblygu gwynt ar y môr, datblygu biomas, gweithgaredd effeithlonrwydd ynni a gwelliannau seilwaith sy'n gysylltiedig â'r datblygiad ynni.
- 3.8 Isod ceir dyfyniadau o Bolisi Cynllunio Cymru sy'n cefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy, gan gynnwys datblygu gwynt ar y tir:

| Rhan o PCC | Crynodeb o'r Mater a Nodwyd |
|-------------------|---|
| Paragraff 12.8.9 | Yn nodi y dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLI) hwyluso datblygu pob math o ynni adnewyddadwy a charbon isel i symud tuag at economi carbon isel. Y ffactorau perthnasol ar gyfer tyrbinau gwynt ar y tir y dylid eu hystyried yw: <ul style="list-style-type: none"> • y cyfraniad y gall yr ardal ei wneud; • sicrhau bod penderfyniadau rheoli datblygu yn gyson â rhwymedigaethau newid yn yr hinsawdd gan gynnwys cyfraniadau at dargedau ynni adnewyddadwy a dyheadau; a • cydnabod y cyfleoedd amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol maent yn ei wneud i gynllunio ar gyfer cynaliadwyedd. |
| Paragraff 12.8.12 | Mae ynni gwynt graddfa strategol yn parhau i gynnig y potensial mwyaf ac mae'n rhan allweddol o fodloni gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cynhyrchu trydan adnewyddadwy yn y dyfodol. |
| Paragraff 12.8.19 | Cymorth penodol ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy a yrrir gan y gymuned. |
| Paragraff 12.9.7 | Dynodi potensial safleoedd tir llwyd trefol / diwydiannol. |
| Paragraff 12.9.9 | Mae datblygiadau ar raddfa o rhwng 50kW a 5MW yn cael eu nodi fel Is Awdurdod Lleol. Mae prosiectau o fewn y trothwy hwn yn berthnasol i bob rhan o Gymru a dylai cynlluniau datblygu annog datblygiad o'r fath a nodi'n glir y meini prawf lleol yn erbyn y rhai y byddid ynn gwerthuso |

| Rhan o PCC | Crynodeb o'r Mater a Nodwyd |
|-------------------|------------------------------------|
| | ceisiadau o'r fath. |

3.9 Mae rhannau eraill o Bolisi Cynllunio Cymru yn tynnu sylw at faterion y mae angen eu hystyried wrth ymdrin â cheisiadau o'r fath:

| Rhan o PCC | Crynodeb o'r Mater a Nodwyd |
|-------------------|--|
| Paragraff 12.8.13 | Yn datgan mai'r lleoliadau mwyaf priodol a ddynodir ar gyfer datblygu ffermydd gwynt ar raddfa fawr yw Ardaloedd Chwilio Strategol (SSA). Disgwylir i ddatblygiadau yn y lleoliadau hyn gyfrannu'n sylweddol at ddyheadau ynni gwynt ar y tir LIC. |
| Paragraff 12.8.12 | Yn amlygu bod: <ul style="list-style-type: none"> • ardaloedd dynodedig, rhywogaethau a chynefinoedd ac amgylchedd hanesyddol yn cael eu diogelu; • mesurau lliniaru yn ofynnol ar gyfer effeithiau andwyol posibl ar gymunedau lleol, tra'n sicrhau bod yr effaith bosibl ar hyfywedd economaidd yn cael ystyriaeth lawn; a • dylid optimeiddio ynni adnewyddadwy a charbon isel mewn datblygiadau newydd. |
| Paragraff 12.8.12 | Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod y cyflwyno strwythurau newydd, sy'n aml yn fawr iawn ar gyfer gwynt ar y tir angen eu hystyried yn ofalus er mwyn osgoi, a lle bo'n bosibl lleihau, eu heffaith. |
| Paragraff 12.8.14 | Fel arfer ni fydd datblygiad ffermydd gwynt mawr neu gynlluniau ynni adnewyddadwy a charbon isel eraill ar raddfa fawr yn briodol mewn ardaloedd a safleoedd sydd yn ddynodedig yn rhyngwladol neu genedlaethol. |

TAN 8 - Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy (2005)

3.10 Mae'r TAN yn gosod allan y prif agweddau cynllunio defnydd tir technolegau ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y materion perthnasol ar gyfer ynni gwynt ar y tir.

3.11 Isod ceir dyfyniadau o TAN 8 sy'n cefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy, gan gynnwys datblygu gwynt ar y tir:

| Rhan o TAN 8 | Crynodeb o'r Mater a Nodwyd |
|---------------------|---|
| Paragraff 2.2 | Nodi mai gan ynni gwynt ar y tir y mae'r potensial mwyaf ar gyfer cynnydd mewn cynhyrchu trydan o ynni adnewyddadwy yn y tymor byr i ganolig. |
| Paragraff 2.11 | Y potensial safleoedd tir llwyd trefol / diwydiannol |

| Rhan o TAN 8 | Crynodeb o'r Mater a Nodwyd |
|---------------------|--|
| | hyd yn hyn heb ei ddefnyddio i raddau helaeth, dylid annog safleoedd o hyd at 25MW ar safleoedd o'r fath. |
| Paragraff 2.12 | Rhoi anogaeth i gynlluniau ffermydd gwynt cymunedol llai (yn gyffredinol yn llai na 5MW). |
| Paragraff 2.14 | Bydd cyfleoedd i ailbweru ac / neu ymestyn ffermydd gwynt sy'n bodoli eisoes ac sydd o bosibl tu allan i Ardal Chwilio Strategol, a dylai'r rhain gael eu hannog ar yr amod bod yr effeithiau amgylcheddol a thirwedd yn dderbyniol. |

3.12 Mae rhannau eraill o'r TAN 8 yn amlygu materion sydd angen eu hystyried wrth ymdrin â cheisiadau o'r fath:

| Rhan o TAN 8 | Crynodeb o'r Mater a Nodwyd |
|---------------------|--|
| Paragraff 2.4 | Mae'r TAN yn nodi 7 ardal chwilio strategol (SSA) sy'n gallu darparu ar gyfer cynlluniau ynni gwynt ar y tir ar raddfa fawr. Nid yw'r un o'r ardaloedd hyn wedi eu lleoli o fewn Ynys Môn. |
| Paragraff 2.7 | Byddai rhannau helaeth o Gymru yn cael eu heithrio rhag cael eu hystyried fel Ardaloedd Chwilio Strategol yn enwedig ceisiadau gwynt mawr penodol mewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol gan y byddai hyn yn groes i bolisi cynllunio hir-sefydledig, ac felly ddim yn cael ei ystyried yn yr ardaloedd hyn. Yn yr un modd mae'r lefelau uchaf o ran dynodiadau cadwraeth natur a threftadaeth hefyd wedi cael eu heithrio |
| Paragraff 2.13 | Dylai'r rhan fwyaf o ardaloedd y tu allan i Ardaloedd Chwilio Strategol fod yn rhydd o gynlluniau ynni gwynt mawr. Efallai y bydd awdurdodau cynllunio lleol yn dymuno ystyried effaith gronnus cynlluniau bach mewn ardaloedd y tu allan i'r Ardaloedd Chwilio Strategol a sefydlu meini prawf sy'n addas ar gyfer pellteroedd gwahanu oddi wrth ei gilydd. Mae angen cael cydbwysedd rhwng dymunoldeb ynni adnewyddadwy a diogelu'r dirwedd. Er na ddylai arwain at gydbwysedd cyfyngiad difrifol ar ddatblygu capasiti ynni gwynt, mae achos dros osgoi sefyllfa lle mae tyrbinau gwynt yn cael eu lledaenu ar draws y cyfan o sir. Gall datblygiadau y tu allan i Ardal Chwilio Strategol dros 5MW a safleoedd tir llwyd trefol / diwydiannol gael eu gwrthod. |
| Paragraff 2.15 | Annog datblygwyr i gymryd rhan weithredol wrth ymgysylltu â'r gymuned leol ar geisiadau ynni adnewyddadwy. |

3.13 Mae paragraff 12.10.1 Polisi Cynllunio Cymru yn crynhoi'r materion y dylid eu cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu ar gais am ddatblygiad ynni adnewyddadwy a charbon isel a seilwaith cysylltiedig. Mae'r materion hyn wedi eu crynhoi isod:

- y cyfraniad y bydd cais yn ei wneud i gyfarfod â thargedau a nodwyd yn genedlaethol, yn y DU ac yn Ewropeaidd;
- manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ehangach, a chyfleoedd o ddatblygiad ynni adnewyddadwy a charbon isel;
- yr effaith ar y dreftadaeth naturiol, yr Arfordir a'r Amgylchedd Hanesyddol;
- yr angen i leihau'r effeithiau ar gymunedau lleol, i ddiogelu ansawdd bywyd ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol;
- ffyrdd o osgoi, lliniaru neu wneud iawn am yr effeithiau andwyol a nodwyd
- effeithiau newid yn yr hinsawdd ar leoliad, dyluniad, adeiladu a gweithredu datblygiad ynni adnewyddadwy a charbon isel. Wrth wneud hynny ystyried p'un a yw mesurau i addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd yn arwain at effeithiau ychwanegol;
- materion cysylltiad grid lle y cynigir datblygiadau ynni adnewyddadwy (trydan); a
- capasiti, ac effeithiau ar, y rhwydwaith trafniadaeth sy'n ymwneud ag adeiladu a gweithrediad y cais.

Rhaglen Ynys Ynni

- 3.14 Mae Rhaglen Ynys Ynni Môn yn ymdrech ar y cyd rhwng nifer o randdeiliaid yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat (gan gynnwys Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru) yn gweithio mewn partneriaeth i roi Ynys Môn ar y blaen o ran ymchwil a datblygu ynni, cynhyrchu a gwasanaethu, a allai ddod â manteision economaidd enfawr yn ei sgil. Mae'r rhaglen wedi cael ei chreu ac mae'n cael ei harwain gan Gyngor Sir Ynys Môn.
- 3.15 Mabwysiadodd Bwrdd Comisiynwyr Ynys Môn Adroddiad ar y Canlyniadau Posibl a Mesurau Perfformiad o'r rhaglen Ynys Ynni ym mis Hydref 2011.
- 3.16 Yng nghyswllt gwynt ar y tir rhoddir cefnogaeth i ficro gynhyrchu sy'n cynnwys ceisiadau gwynt micro a bach. Gwelir bod y cod ar gyfer cartrefi cynaliadwy yn sbardun pwysig o ran adeiladau newydd, a allai ysgogi marchnad ar gyfer mesurau safle o £2.3 biliwn y flwyddyn erbyn 2016. O ran tyrbinau gwynt, amcangyfrifir bod maint y farchnad (DU) fel a ganlyn:
- Gwynt bach (5-20kW) £204 miliwn y flwyddyn erbyn 2016;
 - Gwynt micro £78 miliwn y flwyddyn erbyn 2016.
- (Ffynhonnell: Ynys Ynni: Cyfleoedd posibl ac effeithiau economaidd) (URS, 2010)

Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) (2009-2014)

- 3.17 Mae'r Cynllun Rheoli, sy'n gynllun statudol mabwysiedig, yn cynnwys adroddiad ar gyflwr cyfredol yr AHNE ac mae'n rhoi manylion am newidiadau allweddol ers llunio'r cynllun cyntaf yn 2004. Mae hefyd yn amlinellu'r Weledigaeth (hyd at 2049) ynghyd â'r Strategaeth a Gweithredu ar gyfer rheolaeth gynaliadwy yr AHNE i'r dyfodol dros y 5 mlynedd nesaf.

- 3.18 ~~Prif bwrpas AHNE yw gwarchod a gwella harddwch naturiol yr ardal ddynodedig~~
Prif amcan dynodi AHNE yw cadw a gwella eu harddwch naturiol. Dylai polisiau cynlluniau datblygu a phenderfyniadau rheoli datblygu sy'n effeithio ar AHNE ffafrio cadwraeth harddwch naturiol, er y bydd hefyd yn briodol rhoi sylw i les economaidd a chymdeithasol yr ardaloedd. Mae gan awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus eraill ac awdurdodau perthnasol eraill ddyletswydd statudol i ystyried pwrpasau AHNE.
- 3.19 Rhoddir cefnogaeth tuag at gynhyrchu ynni adnewyddadwy ar raddfa briodol o fewn yr AHNE yn adran NH 2, fel y dangosir isod:
- “NH 2 Ynni Adnewyddadwy*
- NH 2.1 Annog a chefnogi mesurau cadwraeth ynni er mwyn helpu i gwrdd â thargedau cenedlaethol a rhanbarthol o ran y defnydd o ynni.*
- NH 2.2 Annog a chefnogi datblygu gallu i gynhyrchu ynni adnewyddadwy ar raddfa briodol i helpu i gyrraedd targedau cenedlaethol a rhanbarthol o ran cynhyrchu ynni adnewyddadwy.”*
- 3.20 Fodd bynnag, mae'r polisiau hyn yn cael eu cydbwysu yn erbyn polisiau datblygu sy'n ceisio atal datblygiadau amhriodol yn adran CCGA 3, fel y dangosir isod:
- “CCGA 3 Datblygiad*
- CCGA 3.1 Gwneud asesiad trylwyr o bob cynnig datblygu yn yr AHNE i leihau datblygu amhriodol a fydd yn niweidio rhinweddau arbennig a chymeriad yr AHNE neu gymeriad cyflawn safleoedd Ewropeaidd.”*
- Cynllun Rheoli Cyrchfan (DMP) (2012-2016)
- 3.21 Mae'r Cynllun Rheoli Cyrchfan yn gynllun i bawb sydd â diddordeb yn nyfodol twristiaeth yn Ynys Môn. **Pwrpas y cynllun yw cyd-drefnu sut y rheolir holl agweddau cyrchfan sy'n cyfrannu at brofiad yr ymwelydd.** Mae'n gosod y paramedrau ar gyfer datblygu twristiaeth yn Ynys Môn am y 4 blynedd nesaf. Y targed yw anelu at dwf realistig o 1-2% y flwyddyn yn nhermau gwerth neu 5% o dwf cyffredinol dros y pedair blynedd nesaf.
- 3.22 **Mae'r Cynllun yn ofynnol oherwydd y rôl bwysig sydd gan dwristiaeth, ynghyd â'r sector ynni, yn yr economi yn awr ac i'r dyfodol. Mae'r Cynllun yn disgrifio'r weledigaeth, amcanion strategol a'r Cynllun Gweithredu sydd eu hangen i wneud y mwyaf o gyfraniad twristiaeth. Cydnabyddir yr angen i sicrhau bod yr arfordir yn arbennig yn cael ei ddiogelu trwy ddefnydd da a chyson o gynllunio a dylunio o ansawdd uchel.** Mae'r cynllun yn cydnabod rôl bwysig twristiaeth yn yr economi leol. Yn ôl y model STEAM mae'n dod â £233m i'r economi leol ac yn cefnogi dros 4,000 o swyddi ar yr Ynys.
- 3.23 Y prif atyniad yw'r arfordir hardd ac amrywiol a thraethau rhagorol wedi'u cysylltu gan y Llwybr Arfordirol. Mae Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn drafft hefyd yn nodi twristiaeth fel blaenoriaeth allweddol.

- 3.24 Un bygythiad sydd wedi'i nodi yn y cynllun yw datblygiadau amhriodol yn y dirwedd neu sy'n rhy agos at gyfleusterau twristiaeth (e.e. tyrbinau gwynt/ peilonau).

Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Ynys Môn (2011-2014)

- ~~3.25 Mae Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru (2006) yn gosod dyletswydd ar bob Awdurdod a Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru i baratoi Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles. Mae'r strategaeth hon wedi cael ei datblygu ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.~~
- 3.26 Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar flaenoriaethau cynllunio a chomisiynu i'r dyfodol ar gyfer darparu gwasanaethau i wella iechyd a lles y boblogaeth. Yn ogystal, rhoddwyd pwyslais ar nodi ac ymdrin â phenderfynyddion ehangach o iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd.

4.0 Nodweddion Ynys Môn

- 4.1 Mae topograffeg yr ynys yn isel yn gyffredinol, gyda phatrwm tonnog yn cael ei fritho gyda brigiadau creigiog caletach megis Ynys Cybi, Mynydd Parys, Mynydd Bodafon a Mynydd Llwydiarth. Mae ffurf y tir yn disgyn o'r dwyrain i'r gorllewin, gyda nifer o ardaloedd isel ar hyd yr arfordir gorllewinol, gan gynnwys Aberffraw, Cors Malltraeth a Cwningar Niwbwrch. Mae'r patrwm tirffurf hwn yn cael ei adlewyrchu yn yr aliniad y cyrsiau dŵr sef gogledd-ddwyrain - de-orllewin.
- 4.2 Mae'r cymeriad cyffredinol hwn yn cuddio daeareg waelodol gymhleth ac effeithiau prosesau geomorffolegol megis rhewlifant. Mae'r ynys yn cynnwys rhai o'r creigiau hynaf yng Nghymru a Phrydain yn gyffredinol, ac mae'r rhain yn cael eu dangos yn glir yn nhopograffeg yr ynys. **Yn 2009, daeth Ynys Môn yr ail ardal yng Nghymru (a'r drydedd ar ddeg ar hugain yn Ewrop) i ddod yn Geoparc Ewropeaidd. Mae Geoparc Ynys Môn a elwir yn GeoMôn yn cynnwys enghreifftiau eithriadol o ddaeareg cyn-Gambriaidd ac mae'n un o'r llefydd gorau i astudio prosesau a nodweddion platiau tectonig.** Mae gorchudd coed helaeth yn brin, er bod coetiroedd hynafol lled-naturiol ar hyd yr Afon Menai, a gellir gweld planhigfeydd helaeth o amgylch Mynydd Llwydiarth a Chwningar Niwbwrch. Mae gan yr hanes diwylliannol gyfoethog gyda thystiolaeth o weithredoedd dyn sy'n ymestyn dros oddeutu 8000 o flynyddoedd. Mae dros 200 o Henebion Hynafol Rhestredig, yn amrywio o siambrau claddu o'r Oes Efydd i nodweddion canoloesol diweddarach. Mae nodweddion tirwedd mwy diweddar yn cynnwys tirluniau cynlluniedig stadau mawr, megis Plas Newydd, llwybrau trafniadaeth mawr, nodweddion diwydiannol gan gynnwys ynni niwclear a ffermydd gwynt. Mae'r amrywiad cyfoethog ac ansawdd yn y dirwedd arfordirol yn cael ei adlewyrchu gyda dynodiad fel Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.
- 4.3 Dynodwyd parth arfordirol Ynys Môn fel Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn 1966 ac fe'i cadarnhawyd yn 1967. Cafodd ei ddynodi er mwyn gwarchod apêl esthetig ac amrywiaeth tirwedd a chynefinoedd arfordirol yr ynys rhag eu datblygu'n amhriodol. Rhai o brif nodweddion yr AHNE Ynys Môn yw:
- clogwyni isel bob yn ail â childraethau a thraethau cerrig
 - clogwyni calchfaen serth yn gymysg â thraethau tywodlyd gwych
 - darnau o dwyni tywod gyda thraethau
 - **cynefinoedd amrywiol, o rostiroedd morol i fflatiau llaid**
 - **tirweddau hanesyddol pwysig**
- 4.4 Mae'r AHNE yn cynnwys y rhan fwyaf o arfordir 201 cilomedr (125 milltir) Ynys Môn ond hefyd mae'n cynnwys Mynydd Twr a Mynydd Bodafon. Ardaloedd sylweddol o dir arall sy'n cael eu diogelu gan yr AHNE yw'r cefndir i'r arfordir. Mae AHNE Ynys Môn yn cwmpasu oddeutu 221 cilomedr sgwâr (21,500 hectar), ac mae'r AHNE fwyaf yng Nghymru, yn cynnwys oddeutu traean o'r ynys. Mae'r AHNE yn gartref i tua 7000 o bobl ac mae cyflogaeth leol wedi'i seilio'n bennaf ar amaethyddiaeth a thwristiaeth.
- 4.5 Mae'r AHNE hefyd yn cynnwys tair adran o arfordir agored heb ei ddatblygu sydd wedi ei ddynodi'n Arfordir Treftadaeth. Mae'r dynodiadau anstatudol hyn yn ategu'r AHNE ac yn ymestyn dros tua 50 cilomedr (31 milltir) o arfordir.

- 4.6 Mae Llwybr Arfordirol Ynys Môn yn ffurfio rhan o Lwybr Arfordir Cymru Gyfan. Mewn gwirionedd cafodd y Llwybr Cenedlaethol ei ddatblygu allan o awydd i adeiladu ar lwyddiant economaidd Llwybr Cenedlaethol Arfordir Penfro a Llwybr Arfordirol Ynys Môn, y ddau ohonynt yn gyfranwyr pwysig i economi ymwelwyr Cymru. Mae hyn hefyd yn dangos pwysigrwydd yr arfordir i'r dirwedd.
- 4.7 Mae tua 2 filiwn o bobl yn ymweld â'r ynys bob blwyddyn, gan ddenu pobl o Ogledd Cymru, Gogledd Orllewin Lloegr a hefyd ymwelwyr o dramor. Mae'r mathau mwyaf poblogaidd o hamdden yn cynnwys hwylio, pysgota, beicio, cerdded, syrffio gwynt a sgïo jet.
- 4.8 Oherwydd natur tir isel yr Ynys, mae gan Ynys Môn batrwm anheddu sy'n cynnwys llawer o ganolfannau bach a chlystyrau ynysig gwasgaredig ledled yr Ynys. Dywed Ffocws Ystadegol ar Gymru Wledig (2008) y gall y ffaith bod dwy ardal gyda nifer tebyg o bobl i bob cilomedr sgwâr e.e. Ynys Môn a Sir Ddinbych, guddio gwahaniaethau sylweddol rhwng ardaloedd. Yn Ynys Môn, mae'r rhan fwyaf o bobl yn byw mewn aneddiadau bach sydd wedi'u gwasgaru'n eithaf cyfartal ar draws yr Ynys.

5.0 Ardaloedd o Gyfyngiadau

5.1 Mae'r adran hon yn tynnu sylw at y derbynyddion sensitif (ardaloedd neu rywogaethau a warchodir gan gynnwys bodau dynol) ar yr Ynys sydd angen eu hystyried gydag unrhyw gais. Nid yw ffin ardal ddynodedig yn awgrymu y dylai fod ffin glir rhwng gwerthoedd cadwraeth o fewn, a diystyru'r fath werthoedd tu allan. Felly, mae angen ystyried ei leoliad hefyd neu yn achos y buddiannau bioamrywiaeth yr effaith bosibl o ddatblygiadau y tu allan i'r safle e.e. llwybrau hedfan, newidiadau i hydroleg safleoedd gwlyptir ayb.

5.1.1 Mae'r adran wedyn yn defnyddio'r Canllawiau Arfer Gorau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru i fapio pob un o'r cyfyngiadau hyn er mwyn cynhyrchu asesiad strategol, lefel uchel o'r potensial ynni gwynt sydd ar gael ar gyfer ardal.

5.2 Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE)

5.2.1 Mae Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad yn darparu'r sail statudol ar gyfer dynodiad yr AHNE. Mae Deddf CRoW 2000 yn rhoi'r un amddiffyniad iddynt â Pharciau Cenedlaethol o ran tirwedd a harddwch golygfaol a rhoi dyletswydd statudol i lunio a chyhoeddi Cynllun Rheoli AHNE. Mae dyletswydd ar unrhyw gorff cyhoeddus, o dan adran 85 o Ddeddf CRoW, i roi sylw i bwrpas gwarchod a gwella harddwch naturiol yr AHNE. Dyma'r prif amcan er y bydd hefyd yn briodol rhoi sylw i les economaidd a lles cymdeithasol yr ardal. Mae nodweddion arbennig AHNE Ynys Môn yn helpu i diffinio'r dynodiad.

5.2.2 Mae'r amddiffyniad ar gyfer AHNE a Pharciau Cenedlaethol yn cael ei amlygu ym mharagraff 8.4 o Atodiad D TAN8 sy'n datgan:

“Mae amcan ymhlyg yn TAN 8 i gynnal cywirdeb ac ansawdd y tirwedd o fewn y Parciau Cenedlaethol / AHNEoedd Cymru h.y. dim newid yng nghymeriad y dirwedd o du ddatblygiadau tyrbinau gwynt.”

5.2.3 Yn unol â Pholisïau Cynllunio Cenedlaethol a Lleol (PCC para 5.3.5 i 5.3.7, 12.9.9, TAN 8 paragraff 2.12, polisi 30 Cynllun Lleol Ynys Môn a pholisi EN2 CDU wedi'i stopio) ni fydd tyrbinau gwynt Canolig a Mawr o fewn yr AHNE yn cael eu cefnogi. Ni fydd datblygiadau ar raddfa Micro a bach (hyd at 20m i ben y llafn) yn cael eu cefnogi oni bai eu bod yn dangos eu bod yn gwarchod a gwella harddwch naturiol yr AHNE.

5.2.4 Tu allan i'r AHNE ni ddylai unrhyw gais tyrbinau achosi niwed sylweddol i leoliad y dirwedd ddynodedig neu'r Parc Cenedlaethol. Bydd angen cynnal LVIA i ddangos unrhyw effaith bosibl y cynllun er mwyn sicrhau nad oes unrhyw niwed sylweddol yn digwydd o ganlyniad i'r cais.

5.2.5 Mae Cyngor Sir Ynys Môn mewn partneriaeth wedi cynhyrchu Cynllun Rheoli AHNE statudol a mabwysiedig sy'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am y dynodiad. Mae copi o gynllun rheoli'r AHNE ar gael ar wefan y Cyngor yn: <http://www.ynysmon.gov.uk/cynllunio-a-gwastraff/cefn-gwlad/ardaloedd-o-harddwch-naturiol-eithriadol-ahne/cynllun-rheoli-ahne-ynys-mn-2009-2014?redirect=false>

- 5.3 Tirweddau Hanesyddol, Parciau a Gerddi Hanesyddol o Ddiddordeb Arbennig yng Nghymru
- 5.3.1 Mae cofrestrau Tirweddau Hanesyddol, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Arbennig yng Nghymru yn ystyriaeth berthnasol yn y broses gynllunio. **Mae dwy dirwedd o ddiddordeb hanesyddol eithriadol ar Ynys Môn, sef Amlwch a Mynydd Parys, a Phenmon, yn ogystal ag wyth o barciau a gerddi hanesyddol.** Gellir cael gwybodaeth am ffiniau'r dynodiadau anstatudol hyn yng 'Nghofrestr o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru' gan Cadw, **Rhan 1: Cofrestr o Barciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig – Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn; a Rhan 2.1: Cofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol**
- 5.3.2 ~~Dylid cyfeirio at 'Ganllaw i Arfer Da ar Ddefnyddio'r Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru yn y Broses Cynllunio a Datblygu' (2007) Cadw. Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau manwl ar 'Asesiad o Arwyddocâd Effaith Datblygiad ar Ardaloedd o Dirwedd Hanesyddol ar y Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru' (ASIDOHL2).~~ **Gellir cael gwybodaeth am ffiniau'r dynodiadau anstatudol hyn yn y 'Gofrestr o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru, Rhan 1: Cofrestr o Barciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig - Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn; a Rhan 2.1: Cofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol (am ddisgrifiadau o dirwedd ardaloedd hanesyddol Amlwch a Mynydd Parys, a Phenmon) gan Cadw.**
- 5.3.3 Yn unol â'r polisiau cynllun datblygu perthnasol, ni ddylai ceisiadau achosi niwed sylweddol i gymeriad cyflawn ~~safleoedd rhyngwladol pwysig~~ **parciau, gerddi a thirweddau hanesyddol cofrestredig, ac safleoedd eraill** pwysig, boed wedi'u lleoli i mewn neu'n effeithio ar y dynodiad.
- 5.4 Dynodiadau Ecolegol Rhyngwladol
- 5.4.1 Mae paragraff 5.3.9 PCC yn nodi y bydd y Llywodraeth yn sicrhau yr amddiffynnir safleoedd cadwraeth natur statudol dynodedig rhyngwladol rhag difrod a dirywiad, gyda'u nodweddion pwysig yn cael eu gwarchod gan reolaeth briodol. Ceir canllawiau manwl mewn perthynas â cheisiadau datblygu a allai effeithio ar safle dynodedig rhyngwladol yn Atodiad 3 o TAN 5. Dylid cyfeirio at hyn gydag unrhyw gaisa allai effeithio ar safle o'r fath.

| Dynodiad | Disgrifiad |
|------------------------------------|--|
| Safleoedd Ramsar | Ardaloedd gwlyptir o bwysigrwydd rhyngwladol |
| Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC) | Ardaloedd sy'n cyfrannu at gynnal neu adfer statws cadwraeth ffafriol y cynefinoedd neu rywogaethau a restrir yn Atodiadau I a II y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. |
| Ardaloedd Gwarchodaeth | Ardaloedd dynodedig sy'n helpu |

| | |
|----------------|---|
| Arbennig (SPA) | gwarchod cynefinoedd i rywogaethau prin a bregus a rhywogaethau o adar mudol. |
|----------------|---|

5.4.2 Yn unol â'r polisiau cynllun datblygu perthnasol, ni ddylai ceisiadau achosi niwed sylweddol i gymeriad cyflawn safleoedd rhyngwladol pwysig, p'un a ydynt wedi'u lleoli oddi mewn neu tu allan i'r dynodiad a dylid gwneud iawn am golledion pan nad oes modd osgoi difrod.

5.4.3 Bydd angen asesiad priodol lle mae tebygolrwydd neu risg y bydd cynnig, (naill ai ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill) yn cael effaith sylweddol ar safle Ewropeaidd fel y nodir hynny ym mharagraff 5.4.1. Rhaid i ddatblygwyr roi digon o wybodaeth am y datblygiad arfaethedig fel y gellir dod i farn wybodus o ran ei effeithiau tebygol. Bydd y rhai sy'n methu â gwneud **y ddau uchod yn hyspysu** cael eu gwrthod o dan reoliad 61 Rheoliadau Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 **o dan reoliad 61 o Reoliadau Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010. Byddai methu â darparu'r wybodaeth hon yn arwain at wrthod y cais cynllunio..**

5.5 Dynodiadau Ecolegol Cenedlaethol

5.5.1 Yn achos SoDdGA, sydd o bwysigrwydd cenedlaethol, mae'r Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, yn gosod dyletswydd ar bob corff cyhoeddus (gan gynnwys awdurdodau cynllunio lleol) i gymryd camau rhesymol, sy'n gyson ag ymarfer priodol o'u swyddogaethau, i hybu cadwraeth a gwella'r nodweddion oherwydd y rheiny y mae'r SoDdGA o ddiddordeb arbennig. Gall SoDdGA gael eu difrodi gan ddatblygiadau o fewn neu gerllaw eu ffiniau, ac mewn rhai achosion, gan ddatblygiad sydd gryn bellter i ffwrdd. Mae paragraff 5.5.8 PCC yn nodi bod rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad sy'n debygol o niweidio SoDdGA.

| Dynodiad | Disgrifiad |
|--|---|
| Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI/ SoDdGA) | Mae SoDdGA yn ardaloedd o dir a ddynodwyd fel rhai o ddiddordeb cadwraeth natur cenedlaethol. |
| Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (NNR) | Mae ardaloedd o bwysigrwydd cadwraeth natur cenedlaethol yn cael eu dynodi'n Warchodfeydd Natur Cenedlaethol. |

5.5.2 Yn unol â'r polisiau cynllun datblygu perthnasol, ni ddylai ceisiadau gael effaith andwyol ar amcanion cadwraeth safleoedd a ddynodwyd fel rhai o bwysigrwydd bywyd gwyllt cenedlaethol, p'un a ydynt wedi'u lleoli oddi mewn neu'n effeithio ar y dynodiad.

5.6 Dynodiadau Ecolegol Lleol

| Dynodiad | Disgrifiad |
|---------------------------|-------------------------------|
| Gwarchodfeydd Natur Lleol | Dynodedig ar gyfer ddiddordeb |

| | |
|--|--|
| (LNR) | lleol gan y Cyngor. |
| Safleoedd Bywyd Gwyllt Ymgeisiol (CWS)/ Safleoedd Bywyd Gwyllt (WS) | Safleoedd anstatudol y tybir eu bod o werth arbennig ecolegol. |

5.6.1 Lle bo cais yn debygol o wneud niwed sylweddol i Warchodfa Natur Leol neu CWS/WS, dylai ond cael ei ganiatáu os gellir dangos bod rhesymau dros y cais sy'n gorbwyso'r angen i ddiogelu gwerth cadwraeth natur y safle ac y gellir lliniaru a digolledu'r effeithiau.

5.7 Arolygon ar gyfer Safleoedd Ecolegol Dynodedig

5.7.1 O ran safleoedd ecolegol dynodedig, mae arolygon ecolegol fwyaf tebygol o fod yn ofynnol ar gyfer ceisiadau a leolir yn agos at safleoedd o'r fath.

5.8 Dynodiadau Treftadaeth

5.8.1 Ni ddylai ceisiadau achosi niwed sylweddol i gymeriad ac ymddangosiad Ardaloedd Cadwraeth, Adeiladau Rhestredig, Henebion Cofrestredig, Safleoedd Treftadaeth y Byd, ~~neu~~ Arfordiroedd Treftadaeth **neu barciau a gerddi hanesyddol a thirweddau hanesyddol neu eu** gosodiad. Bydd angen cynnal asesiad addas i ddangos yn glir na fydd unrhyw niwed sylweddol yn digwydd o ganlyniad i'r cais.

5.8.2 Dylai pob cais barn sgrinio, ceisiadau barn gwmpasu a cheisiadau llawn ar gyfer cynlluniau tyrbin gwynt o fewn un o'r dynodiadau amgylcheddol hyn neu sy'n effeithio ar eu lleoliad, y golygfeydd i/o neu rhyngddynt, gael ei gyfeirio at Swyddog Cadwraeth Adeiladau'r Cyngor, a—Cadw **a Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd.**

5.9 Diddordebau Hedfan

5.9.1 Gall y symudiad o dyrbin gwynt ymyrryd â radar gan y gallai gael ei ddehongli fel gwrthrych sy'n symud. Gallai hyn beri iddo gael ei gamgymryd am awyren neu leihau'r gallu i olrhain awyrennau gan radar yn yr ardal datblygiad ynni gwynt.

5.9.2 Bydd angen i ddatblygwyr ymgynghori â gweithredwyr radar os yw cais yn dod o fewn parth ymgynghori 15 cilomedr, neu'r parth 30-32 cilomedr ymgynghorol o amgylch y ddau radar traffig awyr sifil a milwrol, yn y drefn honno. **Dylid hefyd ymgynghori â'r Weinyddiaeth Amddiffyn.** Mae canllawiau ar gael i gynorthwyo datblygwyr ar wefan yr Awdurdod Hedfan Sifil (<http://www.caa.co.uk/default.aspx?catid=1959>).

5.9.3 Mae'r Gwasanaethau Traffig Awyr Cenedlaethol (NATS) wedi dweud eu bod yn dymuno i ni ymgynghori ar yr holl geisiadau cynllunio neu geisiadau 'Hysbysiad o Fwriad i Ddatblygu' ar gyfer datblygiadau tyrbin gwynt waeth beth fo'u maint.

5.9.4 Ar Ynys Môn mae dau safle sef RAF Fali a Mona. At ddibenion asesiad strategol ar ddiwedd yr adran hon mae **eu lleoliad wedi cael ei nodi ar y mapiau.** ~~defnyddiwyd clustog o 5km o amgylch y safleoedd hyn. Mae hyn yn unol â'r Canllawiau Arfer Gorau.~~

5.10 Gosodiadau Darlledu

5.10.1 Gall tyrbinau gwynt ymyrryd â darllediadau electromagnetig trwy allyrru signal electromagnetig ei hun, gan ymyrryd â signalau electromagnetig.

5.10.2 Dylid ymgynghori'n gynnar gyda'r Swyddfa Gyfathrebu (OFCOM), sy'n dal cofrestr ganolog o'r holl weithredwyr cyfathrebiadau radio sifil yn y DU ac yn gweithredu fel pwynt cyswllt canolog ar gyfer nodi'r ymgynghoreion penodol sy'n berthnasol i safle. **Yn ogystal, dylid sicrhau ymgynghori cynnar ag Arqiva sy'n gweithredu'r rhwydwaith teledu yn y DU a'r rhan fwyaf o'r rhwydwaith trawsyrru radio.**

5.11 Derbynyddion Preswyl a Thwristiaeth

5.11.1 Mae Adran 7.0 y CCA yn cyfeirio at nifer o'r Materion Allweddol y mae angen eu gwerthuso o ran effaith bosibl y ceisiadau ar dderbynyddion preswyl a thwristiaeth.

5.11.2 At ddibenion yr ymarfer yn adran 5.12 isod rhoddwyd clustog gwahanol i bob pwynt cyfeiriad preswyl ar yr Ynys yn ddibynnol ar uchder y tyrbîn.

5.12 Potensial Ynni Gwynt ar Ynys Môn - Asesiad Strategol


5.12.1 Yn unol a Chanllawiau Arfer Gorau Llywodraeth Cymru - Ynni adnewyddadwy - Pecyn Cymorth i Gynllunwyr (2010) Llywodraeth Cymru, cynhaliwyd asesiad strategol lefel uchel o botensial ynni gwynt hygyrch. Mae hyn yn cynnwys defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) i fapio nifer fawr o gyfyngiadau er mwyn adnabod ardaloedd tir a allai o bosib fod yn addas ar gyfer datblygiadau gwynt.

5.12.2 Rhaid rhoi ystyriaeth i natur strategol yr ymarfer hwn, ac nad yw materion fel nodweddion presennol yn y dirwedd e.e. ffurf y tir, tyrbînau gwynt presennol, mastiau telegyfathrebu ayb. a'u heffaith gronnu wedi cael eu gwerthuso.


5.12.3 Mae'r mapiau isod yn seiliedig ar dyrbînau hyd at uchder pen llafn o 21m, 65m a 135m a'u pwrpas i'w dangos enghreifftiau o ardaloedd posib o gyfle ar gyfer tyrbînau gwynt canolig (rhwng 20.1m a 65m i ben y llafn) a thyrbînau gwynt mawr (hyd at 135m i ben y llafn). Gellir gweld manylion am y gwahanol dyrbînau gwynt yn adran 6.0 o'r CCA.

5.12.4 Mae'r ardaloedd mewn coch ac oren yn ardaloedd posibl ar yr Ynys. Serch hynny, **ni fwriedir i'r mapiau ddangos cefnogaeth na derbyniad ceisiadau yn yr ardaloedd hyn. Mae'r holl** ceisiadau ar gyfer datblygiadau tyrbîn gwynt yn yr ardaloedd hyn yn parhau i fod angen asesiad manwl **fel y nodir yn y Canllawiau hyn, sy'n dehongli polisïau a chanllawiau cynllunio lleol a chenedlaethol perthnasol.** yn erbyn yr holl bolisïau cenedlaethol a lleol perthnasol cyn y gellir eu efnogi. Ceir rhagor o wybodaeth yn adran 7.9 o'r CCA.


Map 1 – Asesiad Strategol 21m i uchder pen y llafn



Map 2 - Aseiad Strategol 65m i uchder pen y llafn



Map 3 - Asesiad Strategol 135m i uchder pen y llafn




6.0 Mathau a Meintiau o Dyrbinau Gwynt

6.1 Yn yr adran hon amlygir y ddau brif fath o dechnoleg tyrbinau. Mae hefyd yn rhoi diffiniad, at ddibenion y CCA hwn, o'r hyn yw datblygiad micro, bach, canolig a mawr o ran maint tyrbinau unigol, maint y ffermydd gwynt ac allbwn trydan.

Mathau o Dyrbinau Gwynt

6.2 Mae dau brif fath o dyrbinau gwynt - tyrbinau gwynt echel fertigol (VAWT) a thyrbinau gwynt echel lorweddol (HAWT) fel y dangosir yn y ffigwr isod:



Tyrbinau Gwynt Echel Fertigol

6.3 Mewn tyrbinau gwynt echel fertigol (VAWTs) mae'r brif siafft rotor trefnu yn fertigol. Gydag echelin fertigol, gall y cydrannau generadur ac eraill gael eu lleoli ger y ddaear fel nad yw'r twr angen ei gefnogi, sydd hefyd yn ei gwneud yn haws cynnal a chadw. Mae manteision VAWTs yn cynnwys:

- Cael llai o effaith ar y dirwedd a gellir eu hadeiladu mewn lleoliadau lle y byddai strwythurau talach yn cael eu gwahardd;
- Mae ganddynt arwynebedd wyneb mwy ar gyfer cipio ynni;
- Yn fwy effeithlon mewn gwyntoedd cryf;
- Gellir eu lleoli yn nes at y ddaear, gan ei gwneud yn haws i gynnal y rhannau symudol;
- chyflymder-cychwyn is na HAWTs;
- Wedi'u lleoli yn agos at y ddaear gallant fanteisio ar leoliadau lle mae toeau, brynau, llinellau crib neu bas yn sianelu gwynt ac yn cynyddu cyflymder y gwynt.

6.4 Mae anfanteision VAWTs yn cynnwys:

- Mae gan y rhan fwyaf o VAWTs effeithlonrwydd cyfartalog gostyngol o HAWT cyffredin, yn bennaf oherwydd y llusgo ychwanegol sydd gan eu llafnau wrth gylchdroi i mewn i'r gwynt. Mae fersiynau sy'n lleihau llusgo yn cynhyrchu mwy o ynni, yn enwedig y rhai hynny sy'n sianelu gwynt i mewn i'r ardal gasglu;
- Nid yw cael rotorau wedi'u lleoli yn agos at y ddaear lle mae cyflymder gwynt yn is yn cymryd mantais o gyflymder uwch y gwynt uwchlaw.

Tyrbinau Gwynt Echel Llorweddol

6.5 Tyrbinau gwynt echel lorweddol (HAWT) yw'r arddull mwyaf cyffredin o dyrbinau gwynt. Mae ganddynt gynllun tebyg i felin wynt, ac mae'r llafnau'n edrych fel llafn gwthio sy'n troi ar yr echelin llorweddol. Mae prif siafft rotor yr HAWTs a'r generadur trydan ar frig y tŵr, a gellir eu pwyntio i mewn neu allan o'r gwynt. Mae manteision HAWTs yn cynnwys:

- Goleddf llafn amrywiol sy'n rhoi'r ongl gorau bosibl o ymosodiad i'r llafnau tyrbinau;
- Mae sail y tŵr uchel yn caniatáu mynediad i wynt cryfach mewn safleoedd gyda gwyntoedd croesrym. Mewn rhai safleoedd gwynt croesrym, bob deg metr i fyny, gall y cyflymder y gwynt gynyddu o 20% a'r allbwn ynni o 34%;
- Effeithlonrwydd uchel gan fod y llafnau bob amser yn symud yn berpendicwlar i'r gwynt, gan dderbyn grym drwy'r cylchdro cyfan.

6.6 Mae anfanteision HAWTs yn cynnwys:

- Mae eu uchder yn eu gwneud yn oramlwg weladwy ar draws ardaloedd eang, gan amharu ar edrychiad y tirlun ac weithiau creu gwrthwynebiad lleol;
- Mae'r tyrau a llafnau tal hyd at 90 metr o hyd yn anodd eu cludo. Gall cludiant bellach gostio 20% o gostau'r offer;
- Mae HAWTs tal yn anodd eu gosod, sydd angen craeniau tal a drud iawn a gweithredwyr medrus;
- Mae angen adeiladu twr enfawr i gefnogi'r llafnau trwm, blwch gêr, a generadur;
- Gall adlewyrchiadau o HAWTs tal effeithio llabedau ochr gosodiadau radar gan greu annibendod signalau, er y gall hidlo ei atal;
- Mae amrywiadau cyfeiriad y gwynt ddiweddef o flinder a methiant strwythurol a achosir gan gynnwrf pan fydd llafn yn mynd trwy gysgod gwynt y tŵr (am y rheswm hwn, mae mwyafrif yr HAWTs yn defnyddio dyluniad o du'r gwynt, gyda'r rotor yn wynebu'r gwynt o flaen y twr);
- Angen mecanwaith rheoli yaw ychwanegol i droi'r llafnau tuag at y gwynt.

Maint y Tyrbin – Uchder at ben y llafn

6.7 Mae'r "Cyfarwyddyd Ymarfer: Goblygiadau cynllunio datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel" (Chwefror 2011), a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â chanllawiau a gyhoeddwyd gan lywodraethau cenedlaethol neu leol eraill yn cynorthwyo i ddarparu diffiniad o wahanol raddfeydd o dyrbinau.

Mae'r canllawiau hyn wedi galluogi categorio'r tyrbinau fel y dangosir yn y tabl 1 isod.

- 6.8 Bydd eu perthynas â'u hamgylchedd yn ystyriaeth allweddol o ran maint unrhyw dyrbin(au) arfaethedig.

Tabl 1

| | <i>Micro/ domestig</i> | <i>Bach</i> | <i>Canolig</i> | <i>Mawr</i> |
|---|----------------------------|--------------------------|--------------------------|---------------------------|
| <i>Ystod uchder nodweddiadol tyrbinau gwynt</i> | Hyd at 11m i ben y llafn | Hyd at 20m i ben y llafn | Hyd at 65m i ben y llafn | Hyd at 135m i ben y llafn |

- 6.9 At ddibenion eglurder mewn perthynas â gwahanol fathau o geisiadau, bydd y Cyngor yn defnyddio'r ystod uchder categorio'r tyrbinau bach, canolig a mawr fel sail ar gyfer ymdrin â cheisiadau tyrbinau gwynt ar y tir. Yn aml, mae'n anodd barnu maint tyrbinau heb rywbeth i osod ei **raddfa** yn ei erbyn. Dengys Tabl 2 uchderau cymharol elfennau a geir yn y dirwedd a allai fod wedi'u lleoli yn agos at dyrbinau arfaethedig.

Tabl 2 – Uchder Elfennau yn y Tirwedd

| Elfen tirwedd | Uchder mewn metrau |
|----------------------|---------------------------|
| Tŷ un llawr | 5 metr |
| Tŷ 1.5 i 2 llawr | 6—10 metr |
| Seilo graen fferm | 10 metr |
| Polyn telegraff | 10.5 metr |
| Coed coedwig aeddfed | 20 metr |
| Peilon | Fel arfer tua 30—35 metr |

[Bydd llun yn cael ei ddarparu yn y Canllawiau Cynllunio Atodol Mabwysiedig sy'n dangos (i raddfa) uchder y tyrbinau posibl yn erbyn nodweddion tirwedd, a fydd yn cynnwys nodweddion lleoli.]

Maint Tyrbinau – Allbwn Trydan

- 6.10 Fel arfer mae tyrbinau gwynt yn cael eu diffinio gan "gapasiti wedi'i raddio" sy'n cael ei fesur mewn cilowat (kW) neu megawat (MW). Mae'r "capasiti wedi'i raddio" yn cyfateb i'r uchafswm allbwn o drydan. Mae'n werth nodi bod:

- cynnydd yn niamedr rotor tyrbinau gwynt yn arwain at fwy na newid cyfrannol mewn ynni wedi'i raddio.
- Mae allbwn ynni'n gymesur â chiwb y cyflymder y gwynt, ac felly bydd dyblu cyflymder y gwynt yn arwain at gynnydd sydd yn fras wyth gwaith yn fwy mewn allbwn ynni. Bydd tyrbinau gwynt ar safle sydd â chyflymder gwynt cymedr blynyddol o 6 m/s (metr fesul eiliad) fel arfer yn cynhyrchu dim ond hanner cymaint o ynni â'r un peiriant ar safle lle mae cyflymder gwynt cyfartaledd blynyddol yn 8 m/s (TAN8).

- 6.11 Mae tabl 3 canlynol yn rhoi syniad bras o ynni a'r nifer posibl o gartrefi a all dderbyn cyflenwad gan y gwahanol fathau o dyrbinau a amlinellir uchod.

Tabl 3

| Graddfeydd nodweddiadol o dechnolegau tyrbîn gwynt unigol | | | |
|---|---------------|-----------------------------|------------------------------------|
| Graddfa | Ynni (kW) | Graddfa Tyrbîn Nodweddiadol | Nifer posib o gartrefi a gyflenwir |
| Micro | Llai na 2.5kW | 2.5kW | 0.7 |
| Bach | 1.5 – 50kW | 20kW | 6 |
| Canolig | 50kW – 750kW | 500kW | 205 |
| Mawr | Dros 750kW | 2.5MW | 1,536 |

(Ffynhonnell: "Canllawiau Ymarfer: Goblygiadau cynllunio datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel" (Chwefror 2011) Llywodraeth Cynulliad Cymru)

Graddfa Ffermydd Gwynt

- 6.12 Nid oes diffiniad clir o'r hyn sy'n cyfrif fel fferm wynt yn hytrach na cheisiadau lluosog tyrbinau gwynt unigol yn agos at ei gilydd. Fodd bynnag, mae'r Tabl yn Atodlen 2 Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (2008/2093) mewn perthynas ag adran 3 'Diwydiant Ynni' yn is-adran (i) yn cyfeirio at:

"Gosodiadau ar gyfer y harneisio pŵer y gwynt i gynhyrchu ynni (ffermydd gwynt)".

Yn y golofn trothwy a meini prawf berthnasol ceir cyfeiriad at

"(i) Mae'r datblygiad yn cynnwys gosod mwy na 2 o dyrbinau ..."

- 6.13 Er mwyn sicrhau cysondeb wrth ymdrin â gwahanol fathau o geisiadau bydd y CCA yn nodi unrhyw gais ar gyfer mwy na 2 dyrbin yn gyfystyr â fferm wynt.
- 6.14 Disgwylir i ddatblygiadau ffermydd gwynt mawr gael eu lleoli mewn Ardaloedd Chwilio Strategol a nodwyd yn TAN 8. Nid oes SSA yn cael ei nodi ar Ynys Môn. Mae potensial safleoedd tir llwyd trefol / diwydiannol o geisiadau hyd at 25MW yn cael eu hannog yn TAN 8. Oherwydd treftadaeth ddiwydiannol gyfyngedig Ynys Môn, mae cyfleoedd ar safleoedd o'r fath yn cael eu hystyried yn brin ar yr Ynys.
- 6.15 Dywed paragraff 2.13 TAN 8 ar gyfer ardaloedd sydd y tu allan i ardaloedd chwilio strategol a safleoedd tir llwyd trefol / diwydiannol, byddai Llywodraeth Cymru yn cefnogi cyfyngu ar bron yr holl ddatblygiadau ynni gwynt sy'n fwy na 5MW.
- 6.16 Yng ngoleuni hyn dylai datblygiadau ffermydd gwynt newydd gael eu cyfyngu i uchafswm allbwn o 5MW.
- 6.17 Yr eithriad i hyn fyddai ceisiadau ar gyfer ailbweru ffermydd gwynt presennol ar yr Ynys, sy'n cael ei gefnogi ym mharagraff 2.14 TAN8. O ystyried y dull yn TAN 8 ynglŷn â maint y datblygiad y gellid eu cefnogi ar safleoedd tir llwyd trefol / diwydiannol, dylai ailbweru datblygiadau ffermydd gwynt o'r fath gael ei gyfyngu hyd at 25MW.

- 6.18 Oherwydd yr amrywiad sylweddol ym maint y tyrbinau ac allbwn trydan, nid yw'r CCA yn cynnwys teipoleg o ffermydd gwynt. Bydd y gwaith asesu manwl sy'n ofynnol gydag unrhyw gynllun yn penderfynu p'un a all y raddfa o fferm wynt, o fewn y trothwyon allbwn ynni uchod, gael ei gynnwys ar yr Ynys.

Effaith allbwn ynni cronrus

- 6.19 Dros y ddwy flynedd ddiwethaf mae'r mwyafrif helaeth o'r ceisiadau a dderbyniwyd ar yr Ynys wedi bod ar gyfer naill ai tyrbîn unigol neu hyd at ddau dyrbin. Er bod rhannau eraill y CCA hwn yn sicrhau bod yr effeithiau gweledol a sŵn cronrus ceisiadau yn cael eu hystyried, mae angen rhoi ystyriaeth i allbwn ynni cyffredinol o geisiadau unigol lluosog. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw datblygiadau ffermydd gwynt mawr h.y. datblygiadau sy'n fwy na 5MW o drydan, yn cael eu creu drwy geisiadau unigol.
- 6.20 Mae asesiad o ddwysedd y ffermydd gwynt presennol ar yr Ynys yn rhoi'r lefelau dwysedd canlynol:

| Fferm Wynt | Cyfanswm Arwynebedd y safle (ha) (ardal cynllunio safle) | Nifer o dyrbinau | Lefel dwysedd (Tyrbin fesul ha) |
|---------------------|---|-------------------------|--|
| Rhyd y Groes | 280 | 24 | 11.7ha |
| Trysglwyn | 120 | 19 | 6.3ha |
| Llyn Alaw | 500 | 34 | 14.7ha |
| Cyffredinol | 900 | 77 | 11.6ha |

- 6.21 Caiff y lefel dwysedd cyfartalog ei gymhwyso i benderfynu os yw clwstwr o geisiadau cynllunio cyfagos (gweithredol, wedi eu caniatáu ond heb eu datblygu a cheisiadau byw) yn 'fferm wynt fawr'. Os ellir disgrifio tyrbina cyfagos fel 'fferm wynt fawr' oherwydd dwysedd adeiladu yn y parh yma, yna fe gaiff cyfanswm allbwn trydan yn cael ei gyfrifo. Os wnaiff y gwaith cyfrifo yma ddangos cyfanswm allbwn ynni sy'n uwch na 5MW yna fe gaiff y cynnig perthnasol ei asesu yn erbyn canllawiau cynllunio cenedlaethol sydd yn TAN 8, a gyfeirir ato yn 6.15 uchod.

Micro-gynhyrchu– Datblygiad a Ganiateir

- 6.22 O ddydd Llun 18^{fed} Mehefin, 2012 daeth yr Offeryn Statudol Gorchymyn 'Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2012 - Rhan 40 (Micro-gynhyrchu)' i rym. Mewn perthynas â thyrbinau gwynt mae'n cyflwyno hawliau datblygu a ganiateir newydd ar gyfer deiliaid tai sy'n dymuno gosod tyrbinau gwynt annibynnol (dosbarth H) (hyd at 11.1 metr o uchder) a mastiau anemomedr dros dro (dosbarth I) yn destun i amodau penodol e.e. Nid mewn AHNE, Cwrtil Adeilad Rhestredig, ar safle dynodedig fel Heneb Gofrestredig ayb. Deallir y bydd hyn yn cael ei ymestyn i eiddo annomestig cyn diwedd y flwyddyn.

7.0 Materion Allweddol

7.1 Mae'r adran hon yn amlygu materion penodol y dylid eu hystyried gyda chais:

7.2 Seilwaith

7.2.1 Mae Paragraffau 2.9 a 2.10 o Atodiad C yn TAN 8 yn cyfeirio at seilwaith sy'n gwasanaethu tyrbinau gwynt. Gallai'r rhain gynnwys mynediad digonol ar y ffyrdd, traciau ar y safle, sylfeini'r tyrbinau, lloriau caled i graen, mastiau anemomedr, safle adeiladu, ceblau trydanol, is-orsaf drydanol a rheoli adeiladu.

7.2.2 Y prif faterion i'w hystyried yw:

- i) Traciau Mynediad - bydd gofyn i ddatblygwyr a'u contractwyr, mewn ymgynghoriad â'r Cyngor, gynhyrchu Cynllun Rheoli Traffig ble y bydd datblygiadau tyrbinau gwynt yn golygu llwyth sylweddol cynyddol ar ffyrdd cyhoeddus. Bydd yr effeithiau posibl hyn yn llai arwyddocaol i dyrbinau gwynt unigol a thyrbinau micro. Oherwydd maint y cydrannau sy'n cael eu cludo, gellir hefyd gael materion mewn perthynas â chapasiti ffyrdd gwledig i ymdopi â'r llwythi. Dylai datblygwyr felly, ymgynghori â'r Adran Priffyrdd o ran cyflenwadau llwythi anarferol i'r safle datblygu
- ii) Cysylltiad ceblau trydan - Dylai llwybrau ceblau gael eu dewis yn ofalus er mwyn osgoi ardaloedd sensitif. **Dylai ceblau gael eu lleoli o dan y ddaear lle bynnag y bo'n ymarferol gwneud hynny.** Lle nad oes modd gosod llinellau pŵer o'r tyrbinau o dan y ddaear, dylid rhoi ystyriaeth ofalus i effaith weledol llinellau trawsyrru a seilwaith arall cysylltiedig.
- iii) Cloddio gan gynnwys gwaith draenio – mae angen rhoi ystyriaeth i effeithiau sy'n gysylltiedig â'r cyfnod adeiladu yn ogystal â goblygiadau unrhyw waith draenio. Dylai'r effaith bosibl ar ddŵr daear, ecoleg, tynnu uwchbridd, cyfradd a maint y graig i gael ei chloddio **a gweddillion archeolegol** i gyd gael eu hystyried.
- iv) Adeiladau rheoli, is-orsafedd a gwaith allanol - dylai unrhyw adeiladau arfaethedig a gwaith allanol sydd eu hangen fel rhan o'r datblygiad tyrbinau gael eu lleoli'n ofalus er mwyn lleihau eu heffaith weledol.
- v) Nodweddion Tirwedd Traddodiadol – fe ddylai datblygiadau osgoi colli gwrychoedd pwysig / hanesyddol, walïau cerrig / cloddiau, coed a ddiogelir ac amwynder a nodweddion tirwedd traddodiadol eraill sydd o fewn ffiniau'r safle neu oherwydd gwelliannau i fynedfeydd oddi ar y safle neu welliannau er mwyn gwasanaethu'r safle.

7.2.3 Mae arweiniad pellach ynglŷn â materion seilwaith mynediad yn cael eu cynnwys yn y rhestr wirio yn Atodiad 4, gweler adrannau 6 a 14.

7.2.4 Bydd angen manylion ynglŷn â'r materion hyn gydag unrhyw gais a rhoddir ystyriaeth i effaith bosibl y rhain yn ychwanegol at y tyrbinau arfaethedig

7.3 Sŵn

7.3.1 Mae TAN 8 - Ynni Adnewyddadwy (2005):

“Mae'r ‘Asesiad a Graddfa Sŵn o Ffermydd Gwynt’ (ETSU-R-97) yn disgrifio'r fframwaith ar gyfer mesur sŵn fferm wynt ac yn rhoi lefelau sŵn dangosol a gyfrifir i gynnig rhywfaint o amddiffyniad i gymdogion y fferm wynt, heb osod cyfyngiadau afresymol ar ddatblygu fferm wynt neu ychwanegu'n ormodol at y costau a beichiau gweinyddol ar ddatblygwyr ffermydd gwynt neu awdurdodau cynllunio. Mae'r adroddiad yn cyflwyno canfyddiadau'r Gweithgor Sŵn traws-fuddiannau ac yn gwneud cyfres o argymhellion y gellir ei ystyried fel cyfarwyddyd perthnasol ar arferion da.”

Datblygiadau Tyrbinau Gwynt Canolig neu Fawr (dros 20m) a Datblygiadau Ffermydd Gwynt

- 7.3.2 Ar gyfer tyrbinau mwy o faint a datblygiadau ffermydd gwynt sy'n dod o fewn y gofyniad am Asesiad Effaith Amgylcheddol, bydd asesiad sŵn llawn yn ofynnol a derbynnir ETSU-R-97 yn gyffredinol fel y meini prawf i osod amodau sŵn (yn gyffredinol a tonaidd) i'r fath ddatblygiad tyrbinau gwynt. Fodd bynnag, cyn y gall unrhyw asesiad gael ei wneud, byddai gofyn i'r datblygwr gomisiynu cyfres o arolygon sŵn cefndir yn y derbynyddion mwyaf sensitif o amgylch y safle. Fel arfer yn seiliedig ar $L_{A90, 10m}$ dylai'r mesuriadau sŵn cefndir eu cydberthynu'n erbyn cyflymder gwynt deilliadol (nid wedi'i fesur) 10 metr o uchder ar y safle fferm wynt arfaethedig.
- 7.3.3 Mae'r rhan fwyaf o gynhyrchwyr tyrbinau gwynt yn pennu lefelau allyriadau tyrbinau gwynt yn seiliedig ar gyflymder y gwynt 10 metr o uchder safonol. Fodd bynnag, mae cyflymder y gwynt yn amrywio yn ôl uchder (gwyntoedd croesrym) o safle i safle gan ddibynnu ar gyflwr y tir. Oni bai bod gwyntoedd croesrym safle penodol yn cael eu cymryd, mewn gwirionedd gellir cael gwahaniaeth sylweddol rhwng y lefelau sŵn a ragwelir a rhai gwirioneddol.
- 7.3.4 Er nad yw wedi ei gynnwys yn ETSU-R-97, cynghorir ni er mwyn goresgyn y broblem uchod, dylai lefelau sŵn cefndir gael eu cydberthynu â chyflymder gwynt deilliadol (nid wedi'i fesur) 10 metr o uchder, a gaiff ei gyfrifo trwy gymryd i ystyriaeth y gwynt croesrym penodol i'r safle. Er mwyn gwneud hyn, byddai angen mesur cyflymder y gwynt ar ddau uchder ar y safle drwy gydol yr arolwg sŵn gwaelodlin. Gwyddom fod rhaid i un uchder fod ddim llai na 60% o uchder y both arfaethedig a'r uchder sy'n weddill rhwng 40-50%. Mae'n rhaid i safon garwedd o hyd 0.05 metr gael ei ddefnyddio i gael cyflymder gwynt 10 metr o uchder.
- 7.3.5 Dylai'r dull Darogan Band Wythfed Safon Ryngwladol ISO9613-2 gael ei ddefnyddio er mwyn rhagweld lefelau sŵn allyriadau tyrbinau gwynt, gan ddefnyddio lefelau pŵer sŵn tyrbinau gwarantiedig a gefnogir gan ddata profion a chaniatáu ar gyfer ansicrwydd. Dylid tybio amodau atmosfferig o 10°C a 70% RH ynghyd â ffactor daear $G = 0.5$ (gydag uchder derbynnydd 4 metr) (ni ddylid tybio tir 'meddal' ($G = 1$)). Ni ddylid cynnwys cyfrifiad gwanhau rhwystr trwy ddefnyddio'r dull yn ISO9613-2 o fewn y rhagfyngiadau, ac yn gyffredinol ni ddylai unrhyw ystyriaeth

gael ei rhoi i wanhau rhwystyr gan y tirffurf, oni bai nad oes llinell-golwg rhwng y derbynnydd a'r pwynt uchaf ar y rotor.

- 7.3.6 Gan ddilyn y safon a amlinellir yn ETSU-R-97 a'r manylion ategol ychwanegol a amlinellwyd uchod, ni chaiff sŵn o'r tyrbinau gwynt fod yn fwy na lefel gyffredinol o 35dB(A) neu 5dB(A) (wedi'i fesur fel $L_{A90, 10 \text{ min}}$) uwchben y cefndir, pa un bynnag sydd fwyaf, hyd at gyflymder gwynt o 12m/s ar uchder 10m. At ddibenion y ddogfen hon $LA90=L_{Aeq} - 2\text{dB}$. Ceir enghraifft o amod cynllunio yn seiliedig ar y meini prawf asesu yn Atodiad 1.

Datblygiadau Tyrbinau Bach neu Unigol (hyd at 20m)

- 7.3.7 Mae ETSU-R-97 yn cynnig dull syml y gellid ei ystyried yn briodol ar gyfer datblygiadau tyrbinau bach neu sengl. Mae'r dull symlach yn awgrymu lle gall sŵn gael ei gyfyngu i lai na 35dB $L_{A90, 10\text{m}}$ hyd at gyflymder gwynt o 10m/s ar uchder 10m, yna byddai'r amod hwn ar ben ei hun yn cynnig gwarchodaeth amwynder digonol.
- 7.3.8 Fodd bynnag, mewn gwirionedd, oni bai bod tyrbinau sengl mwy o faint yn cael eu lleoli ymhellach na 400-500 metr o eiddo preswyl (heb gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â'r datblygiad), mae'n annhebygol y byddent yn gallu cydymffurfio â'r dull syml hwn a byddai angen defnyddio methodoleg lawn ETSU-R-97 yn lle hynny.
- 7.3.9 Bydd yr Awdurdod Lleol yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd ymgymryd â phroffion sŵn, ar ei gost ei hun, i ddangos cydymffurfiaeth ag unrhyw amod sŵn, petai cwyn y gellir ei chyfiawnhau o niwsans sŵn am y tyrbinau gwynt yn cael ei derbyn. Bydd y fethodoleg a ddefnyddir i benderfynu ar gydymffurfiaeth yn cael ei chytuno gydag Adain Iechyd yr Amgylchedd yr Awdurdod Lleol. "

Tyrbinau Gwynt Micro-Domestig

- 7.3.10 Tyrbinau gwynt domestig yw tyrbinau a godir i ychwanegu at y defnydd o drydan gan dy unigol. Mae'r allbwn pŵer is yn caniatáu i'r tyrbinau hyn gael diamedr llafn llai a mastiau byrrach na modelau mwy. Mewn llawer o achosion, mae hyn yn dod â gostyngiadau sŵn sylweddol yn ei sgil, a all ganiatáu i'r tyrbinau gael eu lleoli yn nes at eiddo cyfagos na'r hyn a awgrymwyd uchod. Argymhellir y dylai'r canllawiau canlynol gael eu dilyn wrth ystyried gosod cyfarpar o'r fath:
- Dim ond ar ôl i'r eiddo gael ei arolygu'n broffesiynol gan y gwneuthurwr/gosodwr tyrbinau y dylai safle tyrbinau gwynt gael ei benderfynu.
 - Ni chaiff ceisiadau fel arfer eu hystyried oni bai bod gwneuthuriad a model penodol y tyrbinau wedi'i bennu, a bod gwybodaeth y gwneuthurwr ar lefelau sŵn a ragwelir yn cyd-fynd ag ef, yn cael ei chefnogi gan ddata prawf.
 - Er mwyn lleihau'r posibilrwydd o niwsans sŵn, dylai tyrbinau gael eu lleoli i ffwrdd o ffiniau a ffenestri eiddo arall sy'n sensitif i sŵn. Mae'n werth cofio y gallai eiddo cymydog newid dwylo, ac er gwaethaf cytundeb â'r preswlydd blaenorol, nid yw'r trigolion newydd yn cael eu hatal rhag gwneud cwyn o niwsans sŵn i'r Cyngor.
 - Dylai'r tyrbinau gael eu osod gan berson cymwys addas, yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a'r arolwg safle.

- Bydd y tyrbinau gwynt yn cael eu cynnal a'u cadw yn unol ag argymhellion y gwneuthurwr.

7.3.11 Yn ogystal â'r uchod, byddai'r amod sŵn canlynol hefyd yn cael ei ddefnyddio gyda'r datblygiad: -

"Ni chaiff y sŵn o'r tyrbinau fod yn fwy na'r mwyaf o 40dB L_{aeq} (5 min) neu 5dB(A) uwchlaw'r sŵn cefndir L₉₀ 3.5m o ffasâd unrhyw eiddo cyfagos lle mae rhywun yn byw, nad yw ym mherchnogaeth yr ymgeisydd. Pan fydd y rhan agosaf o unrhyw eiddo cyfagos uwchlaw lefel y ddaear, bydd y lleoliad monitro 1m o'r ffasâd a defnyddir cywiriad ffasâd o 3dB(A)."

Siffrwd y llafn neu Fodylu Osgledau

7.3.12 Y term technegol ar gyfer siffrwd y llafn yw Modylu Osgledau [AM] ac mae'r Ddogfen "Methodoleg Cwynion Niwsans Statudol Sŵn Fferm Wynt" - a gynhyrchwyd gan DEFRA yn 2011 yn nodi:-

"Er nad yw'r holl achosion yn hysbys, mae'n ymddangos bod AM yn tueddu i ddigwydd o dan amodau meteorolegol arbennig a bod y dystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael yn awgrymu bod effaith hwn yn debygol o fod yn amlwg mewn lleiafrif o ffermydd gwynt. Ar ben hynny, mae'n faes technegol iawn; er gwaethaf ymchwil gan ymchwilwyr niferus dros yr 20 mlynedd diwethaf, nid oes hyd yn hyn unrhyw esboniad a dderbynnir yn gyffredinol ynghylch yr hyn sy'n achosi AM na ffordd o ragweld ei ddigwyddiad "

7.3.13 Mabwysiadodd yr Arolygydd Cynllunio yn Ymchwiliad Denbrook (APP/Q1153/A/06/2017162) yn 2009 y fethodoleg ganlynol ar gyfer mesur Modylu Osgledau: -

"Modylu Osgledau yw modiwlleiddio o lefel y sŵn band eang sy'n cael ei allyrru gan dyrbin ar amllder pasio llafn. Bydd y rhain yn cael eu hystyried yn fwy na'r disgwyl os bydd y nodweddion canlynol yn berthnasol:

- a) Newid yn y mesur LAeq, 125 milieiliadau tyrbinau lefel y sŵn o fwy na 3 dB (a gynrychiolir fel codi a gostwng mewn lefelau ynni sŵn pob un o fwy na 3 dB) sy'n digwydd o fewn cyfnod o 2 eiliad.*
- b) Ni fydd y newid a nodir yn (a) uchod yn digwydd llai na 5 gwaith mewn unrhyw un cyfnod o un munud a bwrw bod y LAeq, tyrbinau lefel ynni sŵn tyrbinau 1 munud ar gyfer y funud ddim is na 28 dB.*
- c) Ni fydd y newidiadau a nodir yn (a) a (b) yn digwydd am lai na 6 munud mewn unrhyw awr. Bydd allyriadau sŵn yn nhŷ'r achwynydd yn cael ei fesur ddim pellach na 35m o'r adeilad perthnasol, ac nid yn nes na 3.5m o fewn unrhyw adeilad neu wyneb adlewyrchol, neu o fewn 1.2m o'r ddaear."*

7.3.14 Fodd bynnag, roedd gan adroddiad DEFRA y canlynol i'w ddweud am yr amod yma: -

"Awgrymir y gallai'r dull uchod, er nad yw'n syml na'n hawdd i'w weithredu efallai, roi man cychwyn wrth geisio mesur AM yn ôl mesur uniongyrchol, er nad yw'n

cynrychioli dull wedi'i ddilysu o asesu arwyddocâd unrhyw effaith nac effaith ar amwynder , ac nid yw'n rhoi trothwy ar gyfer Niwsans Statudol."

Ar adeg ysgrifennu'r Canllawiau Cynllunio Atodol, roedd y Gweithgor Sŵn (a ffurfiwyd o dan gyfarwyddyd y Sefydliad Acwsteg) yn paratoi i gyhoeddi ei ddogfen ymgynghoriad terfynol ar adolygiad o faterion technegol sy'n gysylltiedig ag asesiad o sŵn tyrbinau gwynt. Rhagwelir y bydd y ddogfen hon yn cynnwys trafodaeth ar Fodylu Osgledau. Unwaith y bydd wedi'i chyhoeddi, bydd datblygwyr yn cael eu cynghori i gysylltu ag Adain Iechyd yr Amgylchedd, am ddehongliad yr Awdurdod Lleol o'r canllawiau hyn.

Tonyddiaeth

- 7.3.15 Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn rhwystro'r defnydd o'r tyrbinau sydd wedi eu nodi fel rhai tonyddol. Bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried adroddiadau sŵn a gynhaliwyd gan ddefnyddio naill ai'r "Safon Diogelwch a pherfformiad Tyrbin Gwynt Bach BWEA" (Chwefror 2008) neu BS EN 61400-11:2003 "Systemau generadur tyrbin gwynt - Rhan 11: technegau mesur sŵn acwstig" fel asesiadau priodol o donyddiaeth tyrbin. Fodd bynnag, mae'r amod cynllunio enghreifftiol a geir yn Atodiad 2 yn seiliedig ar y dull a amlinellir yn ETSU-R-97.

Effaith Sŵn Cronnus

- 7.3.16 Mae'n bosibl y gallai lleoliad y tyrbinau gwynt ychwanegol yn agos at safleoedd presennol gynyddu lefelau sŵn i eiddo cyfagos. Mae ETSU-R-97 yn cyfeirio at y mater o effaith cronnus fel a ganlyn: -

"Mae'r Gweithgor Sŵn o'r farn y dylai terfynau sŵn absoliwt ac ymylon uwchlaw'r chefnidir ymwneud ag effaith gronnus yr holl dyrbinau gwynt yn yr ardal sy'n cyfrannu at y sŵn a dderbynnir yn yr eiddo dan sylw. Mae'n amlwg yn afresymol awgrymu, oherwydd bod fferm wynt wedi'i hadeiladu yn y cyffiniau yn y gorffennol wedi arwain at lefelau sŵn cynyddol mewn rhai anheddau, bod trigolion yr anheddau hynny bellach yn gallu goddef lefelau hyd yn oed uwch o sŵn. Ni ddylai'r fferm wynt bresennol gael ei hystyried fel rhan o'r sŵn cefndir cyffredinol."

- 7.3.17 Lle bwriedir codi tyrbin gwynt o fewn neu'n agos at barth dylanwad sŵn rhagweledig tyrbin arall, fferm wynt neu grŵp o ffermydd gwynt, dylid cynnal asesiad sŵn cronnus. Rhaid i ffin y "Parth Dylanwad Sŵn a Ragwelir" fod yn gyfartal â'r cyfuchlin 35dB LA90 yn seiliedig ar wynt o 10m/s ar uchder 10m. Rhaid i'r Ymgeisydd ymgynghori â'r Awdurdod Lleol ar union ddehongliad a lleoliad y gyfuchlin hon.
- 7.3.18 Bydd yr asesiad sŵn cronnus angen dangos bod y lefel sŵn cyfunol o bob tyrbin/au gwynt ddim yn fwy na lefel gyffredinol o 35 dB (A) neu 5DB (A) uwchlaw y cefndir hyd at gyflymder gwynt o 12m/s ar uchder 10m. Bydd y lefelau sŵn cefndir a'r asesiad sŵn yn mabwysiadu'r un fethodoleg sy'n cael ei hamlinellu yn hwnnw ar gyfer "tyrbinau mwy o faint a datblygiadau ffermydd gwynt" a grybwyllir uchod, a rhaid i'r ymgeisydd wneud pob ymdrech i sicrhau bod y cyfnodau tawel yn ystod y dydd a'r nos, a ddefnyddir ar gyfer yr asesiad sŵn cefndir, ddim yn cael eu dylanwadu gan unrhyw dyrbinau gwynt gerllaw.

7.4 Diogelwch

- 7.4.1 Mae Paragraff 2.20 TAN 8 yn nodi y bydd y pellter dymunol lleiaf rhwng tyrbin ac eiddo lle mae pobl yn byw fydd fel arfer yn fwy na'r hyn sy'n ofynnol i fodloni gofynion diogelwch.
- 7.4.2 Bydd angen gwybodaeth gyda'r cais sy'n dangos bod ystyriaeth wedi cael ei rhoi i safle unrhyw dyrbin arfaethedig mewn perthynas ag agosrwydd unrhyw ddatblygiad o amgylch a'r risg o anaf i bobl drwy fethiant offer trychinebus neu daflu rhew ac effeithiau posibl tynnu sylw gweledol i ddiogelwch ar y ffyrdd. Mae Adran 6 y rhestr wirio yn Atodiad 4 yn delio â'r mater hwn.

7.5 Effeithiau Tirwedd a Gweledol

- 7.5.1 Mae hon yn ystyriaeth allweddol ar gyfer ceisiadau ar gyfer tyrbinau gwynt ar Ynys Môn oherwydd gwerth uchel yr amgylchedd a adlewyrchir yn y nifer o ddynodiadau ar yr Ynys sy'n cynnwys yr AHNE, Ardaloedd Cadwraeth, Adeiladau Rhestredig, Heneb Gofrestredig, Arfordir Treftadaeth, Tirweddau Hanesyddol / Gerddi a Safle Treftadaeth y Byd.
- 7.5.2 Bydd lefel yr LVIA sy'n ofynnol yn dibynnu ar y cais, ei leoliad, ac agosrwydd at dderbynyddion sensitif. Ceir canllawiau yn adran 11 o'r rhestr wirio yn Atodiad 4 ynglŷn â'r manylder sydd ei angen gyda gwahanol fathau o geisiadau.
- 7.5.3 Dylai offer megis LANDMAP, a ddatblygwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, **neu ASIDOHL2, a gaiff ei hyrwyddo gan Cadw a Chyngor Cefn Gwlad Cymru** gael ei ddefnyddio i helpu asesu effeithiau gweledol y tyrbinau gwynt a'u seilwaith cysylltiedig, fel ffyrdd mynediad a chysylltiadau grid. Mae LANDMAP, y dull Cymreig o asesu tirwedd, yn adnodd tirwedd GIS (System Gwybodaeth Ddaearyddol) lle mae nodweddion tirwedd, nodweddion a dylanwadau ar y tirweddau yn cael eu cofnodi a'u gwerthuso mewn set ddata sy'n gyson yn genedlaethol. Mae'r linc yma yn mynd a chi i dudalen LANDMAP ar safle we CCGC: <http://www.ccg.gov.uk/landscape--wildlife/protecting-our-landscape/landmap.aspx?lang=cy-gb>
- 7.5.4 Mae 'Diweddariad Strategaeth Tirwedd' (2011) Cyngor Sir Ynys Môn wedi cael ei gynhyrchu gan ddefnyddio LANDMAP. Dylid cyfeirio at yr ardal(oedd) cymeriad perthnasol yn y strategaeth wrth asesu cynlluniau newydd. Gellir gweld copi yn: <http://www.anglesey.gov.uk/planning-and-waste/planning-policy/landscape-strategy?tab=downloads>
- 7.5.5 Mae'r 'Canllawiau ar gyfer Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol' gan y Sefydliad Tirwedd a'r Sefydliad Asesiad Amgylcheddol 2il argraffiad a Chyngor Cefn Gwlad Cymru yn dogfennu 'Nodyn Canllawiau Gwybodaeth LANDMAP 3: Defnyddio LANDMAP ar gyfer Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol Tyrbinau Gwynt ar y Tir' hefyd yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol. Mae'n rhaid i'r rhain gael eu defnyddio wrth baratoi LVIAs i dyrbinau canolig i fawr. Gall y fethodoleg gael ei haddasu fel y bo'n briodol ar gyfer ceisiadau tyrbin micro a bach.

- 7.5.6 Gweler Atodiad 3 - 'LANDMAP 2011 Gwerthusiad Tirwedd Cyffredinol am fapiau ar y themâu canlynol: Gweledol a Synhwyraidd, Tirweddau Diwylliannol, Tirweddau Hanesyddol, Tirweddau Daearegol a Chynefinoedd Tirwedd.

Mae ASIDOHL2 yn anstatudol ac yn ymgynghorol yn unig. Ei fwriad ydy cynorthwyo awdurdodau cynllunio lleol i benderfynu faint o bwysau i roi i wybodaeth yn y Gofrestr pan yn penderfynu ar geisiadau cynllunio. Bwriedir iddo gynorthwyo eraill sy'n rhan o'r broses cynllunio a datblygu yng Nghymru, yn enwedig datblygwyr sy'n paratoi datganiadau Asesiad Adrawiad Amgylcheddol, er mwyn cynnig cynlluniau a chynigion sy'n cael yr effaith leiaf posib ar ardaloedd tirwedd hanesyddol ar y Gofrestr O Dirweddau Hanesyddol o Bwysigrwydd, - ceir dwy ardal ym Mon.

- 7.5.7 Yn unol â Pholisïau Cynllunio Cenedlaethol a Lleol (PCC para 12.9.9, TAN 8 paragraff 2.12, polisi 30 Cynllun Lleol Ynys Môn a pholisi EN2 CDU wedi'i stopio) ni fydd tyrbinau gwynt Canolig a Mawr o fewn yr AHNE yn cael eu cefnogi. Ni fydd datblygiadau ar raddfa Micro a bach (hyd at 20m i ben y llafn) yn cael eu cefnogi oni bai eu bod yn dangos eu bod yn gwarchod a gwella harddwch naturiol yr AHNE.
- 7.5.8 Tu allan i'r AHNE ni ddylai unrhyw gais tyrbîn achosi niwed sylweddol i leoliad y dirwedd ddynodedig neu'r Parc Cenedlaethol. Bydd angen cynnal LVIA i ddangos unrhyw effaith bosibl y cynllun er mwyn sicrhau nad oes unrhyw niwed sylweddol yn digwydd o ganlyniad i'r cais.
- 7.5.9 Mae'r ffigwr o 20m i ben y llafn yn uchafswm, ac ni ddylid ei weld fel targed ar gyfer tyrbinau yn y lleoliadau hyn. Bydd ceisiadau o fewn y paramedr hwn sy'n cael effaith annerbyniol yn cael eu gwrthod. Bydd ceisiadau'n cael eu gwerthuso yn erbyn y materion perthnasol a amlygwyd yn y CCA hwn, gan gynnwys yr effaith gronnus ar yr AHNE.
- 7.5.10 Yn y mwyafrif o achosion, bydd yn ofynnol cael LVIA; dylai ymgeiswyr gysylltu ag Adain Amgylchedd Adeiledig a Thirwedd y Cyngor i sefydlu a chytuno ar hyd a lled yr asesiad, gan gynnwys dewis o fannau gwyllo. Mae'r ZTV i gael ei gytuno ar y dechrau a dilyn y pellteroedd a argymhellir yn adran 11 o'r rhestr wirio yn Atodiad 4.

7.6 Effeithiau Tirwedd a Gweledol Cronnus

- 7.6.1 Gall y gydberthynas rhwng tyrbinau unigol gael effaith allweddol ar dirwedd. Gall arwain at bentyrru a rhoi'r argraff weledol o grynhoed o ffermydd / tyrbinau gwynt hyd yn oed os ydynt mewn gwirionedd yn bell oddi wrth ei gilydd. Gelwir hyn yn effaith gronnus, sy'n ystyriaeth bwysig wrth wneud penderfyniadau.
- 7.6.2 Mae effaith gronnus yn dod yn fwyfwy perthnasol i asesu datblygiadau tyrbinau gwynt wrth i fwy o geisiadau gael eu cyflwyno. Gall y ffenomenon yma godi lle mae datblygiad ynni gwynt presennol a chynigir estyniad iddo neu lle mae cynigion ar gyfer datblygiadau ynni gwynt eraill yn yr un ardal. Bydd yr effaith weledol yn amrywio gan ddibynnu ar ai cynnig ar gyfer tyrbîn unigol, neu glwstwr neu fferm

wynt fawr ydyw. Gall effeithiau cronrus fod yn andwyol neu beidio, gan ddibynnu ar y cynigion ac ar osodiad tirwedd neilltuol. Felly rhaid gwerthuso capasiti'r dirwedd i dderbyn pob tyrbîn ynghyd ag effaith gronrus grŵp o dyrbînau.

7.6.3 Mae rhywfaint o effaith cronrus yn gynnyrch y nifer o ffermydd / tyrbînau gwynt unigol a'r pellter rhyngddynt, y rhyngberthynas rhwng eu Parthau Dylanwad Gweledol (ZVI), cymeriad cyffredinol y dirwedd a'i sensitifrwydd i ffermydd / tyrbînau gwynt, y berthynas gyda strwythurau adeiledig eraill a lleoliad a dyluniad y ffermydd gwynt eu hunain. **Mae effaith gyffredinol llinellau trawsyrru a seilwaith cysylltiedig hefyd yn ystyriaethau pwysig wrth asesu effaith gronrus datblygiadau tyrbînau gwynt.** Mae'n bwysig cydnabod bod effaith gronrus yn effeithio ar amwynder gweledol yn ogystal â'r dirwedd.

7.6.4 Mae effeithiau cronrus ar amwynder gweledol yn cynnwys gwelededd ac effeithiau cyfunol dilyniannol.

- Mae Gwelededd Cyfunol yn digwydd lle mae'r arsylwr yn gallu gweld dau neu fwy o ddatblygiadau o un safbwynt. Wrth ystyried yr effeithiau cronrus sy'n deillio o welededd cyfunol, mae angen ystyried, ar gyfer pob un o'r safbwyntiau o fewn ZVI y fferm /tyrbînau gwynt dan sylw, yr effaith gyfun o'r holl ffermydd / tyrbînau gwynt sydd (neu a fyddai'n) weladwy o'r safbwyntiau hyn. Gall Gwelededd Cyfunol fod naill ai'n gyfuniad (lle mae nifer o ffermydd / tyrbînau gwynt o fewn arc gwelededd yr arsylwr ar yr un pryd) neu yn olynol (lle mae'r arsylwr yn gorfod troi i weld y ffermydd / tyrbînau gwynt amrywiol).
- Mae effeithiau dilyniannol yn digwydd pan fydd yr arsylwr yn gorfod symud i safbwynt arall i weld datblygiadau gwahanol. Dylai effeithiau dilyniannol gael eu hasesu ar gyfer teithio ar hyd llwybrau a ddefnyddir yn rheolaidd - fel prif ffyrdd neu lwybrau poblogaidd.

7.6.5 Efallai y bydd achosion o effeithiau dilyniannol amrywio o'r *aml ddilyniannol* (y nodweddion yn ymddangos yn rheolaidd a chyda bylchau amser byr rhyngddynt, yn dibynnu ar gyflymder teithio a phellter rhwng y safbwyntiau) i rai sydd o *bryd i'w gilydd yn ddilyniannol* (bylchau amser hir rhwng ymddangosiadau, oherwydd bod yr arsylwr yn symud yn araf iawn a / neu fod pellteroedd mawr rhwng y safbwyntiau.)

7.6.6 Bydd effeithiau gweledol cronrus yn amrywio o ran graddfa gyda

- nifer a sensitifrwydd y derbynyddion gweledol;
- hyd, amllder a natur gyfunol a dilyniannol y golygfeydd (cipolwg neu olwg hirach; golygfeydd ar osgo, wedi'u hidlo neu'n fwy uniongyrchol; gwahaniad amser rhwng safbwyntiau dilyniannol);
- effaith gymharol pob fferm /tyrbîn gwynt unigol, o ran amwynder gweledol; a
- phresenoldeb strwythurau adeiledig eraill.

7.6.7 Mae effeithiau cronrus tirwedd yn effeithio ar ffabrig ffisegol neu gymeriad y dirwedd, neu unrhyw werthoedd arbennig sydd ynghlwm wrth y dirwedd.

- Mae effeithiau cronrus ar *ffabrig ffisegol* y dirwedd yn codi pan fydd dau neu fwy o ddatblygiadau yn effeithio ar elfennau tirwedd megis coetiroedd a

gwrychoedd. Er na all hyn effeithio'n sylweddol ar gymeriad tirwedd, gall yr effaith gronnus ar y cydrannau hyn fod yn sylweddol.

- Gall effeithiau cronnus ar *gymeriad y dirwedd* yn deillio o ddau neu fwy o ddatblygiadau ffermydd neu dyrbinau gwynt yn ogystal â seilwaith bresennol fel peilonau neu fastiau trydan. Mae tyrbinau gwynt neu ffermydd gwynt yn cyflwyno nodweddion newydd i'r dirwedd. Yn y ffordd hon, gall newid yng nghymeriad y dirwedd greu math gwahanol o gymeriad tirwedd, mewn ffordd debyg i goedwigo ar raddfa fawr. Gall y newid hwn fod yn andwyol i gymeriad tirwedd neilltuol; mewn rhai achosion efallai na fydd y newid yn andwyol; gall rhai tirweddau diwydiannol neu ddifffraith gael eu gwella o ganlyniad i newid o'r fath yng nghymeriad y dirwedd. Gall yr effeithiau cronnus ar gymeriad y dirwedd gynnwys newidiadau eraill, er enghraifft tueddiadau neu bwysau am newid dros gyfnodau hir o amser, a ddylai fod yn rhan o unrhyw ystyriaeth o brosiect penodol.

7.6.8 Mae pwyntiau cyffredinol y dylid eu hystyried wrth asesu arwyddocâd yr effeithiau cronnus ar y dirwedd. Y rhain yw'r effeithiau ar ddynodiadau tirwedd, tirweddau a gynlluniwyd, cymeriad tirwedd, ymdeimlad o raddfa, ymdeimlad o bellter, pwyntiau ffocws presennol yn y dirwedd, leinin awyr, naws anghysbell neu anialwch, a diddordebau tirwedd arbennig eraill.

7.6.9 Bydd y dirwedd ac effeithiau gweledol tyrbinau gwynt yn amrywio ar sail achos wrth achos yn ôl y math o dyrbin gwynt (model ac uchder), ei leoliad, lleoliad tirlun y datblygiad arfaethedig ac effeithiau ar ardaloedd sensitif a / neu derbynnyddion. Dylai effaith gronnus gymryd i ystyriaeth ffermydd / tyrbinau gwynt presennol, y rhai sydd â chaniatâd ond sydd heb eu codi, a'r rhai sy'n destun ceisiadau dilys, ond sydd heb eu penderfynu.

7.6.10 Dylai'r effeithiau cronnus posibl ar dderbynnyddion sensitif awdurdodau lleol cyfagos hefyd gael eu hystyried.

7.6.11 Mewn ardal lle mae effeithiau cronnus y tyrbinau gwynt yn cael eu hystyried yn sylweddol mae'n debygol y bydd angen Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol. Mae Adran 11 y rhestr wirio yn Atodiad 4 yn rhoi rhagor o wybodaeth am yr hyn sy'n ofynnol fel rhan o Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol. Mae'r Cyngor yn cadw rhestr gyfredol o'r holl geisiadau ynni gwynt a gyflwynwyd.

7.6.12 Fel rhan o'r weithdrefn LVIA ar gyfer ceisiadau tyrbinau gwynt, bydd angen i ddatblygwyr gael rhestr o geisiadau presennol, a ganiatawyd, byw a cheisiadau ar fin digwydd. Er gwybodaeth argymhellir y dylid edrych ar geisiadau cynllunio a datblygiadau cyfredol o fewn 5km wrth wneud LVIA cronnol ar gyfer tyrbinau bychan, tra dylid edrych ar ardal o rhwng 15km a 30 km i dyrbinau canolig neu fawr.

7.7 Ecoleg ac Adareg

7.7.1 Mae'r prif effeithiau ecolegol sy'n deillio o dyrbinau gwynt yn gysylltiedig â'r seilwaith safle. Gall nodweddion ecolegol gael eu heffeithio yn ystod cyfnod adeiladu, gweithredu neu ddadgomisynu cynllun ynni gwynt e.e. colli cynefin, sŵn

ac effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol o weithredu tyrbîn gwynt ar dderbynyddion ecolegol e.e. taro ystlumod ac adar.

- 7.7.2 Mae'r effaith ar ystlumod ac adar yn enwedig yn arbennig o berthnasol i ddatblygiadau ynni gwynt. Mae'r holl ystlumod a rhai adar yn rhywogaethau a ddiogelir ac mae angen eu hystyried wrth ddatblygu cynllun ynni gwynt. Gall tyrbînau gwynt gael effaith ar boblogaethau adar mewn nifer o ffyrdd gan gynnwys colli cynefinoedd yn uniongyrchol, dadleoli adar oherwydd amharu ar eu llefydd bwydo a bridio a'r potensial y cânt eu lladd oherwydd gwrthdrawiadau gyda llafnau'r tyrbînau. **Os oes angen EIA, yna dylai'r datganiad amgylcheddol ddarparu digon o wybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth am unrhyw ddatblygiad ategol, megis cysylltiadau grid, is-orsafoedd, llwybrau mynediad ayb., er mwyn i'r Awdurdod (fel yr awdurdod cymwys) gyflawni unrhyw HRA.**
- 7.7.3 Bydd yr holl geisiadau yn cael eu hasesu o ran eu heffaith ar fioamrywiaeth, gan gynnwys rhywogaeth a warchodir, adareg a chynefinoedd. **Er y gall effeithiau andwyol ar rywogaethau, cynefinoedd neu safleoedd gwarchodedig sy'n deillio o ddatblygiad ynni gwynt unigol fod yn dderbyniol, gallai effeithiau cronrus sy'n deillio o ddatblygiadau pellach fod yn annerbyniol a bydd angen asesiad. Bydd ffermydd gwynt presennol sydd â chaniatâd a'r rhai sy'n destun ceisiadau dilys na phenderfynwyd atynt eto, yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth asesu effaith cronrus y cais.** Yn ogystal, dylid ystyried yr effeithiau cronrol posibl ar fioamrywiaeth lle mae hynny'n briodol. Bydd asesiadau safle-benodol yn ofynnol i nodi'r risgiau i fioamrywiaeth ynghyd ag unrhyw fesurau lliniaru ar y safle neu fesurau cydadferol oddi ar y safle.
- 7.7.4 Yn achos rhai cynlluniau ynni gwynt, bydd angen cynnal AEA i edrych yn fanwl ar fuddiannau cadwraeth natur ar y safle ac oddi arno. Dylai'r AEA nodi'n fuan yr agweddau cadwraeth natur sy'n debygol o gael eu heffeithio gan ddatblygiad. Mewn perthynas ag adar, dylai'r AEA gynnwys gwybodaeth ynghylch mannau clwydo, llinellau hedfan, llecynnau bwydo a llecynnau bridio.
- 7.7.5 Lle nad yw'r cynnig yn un y mae angen AEA ar ei gyfer, dylai ymgeiswyr gyflwyno un neu ragor o'r canlynol fel sy'n briodol.

Arolwg Daearegol: technegau yn cynnwys arolwg ar droed traddodiadol, astudio brigiadau a tirffurfiau, i ddulliau ymwithiol, megis tyllau turio gyda pheiriant, i ddefnyddio technegau geoffisegol a dulliau synhwyro o bell, megis ffotograffiaeth o'r awyr.

Adroddiad Daearegol/ Geomorffolegol/Hydrolegol/Hydroddaearegol: yn rhoi sylw i faterion perthnasol ar y safle neu nodweddion a effeithir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y datblygiad arfaethedig gan gynnwys arolwg, dadansoddiad, mesurau osgoi, lliniaru, gwneud iawn ac unrhyw gynigion ar gyfer gwelliannau.

Adroddiad ar y Pridd: yn dangos sut a pha bryd y bydd unrhyw bridd a gaiff ei effeithio gan y cynigion datblygu yn cael ei symud, ei storio, ei ddefnyddio a'i gadw.

Adroddiad ar rywogaethau a ddiogelir: gan gynnwys dull arolwg, amseru a chanlyniadau'r arolwg, unrhyw gyfyngiadau yn yr arolwg, dadansoddiad o niwed posibl i rywogaethau ac unrhyw fesurau osgoi neu liniaru a gynigir.

Gwerthusiad Ecolegol: Bydd arolwg ecolegol ac asesiad yn ofynnol ar gyfer ceisiadau sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar fywyd gwyllt lleol, cenedlaethol neu ryngwladol a chadwraeth natur. Er y bydd hyn yn aml yn agos at safleoedd dynodedig, oherwydd nodweddion gwahanol y safleoedd, gyda nifer ohonynt yn cael eu nodi oherwydd eu diddordebau rhywogaethau ac adar, gall effeithiau ar nodweddion y safle gael eu profi beth pellter i ffwrdd o'r safle a ddynodwyd.

- 7.7.6 Yn benodol, efallai y bydd arolwg yn ofynnol os yw cais yn agos at safle o bwysigrwydd hysbys am ystumod ac adar, neu os a fwriedir safle o fewn 50 metr oddi wrth nodweddion cynefin perthnasol sy'n cynnig chwilota / cymudo / cyfleoedd clwydo. Er mwyn lleihau'r effaith ar fywyd gwyllt, fe'ch cynghorir y dylai tyrbinau fod yn isafswm o 50 metr i ffwrdd oddi wrth y mathau hyn o nodweddion cynefin. Gall ymgeiswyr gysylltu ag Ymgynghorydd Ecolegol ac Amgylcheddol y Cyngor i gael cyngor, ar y cam cyn-sgrinio. Dylid hefyd gynnal ymgynghoriadau cynnar gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru a'r RSPB. Gellir cyfeirio at Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Ynys Môn am gyd-destun bioamrywiaeth gefndirol yr Ynys.

Cynigion Gwella Cadwraeth Natur: yn dangos sut y bydd y datblygiad yn sicrhau cadwraeth nodweddion treftadaeth naturiol ar y safle ac yn darparu manteision o ran cadwraeth natur;

Cynllun Rheoli Cadwraeth Natur: disgrifiad sut y bydd y safle yn cael ei reoli i sicrhau cadwraeth natur a gwella cadwraeth natur ar y safle ac oddi arno gan gynnwys pwy fydd yn rheoli gwahanol rannau neu elfennau, sut y bydd y gwaith rheoli yn cael ei gyllido, ei adolygu a'i addasu dros gyfnod o amser.

- 7.7.7 Lle gallai cynllun, naill ai ar ei ben ei hun neu wedi ei gyfuno gyda chynlluniau neu brosiectau eraill, gael effaith ar safle a ddynodwyd yn rhyngwladol, rhaid i ddatblygwyr gynnal asesiad o effaith sylweddol debygol y cynllun yn unol â'r Rheoliadau Cynefinoedd. Efallai y bydd angen arolwg cynefin ac asesiad effaith o dan ofynion Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol, ayb) 1994 ar gyfer ceisiadau sy'n effeithio ar safleoedd a ddynodwyd ar gyfer cadwraeth natur (e.e. AGA, ACA, SoDdGA a Safleoedd Bywyd Gwyllt Ymgeisiol) neu oherwydd bod y safle arfaethedig yn cynnwys cynefinoedd blaenoriaeth (y rhai a restrir gan Lywodraeth Cymru o dan adran 42 o Ddeddf NERC 2006). Dylai arolwg cynefin gynnwys: safle'r tyrbîn, y traciau mynediad, traciau cynnal a chadw ac unrhyw symud cynefin i ehangu ar y ffyrdd i ganiatáu ar gyfer cyflwyno i'r safle. **cyn penderfynu rhoi caniatâd ar gyfer cais, rhaid i CSYM gynnal asesiad o effaith arwyddocaol tebygol y cynllun o ystyried amcanion cadwraeth y safleoedd. Gallai arolwg cynefin neu rywogaeth fod yn ofynnol i hysbysu asesiad o'r fath. Yn yr un modd gallai arolwg cynefin neu rywogaeth fod yn ofynnol i hysbysu asesiadau o'r effaith ar SoDdGA, Safleoedd Bywyd Gwyllt Ymgeisydd, a chynefinoedd blaenoriaeth a rhywogaethau a restrir gan Lywodraeth Cymru o dan adran 42 o Ddeddf NERC 2006. Dylai cwmpas yr arolwg gael ei gytuno gydag Ymgynghorydd Amgylcheddol yr Awdurdod Lleol. Yn gyffredinol dylai'r arolwg rhywogaethau / cynefinoedd gynnwys: safle'r tyrbîn, y traciau mynediad, traciau cynnal a chadw ac unrhyw symud**

cynefin ar gyfer lledu'r ffordd er mwyn caniatáu danfon nwyddau i'r safle.

Dylai'r arolwg cynefin fod yn gynefin arolwg Cam 1. **Dylai amseriad unrhyw arolwg gael ei ystyried yn gynnar yn y broses. Mae'r weithdrefn dosbarthu ac arolwg cynefin Cam 1 yn cael ei disgrifio yn y Llawlyfr ar gyfer arolwg cynefin Cam 1 - techneg ar gyfer archwiliad amgylcheddol (Cydbwyllgor Gwarchod Natur, 2003).**

7.7.8 Lle bo modd, dylai datblygwyr liniaru ar gyfer unrhyw ddifrod ecolegol potensial. Mae'n well rhoddi sylw i gamau lliniaru yn fuan a dylid eu cynnwys yn yr adroddiad sgopio fel rhan o AEA. **Bydd yr union fesurau lliniaru a fabwysiedir yn amrywio ar sail achos wrth achos.** Gallai mesurau liniaru gynnwys:

- Ailddylunio / microleoli i ddileu risgiau o wrthdrawiad neu effeithiau dadleoli
- Gallai hyn gynnwys adfer cynefinoedd ymylon ger y seilwaith, gan gynnwys gwaith cloddio,
- Gellir lleihau effeithiau sylweddol posibl drwy gau i lawr y tyrbinau yn ystod y cyfnodau hedfan prysur eto naill ai ar gyfer tyrbîn unigol neu glystyrau o dyrbinau.

7.7.9 **Unwaith y bo'r broses asesu wedi cael ei chwblhau,** dylid rhoddi sylw i gyfleodd ar gyfer gwella cadwraeth natur mewn safle a'r ardal o'i gwmpas megis darparu cynefinoedd newydd neu nodweddion cynefin ar dir cyfagos. Mewn rhai achosion, dylid ystyried sefydlu cynefinoedd i wneud iawn am hyn ~~er mwyn lliniaru unrhyw golledion posibl a achosir gan y datblygiad.~~ Ceir cyfarwyddyd perthnasol yn adran 12 o'r rhestr wirio yn Atodiad 4 ynglŷn â materion ecolegol.

7.8 Archeoleg

7.8.1 Gall tyrbinau gwynt gael effaith sylweddol ar nodweddion archeolegol. Gall hyn gynnwys colled neu effaith uniongyrchol ar y nodweddion a nodwyd, neu effeithiau anuniongyrchol ar gymeriad neu ymddangosiad a lleoliad nodweddion.

7.8.2 Rhaid sicrhau fod digon o bellter rhwng y tyrbinau a nodweddion archeolegol er mwyn sicrhau bod y posibilrwydd o ddifrod yn cael ei leihau, fel yn achos niwed posibl neu ddinistrio gan gwymp y tŵr cefnogol neu lafn dyrbin wedi torri. Lle mae nodweddion archeolegol yn bresennol, neu lle gallant fod, efallai y bydd angen i'r asesiad gael ei wneud cyn ac yn ystod y cyfnod adeiladu i sicrhau nad oes unrhyw nodweddion archeolegol o dan y ddaear yn cael eu difrodi neu eu dinistrio, a bod unrhyw archeoleg sydd heb ei ddarganfod yn cael ei gofnodi'n briodol.

7.8.3 Lle'r effeithir ar olion archeolegol cenedlaethol pwysig (boed yn gofrestredig ai peidio) ac mae eu lleoliadau yn debygol o gael eu heffeithio gan ddatblygiad tyrbîn gwynt, dylai fod rhagdybiaeth o blaid eu gwarchod yn eu lle. Mewn achosion o olion archeolegol llai, bydd rhaid i'r Awdurdod Cynllunio Lleol benderfynu ar bwysigrwydd cymharol y nodwedd archeolegol yn erbyn y manteision a'r angen am y datblygiad arfaethedig. **Gellir cael gwybodaeth sy'n ymwneud â nodweddion archeolegol heb eu dynodi oddi wrth Wasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd.** Ceir cyfarwyddyd yn adran 13 o'r rhestr wirio yn Atodiad 4 ynglŷn â materion gwerthuso treftadaeth.

7.9 Agosrwydd


- 7.9.1 Mae'r adran hon yn ymdrin ag agosrwydd y tyrbinau arfaethedig i'r priffyrdd a rheilffyrdd, llinellau pŵer, hedfan, tai, safleoedd twristiaeth, a derbynyddion sensitif eraill.
- 7.9.2 Mae Ynys Môn yn ardal wledig yn bennaf gyda phatrwm gwasgaredig o ddatblygiad. Oherwydd y ffaith bod rhai ardaloedd yn bell o aneddiadau presennol neu anheddau unigol, mae effeithiau amwynder datblygiad gwynt yn debygol o fod yn sylweddol mewn sawl rhan o'r ardal.
- 7.9.3 Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng effaith amwynder preswyl ac effeithiau eraill sy'n deillio o gynigion gwynt, fel tirwedd a materion gweledol ehangach. Gall parthau clustogi gael eu defnyddio i leihau effeithiau.
- 7.9.4 Mae'r rhan yma'n rhoi arweiniad am amgylchiadau byw cymdogion cyfagos gan ganolbwyntio ar fwynderau gweledol. Dylid pwysleisio mai dim ond un agwedd o 'fwynderau preswyl' ydy 'mwynderau gweledol'. – ceir cyfeiriad at agweddau eraill o fwynderau preswyl yn rhannau eraill o'r CCA yma.
- 7.9.5 Mae'r egwyddor nad oes hawl i gadw golygfa heb ei newid o eiddo preifat yn un hir sefydlog. Er hynny fe all gwarchod golygfa o eiddo fel hyn o ran datblygiad sy'n rhy ormesol neu sy'n tra-arglwyddiaethu'n ormodol fod er budd cyhoeddus. Yn y cyddestun yma mae golygfa'n golygu'r mwynderau gweledol o lefydd sy'n union wrth ymyl y tŷ, a allai gael ei effeithio gan strwythur arall neu ddefnydd anghydnaws o dir cyfagos. I bwrpas y canllaw yma rhoddir ystyriaeth hefyd i effaith ar eiddo a ddefnyddir fel llety gwyliau.
- 7.9.6 Cydnabyddir bod yna bosibilrwydd i dyrbinau gwynt gael effaith annerbyniol ar fwynderau gweledol/ golygfeydd oherwydd eu maint a'r rhannau ohonynt sy'n symud. Mae asesiad o nifer o benderfyniadau apêl ynglŷn â datblygiad tyrbinau/ fferm wynt wedi dangos bod arolygwyr wedi penderfynu bod mwynderau gweledol preswylwyr wedi cael eu hamharu'n andwyol lle mae'r effeithiau gweledol y cynigion yn ormesol a/neu lethol. Mewn amgylchiadau fel yma bydd byw mewn eiddo yn annymunol neu amhleserus. Bydd asesiad o hyn yn galw am ymagwedd mor wrthrychol â phosib, ond yn y pen draw mae'n fater o farn sy'n seiliedig ar ystyriaethau cynllunio defnydd tir. Fel y nodwyd yn flaenorol mae amodau byw yn cael eu dylanwadu gan ffactorau ar wahân i fwynderau gweledol/ golygfeydd, fel sŵn. Dim ond delio gyda mwynderau gweledol o amodau byw mae'r rhan yma.
- 7.9.7 Mae'r debygoliaeth y caiff mwynderau gweledol/ golygfeydd o eiddo preswyl neu dwristiaeth ei effeithio'n andwyol gan dyrbinau) gwynt yn cael ei ddylanwadu gan nifer o ffactorau. Un o'r rhain yw agosrwydd y datblygiad i'r eiddo preswyl neu dwristiaeth. Ychydig o arweiniad cenedlaethol sydd ar gael am barthau clustogi rhwng tyrbinau gwynt ag aneddeleoedd neu dai neu eiddo twristiaeth unigol.
- 7.9.8 Heb arweiniad cenedlaethol, mae'r ddogfen yma'n cyflwyno'r ymagwedd leol i dyrbinau gwynt yn Ynys Môn. Mae'n wybyddus bod y gwahaniaeth rhwng gwrthrych a'i gefndir yn lleihau wrth i'r pellter rhwng y gwrthrych a'r gynyddu (h.y. perspective awyrol). Hefyd fel mae gwrthrych yn mynd y bellach maent yn ymddangos yn llai oherwydd bode u ongl weledol yn lleihau (h.y. perspective llinol).

Ongl weledol gwrthrych yw'r ongl sy'n cael ei gynnal gan y llygad mewn triongl, gyda'r gwrthrych ar ei waelod. Y pellaf ydy'r gwrthrych o'r llygad, yr uchaf ydy uchder y triongl yma a lleiaf ydy'r ongl weledol. Trwy gymhwyso'r system fathemategol yma (h.y. $h=1/d*a$)¹ ceir cyfres o barthau clustogi lleiaf, sy'n golygu y gall y Cyngor gymryd ymagwedd ragofalus er mwyn ceisio osgoi cael effaith andwyol ar fwynderau gweledol eiddo preswyl neu dwristiaeth. Mae Tabl 4 a diagram 1 isod yn rhoi'r parthau clustogi lleiaf a gaiff ei gymhwyso i dyrbinau gwynt bach, canolig neu fawr. Mae newidiadau diweddar i Hawliau Datblygu Cyffredinol a Ganiateir (a gyfeirir ato ym mharagraff 6.22 uchod) yn golygu na fydd angen caniatâd cynllunio mewn rhai achosion ar gyfer tyrbinau micro/ domestig (h.y. hyd at 11.1 i ben y llafn). Ar ôl ystyried hyn, ac uchder a swmp tyrbinau gwynt micro/ domestig ac anghenion polisïau cynllunio lleol a chenedlaethol ni chafodd parth clustogi ei adnabod ar gyfer y math yma o dyrbin:

Tabl 4

| Math o dyrbin | Parth clustogi lleiaf |
|--|-----------------------|
| Bach (h.y. rhwng 11.1m – 20m pen y llafn) | 111m – 200m |
| Canolig (h.y. rhwng 20.1m – 65m pen y llafn) | 201m – 650m |
| Mawr (h.y. rhwng 65.1m – 135m + pen y llafn) | 651m – 1,350+m |

Diagram 1



7.9.9 Nid yw'r parthau clustog lleiaf yn benderfynyddion tra-chywir o ardrawiadau. Bydd y gwir bellter yn dibynnu ar amgylchiadau lleoliad gwyddonol. Bydd rhaid i ddatblygiad o fewn y parth clustog lleiaf yn Nhabl 4 gael ei gyflwyno gydag Asesiad Mwynderau Preswyl (RAA). Mae RAA yn mynd tu hwnt i asesiad ar olygfeydd a mwynderau gweledol mwy eang fel y gwelir mewn LVIA. Mae ei angen er mwyn

¹ Lle mae h = uchder a ganfyddir, d = pellter, ac a = yr uchder

penderfynu ar effeithiau amodau byw. Mae dadansoddiad o benderfyniadau apêl yn dangos mai'r ffactorau canlynol sydd angen sylw:

- Uchder y tyrbin i'r llafn,
- Maint y strwythur(au)
- Agosrwydd at y tyrbin(au) gwynt
- A fydd y cyfan o'r tyrbin i'w weld
- Cyfeiriadedd y tai/ llety twristiaeth - yr eiddo i gynnwys y tŷ (prif ystafelloedd) a'r rhannau o'r ardd/ patio lle fyddai'r preswylwyr yn eistedd allan
- A yw'r berthynas gyda'r eiddo yn un ar osgo neu'n un sydd union gyferbyn
- Y raddfa mae'r tyrbin yn cael ei sgrinio gan lystyfiant sydd rhyngddo a'r eiddo
- Graddfa'r ffurf adeiledig, gan gynnwys adeiladau allanol neu estyniadau i dai rhwng yr eiddo a'r tyrbin
- A fyddai'r golygfeydd allan o'r adeilad tuag at y tyrbin(au) yn cael ei guddio'n rhannol, rhan fwyaf neu'n gyfan gwbl oherwydd ffurf y tir
- A yw'r prif olygfeydd yn cynnwys strwythurau amlwg sy'n tynnu oddi ar yr olygfa
- Oes yna bethau nodedig neu amlwg yn weledol sy'n tynnu oddi ar yr olygfa yn agos at yr eiddo,
- Y nifer posib o dyrbinau a stent y tyrbinau sy'n weladwy, eu lleoliad o fewn yr olygfa gyffredinol o'r eiddo, h.y. a ydynt ar y gorwel, ar ymyl yr olygfa neu o fewn golwg amlwg
- Canran yr olygfa o'r eiddo fydd yn cael ei gymryd gan y datblygiad ac os ellir gweld y tyrbinau o fwy nag un ochr o'r eiddo
- Presenoldeb tebygol o elfennau atodol eraill yn y golygfeydd o'r eiddo, er enghraifft, ffyrdd mynediad neu'r compownd adeiladu
- Presenoldeb golau ar y tyrbinau

7.9.10 Bydd rhaid gwneud penderfyniad os yw'r effaith yn un trechol, gormesol neu lethol annerbyniol. Bydd pob cynnig yn cael ei ystyried ar sail ei haeddiant ei hun.

7.9.12 Mae TAN8 yn cynghori y dylai pob tyrbin gael ei osod yn ôl o bellter lleiaf, sy'n cyfateb i uchder blaen y llafn o ymyl unrhyw briffordd gyhoeddus neu linell reilffordd.

7.9.13 Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn nodi y dylai tyrbinau gwynt gael eu gwahanu oddi wrth linellau trydan uwchben yn unol â Safon Cyngor Trydan 44-8 "Cliriadau Llinell Uwchben".

7.9.14 O ran yr agosrwydd at fuddiannau hedfan, mae datblygiadau o fewn radiws penodol o brif feysydd awyr ac erodromau yn amodol ar ymgynghori â'r Awdurdod Hedfan Sifil (CAA), y Weinyddiaeth Amddiffyn (MoD) a'r Gwasanaethau Traffig Awyr Cenedlaethol. Mae Adran 5.0 y CCA yn cyfeirio at ardaloedd a warchodir gan gynnwys Awyrennau a Meysydd Awyr.

7.9.15 O ran twristiaeth, bydd yr holl geisiadau yn cael eu hasesu o ran eu heffaith ar y buddiannau twristiaeth a hamdden. Dylai datblygwyr nodi unrhyw effeithiau andwyol sylweddol ar dwristiaeth a diddordebau hamdden ac ar y ffactorau

syifaenol sy'n cyfrannu at apêl cyrchfannau o'r fath i ymwelwyr a defnyddwyr hamdden. Mae twristiaeth yn elfen bwysig o'r economi leol ac felly dylai unrhyw effeithiau andwyol ar y sector economaidd hwn sy'n deillio o ddatblygiadau ynni gwynt gael eu lleihau. Wrth asesu ceisiadau, dylai graddfa gymharol cyfleusterau hamdden a thwristiaeth presennol yn yr ardal gael eu hystyried. Ni ddylai datblygiadau tyrbinau gwynt gael effaith negyddol sylweddol ar yr economi leol. Ceir cyfarwyddyd pellach yn rhan o adran 17 o'r rhestr wirio yn Atodiad 4.

7.10 Cynhyrchu Electromagnetig ac Ymyrraeth

7.10.1 Gall tyrbinau gwynt ymyrryd â darllediadau electromagnetig trwy allyrru signal electromagnetig ei hun, gan ymyrryd â signalau electromagnetig. Mae hyn yn cynnwys cysylltiadau tonnau teledu, radio a micro a systemau a ddefnyddir gan yr heddlu a'r gwasanaethau brys. Gall yr effeithiau ymyrraeth hyn gael eu lleihau trwy newidiadau i leoliad tyrbinau ac ymgynghori â gweithredwyr. Ar yr amod bod sylw gofalus yn cael ei dalu i'r lleoliad, ni ddylai tyrbinau gwynt achosi unrhyw effeithiau andwyol sylweddol ar systemau cyfathrebu sy'n defnyddio tonnau electromagnetig fel cyfrwng darlledu (e.e. cysylltiadau teledu, radio a microdon). Yn nodweddiadol mae angen pellter clirio o 100m naill ochr a'r llall o gyswllt llinell olwg o ardal ysgubedig y llafnau tyrbinau, er y byddai ymgynghoriadau unigol yn ofynnol er mwyn adnabod pellter diogelwch pob sefydliad. Dylid gwneud ymdrech i ymgynghori'n gynnar gyda'r Swyddfa Gyfathrebu (OFCOM), sy'n dal cofrestr ganolog o'r holl weithredwyr cyfathrebu radio sifil yn y DU ac yn gweithredu fel pwynt cyswllt canolog ar gyfer nodi ymgynghoreion penodol sy'n berthnasol i safle.

7.10.2 Yn aml, mae'n bosibl lliniaru effeithiau trwy leoli tyrbinau unigol yn ofalus o fewn safle, fel bod y llafnau tyrbinau yn osgoi'r parth clustogi, yn nodweddiadol 100m y naill ochr i'r llwybr signal.

7.10.3 Ceir cyfarwyddyd pellach ynghylch asesiad Electro magnetig yn adran 15 o'r rhestr wirio yn Atodiad 4.

7.11 Cysgodion Symudol a Golau a Adlewyrchir

7.11.1 Cysgodion symudol yw effaith strôb o olau'n fflachio trwy symudiad y llafnau'n taflu cysgod symudol dros eiddo cyfagos o fewn 13 ° naill ochr o'r gogledd. Gall cysgodion achosi aflonyddwch i drigolion yr effeithir arnynt mewn eiddo cyfagos a gall gael effeithiau niweidiol posibl ar ddiodefwyr epilepsi ffoto-sensitif.

7.11.2 Mae'r tebygolrwydd o daflu cysgodion yn digwydd a'i ddifrifoldeb yn dibynnu ar:

- Cyfeiriad yr annedd mewn perthynas â'r tyrbina (au);
- Pellter o'r tyrbina (au);
- Uchder y tyrbina;
- Yr adeg o'r flwyddyn (yr effaith yn fwy pan fo'r haul fwyaf disglair);
- Cyfran yr oriau golau dydd y mae'r tyrbina (au) yn gweithredu;
- Amlder haul llachar ac awyr ddigwmwl (yn enwedig ar dir isel uwchben y gorwel);
- Cyflymder a chyfeiriad y gwynt cyffredinol.

- 7.11.3 Yn seiliedig ar ddadansoddiad o benderfyniadau apêl, er mwyn osgoi cysgodion symudol dylai pellter gwahanu o 10 diamedr rotor rhwng y tyrbinau gwynt a'r annedd agosaf fod yn ddigonol yn y rhan fwyaf o achosion, er bod y topograffi lleol a lleoliad y tyrbîn mewn perthynas â'r annedd (anheddau) yn cael ei ystyried yn ystod unrhyw asesiad. Mae hefyd wedi ei brofi bod o fewn y 10 diamedr rotor hwn, bydd cysgodion symudol ond yn digwydd o dan rhai amodau am beth o'r amser a dim ond ar eiddo cyfagos o fewn 130° naill ochr o'r gogledd y bydd yn effeithio.
- 7.11.4 O fewn y 10 pellter diamedr rotor hwn, dylai ymchwiliadau gael e u gwneud gan yr ymgeisydd i nodi unrhyw eiddo sy'n debygol o gael eu heffeithio gan gysgodion symudol. Dylai canlyniadau'r asesiad gael eu cyflwyno gyda'r cais cynllunio. Os sefydlir bod effeithiau annerbyniol gan gysgodion symudol, dylai mesurau lliniaru gael eu cymryd gan gynnwys symud lleoliad y tyrbîn, a defnyddio technoleg i atal tyrbinau yn ystod cyfnodau cysgodion symudol, neu, yn niffyg dim arall, defnyddio plannu coed a gosod bleindiau ffenestri i liniaru effaith.

Dylai agosrwydd tyrbinau gwynt at y rhwydweithiau ffyrdd a rheilffyrdd hefyd gael ei ystyried. Gall cysgodion symudol effeithio ar ddefnyddwyr y rhwydweithiau hyn drwy effeithio ar welededd.

- 7.11.5 Gall tyrbinau hefyd achosi fflachiadau o olau yn adlewyrchu, a all fod yn weladwy o gryn bellter. Mae'n bosibl i liniaru fflachio, ond nid yw'n bosibl ei ddileu. Gall dewis gofalus o liw llafn a gorffeniad wyneb helpu i leihau'r effaith.
- 7.11.6 Ceir cyfarwyddyd pellach ynghylch asesu cysgodion symudol yn adran 8 o'r rhestr wirio yn Atodiad 4.

7.12 Dŵr daear a dŵr wyneb

- 7.12.1 Mae datblygiadau ynni gwynt yn tueddu i gael ychydig neu ddim effaith ar adnoddau dŵr neu i'r amgylchedd dŵr unwaith y byddant yn weithredol. Fodd bynnag, gall y gwaith adeiladu a dadgomisiynu'r dyrbinau gwynt, naill ai'n unigol neu fel grwpiau mwy, gael effeithiau posibl ar gyrsiau dŵr lleol, cyrff dŵr, dŵr daear a chyflenwadau dŵr o ganlyniad i lygredd, erydiad, gwaddodi a rhwystrau i lifo yn deillio o weithgaredd adeiladu. Mae effeithiau datblygiadau yn ystod y cyfnod adeiladu angen eu hystyried a'u monitro yn ofalus, er mwyn osgoi llygru cyrsiau dŵr ac osgoi effeithiau andwyol ar ddŵr daear a statws ecolegol cyrff dŵr. Mewn achosion o'r fath, efallai y bydd angen cyflwyno manylion y mesurau lliniaru gyda'r cais llawn.
- 7.12.2 Bydd asesiad o'r risgiau i ansawdd y dŵr yn ofynnol ar gyfer pob datblygiad ynni gwynt ar raddfa ganolog i fawr a bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn ymgynghori lle bo'n briodol. Yn ogystal, dylai unrhyw effaith andwyol posibl yn y drefn hydrolegol neu safon y dŵr ar ddynodiadau statudol gael ei asesu. Gall y gwaith o baratoi Cynllun Rheoli Amgylcheddol cyn adeiladu / dadgomisiynu liniaru unrhyw risg bosibl i ddŵr daear a dŵr wyneb.

7.13 Ymgysylltu Cymunedol

- 7.13.1 Dylai datblygwyr, mewn ymgynghoriad â'r awdurdod cynllunio lleol, gymryd rhan weithredol wrth ymgysylltu â'r gymuned leol **ar y cyfle cynharaf posibl wrth lunio** ar y ceisiadau ynni gwynt. Dylai hyn gynnwys trafodaeth cyn gwneud cais a darparu gwybodaeth gefndir ar y dechnoleg ynni adnewyddadwy sy'n cael ei chynnig.
- 7.13.2 Gall ymgysylltiad cynnar â'r gymuned leol ar y cam cyn-cais arwain at well dealltwriaeth o'r cynllun a'i fanteision. Dylai ymgeiswyr ymgysylltu ag aelodau o'r cyhoedd yn ogystal â Chynghorau Tref a Chymuned.
- 7.13.3 Bydd angen i'r ceisiadau gael eu cefnogi gan ddatganiad ymgysylltu â'r gymuned yn nodi sut y mae'r ymgeisydd wedi cynnal ymgynghori cyn gwneud cais. Dylai ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth o'r dulliau a ddefnyddiwyd, e.e. cyfarfodydd cyhoeddus, arddangosfeydd, arolygon, taflenni. Dylai ceisiadau ddangos eu bod wedi hysbysu'r rhai a fyddai'n cael eu heffeithio gan y cais, h.y. cymdogion agos. Dylai ymgeiswyr hefyd ddangos eu bod wedi ymgynghori â grwpiau hamdden lleol megis clybiau cyfeiriannu, crwydrwyr a chlybiau llaw-gleidio, lle bo hynny'n bosibl. Mae Adran 10 y rhestr wirio yn Atodiad 4 yn rhoi gwybodaeth bellach o'r hyn sy'n ofynnol yn y datganiad ymgysylltu â'r gymuned.

7.14 Mwynau a Phridd

- 7.14.1 Ni ddylid stereleiddio safleoedd sy'n cynnwys adnoddau mwynau gwerthfawr oherwydd datblygiad amhriodol. Pan mae cynnig wedi ei leoli ger safle fel yma rhaid cyflwyno manylion mesurau lliniaru gyda'r cais cynllunio ar ol trafod y rheini gyda'r Gwasanaeth Mwynau a Gwastraff sy'n cael ei rannu ar draws Gogledd Cymru.
- 7.14.2 Mae Atodiad 9 yng Nghynllun Datblygu Unedol Mon a stopiwyd yn dangos safleoedd mwynau a buffer o 400m o gwmpas y safleoedd.
- 7.14.3 Dylid osgoi a lliniaru'r posibilrwydd y bydd adnoddau pridd yn cael eu llygru oherwydd datblygiadau am dyrbinau gwynt yn arbennig felly yn ystod y cyfnod adeiladu.

7.15 **Cyfyngu Oes Caniatad Cynllunio**

- 7.15.1 Mae Rhan 91o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn rhoi hawl i awdurdodau cynllunio lleol i gyfyngu ar oes caniatad cynllunio mewn amgylchiadau perthnasol. Credir bod yr angen i roi ystyriaeth i ardrawiad cronol, o ran sŵn, effaith weledol ac allbwn ynni'r tyrbinau gwynt/ ffermydd gwynt mewn lleoliad yn cyfiawnhau defnyddio'r amod i gyfyngu hyd y caniatâd. Byddai asesiad o'r effaith gronol yn rhoi sylw i dyrbinau sydd i fyny'n barod, rhai efo caniatâd ond heb eu codi eto a phob cais cynllunio sydd wedi ei gyflwyno cyn yr un sy'n cael ei asesu. Os oes gwir angen am y datblygiad, h.y. nad cynllun hapfasnachol ydy o, gellir dadlau y caiff y tyrbin ei godi yn fuan ar ôl derbyn caniatâd. Bydd datblygiad buan y safleoedd hefyd yn gymorth i gyrraedd targedi cenedlaethol ar gyfer ynni o ffynonellau adnewyddol.

7.15.2 Fe ddylai'r cyfnod caniatâd byrrach ddal roi digon o amser i ddatblygwyr gydymffurfio gydag unrhyw amodau a datrys materion er mwyn gwireddu'r datblygiad, e.e. cyllid.

7.15.3 Oherwydd hyn, rhoddir caniatâd am dyrbin gwynt/ fferm wynt fel arfer am gyfnod o 2 flynedd er mwyn sicrhau y caiff y datblygiad ei wireddu o fewn cyfnod priodol. Rhoddir ystyriaeth i gyfnod hirach yn ddarostyngedig i dystiolaeth i fodloni'r Awdurdod Cynllunio Lleol bod yna resymau penodol i gefnogi hynny.

8.0 Lleoliad a Dyluniad

8.1 Mae lleoliad a chynllun y tyrbinau gwynt yn ystyriaethau pwysig a bydd yn seiliedig ar nifer o ffactorau gan gynnwys mynediad, cyflymder y gwynt, a chysylltiad â'r grid. Bydd nifer o ffactorau sy'n gysylltiedig â thyrbinau megis maint, lliw a'u dosbarthiad i gyd yn chwarae eu rhan wrth benderfynu p'un a yw'r datblygiad yn ymddangos fel petai'n cilio i mewn neu'n sefyll allan yn y dirwedd.

8.2 Bydd yr holl geisiadau tyrbinau gwynt yn cael eu hasesu o ran eu heffaith ar y dirwedd ac amwynder gweledol yng nghyswllt eu dyluniad o safbwynt lleoliad, effaith ar gymeriad tirwedd, math o dyrbin, lliw, gofod a seilwaith ategol.

8.3 Lleoliad a Gosodiad

8.3.1 Dylai tyrbinau gwynt gael eu lleoli yn ofalus a dylid rhoi ystyriaeth i'r materion tirwedd canlynol:

- Sut mae tyrbinau yn perthnasu i'r gorwel gweledol;
- Sensitifrwydd y lleoliadau o ble y gellir eu gweld;
- Yr effaith ar amwynder yr ardal gyfagos, gan gymryd arwyddocâd hanesyddol, diwylliannol a hamdden yr ardal i ystyriaeth;
- Y nodweddion presennol yn y dirwedd.

8.3.2 Mae adran 6 o'r rhestr wirio yn Atodiad 4 yn nodi'r wybodaeth sydd ei hangen gyda phob cais mewn perthynas â lleoliad y ceisiadau ar gyfer tyrbinau gwynt.

8.4 Cynllun a chymeriad y dirwedd

8.4.1 Dylai ceisiadau ar gyfer tyrbinau gwynt ystyried cyd-destun cyffredinol y dirwedd a chymeriad yr ardal o ran ei olwg gyffredinol, patrwm, gorchudd tir, natur agored / gaeedig, cymeriad elfennau fertigol a nodweddion presennol y dirwedd. Dylai cynlluniau eraill gael eu harchwilio mewn perthynas â'r safbwyntiau mwyaf sensitif.

8.5 Ffurf a dyluniad y tyrbinau

8.5.1 Mae datblygiadau technolegol wedi arwain at amrywiaeth eang o dyrbinau gwynt. Mae'r gwahanol fodelau hyn yn rhoi gwahanol ddewisiadau o ran maint, cyfrannau'r twr tyrbinau i hyd llafn a chyflymder cylchdro. Dylai uchder a dyluniad y tyrbinau fod yn gymesur â'r ardal, a bydd addasrwydd cynllun penodol yn dibynnu ar sensitifrwydd tirwedd yr ardal.

8.6 Lliw'r Tyrbinau

8.6.1 Mae lliw'r tyrbinau gwynt hefyd yn ystyriaeth bwysig wrth asesu effaith bosibl datblygiadau o'r fath. Mae'n bwysig dewis lliw sy'n ymwneud yn gadarnhaol â chefnid y dirwedd sydd union gerllaw, y gellir gweld y tyrbinau yn ei erbyn. Mae gorffeniad di-sglein cael ei ystyried yn hanfodol.

8.7 Pellter rhwng Tyrbinau

8.7.1 Mae angen lleoli tyrbinau gwynt fel bod y pellter rhyngddynt tua 3-10 diamedr rotor (byddai hyn yn cyfateb i 180-600 metr ar gyfer datblygiad sy'n defnyddio rotorau diamedr 60m, tyrbinau 1.3MW) (enghraifft a gymerwyd o TAN 8).

8.8 Seilwaith ategol

8.8.1 Yn ogystal â'r tyrbinau gwynt, gall seilwaith angenrheidiol fferm wynt gynnwys mynediad ffordd ddigonol, traciau ar y safle, sylfeini'r tyrbinau, llawr caled i graen, mastiau anemomedr, safle adeiladu, ceblau trydanol ac is-orsaf drydan ac adeilad rheoli. Dylid rhoi ystyriaeth i'r materion canlynol wrth ystyried lleoliad a lleoliad datblygiad ategol. Gweler adran 7.2 y CCA hwn am ystyriaeth fanwl o'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer seilwaith ategol.

8.8.2 Gydag unrhyw adeiladau atodol sy'n ofynnol ar y safle, o ystyried natur wledig y rhan fwyaf o'r lleoliadau ar gyfer tyrbinau, dylai adeiladau o'r fath fod yn amaethyddol o ran ymddangosiad naill ai'n fodern neu draddodiadol, yn dibynnu ar gymeriad y lleoliad penodol.

8.8.3 Ceir canllawiau pellach ar safle a dyluniad y tyrbinau gwynt mewn perthynas â thirweddau yn: “Siting and Designing windfarms in the landscape”, Fersiwn 1, Rhagfyr 2009, SNH
<http://www.snh.gov.uk/publications-data-and-research/publications/search-the-catalogue/publication-detail/?id=1434>

9. Dadgomisiynu ac adfer tir

- 9.1 Mae Paragraff 6.4 TAN 8 yn nodi y dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol ystyried amodau priodol ar gyfer dadgomisiynu tyrbinau gwynt ac adfer tir yr effeithir arno. Yn ogystal, efallai y bydd gofyn i weithredwyr sicrhau bod cyllid digonol yn cael ei neilltuo i'w galluogi i fodloni rhwymedigaethau adfer yn llawn.
- 9.2 Efallai y bydd angen peirianwaith addas, e.e. bond, er mwyn sicrhau y byddai digon o adnoddau ar gael ar gyfer datgymalu ac adfer. Mae hyn er mwyn sicrhau bod mesurau digonol yn eu lle i wneud yn siŵr y bydd y safle'n cael ei adfer mewn modd priodol.
- 9.3 Mae adfer llawn angen cael gwared â thyrbinau, strwythurau atodol a thraciau, ac adfer llystyfiant priodol. Mewn rhai achosion gallai cael gwared ar draciau arwain at fwy o niwed na'u gadael yn eu lle **oherwydd difrod i dir cyfagos yn ystod y gwaith sy'n gysylltiedig â'r broses**. Yn destun i foddhad yr Awdurdod Cynllunio Lleol ynglŷn ag effaith weledol traciau o'r fath a'r effaith o'u symud, efallai y bydd achosion lle na fydd symud traciau yn ofynnol. Dylid sicrhau bod natur y gwaith adfer yn integreiddio'n gadarnhaol yn y dirwedd bresennol. Hefyd, anogir cyfleoedd i wella rhinweddau arbennig y dirwedd.
- 9.4 Anogir gweithredwyr i aildefnyddio neu ailgylchu cydrannau tyrbinau a deunyddiau eraill sy'n gysylltiedig â thyrbinau gwynt yn dilyn eu dadgomisiynu.

10.0 Ailbweru

- 10.1 Efallai y bydd achlysuron pan fydd y tyrbinau gwynt hŷn presennol angen eu newid am rai modern mwy effeithlon a dylid annog hyn ar yr amod bod yr effeithiau amgylcheddol a thirwedd yn dderbyniol. Efallai y bydd barn sgrinio yn ofynnol i asesu a yw Asesiad Effaith Amgylcheddol yn angenrheidiol i gyd-fynd â chais newydd.
- 10.2 Mae TAN 8 ym mharagraff 2.13 yn nodi y byddai cefnogaeth yn cael ei roi i awdurdodau cynllunio lleol sy'n cyfyngu ar bron yr holl ddatblygiadau ynni gwynt mwy na 5MW i Ardaloedd Chwilio Strategol (SSA), heblaw am gynlluniau ar safleoedd tir llwyd trefol / diwydiannol o hyd at 25MW. Yr eithriad i'r rheol hon yw ailbweru a / neu ymestyn ffermydd gwynt sy'n bodoli eisoes (paragraff 2.14 TAN 8).
- 10.3 Yn wyneb y ffaith nad yw Ynys Môn wedi cael ei chydabod fel SSA a bod cynlluniau ar safleoedd tir llwyd trefol / diwydiannol gael eu hannog hyd at 25MW, dylai unrhyw gais ailbweru sy'n cynnwys fferm wynt bresennol ar Ynys Môn gael ei gyfyngu i uchafswm o 25MW. Byddai disgwyl hefyd i unrhyw gynnig o'r fath fodloni'r gofynion asesu eraill a geir yn y CCA hwn.
- 10.4 Dylai unrhyw gais ailbweru o'r fath o fferm wynt bresennol ystyried darparu gwell cynllun i leihau effaith weledol bosibl o dderbynyddion sensitif. Mae'n debygol y bydd angen LVIA ar gyfer bob cais ailbweru.

11.0 Gofynion gyda Chais

- 11.1 Yn y lle cyntaf, buasem yn argymhell y dylai pob ymgeisydd tyrbinau gwynt potensial fod yn destun i drafodaethau cyn gwneud cais gyda'r Gwasanaeth Cynllunio er mwyn sefydlu p'un a yw'r safle dan sylw wedi ei leoli o fewn neu yn agos at unedau preswyl, unrhyw ddynodiadau amgylcheddol neu dirwedd, unrhyw adeiladau neu strwythurau gwarchoddedig, unrhyw nodweddion perthnasol o ddiddordeb ecolegol, neu unrhyw barthau ymgynghori statudol.
- 11.2 Mae Gwasanaeth Cynllunio'r Cyngor yn cadw catalog daearyddol helaeth a chyfredol o'r holl ddynodiadau pwysig, adeiladau a strwythurau a warchodir, a pharthau ymgynghori statudol. Yn y lle cyntaf, dylid cysylltu â'r Gwasanaeth Cynllunio er mwyn sefydlu a oes unrhyw faterion o'r fath yn berthnasol i'r safle.
- 11.3 Argymhellir yn gryf gwneud ymgysylltiad cynnar â Gwasanaeth Cynllunio'r Cyngor ac adrannau mewnol perthnasol eraill a sefydliadau allanol yn achos pob cais tyrbinau gwynt, waeth beth fo'i leoliad neu raddfa.
- 11.4 Mae trafodaethau o'r fath yn galluogi i gwmpas y wybodaeth y dylid ei chyflenwi gael ei chytuno gyda'r awdurdod cynllunio ac mae'n galluogi'r datblygwr i gomisiynu astudiaethau angenrheidiol mewn modd amserol. Mae hyn yn arbennig o wir am geisiadau a fydd angen Aseiad Effaith Amgylcheddol lle mae'r rheoliadau perthnasol yn caniatáu i'r awdurdod ddarparu 'barn gwmpasu' i lywio cynnwys yr astudiaeth honno. Dylai trafodaethau cyn cyflwyno cais, lle y bo'n briodol, gynnwys awdurdodau cyfagos lle bydd effeithiau gweledol traws-ffiniol ac effeithiau posibl pellter hir cronus.
- 11.5 Dylid ymgysylltu'n gynnar â chymunedau lleol er mwyn sicrhau bod trigolion lleol yn meddu ar ddealltwriaeth lawn o'r cynllun, gan gynnwys ei fanteision cymunedol posibl.
- 11.6 Gall y cysylltiadau a gynhwysir yn yr adran nesaf hefyd roi cyngor ac arweiniad ar ddatblygu tyrbinau gwynt.
- 11.7 Mae'r cyhoeddiadau a gynhwysir yn yr adran 'Darllen pellach' yn rhoi cyngor ac arweiniad defnyddiol y dylid cyfeirio ati mewn ceisiadau newydd.
- 11.8 Mae'r gwasanaeth cynllunio wedi cynhyrchu 'Cais Tyrbinau Gwynt - Rhestr Wirio' er mwyn darparu eglurder o ran y wybodaeth sydd ei hangen i gefnogi cais.
- 11.9 Ceir copi o'r rhestr wirio yn Atodiad 4 a dylid cyfeirio ati, yn ychwanegol at y materion a amlygwyd yn y CCA hwn.

12.0 Manteision Cymunedol a Chyfraniadau Datblygwyr

12.1 Mae datblygwyr neu dirfeddianwyr yn cael eu hannog i ymwneud yn uniongyrchol â chymunedau lleol o ran manteision cymunedol posibl sy'n gysylltiedig, yn hytrach na gyda'r Cyngor. Nid yw absenoldeb neu bresenoldeb unrhyw gyfraniad i gymunedau lleol yn fater a fydd gael ei ystyried gan y Cyngor wrth iddo benderfynu a ddylai caniatâd cynllunio gael ei roi neu beidio.

Mae'n anghyfreithlon cymryd rhwymedigaeth gynllunio i ystyriaeth wrth benderfynu ar gais cynllunio, neu unrhyw ran o gais cynllunio, y gellir codi ardoll arno, p'un a oes ardoll lleol ar waith neu beidio, os nad yw'r rhwymedigaeth yn bodloni pob un o'r profion canlynol:

- yn angenrheidiol i wneud y datblygiad yn dderbyniol o safbwynt cynllunio;**
- yn ymwneud yn uniongyrchol â'r datblygiad arfaethedig; ac**
- yn gysylltiedig yn deg ac yn rhesymol o ran graddfa a math i'r datblygiad.**

12.2 Mae enghreifftiau o fanteision y gellid eu cynnig i gymunedau lleol yn cynnwys adeiladu cyfleuster cymunedol, taliad ariannol sydd o fudd i'r gymuned, taliadau blynyddol i'r gymuned, gwella addysg, sgiliau a hyfforddiant i'r boblogaeth leol neu ymrwymiad gan y datblygwr i ddefnyddio llafur lleol lle bynnag y bo'n bosibl.

12.3 Os yw datblygwyr yn cynnig manteision cymunedol nad ydynt yn perthyn yn uniongyrchol i'r broses gynllunio, yna ni all hyn gael ei ddefnyddio fel ystyriaeth wrth benderfynu ar unrhyw gais cynllunio. Mae Atodiad B TAN 8 yn darparu manylion pellach o hyn.

12.4 Dylai manylion gael eu darparu ar ffurf cyfraniadau'r datblygwyr o ganlyniad i'r datblygiad ynni gwynt arfaethedig. Bydd yr angen am gyfraniadau datblygwyr yn cael eu hasesu o ran effaith y datblygiad arfaethedig ar yr ardal, megis effeithiau gweledol a seilwaith ffyrdd (e.e. yr angen am lwybrau troed newydd neu ledu'r ffordd), neu effeithiau economaidd-gymdeithasol.

12.5 Bydd disgwyl i ymgeiswyr a datblygwyr drafod y dull o liniaru effeithiau o'r fath gyda'r swyddfa achos perthnasol, yn ddelfrydol ar y cam cyn-cais.

12.6 Ni fydd buddiannau ariannol, megis sefydlu cronfa ymddiriedolaeth gymunedol, yn cael eu trin fel ystyriaeth berthnasol oni bai eu bod yn bodloni'r prawf a nodir yng Nghylchlythyr y Swyddfa Gymreig 13/97 - Rhwymedigaethau Cynllunio.

12.7 Gall datblygiadau ynni gwynt o bosibl gynnig cyfleoedd i ddarparu manteision i'r gymuned trwy'r broses gynllunio e.e. gwelliannau yn y seilwaith priffyrdd neu reoli cynefinoedd bywyd gwyllt.

12.8 Bydd y Cyngor yn disgwyl i bob datblygiad ynni gwynt sy'n cynnwys tyrbini Canolig neu Fawr (dros 20m i flaen y llafn) gyda capasiti pŵer masnachol o dros 50 kW fesul tyrbini wneud cyfraniad (ariannol neu fel arall) i gymunedau lleol yr effeithir arnynt. **Dylai gwerth y cyfraniad ymwneud â maint a graddfa'r datblygiad.** Gall

y cyfraniadau hyn gael eu sicrhau drwy Gytundeb Adran 106 os ydy o'n gynnig unochrog neu fe ellir ymdrin a hwy ar wahan.

13.0 Manylion Cyswllt

13.1 Mae'r cysylltiadau a ddarperir, ac eithrio Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd, yn sefydliadau annibynnol ac nid ydynt yn gysylltiedig â chyhoeddi'r ddogfen hon mewn unrhyw ffordd.

| | |
|---|---|
| <p>Cyngor Sir Ynys Môn Gwasanaeth Cynllunio Adran Rheoli Datblygu Swyddfeydd y Cyngor Llangefni LL77 7TW www.anglesey.gov.uk</p> | <p><u>Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd,</u> <u>Neuadd y Dref</u> <u>Bangor</u> <u>Gwynedd</u> <u>LL57 1DT</u> www.gwynedd.gov.uk</p> |
| <p>Renewable UK Greencoat House Francis Street London SW1P 1DH www.britishwindenergy.co.uk</p> | <p><u>RSPB</u> <u>Southerland House</u> <u>Castlebridge</u> <u>Cowbridge Road East</u> <u>Caerdydd</u> <u>CF11 9AB</u> www.rspb.org.uk</p> |
| <p>Cadw Plas Carew Uned 5/7, Cefn Coed Parc Nantgarw Caerdydd CF15 7QQ www.cadw.wales.gov.uk</p> | <p>Ymddiriedolaeth Garbon Cymru Albion House Oxford Street Nantgarw Caerdydd CF15 7TR www.carbontrust.co.uk</p> |
| <p>Yr Awdurdod Hedfan Sifil CAA House 45-49, Kingsway London WC2B 6TE www.caa.co.uk</p> | <p><u>Cyngor Cefn Gwlad Cymru</u> <u>Plas Penrhos</u> <u>Ffordd Penrhos</u> <u>Bangor</u> <u>LL57 2BX</u> www.ccw.gov.uk</p> |
| <p>Ymddiriedolaeth Arbed Ynni Cymru 1, Caspian Point Caspian Way Caerdydd CF10 4DQ www.energysavingtrust.org.uk</p> | <p>Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru Ffordd Penlan Parc Menai Bangor LL57 4DE www.environment-agency.gov.uk</p> |
| <p>Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd Craig Beuno Garth Road Bangor LL57 2RT www.heneb.co.uk</p> | <p>OFCOM Riverside House 2a, Southwark Bridge Road London SE1 9HA www.ofcom.org.uk</p> |
| <p>Y Weinyddiaeth Amddiffyn Kingston Road Sutton Coldfield West Midlands B75 7RL www.mod.uk</p> | <p>Llywodraeth Cymru Adeiladau'r Goron Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ www.wales.gov.uk</p> |

14.0 Darllen Pellach

- Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod – Bat Surveys: Best Practice Guidance – Surveying for Onshore Wind Farms (dyddiadau amrywiol)
- Yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod – Bat Surveys: Good Practice Guidance (2012)
- Cadw – Cofrestr Tirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru – Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn (1998)
- Cadw – Ynni Adnewyddadwy a'ch Adeilad Hanesyddol: Gosod Systemau Microgynhyrchu: Canllawiau Ymarfer Gorau (2010)
- **Cadw - 'Canllaw arfer da ar ddefnyddio Cofrestr Tirweddau Hanesyddol yng Nghymru yng ngweithrediadau cynllunio a datblygu' (2007)**
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Cadw a Llywodraeth Cynulliad Cymru – Canllawiau Ymarfer Gorau ar Ddefnyddio'r Gofrestr o Dirweddau o Diddordeb Hanesyddol yng Nghymru yn y Broses Gynllunio a Datblygu (2007)
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru – Nodyn Cyfarwyddyd Gwybodaeth LANDMAP 1 : Ardaloedd Tirwedd Arbennig a LANDMAP (2008)
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru – Nodyn Cyfarwyddyd Gwybodaeth LANDMAP 3: Defnyddio Landmap ar gyfer Asesiad Gweledol o Dyrbinau Gwynt ar y Tir (2010)
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru (2009) Asesiad Morlun Cymru
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru (2010). Nodyn Cyfarwyddyd. Asesu effaith Datblygiadau Ffermydd Gwynt ar Fawnogydd yng Nghymru
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru (Mehafin 2010) Nodiadau Cyfarwyddyd LANDMAP
- Awdurdod Hedfan Sifil: CAP 764 'CAA Policy and Guidelines on Wind Turbines (2012)
- Datganiad Polisi Cenedlaethol DECC (NPS) EN1 Overarching Energy (2011)
- DECC NPS EN3 Renewable Energy Infrastructure (2011)
- Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd – Update of UK Shadow Flicker Evidence Base (2011)
- Yr Adran Masnach a Diwydiant – ETSU W/14/00533/00/00: The Influence of Colour on the Aesthetics of Wind Turbine Generators
- Yr Adran Masnach a Diwydiant – ETSU-R-97: The Assessment and Rating of Noise from Wind Farms – Final Report (1996)
- Yr Adran Masnach a Diwydiant – Wind Energy and Aviation Interests: Interim Guidelines (2002)

- **Yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio – Review of Guidance on the assessment of Cumulative Impacts of Onshore windfarms (2008).**
<https://www.og.decc.gov.uk/EIP/pages/windfarm-cumulative-impacts-report.pdf>
- Cyngor Trydan – Standard 44-8: Overhead Line Clearances
- Cyngor Sir Gwynedd (blaenorol) – Cynllun Fframwaith Gwynedd (1993)
- Cyngor Sir Ynys Môn – Cynllun Rheoli AHNE (2009)
- Cyngor Sir Ynys Môn – Cynllun Rheoli Safle Treftadaeth Byd
- Cyngor Sir Ynys Môn – Cynllun Lleol (1996)
- Cyngor Sir Ynys Môn – Canllawiau Cynllunio Atodol: Canllawiau Dylunio ar gyfer yr Amgylchedd Trefol a Gwledig(2008)
- Cyngor Sir Ynys Môn – Cynllun Datblygu Unedol
- Cyngor Sir Ynys Môn – Strategaeth Tirwedd a Ddiweddarwyd(2011)
- Landscape Institute and the Institute of Environmental **Management and** Assessment – Guidelines for Landscape and Visual Impact Assessment (2002)–**(2nd argraffiad, 2002 or 3rd argraffiad o 2013).**
- Natural England – Technical Information Note TIN051 (First Edition, 11th February 2009): Bats and Onshore Wind Turbines – Interim Guidance
- Natural England – Technical Information Note 059: Bats and Single Mawr Wind Turbines: Joint Agencies Interim guidance (2011)
- Natural England, Scottish Natural Heritage & CCW – Bats and Wind Turbines (Jan 2012)
- **Ofcom - Tall structures and their impact on broadcast and other wireless services (2009)**
- Renewables Advisory Board & Department of Trade and Industry – Delivering Community Benefits from Wind Energy Development – A Toolkit (2007)
- Rhos Garn Whilgarn, Talgarreg (Apêl cyf: APP/D6820/A/07/1200875)
- Scottish Natural Heritage – Guidance: Cumulative Effect of Wind Farms (Version 2 – Revised 13.04.05)
- Scottish Natural Heritage – Location and Siting of Wind Farms in the Landscape (Version 1 – December 2009)
- Scottish Natural Heritage – Visual representation of wind farms: Good Practice Guidance (2006)
- Scottish Natural Heritage guidance on “Cumulative effects of windfarms” (2005)

- Scottish Natural Heritage: "Natural Heritage Assessment of wind energy projects which do not require formal EIA (2008)
- **Scottish Natural Heritage - Siting and design of small scale wind turbines of rhwng 15 and 50 metres in height, Dolen Mawrth 2012: www.snh.gov.uk/docs/A719295.pdf**
- **Scottish Natural Heritage - Assessing the cumulative impact of onshore wind energy developments, Mawrth 2012, (mae hyn yn disodli eich cyfeiriad presennol i gronnus o 2005). Dolen: www.snh.gov.uk/docs/A675503.pdf**
- **Scottish Natural Heritage – Visual Representation of Winfarms: Good Practice Guidance, 2007. <http://www.snh.gov.uk/publications-data-and-research/publications/search-the-catalogue/publication-detail/?id=846>**
- Llywodraeth Cymru (a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru) - Cynhyrchu Eich Ynni Eich Hun: Rheoliadau Cynllunio Cyfredol (2011)
- Llywodraeth Cymru (a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru) – Cynhyrchu Ynni Eich Hun: Gwynt - Canllaw Cynllunio i Ddeiliaid Tai, Cymunedau a Busnesau (2011)
- Llywodraeth Cymru (a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru) – Cymru'n Un: Un Blaned - Cynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009)
- Llywodraeth Cymru (a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru)– Polisi Cynllunio Cymru (4^{ydd} arg, 2011)
- Llywodraeth Cymru (a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru)– Nodyn Cyngor Technegol 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio (2009)
- Llywodraeth Cymru (a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru)– Nodyn Cyngor Technegol 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy (2005)
- Llywodraeth Cymru – Canllawiau Ymarfer: Goblygiadau Cynllunio Datblygiadau Ynni adnewyddadwy a charbon isel (2011)
- Llywodraeth Cymru *Datganiad Polisi ar Barciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru (2007)*
- Swyddfa Gymreig – Cylchlythyr 60/96: Archaeoleg a Chynllunio
- Swyddfa Gymreig – Cylchlythyr 1/98: Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Cyfarwyddiadau gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru
- Swyddfa Gymreig – Cylchlythyr 61/96: Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth
- Swyddfa Gymreig – Cylchlythyr 13/97: Rhwymedigaethau Cynllunio

15. Rhestr Termau

| Term | Esboniad |
|--|---|
| Adeilad Rhestredig | Mae'n ofynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ôl y gyfraith i lunio rhestrau o adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Yn ogystal â darparu dogfen gyfeirio barod o adeiladau o bwysigrwydd i dreftadaeth y genedl, mae rhestru yn darparu lefel ychwanegol o ddiogelwch cyfreithiol. |
| Adran 106 | Amod cyfreithiol sy'n caniatáu i Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) wneud cytundeb cyfreithiol rhwymol neu rwymedigaeth gynllunio gyda thirfeddiannwr wrth roi caniatâd cynllunio. |
| Ardal Cadwraeth | Mae Ardaloedd Cadwraeth yn cael eu dynodi oherwydd eu diddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig. |
| Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC) | Ardaloedd sy'n cyfrannu at gynnal neu adfer statws cadwraeth ffafriol y cynefinoedd neu rywogaethau a restrir yn Atodiadau I a II y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. |
| Ardal Gwarchodaeth Arbennig (SPA) | Ardaloedd dynodedig sy'n helpu gwarchod cynefinoedd ar gyfer rhywogaethau prin a bregus a rhywogaethau o adar mudol. |
| Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) | Dynodiad statudol a gynlluniwyd i ddiogelu tirweddau naturiol sy'n bwysig yn genedlaethol. |
| Ardaloedd Chwilio Strategol (SSA) | Ardal sydd wedi ei nodi ar lefel strategol fel un sydd â'r nodweddion cyffredinol sy'n addas ar gyfer cynnwys ffermydd gwynt mawr. |
| Arfordir Treftadaeth | Mae Arfordir Treftadaeth yn llain o arfordir a ddynodwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru fel un sydd â harddwch naturiol nodedig neu arwyddocâd gwyddonol |
| Arolwg Cynefinoedd Cam I | Mae Dosbarthiad Cynefinoedd a thechneg arolwg maes cysylltiedig yn rhoi system safonol i gofnodi llystyfiant lled-naturiol a chynefinoedd bywyd gwylt arall. |
| Asesiad Effaith Amgylcheddol (EIA) | Y broses a ddefnyddir i ddisgrifio, dadansoddi a gwerthuso ystod o effeithiau amgylcheddol a achosir gan gais ynni gwynt. |
| Asesiad Effaith Tirwedd a Gweledol (LVIA) | <p>Yn benodol, mae'n ceisio sicrhau bod holl effeithiau posibl o newid a datblygiad ar y dirwedd ei hun ac ar olygfeydd ac amwynder gweledol, yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau.</p> <p><u>Mae'n broses sy'n rhoi gwybodaeth sylfaenol am y dirwedd ac adnoddau gweledol, ac yn dyfarnu arnynt mewn perthynas â natur yr adnoddau a natur effeithiau, i hysbysu'r broses o wneud penderfyniadau, ond nid yw'n ffordd o "sicrhau"</u></p> |

| Term | Esboniad |
|---|---|
| | <u>fod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn "ystyried" y pwnc hwn.</u> |
| Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) | Awdurdod Cynllunio Lleol yw'r awdurdod lleol neu'r cyngor sydd â grym yn ôl y gyfraith i arfer swyddogaethau cynllunio tref statudol ar gyfer ardal benodol. |
| Awdurdod Hedfan Sifil (CAA) | Yr Awdurdod Hedfan Sifil (CAA) yw'r gorfforaeth gyhoeddus sy'n goruchwyllo ac yn rheoleiddio pob agwedd ar y diwydiant awyrennau yn y Deyrnas Unedig. |
| Cwmpasu | Y broses o benderfynu ar gwmpas a lefel manylder EIA, gan gynnwys effeithiau amgylcheddol y mae angen eu hystyried, y dulliau asesu i'w defnyddio, a strwythur a chynnwys yr Adroddiad Amgylcheddol. |
| Cymeriad Tirwedd | Y patrwm pendant neu gyfuniad o elfennau sy'n digwydd yn gyson mewn tirwedd arbennig a sut mae hyn yn cael ei weld gan bobl. |
| Datblygu Cynaliadwy | Datblygu sy'n cynnal neu'n gwella ansawdd bywyd y genhedlaeth bresennol tra'n gwarchod yr amgylchedd ac adnoddau i gwrdd ag anghenion cenedlaethau'r dyfodol. |
| Datganiad Amgylcheddol (ES) | Y ddogfen sy'n cefnogi cais cynllunio sy'n nodi canfyddiadau'r EIA. |
| <u>Datganiad Dyluniad a Mynediad</u> | <u>Mae datganiad dylunio a mynediad (DAS) yn adroddiad byr sy'n dod gyda chais cynllunio ac sy'n ei gefnogi. Dylai'r DAS egluro egwyddorion a chysyniadau dylunio a ddefnyddiwyd mewn agweddau penodol ar y cais - y rhain yw maint, gosodiad, graddfa, tirlunio a golwg y datblygiad.</u> |
| Effeithiau Cronnus | Mae hyn yn ganlyniad i fwy nag un cynllun yn cael eu hadeiladu ac mae'n effaith gyfunol yr holl ddatblygiadau, wedi'u cymryd gyda'i gilydd. Gall hyn fod o ran eu heffaith ar y dirwedd ac amwynder gweledol, poblogaethau adar, bywyd gwylt arall, yr economi leol, twristiaeth ayb. |
| ETSU-R-97 | Methodoleg asesu a graddio sŵn o dyrbinau gwynt. |
| Gorchudd Tir | Y gorchudd (bio) ffisegol yr arsylwir ar wyneb y ddaear sy'n cynnwys llystyfiant a strwythurau o waith dyn |
| Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (NNR) | Mae ardaloedd o bwysigrwydd cadwraeth natur cenedlaethol yn cael eu dynodi'n Warchodfeydd Natur Cenedlaethol. |
| Gwarchodfeydd Natur Lleol (LNR) | Dynodedig ar gyfer ddiddordeb lleol gan y Cyngor. |
| Gwasanaethau Traffig Awyr Cenedlaethol | Mae Gwasanaethau Traffig Awyr Cenedlaethol y Deyrnas Unedig (NATS) yn gwmni a sefydlwyd yn 2001 i redeg gwasanaethau rheoli traffig awyr. Mae |


| Term | Esboniad |
|--|--|
| (NATS) | hyn yn golygu y gall NATS sicrhau bod awyrennau yn hedfan tyn ddiogel ar draws Prydain, ac y gall awyrennau esgyn a glanio yn ddiogel ym meysydd awyr Prydain. |
| Gwynt Croesrym | Gwynt Croesrym yw'r gwahaniaeth mewn cyflymder a chyfeiriad y gwynt dros bellter cymharol fyr yn yr atmosffer. Gall gwynt croesrym gael ei dorri i lawr i gydrannau fertigol a llorweddol, gyda gwynt croesrym llorweddol yn cael ei weld ar draws ffyrntiau a ger yr arfordir, a gwynt croesrym fertigol fel arfer yn agos at yr wyneb, er bod hefyd ar lefelau uwch yn yr atmosffer ger jetiau lefel uchaf a pharthau ffyrntiau uwchben. |
| Heneb Gofrestredig (SAM) | Mae'r term yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ystod eang iawn o safleoedd archeolegol. Mae'r safleoedd hyn yn cael eu gwarchod yn gyfreithiol a chyfeirir atynt fel henebion cofrestredig. |
| LA90 10m (para. 7.3.2) | Mae ESTU-R-97 yn unol ag arfer cyffredin BS4142 yn defnyddio LA90 i ddiffinio sŵn yn y cefndir. Mae hon y lefel yr eir drosti 90% o'r amser, felly mewn cyfnod o ddeng munud mae lefel y sŵn yn fwy na'r LA90 am gyfanswm o 9 munud. |
| LANDMAP | GIS (System Gwybodaeth Ddaearyddol) yn seiliedig ar adnoddau tirwedd lle mae nodweddion tirwedd, nodweddion a dylanwadau ar y dirwedd yn cael eu cofnodi a'u gwerthuso i set data sy'n genedlaethol gyson. |
| Lliniaru | Mesurau, gan gynnwys unrhyw broses, gweithgaredd neu ddylunio i osgoi, lleihau neu unioni effeithiau andwyol cais datblygu. |
| Llwyth Annormal Anwahanadwy (AIL) | Unrhyw lwyth na ellir ei dorri i lawr yn llawer llai heb gostau diangen neu risg o niwed, e.e. tyrbinau gwynt. |
| Megawat (MW) | Mae wat yn uned o bŵer trydanol. Mae megawat yn filiwn wat. |
| Microgynhyrchu | Cynlluniau cynhyrchu pŵer ar raddfa fychan iawn, fel arfer yn darparu ynni i un aelwyd / swyddfa. |
| Modylu Osgledau (AM) | Techneg a ddefnyddir mewn cyfathrebu electronig trwy gyfrwng ton cludwr radio. |
| Newid mewn Hinsawdd | Proses o newidiadau i batrymau tywydd a thymheredd a achoswyd yn bennaf gan allyriadau o rai 'nwyon tŷ gwydr' oddi ar y ddaear, sy'n gysylltiedig yn bennaf â llosgi tanwydd ffosil. |
| Nodyn Cyngor Technegol (TAN) | Darparu cyngor technegol ac arweiniad ar feysydd polisi cynllunio penodol. |
| Nwyon Tŷ Gwydr | Y chwe phrif nwy sy'n cyfrannu at newid yn yr hinsawdd a geir yn yr atmosffer uchaf. Maent yn atal peth ynni rhag cael ei ail-drosglwyddo i'r gofod. Mae'r nwyon yn cynnwys carbon deuocsid, methan, ocsid |

| Term | Esboniad |
|--|---|
| | nitraidd, hydroflouorocarbons, perfluorocarbons a sylffwr hecsafflorid. |
| Ōl Troed Carbon | Faint o garbon deuocsid neu gyfansoddion garbon eraill a ollyngir i'r atmosffer gan weithgareddau unigolyn, cwmni, gwlad ayb. |
| Parth Dylanwad Gweledol | Yr ardal lle mae'r datblygiad yn ddamcaniaethol weladwy. Defnyddir Parthau Dylanwad Gweledol i nodi'r rhannau o'r dirwedd yr effeithir arni gan ddatblygiad. |
| Parth Gweledol Damcaniaethol (ZTV) | <p>Mae dadansoddiad ZTV yn broses o benderfynu ar weleddedd gwrthrych yn y dirwedd o amgylch. Mae'r broses yn wrthrychol gydag ardaloedd o weleddedd neu rai lle nad oes gweleddedd yn cael eu pennu gan feddalwedd cyfrifiadurol sy'n defnyddio set ddata drychiad digidol. Mae'r allbwn o'r dadansoddiad yn cael ei ddefnyddio i greu map gweleddedd.</p> <p><u>Mae hon yn yr ardal lle mae'r datblygiad yn weladwy'n ddamcaniaethol. (Nid yw'n rhan o'r diffiniad a gaiff ei bennu gyda meddalwedd cyfrifiadurol, dim ond ymarfer sefydledig yw i gynyddu manylder a chysondeb mewn astudiaethau, ac argymhellir hyn yn hytrach na cheisio gwneud 'asesiad â'r llygad' ar y safle, a all fod yn oddrychol a chyffredinol iawn).</u></p> |
| Pellter Gwahanu | Y pellter rhwng y tyrbinau gwynt ac aneddiadau neu anheddau unigol. |
| Rhagolwg Band Wythfed | Dyma'r dull rhagfynegi mwyaf cywir, ond mae angen mesur sŵn mwyaf manwl ac mae'n cynnwys y dull mwyaf cymhleth o gyfrifo'r LAeq yn y glust. |
| Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (So DdGA) | Mae SoDdGA yn ardaloedd o dir a ddynodwyd fel rhai o ddiddordeb cadwraeth natur cenedlaethol |
| Safle Treftadaeth y Byd | Dynodiad y Cenhedloedd Unedig sy'n ymwneud â thir o bwysigrwydd hanesyddol neu ddiwylliannol penodol ar lefel ryngwladol. Yn achos Blaenafon <u>Ynys Môn</u> mae hyn yn ymwneud â <u>Chestyll Biwmares a Chaernarfon a'u safleoedd</u> â'i bwysigrwydd allweddol i'r chwyldro diwydiannol. |
| Safloedd Bywyd Gwyllt Ymgeisiol (CWS) | Safleoedd anstatudol y tybir eu bod o werth ecolegol arbennig. |
| Safloedd Ramsar | Ardaloedd gwlyptir o bwysigrwydd rhyngwladol. |
| Sgrinio | Y broses o benderfynu a yw cynllun neu raglen angen EIA. |
| Siffrwd Llafn | Modiwleiddio rhythmig o sŵn a achosir gan aerodynamig y cylchdro o dyrbin gwynt. |
| Tirwedd | Ardal, fel y caiff ei gweld gan bobl, y mae ei math o gymeriad <u>yn deillio o weithrediad a</u> |


| Term | Esboniad |
|--|---|
| | <p><u>rhyngweithrediad ffactorau naturiol a/neu ddynol</u> neu ardal yn gallu cynnwys newid heb effeithiau andwyol annerbyniol ar ei chymeriad. Mae capasiti yn debygol o amrywio yn ôl math a natur y newid a gynigir.</p> |
| <p><u>Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig</u></p> | <p><u>Ardal o dirwedd a ddynodir fel un sydd naill ai o ddiddordeb hanesyddol 'eithriadol' neu 'arbennig' yng Nghymru ar y 'Gofrestr o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru' gan Cadw.</u></p> |
| <p>Tonyddiaeth</p> | <p>Tonal sound is defined as sound at discrete frequencies. It is caused by components such as meshing gears, non-aerodynamic instabilities interacting with a rotor blade surface, or unstable flows over holes or slits or a blunt trailing edge.</p> |
| <p>Y Swyddfa Gyfathrebiadau (OFCOM)</p> | <p>Y Swyddfa Gyfathrebiadau yw'r awdurdod rheoleiddio a chystadleuaeth a gymeradwywyd gan y llywodraeth i'r diwydiannau darlledu, telegyfathrebiadau a phost y Deyrnas Unedig.</p> |
| <p>Ynni Adnewyddadwy</p> | <p>Term casgliadol ar gyfer llifoedd ynni sy'n digwydd yn naturiol a dro ar ôl tro yn yr amgylchedd. Mae'n cynnwys ynni sy'n deillio o wynt, yr haul, ynni dŵr, tonnau, llanw, biomas, biodanwydd ac o ffynonellau geothermol.</p> |

Atodiad 1 – Dynodiadau a Parthau Ymgynghori ar Ynys Môn

Dim ond i bwrrpas dangosol yn unig y dylid defnyddio'r map hwn oherwydd gallai ffiniau'r dynodiadau gael eu newid yn y dyfodol. Gweler yr Eirfa yn Rhan 15.0 am wybodaeth am enw llawn y dynodiadau.



Dynodiadau Treftadaeth Ynys Môn



Nodiant / Notation

-  Ardaloedd Cadwraeth / Conservation Areas
-  Adeiladau Rhestredig / Listed Buildings
-  Henebion Rhestredig / Schedule Ancient Monuments
-  Safle Treftadaeth y Byd / World Heritage Site
-  Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Arbennig yng Nghymru
Parks & Gardens of Special Interest in Wales




Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd.
Joint Planning Policy Unit.

©Hawffraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2012 Arolwg Ordnans 100023387
©Crown Copyright and database rights 2012 Ordnance Survey 100023387

1:250,000

Fe ddylid cysylltu gydag Uned Amgylchedd Adeiledig ynglyn a mapiau manwl o leoliad y dynodiadau yma. Bydd rhaid talu am y gwasanaeth yma o dan y drefn Costau Ymholiad Ymchwil Cynllunio.

Dynodiadau Gwarchod Bywyd Gwyllt Ynys Môn*



Nodiant / Notation

-  Ramsar / Ramsar
-  ACA / SAC
-  AGA / SPA
-  SoDdGA / SSSIs
-  GNG / NNR
-  GNL / LNR



CYNGOR IRE
YNNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL


Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd.
Joint Planning Policy Unit.

©Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2012 Arolwg Ordnans 100023387
©Crown Copyright and database rights 2012 Ordnance Survey 100023387

1:250,000

* Nid oes mapiau o'r Safleoedd Bywyd Gwyllt Posib/ safleoedd Bywyd Gwyllt ar gael ar hyn o bryd. Caiff y map yma ei ddiweddarau ar ol cael yr wybodaeth. Gellir gweld mapiau manwl o'r dynodiadau rhyngwladol a chenedlaethol ar wefan Cyngor Cefn Glwad Cymru Wales' (CCW) web site <http://www.ccw.gov.uk/interactive-maps.aspx>

Gwybodaeth a Gafwyd ynghylch y Parth Ymgynghori o amgylch Mona



Parth Ymgynghori RAF Y Fali

Disgwyl gwybodaeth perthnasol gan yr Awyrlu

Atodiad 2 – Methodoleg Asesu Sŵn

1. Bydd lefel yr allyriadau sŵn o'r datblygiad a ganiateir drwy hyn yn cael ei fesur yn unol ac ni fydd yn mynd uwchben y lefelau a nodir yn y cynllun allyriadau sŵn fel y nodir ym mharagraffau 2 i 10 isod: -
2. Bydd lefel yr allyriadau sŵn sy'n deillio o'r fferm wynt yn cael ei hasesu drwy ddefnyddio'r gweithdrefnau a ddisgrifir yn 'The Assessment and Rating of Noise from Wind Farms' (ETSU-R-97), a gyhoeddir gan ETSU ar ran yr Adran Masnach a Diwydiant, yn benodol yr adran 'Supplementary Guidance Notes to the Planning Obligation'.
3. Ni chaiff lefel yr allyriadau sŵn o effeithiau cyfunol y generaduron tyrbinau gwynt yn Fferm Wynt XXX fynd dros:-
 - a. ran y tai annedd a restrir yn Nhabl 1 Atodlen 1, y lefelau a nodir ar gyfer y tai hyn yn y tabl hwnnw (ar y cyflymderau gwynt a nodir yn y tabl).
 - b. ran y tai annedd a restrir yn Nhabl 2 Atodlen 1, y lefelau a nodir ar gyfer y tai hyn yn y tabl hwnnw (ar y cyflymderau gwynt a nodir yn y tabl).
 - c. ran yr holl dai annedd eraill sy'n bodoli'n gyfreithlon ar adeg y caniatâd cynllunio, ni chaiff lefel y sŵn fynd dros 43dBLA90 ar gyflymder gwynt o 8 metr yr eiliad ar uchder o 10 metr.
4. Bydd lefel yr allyriadau sŵn y cyfeirir atynt ym mharagraff 3 uchod yn cael eu mesur drwy ddefnyddio mynegai LA90 dros 20 cyfnod o leiaf, pob un yn para 10 munud, yn defnyddio mesurydd sŵn o ansawdd Dosbarth 1 o leiaf (yn ymgorffori'r arferion gorau presennol) ac yn ymgorffori microffon . modfedd o ddiamedr o dan amodau heb adlais 1.2 metr uwchlaw lefel y ddaear ac o leiaf 3.5 metr o unrhyw wal, gwrych neu wyneb adlewyrchol (yn defnyddio ymateb cyflym wedi'i bwysoli).
5. Os yw lefel yr allyriadau sŵn a fesurir yn unol a pharagraff 4 yn uwch na'r lefelau perthnasol y cyfeirir atynt neu a nodir ym mharagraff 3 uchod neu Atodlen 1 ynghlwm, yna bydd cyfraniad y sŵn cefndir at lefel yr allyriadau sŵn yn cael ei fesur.
 - a. Bydd lefelau sŵn cefndir o'r fath yn cael eu mesur yn defnyddio mynegai LA90 dros 6 chyfnod o leiaf a phob un yn para 10 munud, yn unol a gofynion paragraff 4.
 - b. Bydd y mesuriadau hyn yn cael eu gwneud dros gyfnod o fesur sŵn o effeithiau cyfunol y generaduron tyrbinau gwynt yn Fferm Wynt XXX (yn unol a'r gofynion ym mharagraff 4).
 - c. Rhaid cymhwyso cywiriad yn defnyddio'r ymarfer gorau presennol i lefel y sŵn a fesurwyd i benderfynu pa gyfraniad y mae'r sŵn cefndir yn ei wneud i'r lefelau cyffredinol a fesurwyd pan fo'r tyrbinau gwynt yn troi.
6. Rhaid cyfateb y mesuriadau a gymerwyd yn unol a pharagraffau 4 a 5 gyda chyflymderau gwynt wedi eu mesur ar uchder o 10 metr dros y cyfnodau y cyfeirir atynt ym mharagraffau 4 a 5. Rhaid deillio'r lefel sŵn LA90 yn defnyddio llinell ffit gorau y lefelau sŵn a fesurwyd ar gyfer pwyntiau data sy'n cyfateb i gyflymderau gwynt ar uchder o 10 metr rhwng 1 a 12 metr yr eiliad.
7. Rhaid dangos cydymffurfio gyda pharagraffau 3(a) a 3(b) yn defnyddio'r dulliau a ddiffinnir ym mharagraff 4 – 6 i fodlonrwydd yr awdurdod cynllunio lleol ac ar gost i'r datblygwr o fewn 3 mis ar ôl dechrau cynhyrchu trydan neu ar unrhyw adeg ar gais ysgrifenedig yr awdurdod cynllunio lleol ac, ar ôl hynny, o leiaf unwaith pob 20 mis calendr. Drwy gyflwyno adroddiad ysgrifenedig, rhaid dangos i'r awdurdod cynllunio lleol bod y datblygiad yn cydymffurfio gyda'r cynllun allyriadau sŵn, a rhaid i'r awdurdod yna gymeradwyo hwn yn ysgrifenedig. Efallai y bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn gofyn i'r datblygwr ddatrys unrhyw broblemau o dorri'r cynllun

allyriadau sŵn a hynny o fewn amserlen benodol sydd i'w chyflwyno i, a'i chymeradwyo gan yr awdurdod cynllunio lleol cyn i'r datblygiad ddechrau a rhaid anfon cadarnhad ysgrifenedig i'r awdurdod cynllunio lleol o weithrediad y ceisiadau hyn i ddatrys unrhyw broblemau tor-cynllun cyn i'r datblygiad ddechrau. Bydd y gofynion o dan y cynllun allyriadau sŵn mewn grym drwy gydol oes y datblygiad.

8. Bydd sŵn tonaidd yn cael ei fesur gan weithredwr y fferm wynt ar gost iddo ef / iddo hi ar gais rhesymol yr awdurdod cynllunio lleol yn unol a'r gweithdrefnau a ddisgrifir yn 'The Assessment and Rating of Noise from Wind Farms, ETSU-R-97' a gyhoeddwyd gan ETSU ar ran yr Adran Masnach a Diwydiant.
9. Os, mewn unrhyw dŷ annedd sy'n bodoli'n gyfreithlon ar adeg y caniatâd cynllunio, yw'r sŵn tonaidd sy'n deillio o effaith gyfunol y tyrbinau gwynt yn Fferm Wynt XXX yn mynd dros y trothwy clywadwyedd:-
 - a). o fwy na 2.0dB ond llai na 6.5dB, ychwanegir cosb o $((5/6.5) \times \text{Clywadwyedd})$ dB at lefel y sŵn sy'n deillio ar gyfer yr eiddo hwnnw yn unol a gweithdrefn asesu sŵn tonaidd ETSU-R-97;
 - b). o fwy na 6.5dB, yna ychwanegir cosb o 5dB at lefel y sŵn sy'n deillio ar gyfer yr eiddo hwnnw yn unol â gweithdrefn asesu sŵn tonaidd ETSU-R-97.
10. Rhaid i'r datblygwr ddarparu data ar gyflymder a chyfeiriad y gwynt i'r awdurdod cynllunio lleol ar gais fel bo'r Cyngor yn gallu cadarnhau bod y datblygwr yn cydymffurfio gyda darpariaethau paragraffau 1 i 9 uchod.
11. Rhoddir dehongliad o rai o'r termau a ddefnyddir yn yr amod hwn yn Atodlen 2 sydd ynghlwm.

Atodlen 1

Tabl 1: Tai Annedd yn Gysylltiedig a'r Datblygiad

| Eiddo A (Nodwch y Cyfeirnod Grid) | | | | | | | | | | | | | | | | |
|-----------------------------------|-----|---|-----|---|-----|---|-----|---|-----|---|-----|----|------|----|------|----|
| Wind Speed at 10m height (m/s) | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 4 | 4.5 | 5 | 5.5 | 6 | 6.5 | 7 | 7.5 | 8 | 8.5 | 9 | 9.5 | 10 | 10.5 | 11 | 11.5 | 12 |
| | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cyfyngiad Sŵn L _{A90} dB | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | |

Table 2: Eiddo nad yw'n gysylltiedig â Datblygu.

| Eiddo 1 (Nodwch y Cyfeirnod Grid) | | | | | | | | | | | | | | | | |
|--|-----|---|-----|---|-----|---|-----|---|-----|---|-----|----|------|----|------|----|
| Cyflymder y Gwynt ar uchder o 10m (metr yr eiliad) | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 4 | 4.5 | 5 | 5.5 | 6 | 6.5 | 7 | 7.5 | 8 | 8.5 | 9 | 9.5 | 10 | 10.5 | 11 | 11.5 | 12 |
| | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cyfyngiad Sŵn L _{A90} dB | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | |

| Eiddo 2 (Nodwch y Cyfeirnod Grid) | | | | | | | | | | | | | | | | |
|--|-----|---|-----|---|-----|---|-----|---|-----|---|-----|----|------|----|------|----|
| Cyflymder y Gwynt ar uchder o 10m (metr yr eiliad) | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 4 | 4.5 | 5 | 5.5 | 6 | 6.5 | 7 | 7.5 | 8 | 8.5 | 9 | 9.5 | 10 | 10.5 | 11 | 11.5 | 12 |
| | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cyfyngiad Sŵn L _{A90} dB | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | |

Atodlen 2

Dehongliad

Mae 'Clywadwyedd' yn golygu pa mor glywadwy yw'r Sŵn Tonaidd fel a ddiffinnir yn (ac sydd i'w fesur yn unol a'r) dull cymeradwy yn 'The Assessment and Rating of Noise from Wind Farms' (ETSU-R-97) a gyhoeddwyd gan ETSU ar ran yr Adran Masnach a Diwydiant, yn benodol paragraff 2.1 yn yr adran 'Supplementary Guidance Notes to the Planning Obligation'.

Mae 'Lefel y Sŵn Cefndir' yn golygu'r lefel sŵn cwmpasol sy'n bresennol yn yr amgylchedd heb unrhyw sŵn a gynhyrchir gan y datblygiad.

Mae 'llinell ffit gorau' yn golygu'r gromlin linellol sy'n ffitio orau i fynegi lefel y sŵn fel swyddogaeth cyflymder gwynt sy'n deillio o lefelau sŵn a fesurwyd, ar gyfer data a godwyd, yn unol â'r argymhellion ym mharagraff 1.2 yn yr adran 'Supplementary Guidance Notes to the Planning Obligation' yn ETSU-R-97.

Mae 'dB(A) LA90 10min' yn golygu'r lefel dB(A) sy'n mynd dros y lefel gymeradwy 90% o'r amser ac wedi'i mesur dros gyfnod o 10 munud.

Mae ETSU-R-97 yn golygu 'The Assessment and Rating of Noise from Wind Farms' (ETSU-R-97) a gyhoeddwyd gan ETSU ar ran yr Adran Masnach a Diwydiant (Adroddiad Terfynol Medi 1996).

Mae 'Amodau heb adlais' yn golygu amgylchedd lle nad oes unrhyw wynebau adlewyrchol (ar wahân i'r ddaear) a allai effeithio ar y mesuriadau o fewn yr ystod amledd sy'n cael ei mesur.



Mae 'Cais Rhesymol' yn golygu yn dilyn cwyn i'r Cyngor ynghylch sŵn yn allyrru o'r fferm wynt.

Mae 'Sŵn Tonaidd' yn golygu sŵn sy'n cynnwys elfen o amledd ar wahân.


Mae 'Cyflymder gwynt 10 metr' yn golygu (oni bai fod y cyd-destun yn awgrymu fel arall) cyflymderau gwynt wedi eu mesur ar uchder o 10 metr uwchlaw lefel y ddaear.

Mae 'Tyrbinau Gwynt' yn golygu'r generaduron tyrbinau gwynt sydd i'w codi fel rhan o'r datblygiad.


Atodiad 3 – Canlyniadau Arolwg LANDMAP 2011 (Diweddariad â Sicrwydd Ansawdd)




Tirweddau Diwylliannol



Tirweddau Daearegol



Tirweddau Cynefinoedd



CEISIADAU TYRBIN GWYNT – RHESTR WIRIO

CEISIADAU TYRBIN GWYNT – RHESTR WIRIO

Cyflwyniad

| Camau Penderfynu Ceisiadau Tyrbín Gwynt | |
|---|---|
| (Nid yw Camau 4 i 6 yn Berthnasol os nad oes angen Asesiad Effaith Amgylcheddol) | |
| 1 | Cais i'r Cyngor am eu Barn Sgrinio <ul style="list-style-type: none"> Cais gan yr ymgeisydd i'r Cyngor – Y bwriad cyffredinol o ofyn am farn sgrinio yw y gall yr ymgeisydd gael syniad clir gan y Cyngor ynglŷn â'r angen am ddatganiad amgylcheddol (ES) ymhell cyn iddynt gyrraedd y cam o gyflwyno cais cynllunio ffurfiol (cam 7 isod). Dylai hyn leihau'r posibilrwydd o oedi neu ansicrwydd. Os y bernir bod angen ES, ni fydd unrhyw gamau'n cael eu cymryd ar y cais cynllunio hyd nes bod y datblygwr wedi paratoi'r ES a'i gyflwyno i'r awdurdod cynllunio. |
| 2 | Cais am Farn Sgrinio wedi'i gofrestru gyda Rheoli Datblygu <ul style="list-style-type: none"> Mae gan Gyngor 3 wythnos i ddarparu Barn Sgrinio |
| 3 | Cyngor yn darparu Barn Sgrinio <ul style="list-style-type: none"> Sefydlu os oes angen ES |
| 4 | Cais i'r Cyngor am Farn Sgopio <ul style="list-style-type: none"> Os bydd y Cyngor yn penderfynu bod angen ES gall yr ymgeiswyr geisio cyngor ar gynnwys yr ES drwy wneud cais am 'Farn Sgopio'. |
| 5 | Cais am Farn Sgopio wedi'i gofrestru gyda Rheoli Datblygu <ul style="list-style-type: none"> Mae gan Gyngor 5 wythnos i ddarparu Barn Sgopio |
| 6 | Cyngor yn darparu Barn Sgopio <ul style="list-style-type: none"> Materion i'w cynnwys yn yr ES |
| 7 | Cais llawn yn cael ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol <ul style="list-style-type: none"> Yr holl dystiolaeth ategol, gan gynnwys ES (os oes angen), yn cael ei chyflwyno gyda'r cais llawn |
| 8 | Cais yn cael ei brosesu a sylwadau'r ymgynghorai'n cael eu darparu <ul style="list-style-type: none"> Pwyllgor neu swyddog dirprwyedig yn ystyried y cais Gweinidog Cymru yn ystyried 'galw cais i mewn' |
| 9 | Penderfyniad ar gais llawn <ul style="list-style-type: none"> Pwyllgor neu swyddog dirprwyedig yn penderfynu ar y cais Gweinidog Cymru'n penderfynu ar y cais sydd 'wedi ei alw i mewn' |

- Mae gwahanol fathau o geisiadau cynllunio angen gwahanol fathau o wybodaeth gefndir er mwyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) allu eu dilysu yn ogystal â gwneud penderfyniad gwybodus amdanynt.
- Mae gwneud cais am ganiatâd yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd ddarparu amrywiaeth o gynlluniau, datganiadau a dogfennaeth arall cyn y gall yr ACLI ddechrau ei brosesu fel cais dilys. Bydd peth o'r wybodaeth sy'n ofynnol yn dibynnu ar natur a'r math o gais neu natur cymeriad yr ardal lle mae safle'r cais.
- Os nad yw'r wybodaeth hon yn cael ei darparu, yna o bosib ni all yr ACLI gofrestru neu dilysu'r cais ac hefyd o bosib gallu prosesu a chyhoeddi'r penderfyniad ar y ceisiadau.

- 4 Mae'r dull 'blwch ticio' hyn o ddilysu yn cynnig eglurder ar gyfer ymgeiswyr trwy nodi pa ddogfennau ac eitemau gwybodaeth sydd eu hangen. Mae'r dogfennau a'r wybodaeth sydd eu hangen i wneud cais cynllunio dilys yn cynnwys gofynion gwybodaeth cenedlaethol gorfodol yn ogystal â gofynion gwybodaeth leol.
- 5 Dylai ceisiadau ar gyfer cynlluniau sy'n debygol o gael effeithiau sylweddol ar yr ardal gyfagos (neu ymhellach i ffwrdd) gynnwys ymgysylltu mewn trafodaethau cyn cyflwyno cais fel bod ymgeiswyr yn glir ynghylch lefel y manylion y bydd yr ACLI angen er mwyn deall yr effeithiau a ragwelir o'r cais.
- 6 Dylai ceisiadau a datganiadau cysylltiedig gael eu paratoi gan gyrff neu unigolion cymwys, o ran y mater penodol sy'n cael sylw. Bydd lefel y manylion sydd eu hangen yn amrywio gyda phob cynllun ac mae angen ymgynghori yn gynnar gyda Gwasanaeth Rheoli Datblygu'r Cyngor er mwyn sicrhau bod yr holl asesiadau/ datganiadau perthnasol yn addas i'r diben.
- 7 Mae'r nodiadau hyn i'ch helpu wrth i chi gyflwyno eich cais am dyrbinau gwynt ar y lan.

Am unrhyw wybodaeth bellach:

Ysgrifennwch atom yn:
Gwasanaeth Rheoli Datblygu
Cyngor Sir Ynys Môn
Rovacabin
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

Cysylltwch â ni ar:
01248 752428

E-bostiwch ni yn:
cynllunio@ynysmon.gov.uk

Gellir gweld a lawrlwytho'r rhestr wirio o wefan y Cyngor www.ynysmon.gov.uk/

Rhestr wirio

- 8 Mae'r tabl canlynol yn rhoi rhestr o'r dogfennau a'r wybodaeth sy'n ofynnol:

Rhestr wirio

| | Dogfen neu wybodaeth sydd ei hangen (sail ar gyfer y gofyniad mewn cromfachau) | Disgrifiad | ✓ neu x neu amh. |
|----|--|--|------------------|
| 1. | Ffurflen Gais / Tystysgrifau (Gofyniad cenedlaethol statudol) | <p>Cwblhewch y ffurflen 'Cais am ganiatâd cynllunio'.</p> <p>Dylai'r cynnig gael ei ddisgrifio fel a ganlyn: " Codi tyrbinau gwynt (nifer y tyrbinau) gydag uchafswm uchder both o hyd at (metr uchder both), diamedr rotor o hyd at (metr diamedr) ac uchder fertigol unionsyth mwyaf yr asgell hyd at (metr uchder) ynghyd â chodi (cynhwyswch y strwythurau cysylltiedig) a chreu mynedfa newydd a ffordd fynediad ar dir yn (cyfeiriad). "</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwiriwch bod yr holl gwestiynau wedi eu cwblhau, hyd yn oed os nad yw'n berthnasol rhwch Amh. i mewn er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth fel ein bod yn gwybod nad ydych wedi methu'r cwestiwn trwy gangymeriad. • Gwiriwch bod y datganiad wedi ei lofnodi a'i ddyddio. • Gwiriwch bod y tystysgrifau cywir wedi cael eu cwblhau, eu llofnodi a'u dyddio, gan gynnwys y dystysgrif amaethyddol. • Gwiriwch bod unrhyw beth y cyfeirir ato ar y ffurflen yn cyd-fynd ag unrhyw gynlluniau a dogfennau pellach a gyflwynwyd, megis y rhifau cynllun a ddyfynnir. | |
| 2. | Cynllun Lleoliad (Gofyniad cenedlaethol statudol) | <p>Mae'r cynllun lleoliad angen bod ar raddfa o 1:2500 neu 1:1250 a chynnwys pwynt y gogledd.</p> <p><u>Argymhellir hefyd y dylid cyflwyno cynllun graddfa 1:25000 i:50000 at ddibenion cyd-destunol</u></p> <p>Rhaid i'r tyrbin/au gwynt a phob datblygiad sy'n ymwneud â thyrbin(au) gwynt fod o fewn ymyl goch a ddangosir ar y cynllun lleoliad safle. Ni ellir chaniateir datblygiad y tu allan i'r ymyl coch, ac mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i:</p> | |

Rhestr wirio

| | Dogfen neu wybodaeth sydd ei hangen (sail ar gyfer y gofyniad mewn cromfachau) | Disgrifiad | ✓ neu * neu amh. |
|----|--|---|------------------|
| | | <ul style="list-style-type: none"> • Unrhyw ardal a allai ddod o dan llafnau'r tyrbin • Traciau, ffyrdd neu lwybrau mynediad • Fforydd Ceblau • Ystafelloedd Rheoli, is-orsafoedd, newidyddion • Mastiau meteorolegol • Unrhyw waith peirianeg arall, adeiladau, neu strwythur ategol i'r tyrbin (au) • Unrhyw giatiau neu ffensys arfaethedig <p>Nid oes angen i'r ymyl coch fod yn gyffyrddol â'i gilydd gan nad oes angen cynnwys tir rhwng y tyrbinau neu ddatblygiad ategol lle na fwriedir cael datblygiad.</p> <p>Mae angen i unrhyw dir arall sy'n eiddo/ a reolir gan yr ymgeisydd gael ei amlinellu mewn glas.</p> <p>Dangoswch leoliad priffyrdd, llwybrau cyhoeddus a llinellau rheilffordd o fewn pellter disgyn y tyrbin (uchder asgell + 50 metr) yn achos cefnffyrdd a rhwydwaith rheilffordd, neu belter disgyn y tyrbin + 10% yn achos rhwydwaith trafniadaeth arall yr awdurdod lleol.</p> <p>Dylid dangos llwybrau ceffyl o fewn 200m o'r tyrbinau arfaethedig.</p> <p>Dylid dangos llinellau trawsyrru o fewn 3 gwaith diamedr rotor y tyrbin gwynt neu o fewn pellter disgyn y tyrbin + 10%.</p> | |
| 3. | Cynllun safle / cynllun bloc | Mae angen i'r cynllun safle fod ar raddfa o 1:500 neu 1:200. | |

Rhestr wirio

| | Dogfen neu wybodaeth sydd ei hangen (sail ar gyfer y gofyniad mewn cromfachau) | Disgrifiad | ✓ neu * neu amh. |
|----|--|---|------------------|
| | (Gofyniad cenedlaethol statudol) | <p>Mae angen cynllun safle i ddangos i raddfa leoliad y tyrbîn/au gwynt a lleoliad y cyfarpar atodol megis cypyrddau a newidyddion, ffyrdd mynediad, lloriau caled a ffensys, goleuo ar gyfer cyfansoddion - yn y bôn, unrhyw beth a fwriedir ei roi ar y safle.</p> <p>Dylid darparu cyfeiriad grid chwe ffigur dwyreiniad a chwe ffigur gogleddiad ar gyfer pob tyrbîn.</p> <p>Dangoswch leoliad unrhyw goed neu wrychoedd ar y safle neu o fewn 50 metr i'r safle, gan amlygu rhai y bwriedir eu symud (fel arfer gan linell doredig).</p> <p>Dangoswch unrhyw ddymchweliadau arfaethedig ar gynllun y safle (fel arfer gan linell doredig).</p> | |
| 4. | Cynlluniau drychiad (Gofyniad cenedlaethol statudol) | <p>Mae angen i'r cynlluniau drychiad fod ar raddfa 1:100 neu 1:50. Mae angen darluniau drychiad ar gyfer y tyrbînau ac unrhyw offer atodol megis dodrefn a ffensio os yn berthnasol. Mae'n ofynnol hefyd cael manylion o unrhyw fynediad / ffyrdd mynediad newydd neu rai wedi'u newid.</p> | |
| 5. | Y ffi cywir (Gofyniad cenedlaethol statudol) | <p>Dylai'r ffi gywir gael ei anfon gyda'r cais pan anfonir ef drwy'r post neu os yw'n cael ei roi i mewn â llaw, neu dylai gael ei dalu dros y ffôn ((01248) 752015 neu (01248) 752669) ar ddiwrnodiau'r wythnos yn ystod oriau swyddfa arferol.</p> <p>Dylai sieciau fod yn daladwy i Gyngor Sir Ynys Môn.</p> <p>Mae'r Cylchlythyr sy'n delio â ffoedd cynllunio yn datgan bod Tyrbînau Gwynt i gael eu trin fel Categori 5 - Peiriannau a Pheirianau, ac eithrio tyrbînau domestig ar raddfa fach sydd wedi'u gosod o fewn cwrtil tŷ anedd presennol a gwblhawyd, y dylid eu trin fel Categori 6</p> | |

Rhestr wirio

| | Dogfen neu wybodaeth sydd ei hangen (sail ar gyfer y gofyniad mewn cromfachau) | Disgrifiad | ✓ neu * neu amh. |
|----|--|---|------------------|
| | | <p>neu 7 (a). Mae Ffioedd cais Categori 5 wedi eu seilio ar arwynebedd y safle. Rhaid i arwynebedd y safle gael ei nodi'n gywir ar y ffurflen gais a rhaid i'r arwynebedd a roddir yma gyd-fynd ag arwynebedd y safle oddi mewn i'r ymyl goch a ddangosir ar y cynllun lleoliad safle (gweler 2 uchod). Y lleiafswm ffi sy'n daladwy ar hyn o bryd o dan Categori 5 yw £335 am ardal safle o hyd at 0.1 hectar (1000 metr sgwâr).</p> <p>Gan fod ffensio (gweler 2 uchod) yn strwythur Categori 2 nad yw'n creu unrhyw arwynebedd llawr, defnyddir y rheolau ar gyfer ceisiadau categori cymysg ac nid oes unrhyw ffi yn ddyledus ar gyfer yr ardal a gwmpesir gan y ffens.</p> | |
| 6. | Datganiad Dylunio a Mynediad (Gofyniad cenedlaethol statudol) | <p>Mae angen 'Datganiad Dylunio a Mynediad'. Mae'r Datganiad yn ofynnol i ddangos y 'meddwl' tu ôl i'r cais. Anogir datblygwyr i ddangos sut mae gosodiad a dyluniad mewn perthynas â'r lleoliad yn y dirwedd wedi dylanwadu ar y cais. Mae 8 o bethau i'w hystyried - 'defnydd', 'nifer', 'cynllun', 'graddfa', 'tirlunio', 'golwg', 'mynediad' a 'mynediad cynhwysol' mewn perthynas â chanllawiau polisi cynllunio cenedlaethol a lleol perthnasol.</p> <p><u>Defnydd</u> - esboniwch pam yr ydych wedi dewis y safle penodol hwn ar gyfer y tyrbin/au gwynt arfaethedig.</p> <p><u>Nifer</u> – esboniwch pam yr ydych wedi dewis y nifer o dyrbinau y gwnaethoch gais amdanynt.</p> <p><u>Gosodiad</u> – esboniwch pam yr ydych wedi dewis gosod y tyrbin/au gwynt a'r adeiladau ategol fel y dangosir yn y cais. Dylai ymgeiswyr asesu'r potensial ar gyfer i'r cais effeithio ar y golygfeydd o adeiladau cyfannedd. Darparwch fanylion o'r mesurau a gymerwyd, os oes angen, er mwyn osgoi neu leihau effaith sylweddol andwyol ar y golygfeydd o eiddo cyfannedd. Fe</p> | |

Rhestr wirio

| | Dogfen neu wybodaeth sydd ei hangen (sail ar gyfer y gofyniad mewn cromfachau) | Disgrifiad | ✓ neu * neu amh. |
|--|--|---|------------------|
| | | <p>ddylid darparu Aseiad Mwynderau Preswyl gyda neu o fewn y Datganiad Dylunio a Mynediad ar gyfer tyrbinau o 11.1 metr (blaen y llafn) neu uwch sydd du mewn i'r parthau clustog lleiaf sydd gyfystyr a 10 gwaith ucher y tyrbîn i flaen y llafn.</p> <p>Darparwch fanylion am y peltter rhwng y tyrbîn/au gwynt arfaethedig a'r tyrbîn/au gwynt agosaf presennol neu arfaethedig. Bydd y Gwasanaeth Cynllunio yn gallu darparu manylion am leoliad a statws hysbys tyrbinau eraill. Dangoswch bod lleoliad y tyrbîn/au gwynt wedi ystyried agosrwydd unrhyw ddatblygiad cyfagos a'r risg o anaf i bobl drwy fethiant trychinebus o'r offer neu dafliad rhew, ac effeithiau posibl tynnu sylw gwledol o safbwynt diogelwch ar y ffyrdd.</p> <p><u>Graddfa</u> – rhowch fanylion canlynol y tyrbîn gwynt: uchder both/au, hyd llafn (mewn metrau) a nifer y llafnau, ac esboniwch y rheswm dros hyn. Rhowch fanylion am gapasiti cynhyrchu pob tyrbîn mewn naill ai kW neu MW. Rhowch fanylion am y cysylltiad arfaethedig i'r rhwydwaith trosglyddiad. Dylech gynnwys manylion am y sylfeini arfaethedig. Ar y sail nad oes unrhyw Ardaloedd Chwilio Strategol ar Ynys Môn, disgwylir na ddylai tyrbinau gwynt / cynlluniau fferm wynt fod yn fwy na 5 MW, neu 25MW o ran cynigion i ail gynhyrchu pŵer ar ffermydd gwynt presennol, a rhoddir ystyriaeth i effaith gronnu cynlluniau bach a chynigion i ail gynhyrchu pŵer mewn ardaloedd y tu allan i'r Ardaloedd Chwilio Strategol.</p> <p><u>Tirlunio</u> – esboniwch pa dirlunio sydd wedi ei ddarparu a pham.</p> <p><u>Golwg</u> – esboniwch pam yr ydych wedi dewis ymddangosiad arbennig megis lliw y tyrbîn/au gwynt. Rhowch fanylion am unrhyw fesurau lliniaru a gynigir ar y safle neu eilaidd / oddi ar y safle.</p> | |

Rhestr wirio

| | Dogfen neu wybodaeth sydd ei hangen (sail ar gyfer y gofyniad mewn cromfachau) | Disgrifiad | ✓ neu * neu amh. |
|----|--|--|------------------------|
| | | <p><u>Mynediad</u> – rhowch fanylion am y llwybr mynediad a ddewiswyd er mwyn adeiladu, gwasanaethu neu ddatgymalu tyrbinau. Darparwch fanylion am natur a graddau parhaol addasiadau i fynedfeydd a/ neu ffyrdd</p> <p><u>Mynediad cynhwysol</u> – os anogir mynediad cyhoeddus i'r safle, rhowch fanylion am sut y mae safle'r cais yn gynhwysol i bawb, waeth beth fo'r anabledd sydd ganddynt.</p> <p><u>Agosrwydd at y Rheilffordd - rhoi cadarnhad bod ymgynghori wedi digwydd â Network Rail pan y gallai fod pryder ynghylch agosrwydd at reilffordd.</u></p> | |
| 7. | Datganiad Effaith Amgylcheddol (Gofyniad cenedlaethol statudol) | <p>Mae'r Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Aseiad Effaith Amgylcheddol) 1999 yn nodi'r amgylchiadau lle mae Aseiad Effaith Amgylcheddol (EIA) yn ofynnol. Gall ymgeisydd wneud cais am 'Farn Sgrinio' gan yr ACLL cyn cyflwyno cais cynllunio er mwyn penderfynu p'un a oes angen EIA (gweler yr Eirfa). <u>Yn amodol ar debygolrwydd effeithiau arwyddocaol, efallai y bydd prosiectau sy'n disgyn islaw trothwyon Atodlen 2 (Rheoliadau EIA) hefyd angen EIA.</u></p> <p>Pan fo angen EIA, rhaid darparu Datganiad Amgylcheddol (gweler camau 1 i 6 yn nhabl 1 uchod).</p> <p>Pan nad oes angen EIA, efallai y bydd y ACLL yn parhau i fod angen darpariaeth gwybodaeth amgylcheddol. Mae Rhan 9 a Rhannau 11 i 16 o'r rhestr wirio yma'n amlinellu'r math o wybodaeth sydd ei angen. Anogir ymgeiswyr i drafod yr anghenion gyda Gwasanaeth Rheoli Datblygu'r Cynor yn ystod y cyfnod cyn cyflwyno cais.</p> | |

Rhestr wirio

| | Dogfen neu wybodaeth sydd ei hangen (sail ar gyfer y gofyniad mewn cromfachau) | Disgrifiad | ✓ neu * neu amh. |
|----|---|---|------------------|
| 8. | Asesiad fflachiadau / taflu cysgod (Adrannau PCC 12.10 3.17 & Polisiau I a 45, Cynllun Lleol Ynys Môn - amwynder preswyl) | <p>Pan dderbynnir cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad sy'n ofynnol eu sgrinio o dan Atodlen 2 o'r Rheoliadau heb gais blaenorol am Farn Sgrinio (cam I yn Nhabl I uchod), bydd cais am Farn Sgrinio yn cael ei gofrestru yr un pryd â'r cais cynllunio. Bydd penderfyniad y Cyngor ar y cam hwyr hwn bod angen EIA yn anochel yn effeithio ar y cais a'r amserlen ar gyfer dod i benderfyniad. Anogir ymgeiswyr i wneud eu ceisiadau am Farn Sgrinio cyn cyflwyno cais am ganiatâd cynllunio.</p> <p>Rhaid cymryd i ystyriaeth yr effaith ar breswylwyr aneddiadau ac eiddo cyfagos o amgylch y datblygiad arfaethedig. Dylid paratoi asesiad o botensial fflachiadau cysgod a thafu cysgod trwy gydol y flwyddyn, ar gyfer pob anedd o fewn pelter o 10 diamedr rotor o leoliad arfaethedig pob tyrbin gwynt. Mae angen cynnwys manylion am bob anedd yr effeithir arnynt ynghyd â ffotograffau, cyfeiriadedd, lleoliad prif ffenestri, ayb. ynghyd â chynigion monitro a manylion am fesurau lliniaru.</p> | |
| 9. | Asesiad Effaith Sŵn (Adrannau PCC 3.17, 12.10 & 13.15; Polisiau I a 45, Cynllun Lleol Ynys Môn - amwynder preswyl/sŵn) | <p>Ar y sail fod tyrbin gwynt yn medru bod yn ddatblygiad sy'n sensitif o ran sŵn, rhaid i'r ceisiadau gael eu cefnogi gan Asesiad Effaith Sŵn a baratowyd gan arbenigwr sŵn sydd â chymwysterau acwstig addas.</p> <p>Wrth ystyried cais, dylai datblygwyr nodi unrhyw dderbynyddion sy'n sensitif i sŵn, megis cartrefi, busnesau sy'n seiliedig ar hamdden tawel, manau tawel ac ardaloedd eraill sy'n cael eu gwerthfawrogi yn arbennig oherwydd eu hamgylchedd acwstig neu ansawdd y dirwedd, neu safleoedd dynodedig lle gall sŵn gael effaith andwyol ar warchod rhywogaethau neu fywyd gwylt arall.</p> <p>Bydd ceisiadau ar gyfer tyrbinau mawr a ffermydd gwynt fel arfer angen EIA, a bydd angen cynnal asesiad effaith sŵn llawn a'i asesu yn unol â'r ETSU-R-97. Dylid cynnwys tystiolaeth bod</p> | |

Rhestr wirio

| | Dogfen neu wybodaeth sydd ei hangen (sail ar gyfer y gofyniad mewn cromfachau) | Disgrifiad | ✓ neu * neu amh. |
|--|--|--|------------------------|
| | | <p>y lleoliad a hyd y monitro cefndir wedi cael ei gytuno gydag Adain lechyd yr Amgylchedd y Cyngor, a bod gwybodaeth yn cael ei chyflwyno yn y dull a safon a ddisgwylir o adroddiadau o'r fath. Bydd hyn yn cynnwys lluniau o offer mesur sain yn eu lleoliadau monitro maes, manylion penodol am yr offer gan gynnwys y calibrad a manylion yn ymwneud â chymhwysedd / hyfforddiant yr unigolyn sy'n gosod yr offer yn ei le.</p> <p>Ar gyfer datblygiadau llai ble nad oes angen EIA, bydd y Cyngor yn disgwyl i bob cais gynnwys adroddiad prawf a baratowyd naill ai trwy ddefnyddio Safon Ryngwladol IEC61400 "Systemau generadur tyrbin gwynt - Rhan 11" neu, fel arall, "Perfformiad Tyrbinau Gwynt Bach a Safon Diogelwch" Cymdeithas Ynni Gwynt Prydain. Bydd yr adroddiad prawf yn cynnwys dadansoddiad amllder 1/3 wythfed er mwyn galluogi'r awdurdod lleol i ddilysu ceisiadau am donyddiaeth y tyrbin.</p> <p>Rhaid i'r Ymgeisydd ddangos bod y wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad sŵn wedi cael ei defnyddio i bennu union lleoliad y tyrbin (a nodwyd gan ddefnyddio cyfeirnod grid chwe ffigur dwyreiniaid a chwe ffigur gogleddiad) a phellter gwahanu oddi wrth eiddo preswyl cyfagos. Pan fydd lefel y sŵn a ragwelir yn fwy na 35 dB (A) ar 10m/s ar uchder 10m mewn unrhyw eiddo cyfagos nad ydynt yn eiddo i'r ymgeisydd ac nad oes unrhyw fesuriadau sŵn cefndir wedi cael eu cynnwys, bydd yr ymgeisydd yn cynnwys cyfiawnhad pam na chynhwyswyd data o'r fath.</p> <p>Mae un o'r sefyllfaoedd mwyaf cymhleth mewn perthynas ag effaith sŵn o dyrbinau gwynt yn digwydd pan fo nifer o dyrbinau mewn lleoliad. O ran effaith gronynnus, mae ETSU-R-97 yn datgan: -</p> <p>'Dylai'r terfynau a maint sŵn dros y cefndir ymwneud ag effaith gronynnus yr holl dyrbinau gwynt yn yr</p> | |

Rhestr wirio

| | Dogfen neu wybodaeth sydd ei hangen (sail ar gyfer y gofyniad mewn cromfachau) | Disgrifiad | ✓ neu * neu amh. |
|-----|---|---|------------------|
| | | <p><i>ardal yn cyfrannu at y sŵn a geir yn yr eiddo dan sylw:</i></p> <p>Mewn sefyllfaoedd lle bwriedir codi tyrbîn o fewn neu'n agos at barth dylanwad sŵn rhagweledig tyrbîn arall neu grŵp o dyrbinâu, bydd angen cael asesiad sŵn effaith gronnus. Rhaid i ffin y "Parth Dylanwad Sŵn a Ragwelir" fod yn gyfartal â chyfuchlin 35 dB LA90 yn seiliedig ar wynt o 10m/s ar uchder 10m. Dylair ymgeisydd ymgynghori â'r Awdurdod Lleol ar union ddehongliad a lleoliad y gyfuchlin hon.</p> <p>Bydd yr asesiad sŵn cronrus angen dangos nad yw'r lefel sŵn cyfunol o bob tyrbîn/au gwynt yn fwy na lefel gyffredinol o 35 dB (A) neu 5DB (A) uwchlaw cefndir i fyny at gyflymder gwynt o 12m /s ar uchder 10m. Bydd y lefelau sŵn cefndir ac asesiad sŵn yn mabwysiadu methodoleg sy'n gwneud pob ymdrech i sicrhau nad yw'r cyfnodau tawel yn ystod y dydd a nos a ddefnyddir ar gyfer asesiad sŵn cefndir yn cael eu dylanwadu gan unrhyw dyrbinâu gwynt gerllaw.</p> <p>Mae trafodaeth cyn cyflwyno cais rhwng ymgeiswyr ac Adain Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor yn bwysig iawn o ran sicrhau bod y data cywir, gwaelodlin asesiad sŵn, ac asesiad priodol yn cael eu cyflwyno gydag unrhyw gais.</p> | |
| 10. | Datganiad Ymgysylltu â'r Gymuned (Adrannau PCC 3.1.7 & 2.2; Protocol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd gyda datblygiadau ynni gwynt arfaethedig yng Nghymru | Bydd angen i'r ceisiadau gael eu cefnogi gan ddatganiad (a) yn nodi sut y mae'r ymgeisydd wedi cynnal ymgynghori cyn-cais, e.e. cyfarfod cyhoeddus, arddangosfeydd, arolygon, taflenni / deunydd post, a (b) dangos bod barn cymdigion / y gymuned lleol wedi ei cheisio a'i chymryd i ystyriaeth wrth lunio'r cais datblygu. Dylai cynnwys a manylder y Datganiad adlewyrchu maint y datblygiad a graddau oblygiadau'r datblygiad. Fel isafswm, dylai Datganiad Ymgysylltu Cymuned nodi sut y bu'r gymuned lleol yn gysylltiedig, beth yw eu barn nhw, a sut mae'r | |

| Rhestr wirio | | Disgrifiad | ✓ neu x neu amh. |
|---------------------|---|---|---------------------------------|
| | Dogfen neu wybodaeth sydd ei hangen (sail ar gyfer y gofyniad mewn cromfachau) | | |
| | (2007)) | safbwyntiau hyn wedi cael eu cymryd i ystyriaeth. | |
| 11. | Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol (Adrannau PCC 5 & 12.10; TAN 12; Polisiâu 1, 30, 3, 36, 39, 40, 41, 42 a 45, Cynllun Lleol Ynys Môn – ansawdd/ cymeriad y dirwedd) | <p>Ystyriaeth allweddol i geisiadau ar gyfer tyrbinau gwynt fydd eu heffaith ar gymeriad y dirwedd a mwynnderau gweledol. Bydd y dirwedd ac effeithiau gweledol tyrbinau gwynt yn amrywio ar sail achos wrth achos yn ôl y math o dyrbin gwynt (model ac uchder), ei leoliad, lleoliad tirwedd y datblygiad arfaethedig ac effeithiau ar ardaloedd sensitif a/ neu derbynnyddion. Efallai y bydd angen asesiadau effaith gronnnus hefyd. Yn y cyd-destun hwn, dylai cyfeiriadau at dirwedd gael eu cymryd fel rhai sy'n cwmpasu morlun a threflun lle y bo'n briodol. Mae ardaloedd sensitif (ond nid ydynt yn gyfyngedig i) yn cynnwys Parciau Cenedlaethol, AHNE, Ardaloedd Cadwraeth, Arfordir Trefadaeth, Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig / Gerddi, safleoedd Trefadaeth y Byd, ardaloedd a nodir fel rhai uchel a rhagorol yn y categori Gweledol a Synhwyrdd yn LANDMAP ayb. Mae derbynnyddion sensitif yn cynnwys llwybrau troed cyhoeddus, anheddau, rhywogaethau gwarchoddedig ayb. Ym mhob achos, dylai Effeithiau ar Amwynder Preswyl gael eu hasesu ar wahân i'r asesiad effaith tirwedd ac effaith weledol y cyhoedd. Dylai'r asesiadau gael eu cynnal gan Bensaer Tirwedd Siartredig neu swyddog proffesiynol â chymwysterau addas gyda phrofiad priodol. Mae Cyfarwyddyd/ Dogfennau perthnasol yn cynnwys y canlynol:</p> <p>Diweddariad Strategaeth Tirwedd Ynys Môn 2011 Cynllun Rheoli AHNE 2009 - 2014 Canllawiau ar gyfer Asesiadau Tirwedd ac Effaith Weledol 2002 Landmap Canllawiau Nodyn 3 Landmap Cyngor Cefn Gwlad Cymru Visual Representation of Windfarms – best practice guidance (2007) SNH Siting and Designing windfarms in the landscape (2009) SNH</p> | |

| Rhestr wirio | | ✓ neu x neu amh. |
|---|---|---------------------------------|
| Dogfen neu wybodaeth sydd ei hangen (sail ar gyfer y gofyniad mewn cromfachau) | Disgrifiad | |
| | <p>Bydd y gofynion canlynol yn berthnasol:</p> <p>(i) <u>Tyrbinau o hyd at 20m o uchder.</u></p> <p>Ar gyfer tyrbinau bach o lai na 20m (blaen y llafn), bydd yr angen am asesiad effaith weledol ffurfiol yn llai tebygol, yn dibynnu ar gyd-destun lleoliad a phresenoldeb ardaloedd a/ neu derbynnyddion sensitif. Efallai y bydd astudiaethau Parth Gweledd Damcaniaethol, Ffotogyfosiadau a / neu darluniau ffrâm-weiren/ llinell yn ddefnyddiol mewn lleoliadau mwy sensitif penodol. Efallai y bydd angen asesiad effaith gronnus. Er gwybodaeth argymhellir y dylid edrych ar geisiadau cynllunio a datblygiadau o fewn 5km er mwyn gwneud asesiad gronnus. Fodd bynnag, dylid darparu cynllun manwl o'r safle yn cynnwys gwybodaeth am nodweddion topograffig, effaith weledol ar anheddau o fewn ystod o (500m i 1km), safleoedd dynodedig (ee ACA, AGA, SoDdGA, PCE, Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol), ac ardaloedd sensitif, derbynnyddion (e.e. adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth, henebion cofrestredig, llwybrau troed cyhoeddus ayb.), gwarchod cynefinoedd tebygol, rhywogaethau a warchodir, ac o bosib canlyniadau chwilio data cefndir yn dibynnu ar raddfa o effeithiau posibl yn ogystal â lluniadau manwl yn dangos y dyluniad bwriadedig i'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Mater i'r Awdurdod Cynllunio Lleol fydd penderfynu p'un a oes angen unrhyw wybodaeth ychwanegol ategol ar gyfer y cais cynllunio.</p> <p>(ii) <u>Tyrbinau rhwng 20m a 65m o uchder</u></p> <p>Dylai'r cais gynnwys cynllun safle manwl sy'n cynnwys gwybodaeth am nodweddion topograffig, effeithiau gweledol tebygol ar anheddau o fewn ystod o (1 to 1.5km), safleoedd dynodedig (ee ACA, AGA, SoDdGA, PCE, Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol), ac ardaloedd a</p> | |

| Rhestr wirio | | Disgrifiad | ✓ neu x neu amh. |
|---|--|---|---------------------------------|
| Dogfen neu wybodaeth sydd ei hangen (sail ar gyfer y gofyniad mewn cromfachau) | | <p>derbynyddion sensitif (e.e. adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth, SAMs), gwarchod cynefinoedd tebygol, rhywogaethau gwarchoddedig posibl ac o bosibl canlyniadau chwiliad data cefndir yn dibynnu ar faint o effeithiau posibl, yn ogystal â lluniadau manwl yn dangos dyluniad y cais. Mae'n debygol y bydd angen Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol. Dylai hyn gynnwys, fel lleiafswm, map Parth Gweledd Damcaniaethol yn cwmpasu ardal hyd at 15km (radiws) o'r tyrbin a darluniau ffrâm-weiren/ llinell a / neu ffotogyfosiadau o nifer cyfyngedig o safbwyntiau allweddol. Pan fydd y tyrbin (au) yn cael eu lleoli mewn Ardal Dirwedd Hanesyddol Cofrestredig, neu dirweddau dynodedig a ddoberthir o ansawdd naill ai 'Rhagorol', 'Uchel' neu 'Ganolig' ar Landmap, dylai'r ymgeisydd ymgynghori â'r Awdurdod Cynllunio Lleol ar lefel yr asesiad sydd ei angen i'r cais penodol. Efallai y bydd angen asesiad effaith gronnu hefyd. Er gwybodaeth argymhellir y dylid edrych ar geisiadau cynllunio a datblygiadau o fewn 15km i 30km er mwyn gwneud asesiad cronnu.</p> <p>(iii) <u>Tyrbinau dros 65m o uchder</u></p> <p>Fel uchod, dylai'r cais gynnwys cynllun safle manwl sy'n cynnwys gwybodaeth am nodweddion topograffig, effeithiau gweledol tebygol ar anheddau o fewn 2 km, safleoedd dynodedig (ee ACA, AGA, SoDdGA, Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol) a derbynnyddion gweledol sensitif (e.e. adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth, SAMs, a Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig), gwarchod cynefinoedd tebygol, rhywogaethau gwarchoddedig posibl ac o bosibl canlyniadau chwiliad data cefndir yn dibynnu ar faint o effeithiau posibl, yn ogystal â lluniadau manwl yn dangos dyluniad y cais. Bydd angen Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol mwy manwl, yn dibynnu ar leoliad.</p> <p>Ar y raddfa hon o ddatblygiad, byddai'r LVIA yn debygol o ofyn am o leiaf:</p> | |

Rhestr wirio

| | Dogfen neu wybodaeth sydd ei hangen (sail ar gyfer y gofyniad mewn cromfachau) | Disgrifiad | ✓ neu * neu amh. |
|--|--|---|------------------|
| | | <p>i. map ZTV hyd at 30km;</p> <p>ii. Delweddau a ffotgyfosodiad, yn canolbwyntio ar safbwyntiau allweddol.</p> <p>iii. Aseiad o sensitifrwydd y dirwedd (ansawdd 'Eithriadol', 'Uchel 'neu 'Ganolig' ar Landmap), maint y newid ac effeithiau gweddilliol;</p> <p>iv. Map cynllun sylfaen o'r holl geisiadau tyrbin gwynt yn y parth cyhoeddus hyd at 60km;</p> <p>v. Aseiad wedi'i ffocysu ar yr holl geisiadau y gwnaethpwyd cais amdanynt, a gafodd ganiatâd neu a adeiladwyd o fewn radiws o 30km o'r cynnig cais.</p> <p>Rhaid i effaith unigol neu gyfunol tyrbinau yn y cefn gwlad gael eu hasesu er mwyn peidio â chreu effeithiau gweledol neu dirwedd annerbyniol. Gall effeithiau cronrus olygu terfyn ar faint o ddatblygiadau ynni gwynt a geir mewn ardaloedd penodol. Er gwybodaeth argymhellir y dylid edrych ar geisiadau cynllunio a datblygiadau o fewn 15km 30km er mwyn gwneud aseiad cronrus.</p> <p>Dylai nifer a lleoliad y mannau golygfeydd fod yn gymesur â maint y datblygiad a sensitifrwydd y lleoliad, a dylid eu cytuno gydag Adran Amgylchedd Adeiledig a Thirwedd y Cyngor. Fel canllaw, dylai mannau golygfeydd gael eu hysbysu gan gyfeirio at:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) y parth gweledd damcaniaethol (h.y. lle y byddai'r tyrbinau yn ymddangos mewn golygfeydd), b) uchder y tyrbin (au) a phellter o leoliad yr olygfa (h.y. pa mor fawr fyddai'r tyrbinau yn ymddangos yn y golygfeydd) c) cymeriad a sensitifrwydd y dirwedd (h.y. cyd-destun lleoliad y golygfeydd hynny) a d) pwysigrwydd y golygfeydd hynny (h.y. y gwerth mae cymdeithas yn ei osod ar y | |

| Rhestr wirio | | |
|---|--|---------------------------------|
| | Disgrifiad | ✓ neu x neu amh. |
| Dogfen neu wybodaeth sydd ei hangen (sail ar gyfer y gofyniad mewn cromfachau) | <p style="text-align: center;">golygfeydd o'r tirweddau hynny)</p> <p>Dylai'r asesiad tirwedd a gweledol gynnwys cyfeiriad at asesiad y Cyngor o gymeriad tirwedd fel ffordd o asesu effeithiau ar y dirwedd sy'n berthnasol i'r prosiect arfaethedig. Dylai gynnwys yr effeithiau yn ystod adeiladu'r prosiect ac effeithiau'r datblygiad wedi'i gwblhau, a'i weithrediad ar elfennau tirwedd a chymeriad y dirwedd.</p> <p>Mae Parciau Cenedlaethol ac AHNEau wedi cael eu cadarnhau gan y Llywodraeth (Adran 85 (AHNE) Deddf CRoW) fel rhai sydd â'r statws warchodaeth uchaf o ran tirwedd a harddwch golygfaol. Mae'r ddyletswydd i ystyried dibenion ardaloedd a ddynodwyd yn genedlaethol hefyd yn berthnasol wrth ystyried ceisiadau ar gyfer prosiectau y tu allan i ffiniau'r ardaloedd hyn, a allai gael effeithiau oddi mewn iddynt.</p> <p>Dylai ymgeiswyr ymgynghori gyda Chyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy neu Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, lle bydd y datblygiad tyrbin gwynt arfaethedig yn weladwy o un neu fwy o'r ardaloedd yr Awdurdod hyn.</p> <p>Dylai ymgeiswyr gysylltu ag Adain Amgylchedd Adeiledig a Thirwedd y Cyngor am ragor o gyngor.</p> | |
| 12. Arolwg ecolegol (Adrannau PCC 5 & 12.10; TANs 5 & 12; Polisiau 1, 32, 32, 34, 35 a 45, Cynllun Lleol Ynys Môn – nodwedd | <p>Dylai ymgeiswyr ystyried y potensial ar gyfer i'r cais gael effeithiau mewn perthynas â safleoedd dynodedig, yn cynnwys AGA, ACA neu SoDdGA. Ar Ynys Môn, y prif bryder fyddai y gallai tyrbinau effeithio ar lwybrau hedfan adar yn agos at safleoedd a ddynodwyd ar gyfer diddordeb adar.</p> | |

Rhestr wirio

| | Dogfen neu wybodaeth sydd ei hangen (sail ar gyfer y gofyniad mewn cromfachau) | Disgrifiad | ✓ neu * neu amh. |
|-----|--|---|------------------|
| | tirwedd ac ecolegol) | <p>Efallai y bydd angen arolwg ecolegol os yw cais yn agos at safle o bwysigrwydd adnabyddus ar gyfer ystlumod neu adar, neu o fewn 50 metr o nodweddion cynefin perthnasol sy'n cynnig cyfleoedd chwilota / cymudo / ciwydo, e.e. adeiladau, gwrychoedd, ymylon coetiroedd, nentydd. I ddilyn y Canllawiau a ddefnyddir yng Nghymru, ni ddylai llafnau tyrbîn ddod yn nes na 50 metr o nodweddion o'r fath. Gellir cael amrywiad ymarferol weithiau, er enghraifft, os oes diffyg llystyfiant mewn gwrychoedd / cloddiau.</p> <p>Mae ceisiadau sy'n nes na 50m yn fwy tebygol o sbarduno arolygon, a fyddai'n debygol o gynnwys asesiad cynefin a chyd-destun, gwerthuso effaith a lliniaru cais; ac, mewn rhai achosion, efallai y byddai angen arolwg maes ar gyfer ystlumod.</p> <p>Gall effeithiau o ffyrdd gwasanaeth a nodweddion eraill sy'n gysylltiedig â cheisiadau sbarduno arolygon eu hunain (er enghraifft, os ydynt yn ymyl pyllau bridio hysbys y fadfall gribog). O fis Mehefin 2012, bydd effeithiau ar adar mewn ac yn agos at gynefinoedd perthnasol angen mwy o ystyriaeth fel dyletswydd statudol. Efallai y bydd ymgeiswyr yn wynebu gofynion arolwg cysylltiedig o'r cyfnod hwn.</p> <p>Efallai y bydd ystyriaethau bywyd gwyllt eraill cysylltiedig fel cysylltiedd a chynefinoedd penodol. Dylai ymgeiswyr gysylltu ag Ymgynghorydd Ecolegol ac Amgylcheddol y Cyngor am gyngor.</p> | |
| 13. | Gwerthuso trefnadaeth (seiliedig ar ddesg neu'r maes) (Adrannau PCC 6.5 & 12.10; TAN 12; Polisiau 1, 40, 41, 42 a 45, | Mae gan Ynys Môn ardaloedd sylweddol o ddiddordeb hanesyddol, uwchben ac o dan y ddaear. Efallai y bydd angen i ymgeiswyr gomisiynu gwerthusiad trefnadaeth o oblygiadau'r datblygiad ar nodweddion o ddiddordeb hanesyddol naill ai drwy golled uniongyrchol o nodwedd, neu effaith weledol ar osodiad nodweddion o ddiddordeb hanesyddol. Mae yna ddwy Dirwedd Hanesyddol Cofrestredig ym Môn. Efallai y bydd angen i'r | |

Rhestr wirio

| | Dogfen neu wybodaeth sydd ei hangen (sail ar gyfer y gofyniad mewn cromfachau) | Disgrifiad | ✓ neu * neu amh. |
|-----|---|---|------------------|
| | Cynllun Lleol Ynys Môn – trefnadaeth ddiwylliannol) | <p><u>ymgeiswyr gymhwyso'r broses ASIDOHL 2 (asesiad o effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar nodweddion hanesyddol ardal) er mwyn asesu ardawriad ar ardaloedd sydd ar y gofrestr o Dirweddau Hanesyddol.</u></p> <p>Dylai ymgeiswyr gysylltu a <u>Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd a'r Adain</u> Amgylchedd Adeiledig a Thirwedd am ragor o gyngor.</p> | |
| 14. | Asesiadau Traffig a Chludiant (Adrannau PCC 8; Polisi FF11 Cynllun Fframwaith Gwynedd; Polisiâu 1 & 45, Cynllun Lleol Ynys Môn) | <p>Mae angen Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu gyda phob cais, a ddylai ddangos bod ystyriaeth wedi'i rhoi i gynifer o'r ffactorau canlynol ag y bo modd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • y llwybr trafniadaeth arfaethedig o'r ffatri ac yn achos rhannau mwy ar gyfer unrhyw gerbydau llwyth annormal anwahanadwy (ALL); • dimensiynau arfaethedig adrannau unigol y tyrbîn, a dimensiynau cyfatebol cerbydau a chraeniau ALL; • nifer, amlder, math a phwysau gros uchaf yr holl gerbydau adeiladu eraill a fydd yn cael eu cynhyrchu gan y datblygiad, a'u llwybrau arfaethedig i'r safle ac oddi yno; • manylion y gwelliannau arfaethedig i'r rhwydwaith priffyrdd lleol i hwyluso symudiadau traffig ALL a thraffig adeiladu; • manylion trefniadau mynediad arfaethedig y safle oddi ar y rhwydwaith priffyrdd lleol; • manylion o ddulliau cysylltu gyda'r rhwydwaith trawsyriant a allai fod yn ofynnol fel rhan o'r datblygiad arfaethedig; • manylion o unrhyw byllau carreg benthg y gynigir fel rhan o'r datblygiad arfaethedig. • manylion o unrhyw gynigion rheoli traffig adeiladu i liniaru gwrthdaro ac aflonyddwch i ddefnyddwyr y briffordd bresennol. <p>Gwerthfawrogrir na fydd peth o'r wybodaeth hon ar gael yn ystod y cyfnod cynnar o reoli</p> | |

Rhestr wirio

| | Dogfen neu wybodaeth sydd ei hangen (sail ar gyfer y gofyniad mewn cromfachau) | Disgrifiad | ✓ neu * neu amh. |
|-----|---|---|------------------|
| 15. | Asesiad electromagnetig (Polisi 45 Cynllun Lleol Ynys Môn) | <p>prosiectau. Fodd bynnag, rhaid i oblygiadau priffyrdd y prosiect gael ystyriaeth gynnar er mwyn galluogi mewnbwn priodol o'r persbectif ffyrdd lleol a ffyrdd cefnffordd. Mae cynllunio tymor hir hefyd yn hanfodol ar gyfer symudiadau ALL a'r gofynion hysbysu.</p> <p>Bydd angen i ddatblygwyr ymgyngori â gweithredwyr radar os yw cais yn disgyn o fewn parth ymgyngori 15km, neu y parth 30-32km ymgyngorol o amgylch radar traffig awyr sifil a milwrol, yn y drefn honno. Mae gwefan Awdurdod Hedfan Civil yn rhoi arweiniad i helpu datblygwyr (http://www.caa.co.uk/default.aspx?catid=1959). Dylai datblygwyr ddefnyddio hwn.</p> <p>Bydd angen i ddatblygwyr hefyd ymgyngori ag OFCOM ar y cam cyn-cais; yn ogystal dylid ymgyngori'n gynnar ag Arqiva sy'n gweithredu'r rhwydwaith teledu yn y DU a'r rhan fwyaf o'r rhwydwaith trawsyrru radio. Mae'r Gwasanaethau Traffig Awyr Cenedlaethol (NATS) wedi dweud ei bod yn dymuno i ni ymgyngori ar yr holl geisiadau cynllunio neu gynigion 'Hysbysiad o Fwriad i Ddatblygu' ar gyfer datblygiadau tyrbîn gwynt, waeth beth fo'u maint. Dylai manylion effeithiau andwyol posibl a mesurau priodol i liniaru effeithiau gael eu cyflwyno.</p> | |
| 16. | Dwrdaear a dwr wyneb (Polisi 1 Cynllun Lleol Ynys Môn) | <p>Bydd angen asesiad o'r risgiau i adnoddau dwr a'r amgylchedd dwr, h.y. cyrsiau dwr lleol, ardaloedd dwr, dwr daear a chyflenwadau dwr, yn ystod y cyfnod adeiladu, yn arbennig os all datblygiad gael ardrawiad andwyol uniongyrchol neu anuniongyrchol ar trefn hydrolegol sy'n bwysig i safleoedd dynodedig. Ymgyngorir gyda'r Asiantaeth Amgylchedd lle mae'n briodol.</p> | |
| 17. | Gweithgareddau twristiaeth ac hamdden (Polisiau 30, 31 and 32 – gwarchod a chyfoethogi'r tirwedd; Polisi 36 – gwarchod y parth arfordirol; Polisi 39 – gwarchod | <p>Bydd yr ardrawiad ar weithgareddau twristiaeth a hamdden yn dibynnu ar nature y weithgaredd a'r math o ardrawiadau gweledol ac eraill ar dderbynnydd arwyddocaol, (e.e. ymwelwyr, trigolion lleol neu gymunedau). Dylid rhoi sylw penodol i ardrawiad ar ddefnyddwyr ffyrdd, llwybrau, parciau gwledig a chefn gwlad mynediad-agored sy'n bwysig i fywyd dyddiol, hamdden ac ymwelwyr, ac sy'n cael effaith arwyddocaol ar ddelwedd neu</p> | |

Rhestr wirio

| | Dogfen neu wybodaeth sydd ei hangen (sail ar gyfer y gofyniad mewn cromfachau) | Disgrifiad | ✓ neu x neu amh. |
|-----|--|--|------------------|
| | nodweddion archaeolegol Cynllun Lleol Ynys Mon) | <p>ansawdd bywyd lle neu ardal.</p> <p>I drigolion lleol, fe all bodolaeth tyrbini gael effaith arwyddocaol are u mwynhad o'r tirwedd lleol neu ehangach pan edrychir arno o lwybrau, parciau a thir mynediad agored. Gall ymwelwyr a thwristiaid sy'n dod draw i'r ardal neu le oherwydd ansawdd neu gymeriad yr olygfa neu ei drefwedd gael eu heffeithio'n arwyddocaol hefyd. Fe allai hynny arwain at lai o ymwelwyr a'r sgil-ffeithiau gymdeithasol-economaidd.</p> | |
| 18. | Cytundebau cyfreithiol (Adranau PCC 3.6 & 3.7) | <p>Mae rhannau 11 ac 13 o'r restr wirio yma'n cyfeirio at faterion sy'n gysylltiedig ag ardrawiadau ar gymeriad tirlun, mwynderau gweledol cyhoeddus ac asedau hanesyddol/ diwylliannol. Fe ddylai'r dyfarniad ar briodoldeb y datblygiad sy'n seiliedig ar warchodaeth y tirwedd a mwynderau gweledol cyhoeddus roi'r warchodaeth ddigonol i fwynderau twristiaeth.</p> | |
| 19. | Materion eraill (TAN 8) | <p>Yr angen am gyfraniadau gan ddatblygwyr sy'n ofynnol o ganlyniad i'r tyrbin/au gwynt arfaethedig, e.e. effeithiau gweledol a seilwaith ffyrdd (h.y. yr angen am lwybrau troed newydd, lledu'r ffordd). Efallai y bydd angen cytundebau cynllunio neu gytundebau cyfreithiol i ddelio ag unrhyw faterion o'r fath. Bydd yn ddefnyddiol trafod materion o'r fath a pharatoi penawdau telerau drafft ar gam cynnar yn y broses, yn ddelfrydol ar y cam cyn-cais.</p> <p>Efallai y bydd angen peirianwaith addas, e.e. bond, er mwyn sicrhau y bydd digon o adnoddau ar gael ar gyfer datgymalu ac adfer. Mae hyn er mwyn sicrhau bod mesurau digonol ar waith i sicrhau bod y safle'n cael ei adfer mewn modd priodol.</p> <p>Manteision cymunedol cysylltiedig – efallai y bydd y datblygwr / perchennog tir yn dymuno chwarae rhan weithredol yn y gymuned. Mae datblygwyr neu berchnogion tir yn cael eu hannog i ymgysylltu'n uniongyrchol â chymunedau yn hytrach na gyda'r Cyngor ar y mater</p> | |

ATODIAD 4

| Rhestr wirio | | | |
|--------------|--|---|------------------------|
| | Dogfen neu wybodaeth sydd ei hangen (sail ar gyfer y gofyniad mewn cromfachau) | Disgrifiad | ✓ neu * neu amh. |
| | | <p>hwn. Nid yw absenoldeb neu bresenoldeb unrhyw gyfraniad i gymunedau lleol yn fater a gaiff ei ystyried gan yr ACLJ wrth iddo benderfynu p'un a ddylid rhoi caniatâd cynllunio.</p> | |

ATODIAD

SYLWADAU AAS

| Sylwebydd | Adran | Sylwadau | Ymateb y Cyngor/Diwygiadau |
|-----------|-----------|---|--|
| CCGC | Adran 2.2 | <p>Nod y broses AAS yw er mwyn caniatáu gwarchodaeth o'r lefel uchaf i'r amgylchedd, bod yn sail ar gyfer gwneud penderfyniad a sicrhau fod materion amgylcheddol yn cael eu hintegreiddio i'r broses o baratoi'r Cynllun gyda'r bwriad o hyrwyddo datblygu cynaliadwy.</p> | <p>Cytuno</p> <p><i>Dogfen SEA:</i></p> <p>2.2 Mae Aseiad Amgylcheddol Strategol (AAS) yn broses sydd yn sicrhau bod unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol a ddaw yn sgîl cynlluniau a thaglenni yn cael eu hadnabod, eu hasesu, eu lliniaru, eu cyfeirio at y sawl sydd yn llunio'r penderfyniadau ac yn cael eu monitro. <u>sy'n anelu i alluogi diogelwch o'r radd flaenaf ar gyfer yr amgylchedd, hwyluso'r broses o wneud penderfyniadau a sicrhau bod materion amgylcheddol yn cael eu hintegreiddio i'r broses o lunio cynllun gyda'r nod o hyrwyddo datblygiad cynaliadwy.</u></p> |
| CCGC | Adran 2.6 | <p>Mae CCGC yn cytuno y gall y broses o baratoi AC ac AAS fod yn integredig; fodd bynnag bydd angen sicrhau for gofynion y Cyfarwyddyd AAS ynghyd a'r Rheoliadau gweithredu yn cael eu cyrraedd mewn perthynas â'r gwahardd o'r ymgynghoriad ffurfiol yn ystod y cyfnod Cwmpasu o'r broses AAS.</p> | <p>Dim newid. Roedd y gwaith cwmpasu ar gyfer yr AC o'r CDLI ar y Cyd yn cynnwys casglu amrywiaeth eang o ystadegau ar wahanol bynciau ynghyd â'r wybodaeth ddiweddaraf oedd ar gael. Arweiniodd y dadansoddiad o gyflwr presennol yr amgylchedd, y materion a'r problemau cynnaladwyedd sy'n wynebu'r ardal at ddatblygiad amcanion cynnaladwyedd er mwyn asesu effeithiau'r cynllun. Roedd yr amcanion hyn hefyd yn cynnwys nifer o is-amcanion sy'n galluogi aseiad manwl a thrylwyr. Bodlonwyd anghenion y Gyfarwydddeb</p> |

ATODIAD 4

| Sylwebydd | Adran | Sylwadau | Ymateb y Cyngor/Diwygiadau |
|-----------|------------|---|--|
| | | | AAS o ran hyn ac ystyrir fod y camau priodol wedi eu ddilyn. Ystyrir, hefyd, ei bod yn bwysig cael cysondeb ym methodoleg yr asesiad o ran dogfennau cysylltiedig h.y. CDLI ar y Cyd sy'n datblygu a'r CCA. Ystyrir, felly, fod y data a gasglwyd fel rhan o'r broses hon, ynghyd â'r amcanion a ddefnyddiwyd ar gyfer asesu'r CCA yn ddigonol ar gyfer pwrpas yr AAS. |
| CCGC | Adran 2.8 | Dylid cynnwys cyfeiriad i NCT5 gan gynnwys yr arweiniad ar y broses asesu AAS a Rheoliadau Cynefinoedd. | Dim newid. Cyfeirir at NCT 5 yn y ARhC o'r CCA. Byddai cynnwys cyfeiriad yma yn ychwanegu manylder nad oes ei angen. |
| CCGC | Adran 2.10 | Fe fyddai CCGC yn cynghori cynnwys amcan ychwanegol mewn perthynas â'r angen i hyrwyddo datblygiad cynaliadwy o ran y gallu amgylcheddol a chyfyngiadau. Dylid hefyd gynnwys cyfeiriad i NEF (National Energy Foundation). | Cytuno Dogfen AAS (para 2.10) & CCA (para 2.8): <ul style="list-style-type: none"> <u>Hyrwyddo datblygiad cynaliadwy o fewn capasiti a chyfyngiadau amgylcheddol.</u> |
| CCGC | Adran 2.13 | Yn yr ohebiaeth ynglŷn â'r angen ar gyfer AAS, fe awgrymwyd CCGC y dylid yn ogystal ymgynghori hefo Cadw ac yr Asiantaeth Amgylchedd ynglŷn â'r angen ar gyfer AAS. | Dim newid. Fe gafodd Asiantaeth yr Amgylchedd a CADW eu hymgynghori â hwy fel rhan o'r broses. |
| CCGC | Adran 2.14 | Gweler y sylw uchod sydd yn ymwneud a'r angen. Fel rhan o'r broses AAS ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol yn ystod y cyfnod Cwmpasu o'r AAS mae'r diffyg ymgynghoriad hefo CCGC (Cadw ac Asiantaeth yr Amgylchedd) yn golygu nad yw'r broses AAS wedi cael ei ddilyn. | Dim newid. Gweler y sylwadau uchod. |

ATODIAD 4

| Sylwebydd | Adran | Sylwadau | Ymateb y Cyngor/Diwygiadau |
|-----------|---------------|---|--|
| CCGC | Adran 3.2-3.5 | Mae'n bosib y byddai CCGC yn awgrymu na fyddai'n briodol defnyddio adroddiad cwmpasu AAS generic ar gyfer un cynllun (sydd nawr ddim mewn defnydd) er mwyn gwasanaethu'r broses o baratoi AAS ar gyfer y CCA yma. Mae rhan helaeth o'r data gwaelodlin yn debygol o fod yn berthnasol i amcanion amgylcheddol ac nid yw'r dangoswyr yn benodol i ganllaw cynllunio atodol sydd yn destun archwiliad. | Dim newid. Gweler y sylwadau uchod. |
| CCGC | Tabl 3.1 | <p>Amcan 1: Cynnal ac ehangu diddordeb bioamrywiaeth a chysylltiadau.</p> <p>Fe fyddai CCGC yn awgrymu cynnwys is-amcanion mewn perthynas â'r angen i ehangu capasiti ecolegol, pwrpas a hefyd yr angen i gynnal a gwella pridd a defnyddiau pridd. Angen eglurder ynglŷn â beth a olygir gan seilwaith gwyrdd.</p> <p>Amcan 2: Wrth ei archwilio, nid yw rhai o'r is-amcanion yn uniongyrchol berthnasol i'r arweiniad e.e. hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol ar ail-greu y cyfloed i bobl fyw bywydau mwy iach a hyrwyddo cadw'n heini ayyb.</p> <p>Amcan 6 Nid yw'n eglur sut fo'r arweiniad cynllunio yn ymwneud a chynnig mynediad i hyfforddiant, addysg a chyfleon ddatblygu sgiliau ar gyfer holl sectorau o gymdeithas.</p> <p>Amcan 7 a 10</p> | <p>O ran Amcan 1, ystyrir fod yr is-amcanion yn ddigonol o ran cyfeirio at fwyhau ecoleg, tra bo amcan 9 yn cyfeirio at yr angen i ddiogelu ansawdd pridd. Cynnig diwygiad i amcan 1:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cynnal a gwella y ddarpariaeth o seilwaith gwyrdd e.e. mannau agored, parciau. <p>Cydnabyddir nad yw rhai o'r amcanion yn berthnasol i'r CCA. Nodir hyn ble'n berthnasol yn y CCA. Mae amcanion Fframwaith yr AC wedi cael eu creu o ddadansoddiad o waelodlin gadarn o'r sefyllfa bresennol yn Ynys Môn. Byddai diwygio'r amcanion yn golygu na fyddent wedi eu seilio ar dystiolaeth gadarn. Ar y cyfan, ystyrir for yr amcanion yn ddigonol ar gyfer pwrpas asesu'r CCA.</p> |

ATODIAD 4

| Sylwebydd | Adran | Sylwadau | Ymateb y Cyngor/Diwygiadau |
|-----------|-----------|---|---|
| CCGC | Adran 4.1 | <p>Dan archwiliad fe fyddai CCGC yn awgrymu nad yw'r amcan yma'n berthnasol i na chwaith yn adweithiol.</p> <p>Wedi archwilio'r Cynllun fe ddylai amcanion yr AAS fod yn berthnasol i'r Cynllun a bod yn adweithiol i'r polisiau ac argymhellion sydd yn cael eu cynnig. Mae CCGC yn adnabod ac yn derbyn fod yr amcanion sydd wedi ei dewis yn seiliedig ar amcanion generig sydd wedi ei chynhyrchu mewn cynlluniau a rhaglenni eraill. Fodd bynnag, awgrymir y dylai'r amcanion sydd wedi ei ddewis fod yn benodol i ac yn adweithiol i'r materion sydd yn codi yng nghyswilt Ynni Gwynt ar y Tir.</p> | <p>Ystyrir fod y CCA ar ddatblygiadau ynni gwynt sy'n bodoli'n barod yn cynrychioli dewis amgen rhesymol er mwyn asesu'r CCA yn ei erbyn. Mae Canllawiau AAS yn nodi y dylid asesu dewisiadau amgen rhesymol fel rhan o'r broses. Ystyrir fod y senario 'gwneud dim' yn cynrychioli dewis amgen o'r fath.</p> |
| CCGC | Adran 4.8 | Gweler sylw 4.1 uchod. | Gweler uchod |
| CCGC | Adran 4.9 | Mae CCGC yn croesawu'r ddarpariaeth o fatrics crynodeb asesu, fodd bynnag, yn sgil diffyg manylion ar y polisiau sydd wedi ei asesu a'r mesurau lliniaru/osgoi sydd yn cael eu cynnig, mae'n anodd rhoi sylw pellach. | Derbyn y sylw. |

ATODIAD 4

| Sylwebydd | Adran | Sylwadau | Ymateb y Cyngor/Diwygiadau |
|-----------|----------------|--|--|
| CCGC | Adran 4.10 | Mae CCGC yn nodi'r gydnabyddiaeth bod yr asesiad wedi amlgu nifer o wendidau a diffygion yn y CCA Datblygiad Ynni gwynt 1994 a gafodd ei asesu fel dewis arall. | Derbyn y sylw. |
| CCGC | Adran 4.11 | O ran yr awgrymiad bod y CCA Ynni Gwynt ar y Tir 2012 yn sgorio'n well yn erbyn y rhan fwyaf o'r amcanion AAS, byddai CCGC yn awgrymu main nid amcan y broses AAS ydy ystyried/ adnabod gwelliannau rhwng y ddwy ddogfen ond i asesu effeithiau amgylcheddol posib cynllun/ rhaglen yn erbyn gwaelodlin amgylcheddol sefydlog. Croesewir y cyfeiriad at fesurau lliniaru a gwarchod, fodd bynnag, heb gyfeiriad pellach a manylion am y mesurau lliniaru mae'n anodd ystyried os gellir ymddiried mewn unrhyw esmwythyd ardrawiadau. . | Cytuno Dogfen AAS 4.10 <u>Yn gyffredinol, mae CCA Ynni Gwynt Ar y Tir (2012) yn pefformio'n well na'r agflaenydd, CCA Datblygu Ynni Gwynt 1994.</u> |
| CCGC | Adran 4.13 | Croesewir eglurhad ynglŷn â natur y newidiadau gafodd eu gwneud i ail ddrافت y CCA. | Ystyri'r fod yr 2il golofn yn nhabl 4.2 yn cynnig cyfiawnhad digonol ar gyfer unrhyw ddiwygiadau sydd wedi eu gwneud. |
| CCGC | Tabl 7 Pwynt 1 | Mae CCGC yn croesawu'r ychwanegiad arfaethedig i'r angen i ystyried effaith cronol ar fioamrywiaeth ar lefel prosiect. Fodd bynnag, awgrymir bod yr angen i wneud asesiad i effeithiau datblygiad gwynt ar y tir ar lefel prosiect ddim o angenrheidrwydd gyfystyr ag osgoi a/neu lliniaru effeithiau andwyol posib. Awgrymir felly y dylid ychwanegu meini prawf ychwanegol i baragraff 7.7.3 o'r CCA i ddangos ymrwymiad clir i | Paragraff 1: Cytuno Dogfen AAS: Tab 7 Pwynt 1 7.7.3 <u>Ni ddylai cynigion ar gyfer tyrbinau gwynt (naill ai'n unigol neu'n gronnu) gael effaith sylweddol ar systemau a swyddogaethau bioamrywiaeth Ynys Môn.</u> Bydd yr holl geisiadau |

ATODIAD 4

| Sylwebydd | Adran | Sylwadau | Ymateb y Cyngor/Diwygiadau |
|-----------|---------------------------|--|---|
| CCGC | Tabl 7 pwynt 8 a 11 | <p>osgoi effeithiau andwyol ar swyddogaethau bioamrywiaeth ac ecolegol i ddweud na ddylai datblygiad tyrbin gwynt arfaethedig gael effaith andwyol arwyddocaol (un ai ar ben ei hun neu'n gronno) ar systemau a swyddogaethau bioamrywiaeth ac ecolegol Ynys Môn. Awgrymir hefyd y dylid cael gwared â'r term 'lle'n briodol'.</p> <p>Fel nodwyd yn flaenorol nid amcan y broses AAS ydy asesu/ adnabod gwelliannau rhwng dwy ddogfen ond i asesu effeithiau posib amgylcheddol cynllun/ rhaglen yn erbyn gwaelodlin amgylcheddol. Ar sail nad yw'n glir sut na ragwelir effeithiau andwyol o ran bioamrywiaeth trwy gymhwyso'r CCA fod cyfystyr a bod yr ardrwiad cyffredinol sy'n deillio o'r CCA fod yn un positif gan y gall cymhwyso'r CCA fod yn niwtral. Pe fyddai eglurhad ychwanegol o ran yr ardrwiad positif y gallai'r cynllun ei gael ar newid hinsawdd yn cael ei roi a/ neu fod y CCA yn cynnwys argymhelliad y dylid annog mesurau adfer a fyddai o fudd i fioamrywiaeth yn ogystal â'r dirwedd yna efallai y byddai'n bosib dangos y byddai cymhwyso'r CCA yn dod a budd posib i fioamrywiaeth.</p> | <p>yn cael eu hasesu o ran eu heffaith ar fioamrywiaeth, gan gynnwys rhywogaeth a warchodir, adareg a chynefinoedd. Yn ogystal, ble'n berthnasol, dylid ystyried yr effeithiau cronno posibl ar fioamrywiaeth lle mae hynny'n briodol.</p> <p>Paragraff 2: Cytuno</p> <p>Newid + i 0 yn nhabl 7 pwynt 1 (Amcan Bioamrywiaeth)</p> |
| | | <p>Derbyn</p> <p>Dogfen AAS:</p> <p>Newid symbol + i 0 yn nhabl 7 pwynt 8 ac 11.</p> | |

ATODIAD 4

| Sylwebydd | Adran | Sylwadau | Ymateb y Cyngor/Diwygiadau |
|-----------------|----------------------------|---|---|
| CCGC | Tabl 9 pwynt 1 | Angen eglurhad ynglŷn â beth olygir gyda 'llystyfiant priodol'. Eglurhad ei angen hefyd ynglŷn â'r sail y byddai cael gwared â thraciau'n golygu mwy o ddifrod na'u cadw yn eu lle. | Cytuno <i>Dogfen AAS: Tabl 9 pwynt 1</i> Dylai symud y tyrbinau oddi ar y safle fod yn fanteisiol i fioamrywiaeth mewn nifer o wahanol ffyrdd. Byddai nifer yr adar gaiff eu taro yn lleihau ac aflonyddiad ar fywyd gwylt oherwydd sŵn hefyd yn ysgafnu. Yn ogystal, bydd datgomisïynu ac adfer tir yn golygu adfer llystyfiant <u>prïeddel</u> <u>sydd yn briodol i'r safle</u> a bydd... |
| Damian Woodford | Tabl 4.1 | Mae'r tabl yma'n edrych yn ffafriol iawn ar allbynnau positif. Yn ogystal â hynny nid yw cymhlethdodau datblygiad cynaliadwy'n cael eu hadlewyrchu yn yr amcanion. | Mae Tabl 4.1 yn cynrychioli crynodeb o'r asesiad o'r CCA yn erbyn cyfres o amcanion. Mae'r amcanion hyn wedi eu creu yn dilyn ymarferiad cwmpasu a asesodd y nodweddion a'r materion sy'n wynebu Ynys Môn. Ystyrir fod y tabl yn adlewyrchu perfformiad y CCA yn erbyn yr amcanion yn gywir. |
| Damian Woodford | Para 4.11 | Datblygiad ynni adnewyddol cynaliadwy – y gymuned ydym ni'n trio'i wneud yn gynaliadwy nid y dechnoleg. Bydd y tyrbinau'n gwisgo a ni fydd yr angen i'w disodli'n gynaliadwy. | Mae hyrwyddo ynni adnewyddadwy yn un o nifer o agweddau datblygiad cynaliadwy. Er mwyn creu cymunedau cynaliadwy, dylid hyrwyddo datblygiadau ynni adnewyddol. |
| Damian Woodford | | Mae'r adroddiad yn seiliedig ar yr angen i leihau ei effaith negyddol. . | Mae'r Rheoliadau AAS yn nodi y dylid adnabod mesurau lliniaru fel rhan o'r broses asesu er mwyn lliniaru / lleihau unrhyw ardrawiadau negyddol posib. |
| NWWT | Atodiad 1 Tudalen 18 | Rydym yn anghytuno efo'r casgliadau i'r sylw yn erbyn AC01 (2012) h.y. "dim yn rhagweld effaith niweidiol ac felly fod yr effaith gyflawn ar yr amcan yma yn cael ei | Cytuno. Gweler ymateb i sylw CCGC uchod. Fodd bynnag, dylai'r sgôr ar y cyfan fod yn niwtral am y rhesymau a roddir gan y sylwebydd. |

ATODIAD 4

| Sylwebydd | Adran | Sylwadau | Ymateb y Cyngor/Diwygiadau |
|---------------------|----------|--|--|
| Elspeth Wagstaff | Tabl 4.2 | <p>ystyreid i fod yn gadarnhaol. Buasem yn cynnig mae'r casgliad cywir yw bod yna amrediad o ganiyniadau cadarnhaol a negyddol.</p> <p>Mae gan ynni gwynt rôl bwysig i'w chwarae mewn lleihau neu addasu i effeithiau niweidiol newid yn yr hinsawdd. Fe all hefyd ddod a budd cymdeithasol ac economaidd trwy greu gwaith mewn diwydiant cynhyrchu, adeiladu a chynnal a chadw.</p> | <p>Cydnabyddir fod ynni gwynt yn un ffurf o ynni glân sydd ddim yn cynhyrchu nwyon tŷ gwydr nac ychwaith llygryddion niweidiol, sydd felly'n cyfrannu at leihau effeithiau niweidiol newid hinsawdd. Mae buddion cymdeithasol ac economaidd datblygiadau ynni gwynt yn cael eu cyfeirio atynt ym mhennod 12.</p> |
| CADW | | <p>Fe ddylai Amcan AC 5 gynnwys cyfeiriad tuag at Barciau a Gerddi Hanesyddol a thirweddau hanesyddol.</p> | <p>Ystyrir fod y manylion sydd wedi eu cynnwys yn yr amcan a'i is-amcanion yn ddigonol o ran cyfeirio at adnoddau diwylliannol a hanesyddol sy'n cynnwys Gerddi, Tirweddau a Pharciau Hanesyddol yn yr ardal. Byddai adnabod yr adnoddau i gyd yn ychwanegu manylder diangenrheidiol i'r amcan.</p> |

ATODIAD 4

SYLWADAU ARHC

| Sylwebydd | Adran | Crynodeb o'r Sylw | Ymateb y Cyngor /Diwygiadau |
|-----------|-------|---|---|
| CCGC | 5.4.3 | Newid y frawddeg olaf yn rhan 5.4.3 i wneud hi'n glir os na fydd yn cynnig yn gallu sicrhau na fydd yna effeithiau andwyol ar safle Ewropeaidd neu ryngwladol yna ni fydd yn derbyn caniatâd, yn ogystal ago s na fydd digon o wybodaeth ar gael i wneud yr asesiad. | <p><i>Cytuno</i></p> <p><i>Dogfen ARhC ac CCA:</i></p> <p>5.4.3 Bydd angen asesiad priodol lle y bo tebygolrwydd o risg y bydd cynnig (naill ai ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill) yn cael effaith sylweddol ar safle Ewropeaidd fel y nodir hynny ym mharagraff 5.4.1. Rhaid i ddatblygwyr roi digon o wybodaeth am y datblygiad arfaethedig fel y gellir dod i farn wybodus o ran ei effeithiau tebygol. Bydd y rhai sy'n methu â gwneud y ddau beth uchod cael eu gwrthod o dan reoliad 61 Rheoliadau Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010.</p> |
| CCGC | 7.7.2 | Efallai y bydd hi'n werth egluro'r Cyngor ar anghenion AAA nes ymlaen yn y ddogfen (7.7.2) i wneud hi'n glir pan fydd angen AAA, yna fe fydd angen i'r datganiad amgylcheddol ddarparu digon o wybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth am ddatblygiad atodol fel cysylltiadau grid, is- | <p><i>Cytuno</i></p> <p><i>Dogfen ARhC ac CCA:</i></p> <p>7.7.2...heffeithio gan ddatblygiad. Mewn perthynas ag adar, dylai'r AEA gynnwys gwybodaeth ynghylch mannau clwydo,</p> |

ATODIAD 4

| Sylwebydd | Adran | Crynodeb o'r Sylw | Ymateb y Cyngor /Diwygiadau |
|-----------|-------|---|---|
| | | orsafodd, mynedfeydd, ac yn y blaen i'r Awdurdod (fel yr awdurdod cymhwysol) i ymgymryd ag unrhyw ARhC all fod ei angen hefyd. | llinellau hedfan, llecynnau bwydo a llecynnau bridio. <u>Pe bai angen AEA, dylai'r datganiad amgylcheddol ddarparu gwybodaeth ddigonol, yn cynnwys gwybodaeth am unrhyw ddatblygiadau atodol, megis cysylltiadau i'r grid, is-orsafodd, llwybrau mynediad ac ati, er mwyn i'r Awdurdod (fel yr Awdurdod cymwys) allu cynnal ArhC.</u> |
| CCGC | 7.7.8 | Efallai ei bod hi'n werth gwneud hi'n glir mai enghreifftiau o fesurau osgoi a lliniaru ydy'r rhain a gall mesurau ychwanegol fod eu hangen neu eu hystyried yn dibynnu ar gasgliadau'r ARhC | <i>Cytuno</i> <i>Dogfen ARhC ac CCA:</i> 7.7.8....Mae'n well rhoddi sylw i gamau lliniaru yn fuan a dylid eu cynnwys yn yr adroddiad sgopio fel rhan o AEA. <u>Bydd y mesurau lliniaru a fabwysiadir yn amrywio o achos i achos, a gallent gynnwys:</u> |
| CCGC | 7.7.5 | Tra nad yw'n anghywir, fe ddylid egluro'r datganiad yn rhan 7.7.5 ynglŷn â'r angen posib i wneud arolwg cynefinoedd neu asesiad ardrawiad i wneud yn glir bod safleoedd a ddynodwyd yn lleol neu'n genedlaethol yn destun gwahanol ddeddfwriaeth. | <i>Cytuno</i> <i>Dogfen ARhC ac CCA:</i> 7.7.7 <u>Lle gallai cynllun, naill ai ar ei ben ei hun neu wedi'i gyfuno â chynlluniau neu brosiectau eraill, gael effaith ar safle a ddynodwyd yn rhyngwladol, rhaid i Gyngor Gwynedd, cyn iddo benderfynu rhoi caniatâd i gynniig, gynnal asesiad o effaith sylweddol tebygol y cynllun hwnnw ar amcanion cadwraeth y safle. Efallai y bydd angen arolwg cynefin neu rywogaethau i gyfrannu at asesiad o'r fath. Yn yr un modd efallai y bydd angen arolwg cynefin neu rywogaethau i gyfrannu at asesiadau</u> |

ATODIAD 4

| Sylwebydd | Adran | Crynodeb o'r Sylw | Ymateb y Cyngor /Diwygiadau |
|-----------|-------|---|--|
| CCGC | | <p>Ystyried egluro neu gael wgared o'r cyfeiriad i gynffinoedd cydadferol yn yr ail baragraff yn 7.7.3 a'r baragraff olaf yn 7.7.6. Mae gan fesurau gydadferol ystyr penodol yn nhermau'r Rheoliadau cynffinoedd a ni ddylid eu drysu gyda mesurau 'osgoi a lliniaru' sydd i fod i atal effeithiau andwyol ddigwydd. Dim ond ar ol i'r broses asesu ddod i ben ac yn unol a gofynion Rheol 62 y gellir ystyried mesurau cydadferol.</p> | <p>effaith ar safleoedd sydd wedi'u <u>dynodi'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig</u> neu <u>Safleoedd Bywyd Gwyllt</u> posib, neu os yw'r safle arfaethedig yn cynnwys cynffinoedd blaenoriaeth (y rhai a restrir gan Lywodraeth Cymru dan adran 42 Deddf NERC 2006). <u>Dylid cytuno ar gwmpas yr arolwg gydag Ecologydd yr Awdurdod Cynllunio lleol. Yn gyffredinol dylai'r arolwg rhywogaethau/cynefin</u> gynnwys: safle'r tyrbin, y traciau</p> <p><i>Cytuno</i></p> <p><i>Dogfen ARhC ac CCA:</i></p> <p>7.7.3 Adroddiad D Daearegol/Hydrolegol/Hydroddaearegol: yn rhoi sylw I faterion perthnasol ar y safle neu nodweddion a effeithir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y datblygiad arfaethedig gan gynnwys arolwg, dadansoddiad, mesurau osgoi, lliniaru, gwneud iawn ac unrhyw gynigion ar gyfer gwelliannau.</p> <p>7.7.6 Ar ôl cwblhau'r broses asesu dylid rhoi ystyriaeth hefyd i'r cyffinoedd ar gyfer gwella cadwraeth natur o fewn safle a'i gyffiniau, fel darparu cynffinoedd newydd neu nodweddion cynffinoedd ar dir cyfagos. Mewn rhai achosion, dylid ystyried bod angen cynffinoedd cydbwysu i liniaru unrhyw golled posibl a achosir gan ddatblygu.</p> |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|--|--|
| Adroddiad i: | Cyngor Sir |
| Dyddiad | 24.1.2013 |
| Pwnc | Drafft Ymgynghorol o'r Ddogfen Hoff Strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd |
| Teilydd Portffolio | Cyng. Robert Ll. Hughes |
| Swyddogion sy'n arwain | Jim Woodcock |
| Swyddog Cyswllt | Nia H Davies 01286 679890 |
| Natur a rheswm dros adrodd | |
| <p>Gofyn i'r Cyngor gymeradwyo'r Ddogfen Hoff Strategaeth ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn unol a gofynion y Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Lleol.</p> | |

| A – Cyflwyniad/ Cefndir/ Materion |
|---|
| <ul style="list-style-type: none"> ➤ Mae'r Hoff Strategaeth yn gam allweddol yn y daith hir i baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) gyda Gwynedd. Cafodd y Strategaeth ei lunio yn dilyn nifer o gyfleon ar gyfer cyfranogiad llawn gan Gynghorwyr Ynys Mon ➤ Ar y cam yma gofynnir i'r Cyngor fabwysiadu Strategaeth ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Bydd sylwadau gawn ni yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus yn gymorth i ddatblygu cynllun mwy manwl o'r enw Cynllun Adnau a fydd yn rhoi'r strategaeth, gan gynnwys y polisiau strategol yn ogystal a pholisiau cynllunio manwl. Disgwylir y caiff y Cynllun Adnau ei ystyried gan y Cyngor yn nes ymlaen yn 2013. <p>Cyflwyniad</p> <p>Mae Deddf Cynllunio a Phryniant Gorfodol 2004 yn dweud wrth y Cyngor fod angen paratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) am ddatblygiad a defnydd tir dros oes y cynllun a'i bolisiau i'w gweithredu nhw. Mae'r Cyngor yma wedi penderfynu gweithio gyda Chyngor Gwynedd i baratoi CDLI ar y Cyd.</p> <p>Mae Rheol 15 o'r Rheoliadau Cynllun Datblygu Lleol yn dweud bod rhaid i'r Cyngor gyhoeddi ei gynigion cyn-adneuo ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus a sylw cyn iddo benderfynu ar gynnwys ei GDLI ar gyfer ei adneuo.</p> <p>Fe ddylai'r cynigion cyn-adneuo, mewn dogfen Hoff Strategaeth, gynnwys gweledigaeth, opsiynau strategol, hoff strategaeth, polisiau allweddol, a'r adroddiad asesiad cynaliadwyedd dechreuol, ac fe ddylai fod yn destun ymgynghoriad am</p> |

gyfnod o chwe wythnos.

Ym mis Tachwedd 2011, fe gytunodd y ddau Gyngor ar Gytundeb Cyflawni ar gyfer CDLI ar y Cyd gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r Cytundeb yn dweud y byddai'r ymgynghori am y ddogfen Hoff Strategaeth yn digwydd ym Medi - Hydref 2012. Fe welwyd nad oedd hynny'n bosib am amryw o resymau, gan gynnwys nifer a welwyd fel risgiau yn y Cytundeb. Cafodd y gohiriad ei ystyried gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ym mis Gorffennaf 2012 ac fe gymeradwywyd amserlen ddiwygiedig bryd hynny. Fe roddwyd gwybod yn anffurfiol i Lywodraeth Cymru am y llithriad bach. Ar ôl cyhoeddi'r ddogfen Hoff Strategaeth, bydd y Cynghorau'n adolygu'r Cytundeb Cyflawni mewn ymgynghoriad gyda Llywodraeth Cymru.

Cafodd y Ddogfen Hoff Strategaeth drafft ei chyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith pan ddaru o gwrdd ar 14 Ionawr 2013 a'i chymeradwyo ar gyfer ystyriaeth a phenderfyniad y Cyngor ar 24 Ionawr 2013. Caiff y Ddogfen ei chyflwyno i Gabinet Cyngor Gwynedd ar gyfer ei gymeradwyaeth ar 22ain Ionawr 2013.

Mae Atodiad 1 yn cynnwys siart sy'n dangos yr amserlen a gytunwyd iddo gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar gyfer symud trwy'r camau allweddol eraill yn y broses o baratoi'r CDLI ar y Cyd.

Cefndir

Y CDLI ar y Cyd fydd ei ddogfen allweddol defnydd tir. Bydd yn cynnwys polisiau a chynigion ar gyfer datblygu a defnyddio tir yn Ynys Môn a Gwynedd (ac eithrio Parc Cenedlaethol Eryri) yn y dyfodol hyd at 2026, mewn cydymffurfiaeth a gofynion deddfwriaethol. Pan gaiff ei fabwysiadu bydd yn disodli'r cynllun fframwaith a lleol ar gyfer Ynys Môn yn ogystal â'r CDU a gafodd ei stopio, sy'n ystyriaeth cynllunio berthnasol. Bydd yn sail ar gyfer gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Bydd y CDLI ar y Cyd felly'n rhoi rhywfaint o sicrwydd am ba fath o ddatblygiad gaiff ei ganiatáu ac yn lle yn ystod oes y cynllun.

Bydd y CDLI ar y Cyd yn cefnogi gweledigaeth ar gyfer ardal y Cynllun a welir yn strategaeth y Cynllun Integredig Sengl. Bydd yn adnabod cyfleoedd ar gyfer buddsoddiad ac adfywio parhaol gan gynnwys darparu ar gyfer tai newydd, gwaith, cyfleusterau cymunedol ac isadeiledd a fydd ei angen dros y 15 mlynedd nesaf. Bydd y Cynllun yn adnabod tir hefyd fydd angen ei warchod oherwydd ei bwysigrwydd cadwriaethol a mesurau eraill angenrheidiol os ydym am warchod ein hamgylchedd.

Hyd yma, mae nifer o dasgau allweddol wedi cael eu cymryd i gyfrannu i ddatblygiad y Ddogfen Hoff Strategaeth Drafft.

- Agor Cofrestr Safleoedd Posib a dechrau'r broses asesu gychwynnol;
- Cyfranogiad cyhoeddus am, a chymeradwyaeth y ddau Gyngor i weledigaeth ac amcanion y CDLI ar y Cyd – Mawrth a Mai 2012;

- Cyfranogiad cyhoeddus am, a chymeradwyaeth y ddau Gyngor i Opsiynau Strategol Twf a Dosbarthiad – Mawrth a Mai 2012;
- Datblygu sail dystiolaeth i gefnogi'r cynllun - parhaol;
- Ymgymryd â nifer o asesiadau i gefnogi cynnwys y ddogfen Hoff Strategaeth - parhaol;
- Y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn cymeradwyo'r ddogfen Hoff Strategaeth drafft yn ddarostyngedig i ystyriaeth i eiriad y polisi am yr iaith Gymraeg a rhoi'r hawl i wneud man newidiadau a chywiriadau – Tachwedd 2012;
- Cefnogaeth gan y Pwyllgor Scriwtini Amgylchedd a Thechnegol i'r ddogfen Hoff Strategaeth – Rhagfyr 2012;
- Adrodd i'r Pwyllgor Gwaith - 14eg Ionawr 2013

Cafodd y broses ei gyfoethogi hefyd gan gyfres o Seminarau Aelodau.

B - Ystyriaethau

Ceir copi o'r Ddogfen Hoff Strategaeth Drafft gyflawn yn Atodiad 2. Deallir bod cais wedi cael ei wneud i Aelodau gadw'r copiau a gafodd ei gylchu adeg cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ac fe welir linc i'r wefan isod. Ceir crynodeb weithredol ohono yn Atodiad 3 er mwyn hwyluso dealltwriaeth yn unig yn ystod y cyfarfod yma ac fe ddylid ei ddarllen efo'r Ddogfen Hoff Strategaeth.

Nid yw'r ddogfen Hoff Strategaeth yn fersiwn llawn o'r Cynllun ond mae'n dangos y materion a'r opsiynau a chynigion bras y Cynghorau i fynd i'r afael a nhw. Mae'n cynnwys y weledigaeth gyffredin, opsiynau strategol, yr hoff strategaeth a'r polisiâu allweddol am sut ellir cyfarch y materion a'r tueddiadau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol presennol sy'n effeithio ar ardal y Cynllun a sut caiff anghenion datblygu ardal y Cynllun am dai newydd, cyflogaeth, ac anghenion strategol eraill eu diwallu.

Mae'r canlynol yn rhoi trosolwg o strwythur y ddogfen Hoff Strategaeth drafft:

- cyflwyniad a chefnidir (Pennod 1)
- trosolwg o'r asesiadau a gafodd eu gwneud, e.e. AC (Pennod 2)
- y fframwaith bolisi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sydd wedi dylanwadu ar baratoad y ddogfen Hoff Strategaeth draft (Pennod 3)
- adolygiad cyffredinol o wybodaeth waelodlin gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a materion y dylai'r CDLI ar y Cyd eu taclo (Pennod 4);
- y weledigaeth ar gyfer datblygu dyfodol ardal y Cynllun a'i amcanion ar gyfer danfon datblygiad cynaliadwy ac i gyfarch tueddiadau allweddol (Pennod 5);
- yr opsiynau twf a gofodol strategol mae'r Cynghorau wedi eu hystyried wrth benderfynu ar yr Hoff Strategaeth (Pennod 6);
- yr Hoff Strategaeth gan gynnwys y Diagram Allweddol a'r polisiâu strategol ar gyfer gweithredu'r strategaeth (Pennod 7);
- trosolwg o strwythur y Cynllun Drafft Adneuo (Pennod 8).

O dan umbrela o nifer o Bolisiâu Strategol, mae'r Hoff Strategaeth drafft yn amcanu i gyfarch gweledigaeth y CDLL ar y Cyd trwy wireddu 4 o allbynnau:

- Uchafu Cyfleon Datblygu Economaidd - Cwrdd anghenion y dyfodol am swyddi trwy ddarparu ystod a dewis o dir a chyfleoedd ar wahanol fathau o safleoedd sy'n berthnasol i wahanol fathau o waith. Gwarchod safleoedd cyflogaeth bresennol sydd gan swyddogaeth economaidd bresennol yn ardal y Cynllun a thu hwnt i'w ffiniau.
- Tai i Gwrdd ag Anghenion Lleol - Cwrdd anghenion y dyfodol am gartrefi trwy hyrwyddo datblygiad preswyl a fydd yn darparu 7,665 o unedau tai newydd dros gyfnod y Cynllun o 15 mlynedd. Hyrwyddo ystod a dewis o gyfleoedd dai o wahanol faint, daliadaeth a lleoliadau gan gynnwys darpariaeth o dai fforddiadwy ynghyd a darparu ar gyfer anghenion Sipsiwn a Theithwyr.
- Cryfhau ein Cymunedau, y rhai Gwledig a Threfol - Sicrhau bydd cartrefi newydd a gwaith yn rhan o gymunedau wedi eu cynllunio'n dda sydd gan yr ystod gywir o gyfleusterau ar yr adeg gywir ac yn y llefydd cywir.
- Cyfoethogi Asedau Amgylcheddol yr Ardal – Cafodd y Strategaeth ei ddatblygu i leihau ardrawiad ar asedau amgylcheddol ardal y Cynllun. Tynnir sylw hefyd at yr angen i reoli gwastraff yn gynaliadwy, lleihau allyriadau a gwneud yn fawr o atebion adnewyddol.

Mae'r Polisiâu Strategol trawswol yn rhoi'r fframwaith ar gyfer hyrwyddo datblygiad cynaliadwy a lliniaru ac addasu effeithiau newid hinsawdd, ac maent yn adeiladu ar Strategaeth Ofodol y Cynllun.

Mae'r Strategaeth Ofodol gyffredinol sy'n cael ei gynnig yn y ddogfen Hoff Strategaeth yn cydnabod swyddogaeth prif drefi ardal y Cynllun a'r angen i'w cryfhau nhw, gan gydnabod swyddogaeth bwysig yr ardaloedd mwy gwledig o ran darparu cyfleoedd gyflogaeth a chartrefi ar gyfer trigolion ardal y Cynllun. Gyda chyfran uwch o boblogaeth ardal y Cynllun yn byw yn yr ardaloedd gwledig roedd yn amlwg bod gwella cynaliadwyedd y cymunedau lleol presennol yma'n bwysig. Y ffordd orau o gyfarch yr amcanion o gynnal cymunedau cynaliadwy, bywiogrwydd yr iaith Gymraeg a gwella mynediad i wasanaethau ydy trwy hyrwyddo mentergarwch gwledig ac annog ystod o wasanaethau basig mewn lleoliadau sy'n agos at y boblogaeth wledig. Mae'r egwyddor sylfaenol yma'n sail i'r Strategaeth.

Mae'r Strategaeth Ofodol gyffredin felly'n amcanu i wella cynaliadwyedd trwy:

- i) ganolbwyntio'r datblygiadau a'r adfywio mwyaf ar y Prif Aneddeleoedd a'r safleoedd strategol yno
- ii) gefnogi datblygu sy'n adlewyrchu maint, swyddogaethau a chapasiti amgylcheddol a diwylliannol y rhwydwaith o wahanol Aneddiadau Allweddol a Phentrefi Allweddol
- iii) gefnogi mân ddatblygu, mewn mân Bentrefi diffiniedig ac yng nghefn gwlad, sy'n

helpu i gynnal gwasanaethau a chyfleusterau ar gyfer cymunedau lleol

Mae Strategaeth Aneddleoedd wedi cael ei pharatoi i helpu i gyfarch y Strategaeth Ofodol. Mae'r Strategaeth Aneddleoedd yn rhoi'r ymagwedd oferôl ar gyfer darparu cartrefi newydd, gwaith, isadeiledd a chyfleusterau cymunedol dros oes y Cynllun ar gyfer ardal y Cynllun. Mae'r rhoi'r cyd-destun ar gyfer y Polisiâu Strategol sydd yn y Ddogfen Hoff Strategaeth draft ac yn amlinellu sut caiff y Weledigaeth a'r Amcanion eu cyfarch.

Mae'r Strategaeth Aneddleoedd yn dangos yr aneddleoedd lle bydd twf a buddsoddiad yn cael ei gyfeirio. Mae'r Hierarchaeth ganlynol yn cael ei gynnig:

- Is-ganolfan Ranbarthol - yn gweithredu fel canolfan traws ffiniol yn nhermau cyflogaeth, addysg uwch a phellach a manwerthu. Mae ganddo gysylltiadau da o fewn yr ardal ac ar draws y ffin.
- Canolfannau Gwasanaethol Trefol - yn cyflawni rôl canolfan leol ar gyfer anghenion basig yr aneddleoedd o fewn eu dalgyrch yn ogystal â rôl gwasanaethau uwch i gwrdd ag anghenion nad ellir eu cwrdd yn ymarferol o fewn canolfannau rheng is neu bentrefi. Fel y cyfryw maent yn cyfarch ardal ddaearyddol fawr.
- Canolfannau Gwasanaeth Lleol - canolfannau sydd wedi cael eu hadnabod oherwydd eu maint, ystod ac ansawdd eu gwasanaethau a chyfleusterau, cysylltiadau swyddogaethol gyda chanolfannau uwch. Trwy adnabod yr aneddleoedd yma a chanolbwyntio datblygiad gwledig ynddynt mae strategaeth y CDLI ar y Cyd yn amcanu i gryfhau eu rol o fewn y rhwydwaith o aneddleoedd a gwella cyfleon cymunedau gwledig i gwrdd â'u hanghenion basig eu hunain.
- Pentrefi – gan o leiaf un cyfleuster cymunedol a chysylltiad cynaliadwy gyda chanolfan lefel uwch. Er mwyn gallu rheoli datblygiad o fewn y categori yma awgrymir yr is-gategoriâu canlynol: Pentrefi Gwasanaethol, Pentrefi Lleol a Phentrefi Arfordirol/ Gwledig
- Clystyrau – grwpiau cydlynol o dai yng nghefn gwlad sydd gan gyswllt cydlynol i bentref neu ganolfan lefel uwch
- Cefn gwlad – gweddill ardal y Cynllun

Mae'n rhaid i'r CDLI ar y Cyd fod yn destun Asesiad Amgylcheddol (AC) gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf Cynllunio a Phryniant Gorfodol 2004 a Rheoliadau AAS. Mae'r Adroddiad Asesiad Cynaliadwyedd Dechreuol, sy'n rhaid bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus hefyd, yn adnabod yr oblygiadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol opsiynau a chynigion yr Hoff Strategaeth.

Mae'n rhaid i'r Cynghorau ymgymryd ag Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) o'r CDLI ar y Cyd. Mae'n rhaid i'r HRA benderfynu ar effeithiau arwyddocaol tebygol y Cynllun ar Safleoedd Ewropeaidd o bwysigrwydd cadwraeth natur ac, os yn berthnasol, adnabod beth sydd angen 'asesiad priodol (AP) a sut caiff hynny ei

wneud. Bydd Adroddiad Sgopio ar gyfer y HRA o'r CDLI ar y Cyd ar gael fel dogfen gefndir os gofynnir amdano ynghyd a nifer o ddogfennau eraill. Bydd y gyfres o ddogfennau cefndir yma'n cynnwys dogfen a fydd yn dweud amdan yr asesiad dechreuol o'r Gofrestr o Safleoedd Posib, a fydd yn darparu rhestr o Safleoedd Strategol posib.

| C–Goblygiadau ac Effaith | | |
|---------------------------------|---|---|
| 1 | Cyllid/Adran 151 | Dim |
| 2 | Swyddog Cyfreithiol/Monitro | Mae mabwysiadu Hoff Strategaeth yn garreg milltir yn y broses o baratoi a mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol fel sydd ei angen o dan y Ddeddf 2004. mae'r adroddiad yma'n paratoi'r ffordd i fabwysiadu'r Hoff Strategaeth |
| 3 | Adnoddau Dynol | Dim |
| 4 | Gwasanaethau Eiddo (Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Bydd Gwasanaethau Eiddo'n rhoi sylw maes o law i'r ddogfen strategaeth a gymeradwyir pan roddir ystyriaeth i ddatblygiad fydd yn effeithio ar dir ym mherchnogaeth y Cyngor |
| 5 | Technoleg Cyfathrebu a Gwybodaeth | Dim |
| 6 | Cydraddoldeb (Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim |
| 7 | Gwrthlodi a Chymdeithasol (Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim |
| 8 | Cyfathrebu (Gweler y nodiadau – dogfen ar | Dim |

| | | |
|-----------|--|--|
| | wahân) | |
| 9 | Ymgynghori (Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Do – cafodd datblygiad y ddogfen Hoff Strategaeth drafft ei gynorthwyo gyda thrafodaeth efo rhanddalwyr, gan gynnwys cymunedau, yn ogystal a thrafodaeth gydag Aelodau a swyddogion. |
| 10 | Economaidd | Dim |
| 11 | Amgylcheddol (Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim |
| 12 | Trosedd ac Anhrefn (Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim |
| 13 | Cytundebau Canlyniadau | Dim |

CH–Crynodeb

Mae'r Ddogfen Hoff Strategaeth drafft yn dangos sut caiff materion a thueddiadau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol sy'n effeithio ardal y Cynllun eu cyfarch. Mae'n edrych hefyd ar sut caiff anghenion datblygu'r ardal eu cwrdd, gan gynnwys lleoliadau bras ar gyfer tai newydd, cyflogaeth ac anghenion strategol eraill.

Yn dilyn cymeradwyaeth gan y ddau Gyngor bydd y ddogfen ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Neilltuir cyfnod o chwe wythnos pryd fydd partion efo diddordeb yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau am yr Hoff Strategaeth a'r Adroddiad Asesiad Cynaliadwyedd Dechreuol. Bydd y sylwadau a gawn yn gymorth i roi sail i baratoi cynllun mwy manwl o'r enw Cynllun Adneuo sydd i fod i gael ystyriaeth gan y Cyngor yn nes ymlaen yn 2013.

D- Argymhelliad

- Bod y Cyngor Sir yn cymeradwyo'r Ddogfen Hoff Strategaeth i gael ei rhyddhau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus;
- Bod y Cyngor Sir yn dirprwyo'r hawl i Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio a

Gwarchod y Cyhoedd i wneud man gywiriadau i'r Ddogfen Hoff Strategaeth cyn ei chyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

Enw awdur yr adroddiad
Teitl y swydd

Nia H Davies
Rheolwr Cynllunio (Polisi)
Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd
14eg Ionawr 2013

Dyddiad:

Atodiadau:


Atodiad 1: CDLI ar y Cyd – cyfnodau paratoi ac amserlen

Atodiad 2: Dogfen Hoff Strategaeth drafft

<http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/documents/s1482/Mabwysiadu%20Cynllun%20Cymorth%20tuag%20at%20y%20Dreth%20Gyngor.pdf?LLL=1>

Atodiad 3: Crynodeb weithredol o'r ddogfen Hoff Strategaeth y CDLI ar y Cyd

ATODIAD 1: CYFNODAU PARATOI'R CDLL AR Y CYD AC AMSERLEN





CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 – 2026

Crynodeb o'r Hoff Strategaeth Drafft Ymgynghorol

Ionawr 2013

Cyflwyniad

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cydweithio gyda Chyngor Gwynedd i roi fframwaith cynllunio newydd yn ei le - **y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn** - er mwyn tywys twf a datblygiad yn Ynys Môn a Gwynedd (ar wahân i Barc Cenedlaethol Eryri) hyd at 2026. Mae'n rhaid i ni gynllunio ar gyfer lle mae pobl yn byw, gweithio, chwarae a sut fyddant yn symud o gwmpas. Unwaith caiff ei fabwysiadu, bydd y Cyngor yn defnyddio'r Cynllun i benderfynu os caiff caniatâd cynllunio ei roi a'i pheidio.

Caiff y Cynllun ei baratoi mewn dau gam.


Cam 1: Yr **Hoff Strategaeth** ydy'r cam cyfredol, sy'n rhoi sail ar gyfer cwrdd ag anghenion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yr ardal. I bwrpas ymgynghoriad cyhoeddus mae'n dangos:

- y prif faterion;
- y weledigaeth a'r amcanion strategol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd
- faint o ddatblygiad tai a chyflogaeth sydd ei angen;
- pa drefi a phentrefi fydd yn tyfu a pha rai fydd yn aros run fath;
- y polisiau strategol, sy'n bolisiau cynllunio pwysig iawn i gyfarch y prif faterion, a
- diagram allweddol, sy'n dangos yr ardaloedd yn ardal y Cynllun gaiff eu effeithio

Dyma'r cam cyntaf yn y sgwrs gyhoeddus ffurfiol i **brofi** os yw'r Hoff Strategaeth drafft yn gywir.

Cam 2: byddwn yn defnyddio'r sylwadau a gawn yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus am yr Hoff Strategaeth ac unrhyw dystiolaeth arall i baratoi'r Cynllun llawn, - **y Cynllun Adnau**. Bydd y fersiwn yma o'r Cynllun yn cynnwys dynodiadau tir a pholisiau cynllunio manwl. Bydd y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar Cynghorau unigol yn cynghori a phenderfynu ar y Cynllun Adnau, cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Mae'r daflen yma'n crynhoi'r prif elfennau o'r Hoff Strategaeth drafft ymgynghorol.



Datblygu'r Hoff Strategaeth

| | | |
|--|---|---|
| <p>Prif faterion – cyfres o 38 (gweler Pennod 4 yn y ddogfen Hoff Strategaeth drafft)</p> | ✓ | Y DDAU GYNGOR WEDI CYTUNO IDDYNT ERBYN MAI 2012 |
| <p style="text-align: center;"><u>Gweledigaeth</u></p> <p>Erbyn 2026, bydd Ynys Môn a Gwynedd yn cael eu cydnabod am eu cymunedau ffyniannus a llawn bywyd sy'n dathlu eu diwylliant, treftadaeth a'u hamgylchedd unigryw ac yn rhywle y bydd pobl yn dewis byw ynddynt.</p> <p>Mae hyn yn golygu y bydd ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • lle mae anghenion tai cymunedau lleol yr ardal yn cael eu diwallu'n well o ran cyflenwad, math, ansawdd, effeithlonrwydd ynni, lleoliad a fforddiadwyedd • lle mae'r preswylwyr a busnesau'n gallu achub ar y cyfleoedd economaidd newydd i ffynnu • sy'n brolio gweithlu medrus priodol ac economi amrywiol, eang, gynaliadwy gyda chysylltiadau da sy'n gwneud y defnydd gorau o gryfderau lleol a chyfleoedd lle mae'r manteision sy'n deillio ohonynt yn aros yn lleol • sy'n gartref i rwydweithiau egniol o gymunedau cynhwysol lle mae'r preswylwyr yn mwynhau iechyd a lles da • lle mae'r iaith Gymraeg yn rhan annatod o gymunedau • sy'n addasu ac yn ymateb yn gadarnhaol i'r sialensiau a gyflwynir gan y newid hinsawdd • lle mae cymeriad unigryw ei threftadaeth adeiledig a diwylliannol, ei chefn gwlad a'i thirwedd, a'i hamgylchedd, yn cael ei werthfawrogi, ei warchod a'i wella • lle mae pobl eisiau byw, gweithio ac ymweld â hi | ✓ | |
| <p>Amcanion strategol - cyfres o 26 (gweler Pennod 5 yn y ddogfen Hoff Strategaeth drafft a thudalen 5 - 9 yn y daflen yma).</p> | ✓ | |
| <p>Faint o dai sydd eu hangen?</p> <p>7,665 o unedau tai yn ardal y Cynllun rhwng 2011 a 2026 (a all olygu o gwmpas 3,375 unedau tai ym Môn)</p> | ✓ | |
| <p>Lle fydd datblygiad yn mynd?</p> <p>i) caiff y prif ddatblygiadau ac adfywio eu tywys i'r Ganolfan Isranbarthol a'r Canolfannau Gwasanaethol Trefol a'r safleoedd strategol sydd yno;</p> <p>ii) cefnogi datblygiad sy'n adlewyrchu maint, swyddogaeth a chapasiti amgylcheddol a diwylliannol y rhwydwaith o wahanol Ganolfannau Gwasanaethol Lleol a Phentrefi Gwasanaethol;</p> <p>iii) cefnogi datblygiad bach mewn Pentrefi Lleol, Pentrefi Gwledig/ Arfordirol, Clystyrau a Chefn Gwlad sy'n gymorth i wasanaethau a chyfleusterau mewn cymunedau lleol.</p> | ✓ | |

Datblygu'r Hoff Strategaeth

Y STRATEGAETH GYFFREDINOL

Er mwyn cyfarch y Weledigaeth mae'n rhaid cyfarch pedwar deilliant:

Deilliant 1: Uchafu cyfleon o ddatblygiadau economaidd: trosolwg

- darparu fframwaith polisi cynllunio defnydd tir i gyfarch cryfderau a chyfleon yn ardal y Cynllun sy'n gysylltiedig â nifer o sectorau allweddol: nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol, technoleg forol, twristiaeth, sector gyhoeddus, cynhyrchu, ynni adnewyddol a charbon isel, manwerthu, iechyd a gofal.
- gwarchod 168ha o dir yn ardal y Cynllun (84ha ym Mon) mewn parciau busnes a stadau diwydiannol.
- hyrwyddo ystod a mentrau i gael sgiliau gwell.
- cefnogi cyfleon priodol ar raddfa fach o fewn neu o gwmpas Pentrefi, Clystyrau a Chefn Gwlad.
- cyfarch blaenoriaethau allweddol y Cyngor o ran Prosiectau Isadeiledd Mawr, gan gynnwys atomfa niwclear newydd yn Wylfa.
- hyrwyddo cynnig twristiaeth trwy gydol y flwyddyn
- hyrwyddo datblygiad sy'n creu canol trefi bywiog ar gyfer siopa, hamdden ac adloniant.

| Rhai o'r amcanion strategol sy'n gysylltiedig â'r deilliant yma: | Polisiau Strategol |
|--|---|
| <p><u>SO7</u> - sicrhau bod cyflenwad digonol o dir ac adeiladau yn cael ei ddiogelu a'i ddyrannu mewn lleoliadau cynaliadwy i ddenu buddsoddiad ac i gadw a chynyddu nifer y swyddi brodorol, cefnogi datblygu gweithgarwch economaidd mewn sectorau â gwerth uwch, sicrhau cyfleoedd i wella sgiliau ac addysg y gweithle, a hyrwyddo gweithio o adref lle bo hynny'n briodol</p> <p><u>SO8</u> - arallgyfeirio economi wledig a threfol ardal y CDLI ar y Cyd er mwyn hwyluso economi gymysg a ffyniannus sy'n adeiladu ar gyfleoedd, gan gynnwys y rhai a gyflwynir gan y sectorau ynni adnewyddadwy a charbon isel a'r diwydiannau gwybodaeth</p> <p><u>SO9</u> - sicrhau isadeiledd priodol yn ei le neu y gellir ei ddarparu (e.e. trwy gyfraniadau datblygwyr) i ymdopi a phob math o ddatblygiad</p> <p><u>SO10</u> - hyrwyddo canol trefi llawn bywyd a ffyniannus sydd wedi cael ail wynt fel canolfannau gwasanaeth ac i weithio ynddynt, ac sy'n llefydd deniadol a llawn bywyd i breswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd</p> <p><u>SO11</u> - rheoli'r ardal fel cyrchfan amgen a chynaliadwy ar gyfer ymwelwyr</p> | <p>PS8 Darparu cyfleon ar gyfer economi ffyniannus</p> <p>PS6 Cynigion prosiectau isadeiledd mawr</p> <p>PS7 Datblygiad yn ymwneud a niwclear yn yr Wylfa</p> <p>PS5 Isadeiledd a chyfraniadau gan ddatblygwyr</p> <p>PS10 Canol Trefi a manwerthu</p> <p>PS9 Yr economi ymwelwyr</p> |

Datblygu'r Hoff Strategaeth

Deilliant 2: Tai i gwrdd ag angen lleol: trosolwg

- darparu fframwaith cynllunio defnydd tir i hyrwyddo datblygiad sy'n ildio 7,665 o unedau tai yn ardal y Cynllun, sydd gyfystyr a chyfartaledd o 511 o unedau tai'r flwyddyn. Gall hyn olygu dua 225 o unedau tai'r flwyddyn ym Môn.
- hyrwyddo'r math cywir o dai (h.y. yn nhermau pris, daliadaeth, maint) yn y llefydd cywir (e.e. yn hygyrch i gyfleon gwaith, cyfleusterau addysg, lle mae cyfleon digidol ar gael).
- dweud bod rhaid i gyfran o'r tai enwyd fod yn 'dai fforddiadwy', un ai canolraddol neu gartrefi i'w rhentu, yn ddarostyngedig i faterion hyfywdra.
- cyfarch anghenion aelwydydd penodol, e.e. yr henoed, myfyrwyr, Sipsiwn a Theithwyr.

| Rhai o'r amcanion strategol sy'n gysylltiedig â'r deilliant yma: | Polisiâu Strategol |
|--|--|
| <p><u>SO1</u> - sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy,</p> <p><u>SO2</u> - darparu ar gyfer cyflenwad tai cytbwys gan sicrhau bod yr holl stoc dai o safon dda, yn fforddiadwy, ac yn darparu ar gyfer gwahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth</p> <p><u>SO3</u> - sicrhau poblogaeth sefydlog a chytbwys mewn cymunedau</p> | <p>PS11 Darpariaeth tai cytbwys</p> <p>PS12 Tai fforddiadwy</p> <p>PS13 Llety Sipsiwn a Theithwyr</p> |

Datblygu'r Hoff Strategaeth

Deiliant 3: Cryfhau ein cymunedau – gwledig a threfol: trosolwg

- dosbarthu datblygiad i gryfhau'r rhwydwaith o wahanol fathau o aneddeleoedd yn ardal y Cynllun.
- cynnal cymeriad cymysg trefol/ gwledig arbennig ardal y Cynllun.
- cynnal y cymeriad ieithyddol a diwylliannol nodedig.
- os yw cymuned yn mynd i allu goroesi a thyfu i'r dyfodol, mae o angen ystod o wasanaethau a chyfleusterau fel addysg, iechyd a gofal cymdeithasol, llefydd agored, hamdden a chyfleusterau siopa.

| Rhai o'r amcanion strategol sy'n gysylltiedig â'r deiliant yma: | Polisiâu Strategol |
|--|---|
| <p><u>SO5</u> - sicrhau bod aneddiadau yn gynaliadwy, yn hygyrch ac yn diwallu'r holl anghenion sydd gan eu cymunedau</p> <p><u>SO6</u> - sicrhau bod pob datblygiad wedi'i ddylunio'n dda ac yn rhoi sylw dyledus i'w amgylchoedd er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o droseddu</p> <p><u>SO24</u> - diogelu a chryfhau'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig a hyrwyddo ei defnyddio fel rhan hanfodol o fywyd y gymuned</p> <p><u>SO21</u>- gwella a chynnal rhwydweithiau trafnidiaeth ddiogel, effeithlon, modern ac integredig o ansawdd uchel ar gyfer cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau addysg / hyfforddiant, yn enwedig ar droed, ar gefn beic ac ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan felly leihau nifer y siwrneiau mewn ceir preifat lle bo hynny'n bosibl</p> <p><u>SO22</u> - sicrhau bod datblygiadau newydd wedi eu cefnogi gan gyflenwad digonol neu a gynlluniwyd o seilwaith digidol a ffonau symudol</p> <p><u>SO23</u> - Gwneud yn fawr o gyfleon Caergybi fel porth rhyngwladol mawr a'r A55, rhwydwaith Traws Ewrop E22 a'r A487/ A470 fel coridorau cludiant allweddol.</p> | <p>PS20 Isadeiledd cynunedol</p> <p>PS19 Iaith Gymraeg a diwylliant</p> <p>PS22 Trafnidiaeth gynaliadwy, datblygiad a hygyrchedd</p> <p>PS21 Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu</p> |

Datblygu'r Hoff Strategaeth

Deilliant 4: Cyfoethogi asedau amgylcheddol yr ardal: trosolwg

- gwerthfawrogi ein cefngwald a'n harfordiroedd fel adnodd pwysig, sy'n cefnogi gweithgareddau hamdden ac adloniadol a'r economi amaethyddol.
- cwrdd ag amcanion lleol neu genedlaethol neu ddyletswyddau statudol yn nhermau tirwedd a bioamrywiaeth.
- dyletswydd i gynnal a chynnal a gwella amgylchedd diwylliannol a hanesyddol sy'n gwneud yr ardal yn nodedig ac yn cyfrannu i gymeriad ac edrychiad ardal y Cynllun.

| Rhai o'r amcanion strategol sy'n gysylltiedig â'r deilliant yma: | Polisiâu Strategol |
|---|---|
| <p><u>SO12</u> - diwallu anghenion mwynau'n lleol a rhanbarthol mewn ffordd gynaliadwy</p> <p><u>SO16</u> - lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau</p> <p><u>SO17</u> - annog rheoli gwastraff ar sail yr hierarchaeth o ail-ddefnyddio, adfer a gwaredu gwastraff yn ddiogel</p> <p><u>SO18</u> - hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal</p> <p><u>SO20</u> - gwarchod a gwella bioamrywiaeth, drwy gryfhau a gwella ei gydgyssylltiad ar draws yr ardal, a hwyluso cymunedau i fwynhau a gwerthfawrogi bioamrywiaeth</p> <p><u>SO25</u> - nodi, gwarchod a lle bo hynny'n bosibl gwella llefydd, tirweddau ac adeiladau sydd o bwysigrwydd hanesyddol, diwylliannol ac archeolegol, a'u gosodiadau</p> | <p>PS18 Mwynau</p> <p>PS17 Rheoli gwastraff</p> <p>PS16 Technoleg ynni adnewyddol</p> <p>PS14 Cynnal a chyfoethogi'r amgylchedd naturiol</p> <p>PS15 Gwarchod a chyfoethogi asedau diwylliannol a threftadaeth</p> |

Datblygu'r Hoff Strategaeth

STRATEGAETH OFODOL

Rydym yn gwybod y bydd y datblygiad yr ydym yn cynllunio ar ei gyfer yn cael effaith tymor hir ar Fôn a Gwynedd ac y byddant nid yn unig yn cael ardrawiad ar yr amgylchedd lleol ond ar yr un byd-eang hefyd.


Er mwyn cyfarch y Weledigaeth mae'n rhaid rhoi sylw i:

- angen i hyrwyddo datblygiad cynaliadwy;
- lleddfu ac addasu i effeithiau newid hinsawdd;
- berthynas swyddogaethol a gofodol rhwng aneddleoedd yn ardal y Cynllun a thu hwnt i'w ffiniau

| Rhai o'r amcanion strategol sy'n gysylltiedig â'r strategaeth ofodol: | Polisiâu Strategol |
|---|--|
| <p><u>SO26</u> - sicrhau bod pob datblygiad newydd yn cwrdd â safonau uchel o ran ansawdd eu dyluniad, effeithlonrwydd ynni, diogelwch (pobl ac adeiladau) a hygyrchedd, eu bod yn gweddu'n dda ag unrhyw ddatblygiadau presennol, yn gwella tir y cyhoedd ac yn datblygu mannau o ansawdd sy'n unigryw yn lleol</p> <p><u>SO19</u> - defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael</p> <p><u>SO13</u> - lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau'r newid hinsawdd</p> <p><u>SO14</u> - rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dwr a lleihau faint o ddwr a ddefnyddir</p> <p><u>SO15</u> - lleihau effaith llifogydd drwy sicrhau bod datblygiadau agored iawn i niwed yn cael eu troi i ffwrdd o ardaloedd risg lle bynnag y bo hynny'n bosibl</p> <p><u>SO5</u> - sicrhau bod aneddiadau yn gynaliadwy, yn hygyrch ac yn diwallu'r holl anghenion sydd gan eu cymunedau</p> | <p style="text-align: center;">PS1 Datblygiad cynaliadwy</p> <p style="text-align: center;">PS2 Newid hinsawdd</p> <p style="text-align: center;">PS3 Strategaeth aneddleoedd PS4 Cefn gwlad</p> |

Mae'r Diagram Allweddol ar dudalen 10 yn darparu dehongliad diagramatig o Hoff Strategaeth y CDLI ar y Cyd ar raddfa cynllun cyfan. Mae'n dangos yr egwyddorion gofodol bras sydd yn y Strategaeth ac nid ei fwriad ydy bod yn fanwl neu'n benodol i safle. Mae'r cyfeiriadau gofodol yn cael ei ddangos er mwyn hwyluso ymgynghoriad cyhoeddus ac asesiad cynaliadwyedd.

Datblygu'r Hoff Strategaeth



©Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2012, Arolwg Ordnans 100023387
 ©Crown Copyright and database rights 2012 Ordnance Survey 100023387

Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, Adran Rheoleiddio - Cyngor Gwynedd
 Joint Planning Policy Unit, Regulatory Department - Gwynedd Council

1:500,000

Diagram Allweddol

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|--------------------------------|---|
| Adroddiad i'r : | Cyngor Sir |
| Dyddiad: | 24 Ionawr 2013 |
| Pwnc: | Cynllun Cymorth y Dreth Gyngor |
| Swyddog(ion) Arweiniol: | Clare Williams Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) |
| Swyddog Cyswllt: | Einir Wyn Thomas (Est. 2605) |
| Gweithrediad : | I fabwysiadu Cynllun Cymorth y Dreth Gyngor |

1. Pwrpas yr adroddiad

- 1.1 Mae'r adroddiad yn esbonio'r newid o Fudd-dal y Dreth Gyngor i Gymorth gyda'r Dreth Gyngor, ac yn mynd i'r afael â'r goblygiadau cyllido a'r angen i fabwysiadu cynllun erbyn 31 Ionawr 2013.

2. Gwybodaeth Gefndirol

- 2.1 Bydd Cynllun Cymorth y Dreth Gyngor yn cymryd lle'r Cynllun Budd-dal y Dreth Gyngor cyfredol o fis Ebrill 2013. Yng Nghymru, bydd cynllun cenedlaethol yn bodoli (yn wahanol i Loegr ble mae'r cynlluniau'n lleol i bob awdurdod bilio.)
- 2.2 Caiff y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru ei osod gan Reoliadau a wneir dan Atodlen 1B Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (fel y mewnosodwyd gan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012). Cymeradwyodd Cynulliad Cymru ddwy set o reoliadau ar 19 Rhagfyr 2012: Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2012 ("Rheoliadau Cynllun Diofyn") a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2012 ("Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig"). Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu prif nodweddion y Cynllun sydd i'w fabwysiadu gan yr holl Gyngorau yng Nghymru.
- 2.3 Er bod y Ddeddf wedi rhoi disgrisiwn i Weinidogion Cymru i ganiatáu i awdurdodau lleol Cymru i bennu cynnwys y cynlluniau eu hunain, penderfynodd y Llywodraeth sefydlu fframwaith cenedlaethol i ddarparu Cymorth gyda'r Dreth Gyngor yng Nghymru ac felly osgoi'r hyn a elwir yn "postcode lottery" ble gall cymhwyster am ostyngiad yn y Dreth Gyngor a maint y gostyngiad yn y Dreth Gyngor ar gyfer grwpiau penodol fod yn wahanol mewn gwahanol ardaloedd cyngor.
- 2.4 Er bod cynllun cenedlaethol wedi'i gymeradwyo, ychydig o ddisgrisiwn a roddir i'r Cyngor, o fewn y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig i weithredu elfennau disgrisiwn ychwanegol sy'n fwy hael na'r cynllun cenedlaethol ac sy'n darparu mwy o hyblygrwydd gweinyddol. Y rhain yw:-
- 2.4.1 Y gallu i ymestyn y pedair wythnos safonol o ostyngiad yn y Dreth Gyngor a gynigir i bobl wedi iddynt ddychwelyd i'r gwaith sydd wedi bod yn derbyn gostyngiad yn y dreth gyngor yn flaenorol sydd i ddod i ben wrth iddynt ddychwelyd i'r gwaith;

- 2.4.2** Y disgrisiwn i gynyddu'r swm o Bensiwn Anabledd Rhyfel a Phensiwn Gweddwon Rhyfel sydd i'w ddiystyru wrth asesu incwm yr hawliwr;
- 2.4.3** Y disgrisiwn i wella'r broses o roi gwybod am benderfyniadau sydd uwchlaw'r gofynion sylfaenol; a'r
- 2.4.4** Gallu i ôl-ddyddio ceisiadau hwyr am ostyngiadau yn y Dreth Gyngor cyn y cyfnod safonol newydd o dri mis cyn y cais.
- 2.5** Mae Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig yn gofyn i'r Cyngor fabwysiadu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor erbyn 31 Ionawr 2013, p'un a yw'n gweithredu unrhyw un o'r elfennau disgrisiwn ai peidio. Pe bai'r Cyngor yn methu â llunio Cynllun, yna bydd cynllun diofyn yn cael ei weithredu dan ddarpariaethau Rheoliadau Cynllun Diofyn. Gall y Cyngor ond weithredu disgrisiwn os yw'n gwneud ei gynllun ei hun dan Reoliadau Gofynion Rhagnodedig.
- 2.6** Mae'r Cyngor wedi cynnal ymgynghoriad ar fabwysiadu'r cynllun. Hyd yn oed heb weithredu unrhyw un o'r elfennau disgrisiwn, byddai wedi bod yn ofynnol i'r Cyngor gynnal ymgynghoriad ar fabwysiadu'r cynllun er i'r darpariaethau gael eu pennu gan Lywodraeth Cymru. O ganlyniad i'r amserlenni caeth rhwng llunio'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig a 31 Ionawr 2013 (rhaid i'r cynllun fod wedi'i fabwysiadu erbyn y dyddiad hwn), mae'r cyfnod ymgynghori wedi'i gwtogi i gyfnod rhwng 10 Rhagfyr 2012 tan 11 Ionawr 2013. Mae'r ymarferiad ymgynghori wedi'i weithredu gan holl Gyngorau Cymru ac mae'n seiliedig ar y wybodaeth orau a oedd ar gael ar y pryd (er na wyddys beth oedd y Setliad Refeniw a Chyfalaf Llywodraeth Leol 2013/14 a'r union swm o arian ar gyfer Cymorth Gyda'r Dreth Gyngor ar y pryd).
- 2.7** Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar Ddarparu Cymorth gyda'r Dreth Gyngor rhwng mis Chwefror ac Ebrill 2012. Cynhaliwyd ymgynghoriad technegol rhwng 21 Medi a 19 Hydref ar ddrafft o Reoliadau Cynllun Diofyn. Nid oes ymgynghoriad penodol wedi'i gynnal yn genedlaethol ar y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac fe'i cyflwynwyd i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau i'w ystyried ochr yn ochr â'r rheoliadau drafft.

3. Prif Faterion

- 3.1** Mae'n ofynnol i'r Cyngor lunio cynllun dan ofynion Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig er gwaethaf y ffaith y byddai cynllun diofyn yn weithredol pe bai'r Cyngor yn methu â llunio cynllun. Dyletswydd statudol yw'r rhwymedigaeth hon ac mae'n berthnasol hyd yn oed pe bai'r Cyngor yn dewis peidio â gweithredu unrhyw ddisgrisiwn sydd ar gael iddo.
- 3.2** Dull yr argymhellir i'r Cyngor ar gyfer y disgrisiwn lleol sydd ar gael yw parhau i ddefnyddio'r Cynllun Lleihau'r Dreth Gyngor, yr un disgrisiwn lleol a ddefnyddir ar gyfer Budd-dal y Dreth Gyngor:-
- Mae'r 4 wythnos safonol bresennol o daliadau estynedig ar ôl i bobl ddychwelyd i'r gwaith yn parhau heb ei newid, gyda ddim disgrisiwn lleol yn cael ei ddefnyddio;
 - Ar gyfer Pensiwn Rhyfel a phensiynau Anabledd Rhyfel, wrth glandro'r incwm bydd y Cyngor yn parhau i ddiystyru incwm fel mae'n gwneud ar hyn o bryd ar gyfer Budd-daliadau'r Dreth Gyngor. Rhagwelir bydd y gost flynyddol barhaus i'r Cyngor oddeutu £7,000 y flwyddyn;
 - Bydd y mwyafswm gall ôl-ddyddio yn parhau ar y 3 mis statudol ar gyfer ymgeiswyr oed pensiwn ac oed gwaith, gyda ddim disgrisiwn lleol yn cael ei ddefnyddio.

Dylid nodi nad oes arian ychwanegol ar gael gan Llywodraeth Cymru i gyllido'r elfennau disgrisiwn.

- 3.3** Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig swm o £4.6m yn y flwyddyn ariannol hon fel cymorth tuag at gostau cyflwyno'r cynllun newydd ac er mwyn helpu i liniaru effaith ehangach newidiadau i diwygiadau lles ar y grwpiau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Nid yw'r fformiwla dosbarthu sy'n pennu swm penodol i bob Cyngor wedi ei phenderfynu arno eto. Bydd hwn yn cael ei roi tuag at gwariant ymrwymiedig ar uwch raddio syste prosesu reffeniw a budd-daliadau; modelu ariannol; asesiad effaith; costau gweinyddu'r newid. Mae'r gwaith blaenoriaethu'r gyllideb o weithgareddau lleol yn ymwneud â diwygio lles dal yn ei fabandod.
- 3.4** Mae'r Cyngor yn parhau i fod â phwerau i gefnogi caledi ar sail unigol neu o safbwynt grŵp penodol. Fodd bynnag, ni all trefniadau o'r fath ffurfio rhan o'r Cynllun Gostyngiadau yn y Dreth Gyngor ei hun.

4. Goblygiadau Ariannol

- 4.1** Amlinellwyd y goblygiadau ariannol yn yr adroddiadau cyllideb i'r Pwyllgor Gwaith. Petai'r cynllun arfaethedig wedi bod yn ei le eleni, y gost amcangyfrifedig yw £4.6m. Byddai cynyddu'r Dreth Gyngor i 5% yn ei gymryd i £4.8m. Felly, y gost rhagamcanedig o'r cynllun arfaethedig yn 2013/14 yw rhwng £4.80m a £4.95m, sydd £150k i £300k yn uwch na'r grant o £4.65m. Y prif faes o ansicrwydd ac anwadalrwydd yw'r baich llwyth gwaith. Yn y blynyddoedd diweddar, mae baich llwyth gwaith hawlwyd wedi cynyddu hyd at 6% mewn unrhyw flwyddyn (y cyfartaledd ar gyfer y pum mlynedd diwethaf yw 3%). Tra mae'r raddfa yma bellach wedi sefydlogi, mae'n dal yn rhesymol i ddisgwyl cynnydd yn y baich llwyth gwaith yn yr amgylchiadau economaidd cyfredol. Mae pob cynnydd o 1% yn £46k.
- 4.2** Fydd y diffyg yma'n cael ei drin fel risg corfforaethol ar gyllidebau'r Cyngor ac yn cael ei fonitro yn adroddiadau monitro'r gyllideb i'r Pwyllgor Gwaith.
- 4.3** Disgwylir i'r graddfeydd casglu'r Dreth Gyngor ddisgyn o ganlyniad i'r newid yma. Cynhwysir y risg yma yng nghlandriad y sail dreth ac fe gaiff y maes yma ei fonitro yn yr un modd.

5. Goblygiadau cyfreithiol

- 5.1** Mae'n ofynnol i'r Cyngor lunio Cynllun Gostyngiadau yn y Dreth Gyngor dan Reoliadau Gofynion Rhagnodedig. Er bod y ddeddfwriaeth yn darparu ar gyfer cynllun diodyn i'w weithredu os nad yw'r Cyngor yn llunio cynllun, mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i fabwysiadu ei gynllun ei hun, hyd yn oed os yw'n dewis peidio â gweithredu unrhyw un o'r elfennau disgrisiwn.

6. Goblygiadau risg

- 6.1** Mae angen i'r Cyngor reoli'r gost o Gymorth gyda'r Dreth Gyngor o fewn ei gyllideb. Mae'r swm o arian gan y Llywodraeth yn gyfyngedig i £4,646,691 am 2013/2014 ac fe'i darperir ar sail sefydlog yn hytrach nag ar sail cymorth gyda'r budd-dal dreth gyngor yn ôl y gofyn. Mae angen i'r Cyngor gydnabod hefyd, yn ogystal â derbyn llai o arian gan y Llywodraeth, rhagwelir y bydd cynnydd mewn cyfraddau heb gael eu casglu o ganlyniad i'r baich cynyddol ar hawlwyd. Ffactorwyd hyn i mewn i glandriad y sail dreth ar gyfer 2013/14 ac fe ostyngir y raddfa casglu disgwyliedig gan 1%.
- 6.2** Roedd ehangu'r dreth gyngor i grŵp o hawlwyd budd-dal nad oeddynt yn talu'r dreth gyngor yn y gorffennol, angen adolygu'r polisiau cyfredol. Fe wneir hyn dros yr ychydig fisoedd nesaf.

7. Goblygiadau Cydraddoldeb

- 7.1 Bydd cyflwyno'r cynllun cymorth cenedlaethol i gymryd lle Budd-dal y Dreth Cyngor yn effeithio ar lawer o breswylwyr ar gyflogau isel, yn cynnwys y rhai mewn grwpiau bregus.
- 7.2 Mae'r Cyngor wedi cynnal ymarferiad ymgynghori o fewn yr amser cyfyngedig oedd ar gael gan ystyried y ffaith na wyddys yr effaith ariannol gyflawn ar y pryd, gan na bennwyd hyn gan Lywodraeth Cymru yn y Setliad Refeniw a Chyfalaf Llywodraeth Leol tan 11 Rhagfyr 2012. Mae'r ymgynghoriad yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn y Ddeddf Cydraddoldeb.
- 7.3 Mae Llywodraeth Cymru wedi crynhoi asesiad effaith cydraddoldeb yn dilyn ei hymgyngoriad. Mae asesiad effaith cydraddoldeb lleol wedi cael ei gynnal ar rhan y cyngor tan trefniadau ar y cyd ar draws Cymru ac mae copi ar gael trwy gais i'r Adran Gyllid.

Dogfennau Cefndir

Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2012 Rhif 3144 (C316).

Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2012 Rhif 3145 (C317).

Cyhoeddwyd papur ymgynghori – Rhagfyr 2012.

Crynodeb o'r prif faterion

1. Bydd Cynllun Cymorth gyda'r Dreth Gyngor yn cymryd lle Budd-dal y Dreth Gyngor ym mis Ebrill 2013.
2. Bydd yr arian a roddir gan y Llywodraeth at y cynllun yn gostwng tua 10% o'i gymharu â'r arian a roddwyd gan y Llywodraeth at Gynllun Budd-dal y Dreth Gyngor.
3. Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio rheoliadau i gyflwyno cynllun cenedlaethol ar gyfer Cymorth gyda'r Dreth Gyngor. Fodd bynnag, mae'n parhau'n ofynnol i'r Cyngor fabwysiadu cynllun.
4. Mae'r ofynnol i'r Cyngor fabwysiadu Cynllun Cymorth Gyda'r Dreth Gyngor erbyn 31 Ionawr 2013.
5. Amlinellir crynodeb o'r cynllun yn Atodiad A yn yr adroddiad hwn. [Gall costau'r cynllun fod yn fwy na'r arian gan y Llywodraeth. Ystyrir unrhyw ofynion ariannu sydd ar ôl fel rhan o gyllideb 2013/14.]

Argymhelliad

1. Nodi ffurfiad Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2012 ("Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig") gan Lywodraeth Cymru ar 19 Rhagfyr 2012.
2. Nodi canlyniad yr ymarferiad ymgynghori a wnaed gan y Cyngor wrth gyflwyno'r Cynllun Cymorth gyda'r Dreth Gyngor. Atodiad B.
3. Mabwysiadu'r Cynllun fel yr amlinellir yn Atodiad A.



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Cyngor Sir Ynys Môn

Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor 2013 - 2014

Cynllun Penodedig ar gyfer Hawlwyr sy'n Bensiynwyr a phobl nad ydynt yn Bensiynwyr

Rhagarweiniad

Ar 1af Ebrill 2013, bydd Budd-dal y Dreth Gyngor, sef y dull cyfredol o gynorthwyo teuluoedd incwm isel gyda'u Treth Gyngor, yn cael ei ddiddymu. Bydd yn cael ei disodli gan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Bydd cyllid gan y Llywodraeth ar gyfer y cynllun yn cael ei ostwng gan oddeutu 10% o gymharu â'r cyllid y mae'r Llywodraeth yn ei roi at y Cynllun cyfredol ar gyfer Budd-daliadau'r Dreth Gyngor. Bydd hawlwy'r yn gorfod gwneud cyfraniad o hyd at 10% at eu Treth Gyngor ond mae'n debygol y bydd gwir gost y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn fwy na chyfraniad yr hawlwydd a chyllid y Llywodraeth gyda'i gilydd a bydd y Cynllun yn gorfod talu unrhyw ddiffyg.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud rheoliadau i gyflwyno cynllun cenedlaethol ar gyfer Cymru, sef "Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2012 Rhif 3144 (Cy.316)" (**Rheoliadau Rhagnodedig**) a "Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2012 Rhif 3145 (Cy.317)" (**Rheoliadau Diofyn**) – gellir gweld y rhain yn:

Rheoliadau Rhagnodedig –

<http://www.legislation.gov.uk/wsi/2012/3144/contents/made>

Rheoliadau Diofyn –

<http://www.legislation.gov.uk/wsi/2012/3145/contents/made>

Mae'r rheoliadau hyn yn pennu prif nodweddion y cynllun y dylai pob Cynllun yng Nghymru ei fabwysiadu. Felly, mae cyfrifoldeb ar Gyngor Sir Ynys Môn i fabwysiadu cynllun. Rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn fabwysiadu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor erbyn 31 Ionawr 2013.

Bydd Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer Ynys Môn yn seiliedig ar Rheoliadau Rhagnodedig Llywodraeth Cymru. Mae'r Rheoliadau Rhagnodedig hyn hefyd yn caniatáu i Gyngor Sir Ynys Môn Cynllun fabwysiadu cynllun sy'n cynnwys amrediad cyfyngedig o elfennau dewisol i ddarparu cefnogaeth bellach ar gyfer y Dreth Gyngor. Mewn achosion lle mae Cynllun Sir Ynys Môn wedi mabwysiadu elfennau dewisol ychwanegol, nodir yr elfennau dewisol hyn yn y ddogfen hon.

Oni fydd Cynllun Sir Ynys Môn yn gwneud cynllun erbyn 31 Ionawr 2013, yna daw'r cynllun diofyn i rym yn unol â darpariaethau'r Rheoliadau Diofyn. Fodd bynnag, ni fedr Cynllun Sir Ynys Môn ddefnyddio unrhyw ddisgresiwn oni bai ei fod yn mabwysiadu ei gynllun ei hun dan y Rheoliadau Rhagnodedig.

Ymddengys nad yw nifer o faterion yn cael sylw yn y Rheoliadau Rhagnodedig fel y maent. Cafwyd ar ddeall gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y bydd cyfres arall o rheoliadau sy'n berthnasol i'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn cael ei chyhoeddi gan Lywodraeth Cymru cyn diwedd mis Mawrth 2013. Bydd y rheoliadau ychwanegol yn rhoi canllawiau manwl ar faterion gan gynnwys trosglwyddo ceisiadau cyfredol am Fudd-daliadau'r Dreth Gyngor i'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, apeliadau a thwyll. Sefydlwyd eisoes y dylai ceisiadau cyfredol am Fudd-daliadau'r Dreth Gyngor gael eu trosglwyddo yn awtomatig i'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor heb yr angen i lenwi ffurflen gais newydd.

Gofynion y Cynllun Lleol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

Cymeradwyodd cyfarfod o Gyngor llawn Cyngor Sir Ynys Môn ei Gynllun Lleol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar 24 Ionawr, 2013 mewn perthynas â'r flwyddyn yn cychwyn ar 1 Ebrill 2013. Mae'n nodi, yn unol â'r Rheoliadau Rhagnodedig:-

- Categoriâu o bobl sydd â hawl neu sydd ddim â hawl i ostyngiad
- Y gostyngiadau y mae pobl ym mhob categori â hawl iddynt
- Gofynion gweithdrefnol y Cynllun:-
 1. Y weithdrefn y dylai person ei dilyn i ymgeisio am ostyngiad dan y cynllun.
 2. Y weithdrefn y dylai person ei dilyn i apelio yn erbyn penderfyniad gan awdurdod o ran hawl person i ostyngiad dan y cynllun neu swm unrhyw ostyngiad y mae gan y person hawl iddo.
 3. Y weithdrefn y dylai person ei dilyn i gyflwyno cais i awdurdod am ostyngiad dan adran 13A (1) (c) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992
- Elfennau dewisol y cytunwyd arnynt gan gyfarfod o Gyngor llawn Cyngor Sir Ynys Môn i ddarparu rhagor o gefnogaeth o ran y Dreth Gyngor.

Cynllun Lleol Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

Mabwysiadodd Cyngor Sir Ynys Môn ei Gynllun Lleol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn seiliedig ar ofynion fel y cânt eu nodi yn Rheoliadau Llywodraeth Cymru sef Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2012 Rhif 3144 (Cy.316) (Rheoliadau Rhagnodedig) ac unrhyw reoliadau pellach a wnaed gan Lywodraeth Cymru o ran gofynion sydd i'w cynnwys yn ei Gynllun Lleol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Mae'r Rheoliadau Rhagnodedig ar gael ar:-

<http://www.legislation.gov.uk/wsi/2012/3144/contents/made>

I grynhoi:-

Rhan 1 y Rheoliadau Rhagnodedig:

Mae'n cynnwys darpariaethau rhagarweiniol a diffiniadau o eiriau ac ymadroddion allweddol a ddefnyddir yn y cynllun hwn.

Rhan 2 y Rheoliadau Rhagnodedig: gofynion y cynllun mewn perthynas ag awdurdodau bilio yng Nghymru

Beth y mae'n rhaid i'r cynllun a fabwysiedir gan Gyngor Sir Ynys Môn ei gynnwys - dosbarthiadau neu bersonau, gostyngiadau a gofynion gweithdrefnol y cynllun.

Rhan 3 y Rheoliadau Rhagnodedig: Dosbarthiadau o bersonau sydd â hawl i ostyngiad dan y cynllun hwn

Pensiynwyr sydd yng Nghategoriâu A i B

Eraill nad ydynt yn bensiynwyr sydd yng Nghategoriâu C i D

Rhan 4 y Rheoliadau Rhagnodedig: Categoriâu o bobl na ddylid eu cynnwys dan y cynllun hwn

Categoriâu o bobl sydd i gael eu heithrio o'r cynllun hwn, gan gynnwys pobl sy'n cael eu trin fel rhai nad ydynt yn byw ym Mhrydain Fawr a phobl y mae rheolau mewnfudo'n berthnasol iddynt.

Personau y mae eu cyfalaf yn uwch na £16,000

Personau sy'n absennol am gyfnod o eiddo

Rhan 5 ac Atodlenni 1 i 5 y Rheoliadau Rhagnodedig: materion y mae'n rhaid eu cynnwys yn y cynllun hwn yng nghyswllt pensiynwyr

Yn Atodlenni 1 i 5, nodir y rheolau sy'n berthnasol i benderfynu ar hawl pensiynwyr i gael gostyngiad ynghyd â swm y gostyngiad hwnnw dan y cynllun hwn ac uchafswm y Gostyngiad yn y Dreth Gyngor dan y cynllun hwn. Maent hefyd yn nodi sut y mae incwm a chyfalaf ar gyfer pensiynwyr yn cael eu trin wrth weithio allan eu hawl am ostyngiad dan y cynllun hwn.

Rhan 5 ac Atodlenni 6 i 10 y Rheoliadau Rhagnodedig: materion y mae'n rhaid eu cynnwys yn y cynllun hwn mewn perthynas â phobl nad ydynt yn bensiynwyr

Mae Atodlenni 6 i10 yn nodi'r rheolau sy'n berthnasol i benderfynu ar gymhwyster pobl nad ydynt yn bensiynwyr i ostyngiad ynghyd â swm y gostyngiad dan y cynllun hwn ac uchafswm y Gostyngiad yn y Dreth Gyngor dan y cynllun hwn. Maent hefyd yn nodi sut y bydd incwm a chyfalaf ar gyfer pobl nad ydynt yn bensiynwyr yn cael eu trin wrth weithio allan eu hawl i ostyngiad dan y cynllun hwn, gan gynnwys mewn achosion lle mae person nad yw'n bensiynwyr neu ei b/phartner yn cael credyd cynhwysol.

Atodlen 11 y Rheoliadau Rhagnodedig

Nodi'r darpariaethau ar gyfer defnyddio'r cynllun hwn yn achos myfyrwyr.

Rhan 5 ac Atodlenni 12 i 14 y Rheoliadau Rhagnodedig: materion y mae'n rhaid eu cynnwys yn y cynllun hwn mewn perthynas â phob ymgeisydd h.y. pensiynwr a phobl nad ydynt yn bensiynwyr

Mae Atodlen 12 yn ymwneud â materion gweithdrefnol y mae'n rhaid eu cynnwys yn y cynllun hwn. Mae'n disgrifio'r weithdrefn y dylai person ei dilyn wrth wneud cais am ostyngiad yn y Dreth Gyngor dan y cynllun hwn. Mae Atodiad 1 y cynllun hwn yn rhoi manylion ynghylch sut y gall person wneud cais i Gyngor Sir Ynys Môn am ostyngiad yn y Dreth Gyngor.

Mae Atodlen 12 hefyd yn disgrifio sut y gall person apelio yn erbyn penderfyniadau penodol a wneir gan Gyngor Sir Ynys Môn dan y cynllun hwn. Mae Atodlen 12 yn ymdrin hefyd â sefyllfa pan fo awdurdod wedi gwneud penderfyniad dan Adran 13A (1) (c) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 mewn perthynas â math o achos lle mae'r swm y mae'n rhaid i berson ei dalu fel Treth Gyngor yn gostwng ac y byddai'r person yn y categori hwnnw â hawl fel arall i ostyngiad dan y cynllun hwn. Nid yw Ynys Môn erioed wedi dynodi dosbarth o'r math hwn o achos dan Adran 13A (1) (c) oherwydd bod yn well ganddynt ddelio â phob achos yn unigol.

Gan fod Cyngor Sir Ynys Môn yn defnyddio dulliau cyfathrebu electronig mewn perthynas â chyflwyno cais a rhoi gostyngiad, ceir yn Atodlen 12 fanylion am faterion y mae'n rhaid eu cynnwys dan y cynllun hwn.

Mae Atodlenni 13 a 14 yn disgrifio pwy a fedr wneud cais dan y cynllun hwn, dyddiad cyflwyno'r cais, ôl-ddyddio ceisiadau i bensynwyr a phobl eraill, diwygio a thynnu ceisiadau yn ôl a'r dystiolaeth a'r wybodaeth y mae eu hangen gyda'r cais. Mae Atodlenni 13 a 14 hefyd yn nodi'r gofynion dan y cynllun hwn o ran y wybodaeth y mae'n rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn ei darparu pan yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd am y penderfyniad a'r hyn y mae'n rhaid ei gynnwys yn y rhybudd o benderfyniad.

Elfennau dewisol y cytunwyd arnynt gan Gyngor Sir Ynys Môn Cyngor i ddarparu cefnogaeth ar gyfer y Dreth Cyngor yn ychwanegol at y gofynion statudol a nodwyd yn y Rheoliadau Rhagnodedig a fabwysiadwyd gan y Cyngor

Mae Ynys Môn wedi penderfynu mabwysiadu Cynllun Dewisol Lleol ar gyfer Pensiwn Anabledd Rhyfel a Phensiynau Gweddwon Rhyfel. Manylir ar hyn yn Atodiad 2 lle nodir yr elfennau hynny o bensiynau o'r fath a fydd yn cael eu hanwybyddu fel incwm. Mae hwn yn gymorth at y Dreth Gyngor sy'n ychwanegol at y gefnogaeth sy'n ofynnol yn statudol yn y Rheoliadau Rhagnodedig. Mae'r Cynllun Dewisol hwn ar gyfer Pensiwn Anabledd Rhyfel a Phensiynau Gweddwon Rhyfel yr un fath â'r Cynllun a oedd mewn grym ar gyfer Budd-dal y Dreth Gyngor.

Hwn fydd yr unig ddisgresiwn lleol y bydd Ynys Môn yn ei ddefnyddio dan ei Gynllun Lleol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

Manylion am y weithdrefn y dylai person ei dilyn i wneud cais am ostyngiad dan y cynllun

Rhaid i bob unigolyn gyflwyno cais i gael Gostyngiad yn y Dreth Gyngor, oni bai fod rheoliadau pellach gan Lywodraeth Cymru yn datgan fel arall. Bydd hyn ar ffurf Ffurflen Gais electronig neu ffurflen gais bapur am Ostyngiad yn y Dreth Gyngor a fydd yn cael ei hanfon i'r swyddfeydd dynodedig canlynol.

A. Gellir cyflwyno ceisiadau electronig fel a ganlyn:-

- i.** Trwy apwyntiad i fynychu i lenwi'r ffurflen yn Swyddfeydd yr Adain Refeniw a Budd-daliadau, Adran Cyllid, Swyddfa'r Sir, Llangefni, LL77 7TW (Rhif Ffôn 01248 752658/752226) neu, yn achos cleientiaid bregus, apwyntiad i swyddog fynd i'w cartrefi i lenwi'r ffurflen gais;
- ii.** Drwy apwyntiad i lenwi'r ffurflen dros y ffôn gyda'r Swyddfa Refeniw a Budd-daliadau, Adran Cyllid, Swyddfa'r Sir, Llangefni, LL77 7TW (Rhif Ffôn 01248 752658/752226);
- iii.** Drwy apwyntiad i lenwi'r ffurflen yng Nghanolfan JE O'Toole, Sgwâr Trearddur Caergybi, LL65 1NB (Ffôn 01407 760208);
- iv.** Yn electronig drwy wefan Cyngor Sir Ynys Môn;
- v.** Yn electronig mewn fformat arall y gall Cyngor Sir Ynys Môn benderfynu arno yn y dyfodol.

B. Gellir cyflwyno cais papur fel a ganlyn –

Trwy ffurflen gais swyddogol a dderbyniwyd gan Adain Refeniw a Budd-daliadau Gwasanaeth Cyllid Ynys Môn yn ei swyddfeydd dynodedig yn Swyddfa'r Sir, Llangefni, LL77 7TW neu yn y Swyddfa Budd-daliadau, Ystafell 3, Ail Lawr, Neuadd y Dref, Stryd Newry, Caergybi, LL65 1HU.

CYNLLUN LLEOL - ANWYBYDDU PENSIWN RHYFEL
Atodlen 4, Rheoliad 30 - Pensiynwyr
Atodlen 9, Rheoliad 31 – nad ydynt yn Bensiynwyr

| ELFENNAU UNIGOL | INCWM YN CAEL EI ANWYBYDDU? |
|---|--|
| Pensiwn Anabledd Rhyfel | Ydy (£10 statudol, 100% lleol) |
| Pensiwn Gweddwon Rhyfel | Ydy (£10 statudol, 100% lleol) |
| Pensiwn Gweddwon Rhyfel (cyn 1973 – SPAL) | Ydy (2013-14 100% statudol, £ yn amodol ar gynnydd blynyddol) |
| Atodiad i'r Anghyflogadwy | Na |
| Lwfans Ychwanegol i'r Wraig (a delir gydag Atodiad i'r Anghyflogadwy) | Na |
| Lwfans Gweini Cyson | Ydy (statudol) |
| Lwfans Analluedd | Na |
| Lwfans Cysuron | Na |
| Lwfans Oedran | Na |
| Lwfans am safon îs o waith | Na |
| Lwfans Symudedd Pensiynwyr Rhyfel | Ydy (statudol) |
| Lwfans Anabledd Difrifol Eithriadol | Ydy (statudol) |
| Lwfans Galwedigaethol – Anabledd Difrifol | Ydy |
| Lwfans Plant | Na |



Cyngor Sir Ynys Môn

Ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer 2013 – 2014

Rhagarweiniad a'r rheswm dros ymgynghori

Cynhaliodd Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) ymarfer ymgynghori rhwng 10 Rhagfyr, 2012 a 11 Ionawr, 2013 ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer Cymru, sef cynllun newydd gan Lywodraeth Cymru a fydd yn disodli'r Cynllun Budd-daliadau'r Dreth Gyngor o 1 Ebrill 2013. Bydd y cynllun newydd yn effeithio ar drigolion incwm isel gan gynnwys y rhai mewn grwpiau sy'n agored i niwed.

Mae'r Cyngor wedi cynnal ymarfer ymgynghori yn yr amser cyfyngedig sydd ar gael cyn y bydd rhaid iddo fabwysiadu ei Gynllun lleol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor erbyn 31 Ionawr 2012, (ni chafodd rheoliadau Llywodraeth Cymru eu cymeradwyo gan y Cynulliad tan 19 Rhagfyr, 2012). Mae asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn lleol wedi cael ei gynnal ar ran y Cyngor drwy gyfrwng trefniadau ar y cyd ar draws Cymru. Mae'r ymgynghoriad a'r asesiad o'r effaith yn cynorthwyo'r Cyngor i gwrdd â dyletswyddau'r sector cyhoeddus o ran cydraddoldeb sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf Cydraddoldeb.

Yr ymgynghoriad

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan y Cyngor (gyda chopïau caled ar gael yn y Swyddfeydd Refeniw a Budd-daliadau) a rhoddwyd cyhoeddusrwydd iddo ymhlith grwpiau cydranddeiliaid perthnasol. Roedd hefyd ar gael ar gyfrifon Twitter a Facebook y Cyngor a chyhoeddwyd datganiad i'r wasg mewn 2 o bapurau lleol. Hefyd, cysylltwyd yn uniongyrchol drwy e-bost gydag oddeutu 1,600 o dalwyr y Dreth Gyngor (mae'r Cyngor â chyfeiriadau e-bost ar gyfer y rhain). Roedd yr ymgynghoriad wedi'i anelu'n bennaf at dalwyr y Dreth Gyngor a grwpiau cydranddeiliaid perthnasol. Darparwyd dogfen ymgynghori fanwl ynghyd â chrynodeb symlach o'r ddogfen ymgynghori i bobl ymateb iddynt.

Crynodeb o'r ymatebion

Cafwyd 4 ymateb i'r ymgynghoriad. Roedd 1 gan elusen cofrestredig, 2 gan aelodau o'r cyhoedd ac 1 gan gynrychiolydd cenedlaethol etholedig.

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn pobl am y materion canlynol (bydd atebion i Gwestiynau 1 i 6 yn cael eu hanfon ymlaen at Lywodraethau Cymru a San Steffan oherwydd maent yn berthnasol i faterion y mae nhw'n ymwneud â hwy). Roedd yr ymatebion yn cynnwys cyfuniad o atebion uniongyrchol i'r cwestiynau a osodwyd gydag ychydig o sylwadau ychwanegol.

Gan mai nifer fechan o ymatebion a gafwyd, mae'n bosibl mynd i fanylder arnynt. Lle bo angen, rydym wedi cynnwys ymateb y Cyngor ynglyn â'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

1. Ydych chi'n deall sut mae'r newidiadau i'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor wedi cael eu cyflwyno drwy ddatganoli'r cyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru?

Dywedodd tri eu bod yn deall hyn. Un heb wneud unrhyw sylw.

2. Ydych chi'n bod llai o gyllid ar gael?

Dywedodd 3 eu bod yn deall hyn. Roedd un o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru fod wedi cwrdd â'r diffyg, o leiaf ar gyfer un flwyddyn. Un heb wneud unrhyw sylw.

3. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cynigion yn y rheoliadau drafft i greu cynllun cenedlaethol. Ar y cyfan, mae'r rheolau o ran cymhwyster yn debyg i Fudd-dal y Dreth y Cyngor, ar wahân i'r materion a grybwyllwyd ym mhwyntiau 4 a 5 isod. Beth yw eich barn am hyn?

Un yn cytuno y dylai fod yn debyg gan fod y system bresennol yn ei hanfod yn gweithio. Dywedodd un, oherwydd cymhlethdodau'r rheoliadau, y byddai "cymal machlud" yn y rheoliadau yn ei gwneud yn haws i ddod i farn fwy ystyrlon. 2 heb wneud unrhyw sylw.

4. Mae'r rheoliadau drafft a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghori gan Lywodraeth Cymru yn nodi y byddai Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn seiliedig ar y ganran uchaf o'r Dreth Gyngor sy'n daladwy. Mae hyn yn golygu y bydd pawb sy'n derbyn arian dan y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor Cyngor yn gorfod talu swm tuag at eu Treth Gyngor. Beth yw eich barn am hyn?

2 wedi ymateb trwy ddweud bod y newidiadau hyn yn ychwanegol at newidiadau i daliadau lles eraill ac y byddai hynny'n rhoi baich ar y rhai llai cefnog. Un wedi ymateb trwy ddweud fod pawb yn defnyddio'r gwasanaethau ac o'r herwydd, dylai pawb gyfrannu tuag atynt. Un heb wneud unrhyw sylw.

5. Mae'r rheoliadau drafft yn nodi y bydd yr ad-daliad ail oedolyn yn cael ei ddiddymu dan y cynllun newydd. Byddai cael gwared ar y gostyngiad hwn yn golygu na fyddai 22 o gwsmeriaid bellach â'r hawl i gael cymorth o fis Ebrill 2013. Beth yw eich barn am hyn?

Un wedi ymateb trwy ddweud ei fod yn anghytuno. Mae'r 2 arall wedi mynegi safbwynt ynghylch canlyniadau anfwriadol cael gwared ar yr ad-daliadau ail unigolyn a bod gwneud i ffwrdd â'r ad-daliad felly yn annheg. Un heb wneud unrhyw sylw.

6. A oes gennych unrhyw sylwadau ar unrhyw agweddau eraill o gynllun arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor?

Dywedodd un y byddai'n cyflwyno sylwadau pellach pan ddeuai'r "cymal machlud" i rym. Dywedodd un y dylai fod 'cap' ar y budd-daliadau sy'n cael eu talu, adolygiad manwl o'r system budd-daliadau a chymhariaeth rhwng yr incwm a dderbyniwyd tra yn y system budd-daliadau â'r rhai sy'n gweithio ac sydd ar incwm isel. Ategodd un y dylai'r ad-daliad ail oedolyn aros fel y mae. Un heb wneud unrhyw sylw.

Meysydd lle mae Disgresiwn Lleol (i Gyngor Sir Ynys Môn)

- a) Y gallu i ymestyn y cyfnod talu estynedig safonol o 4 wythnos a roddir i bobl ar ôl iddynt ddychwelyd i'r gwaith, pan fyddant wedi bod yn derbyn budd-dal cymwys perthnasol am o leiaf 26 wythnos.

Mae'r Cyngor yn cynnig y dylai'r cyfnod talu estynedig safonol o 4 wythnos aros fel y mae.

Ydych chi'n credu bod hyn yn rhesymol?

Ydw/Nac Ydw

Os nad ydych, nodwch pa hyd y dylai'r cyfnod fod yn eich barn chi.

3 yn cytuno â chynnig y Cyngor. Ychwanegodd un, fodd bynnag, y dylid trin pob achos yn ôl ei haeddiant a chaniatáu cyfnod estynedig os ydynt yn deilwng. Un heb wneud unrhyw sylw.

- b) Disgresiwn i anwybyddu rhan neu'r cyfan o bensiynau Anabledd Rhyfel a Phensiynau Gweddwon Rhyfel Phensiynau wrth gyfrifo incwm.

Mae'r Cyngor yn bwriadu parhau i anwybyddu'r incwm hwn, gan ei fod yn gwneud hynny ar hyn o bryd yn achos Budd-dal y Dreth Gyngor. Gweler Atodiad 2 am fanylion am yr incwm a anwybyddir o dan y cynllun cyfredol a weithredir gan Gyngor Sir Ynys Môn.

Ydych chi'n credu bod hyn yn rhesymol?

Ydw/Nac Ydw

Os nad ydych, nodwch yr elfennau unigol ychwanegol yr ydych yn teimlo y dylai'r Cyngor eu hanwybyddu a pham.

Pob un o'r 4 yn cytuno y dylai'r cynllun presennol a oedd yn berthnasol i Fudd-dal y Dreth Cyngor barhau. Dywedodd un y dylid newid yr enw er mwyn cynnwys gwragedd gweddw a gŵyr gweddw.

c) Disgresiwn i alluogi sefydliadau eraill i dderbyn a gwirio ceisiadau ar ran awdurdod lleol.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw sefydliadau wedi cael eu dynodi i dderbyn a gwirio ceisiadau ar ran yr Awdurdod. Ydych chi'n meddwl y dylai fod modd i sefydliadau eraill dderbyn ceisiadau ar ran yr Awdurdod?

Ydw/Nac Ydw

Os ydych, pa sefydliadau fydddech chi'n awgrymu y dylai'r Cyngor eu hystyried.

3 yn dweud na ddylid dynodi sefydliad arall i dderbyn a gwirio ceisiadau. Un heb wneud unrhyw sylw. (Yn y rheoliadau terfynol a gymeradwywyd gan y Cynulliad ar 19 Rhagfyr 2012, ni chafodd y disgresiwn hwn ei gynnwys).

ch) y gallu i ôl-ddyddio dyfarniadau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor i gwsmeriaid oed gweithio am fwy na'r cyfnod safonol o 3 mis cyn y cais.

Mae'r Cyngor yn bwriadu cadw'r ôl-ddyddio mwyafsydd ar gael, sef y cyfnod 3 mis statudol.

Ydych chi'n credu bod hyn yn rhesymol?

Ydw/Nac Ydw

Os nad ydych, pa gyfnod fyddai'n rhesymol yn eich barn chi a pham?
6 mis 12 mis arall (nodwch os gwelwch yn dda)

Roedd un yn cytuno gyda chynnig y Cyngor. Dywedodd un y dylai pob person gael eu trin ar sail unigol. Nid oedd un yn cytuno â chynnig y Cyngor ac yn credu y dylid caniatáu ôl-ddyddio am 6 mis o leiaf ond ni chafwyd rheswm am hyn. Un heb wneud unrhyw sylw.

Roedd y rheoliadau terfynol a gymeradwywyd gan y Cynulliad ar 19 Rhagfyr, 2012 yn caniatáu disgresiwn pellach i awdurdodau lleol yng Nghymru - i ddarparu gwybodaeth ar y rhybudd o'r penderfyniad a oedd yn ychwanegol at y wybodaeth a ragnodwyd yn y rheoliadau. Oherwydd yr amserlen, ni chafodd y disgresiwn lleol hwn ei gynnwys yn y ddogfen ymgynghori.

Ymatebion y Cyngor

Yn y meysydd cyfyngedig lle mae ganddo ddisgresiwn lleol, mae'r Cyngor yn ymwybodol nad oes unrhyw arian ychwanegol ar gael i dalu cost gostyngiadau lleol ychwanegol y cytunwyd arnynt. Nid yw'r grant a delir gan Lywodraeth Cymru yn cyfarfod yn llawn â chost y cynllun statudol, a disgwylir y bydd y diffyg, i'w dalu gan y Cyngor, rhwng £ 150,000 a £ 300,000 yn 2013 - 2014. Byddai defnyddio disgresiwn lleol yn golygu costau pellach i'w talu gan y Cyngor.

- Mae'r Cyngor wedi cyfrifo y bydd y cynnydd mewn costau sy'n gysylltiedig ag ymestyn y taliadau estynedig safonol statudol o dan y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Cyngor fel a ganlyn:-

| Cyfnod o gynnydd | Cynnydd yn y gost i'r Cyngor |
|------------------|------------------------------|
| Dim cynnydd | £0 |
| 2 wythnos | £6,000 |
| 4 wythnos | £12,000 |
| 6 wythnos | £18,000 |

O dan ddarpariaethau cyfredol Budd-dal y Dreth Gyngor, nid oes unrhyw ddarpariaethau arbennig i ymestyn y tu hwnt i 4 wythnos.

- Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i barhau â'i gynllun dewisol lleol o ran anwybyddu Pensiynau Anabledd Rhyfel a Gweddwon Rhyfel. Ar hyn o bryd, mae 45 o hawliadau gyda lwfansau wedi eu gwneud ar gyfer Pensiynau Anabledd Rhyfel a Gweddwon Rhyfel a thalwyd cyfanswm o £33,000 o Fudd-dal y Dreth Gyngor iddynt. Y gost ar hyn o bryd i'r Cyngor o anwybyddu incwm ychwanegol o dan y polisi lleol yw tua £ 7,000. Disgwylir i'r gost o dan y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor fod rhwng £ 7,000 a £ 8,000 ar gyfer cynllun sydd union yr un fath i hwnnw sy'n bodoli o dan y cynllun cyfredol ar gyfer Budd-dal y Dreth Gyngor. Mae'r Cyngor yn cytuno i newid enw ei bolisi lleol i adlewyrchu gweddwon.
- Mae ôl-ddyddio hawliadau o dan y Cynllun Budd-dal y Dreth Gyngor yn wahanol i bensiynwyr a'r rheini nad ydynt yn bensiynwyr. Mae gan bensiynwyr hyd at 3 mis i ofyn i gael ôl-ddyddio cais, a elwir yn "rheol amser i hawlio" ond mae'n rhaid i bobl nad ydynt yn bensiynwyr ddangos "achos da" os am ôl-ddyddio cais, ac os caiff ei brofi, gall hyn fod hyd at 6 mis. Nid oes unrhyw ddarpariaethau arbennig i fynd y tu hwnt i'r terfynau hyn. Mae'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor gan Lywodraeth Cymru yn ailadrodd y sefyllfa hon, ond ar gyfer pensiynwyr a'r rheini nad ydynt yn bensiynwyr, bydd y gost o ddefnyddio disgresiwn y tu hwnt i 3 mis yn disgyn ar y Cyngor.

Yn 2011/12, cyfanswm gwerth ôl-ddyddio o dan y cynllun presennol ar gyfer Budd-dal y Dreth Gyngor ar gyfer hawlwyd nad ydynt yn bensiynwyr oedd £20,000. Nid oedd yr holl achosion am gyfnodau o fwy na 3 mis, yn wir, roedd y rhain yn y lleiafrif. Amcangyfrifwyd y byddai wedi costio £5,000 i ôl-ddyddio budd-dal rhwng 3 a 6 mis i bobl nad ydynt yn bensiynwyr ac a fyddai wedi dangos achos da. Nid oes ffigyrau ar gael o ran y gost o ddefnyddio disgresiwn am gyfnod o dros dri mis. Felly, mae cryn dipyn o ansicrwydd ynghylch y gost debygol pe bai cynllun lleol o'r fath yn cael ei fabwysiadu.

Ers Hydref 2008 mae "amser ar gyfer hawlio" wedi cael ei gyfyngu i 3 mis (i lawr o 12 mis) a heb ddisgresiwn lleol. Nid yw'r Cyngor yn bwriadu defnyddio ei ddisgresiwn newydd lleol i ymestyn hyn ar gyfer pensiynwyr ac ôl-ddyddio cyfatebol i'r rheini nad ydynt yn bensiynwyr.

- O ran darparu gwybodaeth ychwanegol i'r hyn sy'n ofynnol yn statudol o dan reoliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer hysbysu penderfyniadau, mae'n well gan y Cyngor ar hyn o bryd wella ei hysbysiadau cyfredol i'w gwneud yn haws i'w deall gan hawlwyd.

Casgliad

1. Mae'r nifer o ymatebion i'r ymgynghoriad yn siomedig, ni chafwyd ymateb gan fudd-ddeiliaid. Efallai mai'r rheswm am hynny oedd y cyfnod ymgynghori byr a'r disgrisiwn lleol cyfyngedig iawn a ganiateir o dan gynllun Llywodraeth Cymru. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar ei gynllun yn ystod hanner cyntaf 2012.

Er gwaethaf diddordeb sylweddol gan y cyfryngau yn y cynllun newydd yn ystod taith y ddeddfwriaeth drwy'r Cynulliad, nid yw'n ymddangos bod hyn wedi creu digon o ddiddordeb i warantu gwell ymateb i'r ymgynghoriad.

2. Ni fydd cyllid sydd ar gael ar gyfer y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Cyngor yn cwrdd â'r gost lawn. Er y bydd 5,000 o Drethdalwyr y Cyngor yn gorfod talu hyd at 10% o'u bil Treth Cyngor, lle yn flaenorol nid oeddent yn talu dim a 2,000 arall yn talu mwy neu'n colli unrhyw gymorth, bydd y cyfraniadau hyn a grant Llywodraeth Cymru yn dal i adael diffyg o rhwng £ 150,000 a £300,000 i gael ei dalu gan y Cyngor. Mae'r Cyngor hefyd yn gorfod talu am y gost o ddefnyddio'r disgrisiwn lleol a ganiateir dan y rheoliadau, hy nid oes unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer disgrisiwn lleol.
3. Yn ychwanegol at y diffyg cyllid ar gyfer y cynllun statudol, efallai y bydd y Cyngor yn casglu llai o Dreth Gyngor o ganlyniad i'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Cyngor newydd. Mae'r Cyngor wedi adlewyrchu hyn eisoes wrth gyfrifo Sail y Dreth ar gyfer 2013-2014.

Y camau nesaf

1. Ar 24 Ionawr 2013, bydd y Cyngor llawn yn mabwysiadu ei Gynllun Lleol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.
2. Bydd Adain Refeniw a Budd-daliadau'r Gwasanaeth Cyllid, cyn i'r Cyngor llawn fabwysiadu ei gyllideb a gosod y Dreth y Cyngor ar 5 Mawrth 2013 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2013-2014, yn cysylltu â thua 5,000 o dalwyr newydd y Dreth Gyngor i roi gwybod iddynt am y Dreth Gyngor y disgwylir iddynt dalu ar gyfer 2013 - 2014. Byddant yn cael gwybod am ffyrdd o dalu a chyngor os byddant yn wynebu trafferthion ariannol.
3. Bydd Adain Refeniw a Budd-daliadau'r Gwasanaeth Cyllid yn cysylltu â gwasanaethau eraill y Cyngor a rhanddeiliaid allanol i nodi pobl fregus a'r rheini sy'n debygol o fethu rheoli eu harian yn briodol.
4. Bydd y Gwasanaeth Cyllid yn monitro adroddiadau ar berfformiad casglu yn chwarterol yn ystod y 2013 - 2014 ac yn adolygu ei brosesau casglu (os oes angen) mewn perthynas â'r rheini sy'n talu'r Dreth Gyngor am y tro cyntaf.

